(1914)

£5

Trial

CYNYRCHION YR EISTEDDFOD O DAN OLYGIAETH
E. VINCENT EVANS (*Vinsent*).

TRAETHODAU

GAN

Y Parch. D. D. WILLIAMS,
Manchester.

1. Dylanwad y Rhufeiniaid, ar Iaith Gwareiddiad a Gwaedoliaeth y Cymry.
2. Hanes Mynachdai Gogledd Cymru hyd eu diddymiad.
3. Addysg Cymru yn y Canol Oesau.

LLUNDAIN:
Swyddfa Cymdeithas yr Eisteddfod 64 Chancery Lane.
1914

Argraffwyd dros y Gymdeithas, gan
Mri. HUGH EVANS A'I FEIBION
— Swyddfa'r "*Brython*," Lerpwl. —

CYNYRCHION EISTEDDFODOL o DAN OLYGIAETH
E. VINCENT EVANS (*Vinsent*).

Dylanwad y Rhufeiniaid ar Iaith, Gwareiddiad, a Gwaedoliaeth y Cymry.

Gan y Parch. D. D. WILLIAMS.

CYHOEDDEDIG GAN

"Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol."

Argraffwyd (dros y Gymdeithas) gan HUGH EVANS A'I FEIBION, Swyddfa'r 'Brython.'

1912.

NODIAD.

Y TRAETHAWD sydd yn canlyn oedd un o'r cyfansoddiadau cyd-fuddugol am y wobr ar y testyn "Dylanwad y Rhufeiniaid ar Iaith, Gwareiddiad, a Gwaedoliaeth y Cymry" yn Eisteddfod Genedlaethol, 1910 (Colwyn Bay). Dywedai'r Beirniad, y Parch. G. Hartwell Jones, D.D., am dano fel hyn:—

> COEL has read widely and seems, so far as he goes, to be abreast of recent research. He is strong on the anthropological and philological aspects of the question. Scholarly, terse, and up-to-date, his work deserves high praise.

Bwriedir ychwanegu at y traethawd hwn ddau draethawd arall gan yr un awdwr ar destynau, mwy neu lai, perthynasol, sef "Hanes Mynachdai Gogledd Cymru," ac "Addysg Cymru yn y Canol Oesoedd." Bydd y tri thraethawd i'w cael ar wahan, neu mewn un gyfrol.—[E. VINCENT EVANS.]

CYNHWYSIAD.

PENNOD I.

Rhagarweiniad.

Elfen frodorol; yn ol pob tebyg preswylid Ynys Prydain gan genedl o frodorion heb fod o'r teulu Ariaidd. A berthynai y Peithwyr i'r hen frodorion? Hwn yn bwnc petrus. Pedwar golygiad mewn perthynas i'r Peithwyr. Yr Iberiaid,—dyma'r bobl gyntaf ag y mae gennym ddim o'u hôl ym Mhrydain; tybir iddynt ddyfod i Brydain o Affrica drwy Hispaen a Ffrainc; o ran ymddanghosiad dynion byrion, eiddil o gorff oeddynt, yr oedd eu pennau yn hirion, a'u gwallt a'u llygaid yn ddu, perthynent i'r Berbers yn Affrica, i'r Gaunches yn y Canary Islands, ac hefyd i'r hen Eifftiaid. Y Celtiaid,—tybir i'r bobl hyn ddyfod drosodd i Ynys Prydain yn gynnar yn oes y Cabolfeini o'r gwledydd orweddent oddeutu Môr y Canoldir; dynion tal, cryfion, pennau llydain, llygaid gleision, a gwallt coch neu grasgoch oedd y Celtiaid; pan ddaethant i Brydain yr oeddynt wedi dysgu adeiladu caban crwn uwchben pantle yn y ddaear. Yr oedd eu gwareiddiad yn uwch nag eiddo yr Iberiaid; perthynent yn agos i drigolion Belgium a deheudir yr Almaen, a Gogleddbarth yr Eidal a'r Slafoniaid tal, pryd goleu. Ymrannai y Celtiaid yn ddau ddosbarth—y Gwyddyl a'r Brythoniaid. Credir i'r rhaniad ddechreu yn fore iawn, yn ol pob tebyg, cyn iddynt gyrraedd yr Ynysoedd Prydeinig. Prawfion o'r ymraniad, gwisg, iaith. Y Gwyddyl yn dyfod ym mlaenaf i'r Ynysoedd Prydeinig; a aethant yn uniongyrchol o'r Cyfandir i'r Iwerddon ai ynte drwy Brydain? Dau olygiad ar hyn—y golygiadau yn cael eu cynrychioli gan yr athrawon Syr John Rhys a Mr. Kuno Meyer; aethant ar eu hunion i'r Iwerddon, yn ol Mr. Kuno Meyer; aethant drwy Brydain, yn ol Syr John Rhys. Cydnebydd y naill a'r llall, a'r rhai gynrychiolir ganddynt, i'r Gwyddyl breswylio ym Mhrydain; profir hyn tuhwnt i amheuaeth gan dystiolaeth beddfeini, gan eiriau Gwyddelig geir yn y Gymraeg, gan enwau lleoedd, a chan dystiolaeth llenyddiaeth Gymreig. Yn ol Mr. Kuno Meyer, daeth y Gwyddyl o'r Iwerddon i Brydain yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, ac ymsefydlasant, yn fwyaf neilltuol, yng ngorllewin a de-orllewin y wlad; hyd yna cydolyga Syr John Rhys âg ef, ond deil y diweddaf ymhellach y rhaid ychwanegu at hyn ddarfod i'r Gwyddyl dramwy drwy Brydain, pan ar eu ffordd o'r Cyfandir a gwladychu y rhan ddeheuol ohoni o for i for, a phan ddaeth y Brythoniaid i'r wlad iddynt gael eu gyrru o'u blaen i orllewin yr ynys, ac yn ddiweddarach i'r Iwerddon; ond cred Syr John Rhys na yrrwyd mohonynt yn llwyr, arosodd nifer ohonynt yng ngorllewinbarth y wlad, ac i bresenoldeb y gweddill hwn yr olrheinia ef y wedd Wyddelig a geir ar rai o chwedlau y Mabinogion. Dwy elfen Geltig ym Mhrydain oddeutu canol y Cyfnod Rhufeinig—y ddwy elfen yn myned yn un tua diwedd y cyfnod; yr elfen Frythonig yn oruchaf ac yn gosod ei hiaith ar y Gwyddyl breswylient ym Mhrydain; ffrwyth y cyfuniad hwn ydyw—y Cymry. Eu hiaith yn dyfod yn iaith y wlad ar ddiwedd y cyfnod Rhufeinig. Syniad Mr. E. W. B Nicholson yn ei *Keltic Researches.*

PENNOD II.

Dylanwad y Rhufeiniaid ar Iaith y Cymry.

Y Rhufeiniaid yn dod—yr amser y daethant. Dim angen rhoddi hanes y goncwest, y trefnu, yr amddiffyn, y gwrthryfela, y colli; hyn tuhwnt i derfynau y testun. Dylanwad y Rhufeiniaid yn fawr; meddent athrylith neilltuol at uno, trefnu, llywodraethu. Y defnyddiau at law i'n galluogi i ffurfio syniad am eu dylanwad ym Mhrydain yn lled brin, ac oherwydd hyn y pwysigrwydd i ni ddefnyddio y dull cymharol,—ceisio cael allan bolisi cyffredin y Rhufeiniaid yn eu hymwneud â'r gwledydd a'r bobloedd orchfygid ganddynt. Cwrs cyffelyb yn debyg o gael ei ddilyn ym Mhrydain. Dylanwad y Rhufeiniaid ddim yn ogymath nag yn ogymaint yng ngwahanol rannau y wlad. Gwahaniaeth mawr yn natur dylanwad y Rhufeiniaid ar dde a de-ddwyrain Prydain mewn cymhariaeth a'u dylanwad ar orllewin a gogledd y wlad—yn y cyntaf gwelir graddau o ddylanwad bywyd dinesig Rhufain—*domi;* yn yr olaf ni cheir ond olion bywyd milwraidd Rhufain—*militæ.* Dylanwad y Rhufeiniaid ar iaith y Cymry; *iaith y Cymry* ddim yn ymadrodd manwl. A fabwysiadwyd iaith Rhufain—y Lladin—ym Mhrydain? Ni thal cymeryd hyn yn ganiataol oherwydd gorchfygu Prydain ganddynt; rhai gwledydd orchfygwyd gan y Rhufeiniaid heb fabwysiadu y Lladin. Os mabwysiadwyd iaith Rhufain ym Mhrydain, pa mor gyffredinol? A ddaeth hi yn iaith y bobl ai ynte yn iaith y mawrion yn unig? Y gwahanol olygiadau ar hyn. Dylanwad Agricola. Rhyw amcan gyfrif o'r geiriau Lladin a fenthyciwyd. Rhestr,—(1) y geiriau o darddiad Lladin ddaeth i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod Rhufeinig, (2) enwau personol, (3) enwau lleoedd. Pa hyd y parhawyd i siarad Lladin ym Mhrydain? Tystiolaeth Bede. Faint o bwys ddylid roi ar ei dystiolaeth ef? Enwau Lladin wedi ymadawiad y Rhufeiniaid; galwai y Cymry eu hunain yn Rhufeiniaid yn y chweched ganrif mewn cyferbyniad i'r barbariaid.

PENNOD III.

Dylanwad y Rhufeiniaid ar Wareiddiad y Cymry.

Y gair gwareiddiad yn air anodd i'w ddeffinio. Rhai o'r elfennau ddengys i ni ystad gwareiddiad mewn gwlad—celf, dull o lywodraethu a thrafod achosion gwlad, amaethyddiaeth, masnach, sefydliadau milwraidd, crefydd. Ystad gwareiddiad ym Mhrydain cyn dyfod y Rhufeiniaid. Y cyrsiau yr â cenhedloedd drwyddynt, fel rheol, yn hanes eu gwareiddiad: (1) Bywyd crwydrol, (2) Bywyd bugeiliol, (3) Bywyd amaethyddol. Y Prydeiniaid wedi cyrraedd y bywyd amaethyddol cyn dyfod y Rhufeiniaid i'w mysg. Trigolion de Prydain ymhell ymlaen mewn amaethyddiaeth o'u cymharu â phreswylwyr canolbarth a rhannau gogleddol y wlad. Y rhaniadau *domi, militæ* yn dra phwysig wrth ymwneud â'r cwestiwn hwn. Rhaid gochel eithafion. Cynrychiolir yn lled deg y syniadau a goleddir ac a dderbynir mewn perthynas i ddylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y Cymry gan yr athrawon F. J. Haverfield, P. Vinogradoff a Mr. G. Laurence Gomme. Tuedda'r cyntaf i roddi lle rhy fawr i ddylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y Cymry, gwyra y diweddaf yng nghyfeiriad rhoddi rhy fychan o le i'w dylanwad; deil Dr. Vinogradoff y fantol yn lled wastad cydrhyngddynt. A giliodd gwareiddiad Celtaidd yn llwyr o flaen gwareiddiad Rhufain? Y goleu deflir ar wareiddiad Rhufain gan yr ymchwiliadau wneir, ac a wnaed, yn Silchester a lleoedd cyffelyb.

Terfynau i wareiddiad Rhufain. Ymchwiliadau yng Nghymru,—Gelligaer, Caersws, Caerlleon ar Wysg, a lleoedd eraill. Dylanwad y Rhufeiniaid ar gelf, dull o lywodraethu, amaethyddiaeth, masnach, sefydliadau milwraidd, a chrefydd y Cymry.

PENNOD IV.

Dylanwad y Rhufeiniaid ar Waedoliaeth y Cymry.

Cwestiwn anodd—"a very difficult question, I am not even sure that it is an actual problem." Gwaedoliaeth—yr ystyr roddir i'r gair yn yr ysgrif a ddilyn; y nodweddion moesol ac anianyddol etifeddwyd gan y Cymry oherwydd i'w hynafiaid ddyfod i gysylltiad â'r Rhufeiniaid. Ychydig fu dylanwad y Rhufeiniaid yn yr ystyr hon ar y Cymry. Yr oedd y Cymry a'r Rhufeiniaid yn rhy debyg i'w gilydd, mewn ystyr genedlonol, i'r dylanwad fod yn fawr. Perthynai y Celtiaid, yr elfen gryfaf a'r liosocaf ym mhoblogaeth Prydain adeg dyfodiad y Rhufeiniaid, i'r un teulu a'r Rhufeiniaid, y teulu gynhwysai bobl y gwledydd o amgylch Mor y Canoldir—y *Mediterranean Race*, fel y'u disgrifir gan Sergi, ac oherwydd hyn, anodd mesur dylanwad y Rhufeiniaid ar waedoliaeth y Cymry. Yr oedd y *type* y perthynai y Rhufeiniaid iddo yn barod ym Mhrydain er cyfnod y cabolfeini. "Y Cenhedloedd Clasurol," ceid yn y rhai hyn gyfuniad o nodweddion pobl Môr y Canoldir, ond y nodweddion hynny wedi eu tymheru â nodweddion pobl mwy gogleddol, dyma y Rhufeiniaid pur—*the classical Roman type*—a gellir dweyd yn ddibetrus mai ychydig iawn fu dylanwad y diweddaf ar waedoliaeth y Cymry. Milwyr oedd toreth y bobl ddaeth i Brydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig; ac mae yn wybyddus mai polisi Rhufain oedd anfon milwyr o un wlad orchfygwyd ganddi i wlad arall i wasanaethu o dani, er lleihau y demtasiwn iddynt ymuno â'r gorchfygedig mewn gwrthryfel yn erbyn Rhufain. Gwneid i fyny y catrodau amddiffynol, gan mwyaf, o filwyr o Gâl, Hispaen, yr Almaen, a gwledydd barbaraidd. Ymhellach, a chaniatau i nifer lled dda o'r Rhufeiniaid pur fyned i Brydain, yr oedd manylwch y ddeddf gyda golwg ar briodas—y *jus conubii*—yn rhwystr iddynt ymgyfathrachu â'r Prydeiniaid yn yr ystyr fyddai yn effeithio ar eu gwaedoliaeth. Casgliad y deuir iddo—maes heb ei chwilio yn drwyadl. Prifysgol Cymru yn dechreu symud yn y mater hwn. Ymchwiliadau yr Athro H. J. Fleure, ffrwyth yr ymchwiliad mor bell ag yr aeth hyd yma. Tystiolaethau Dr. Beddoe, yr athrawon Boyd-Dawkins, Anwyl, J. Arthur Thomson, mewn perthynas i'r pwnc. Cyfle i ddyneg a gwyddoreg pennau i wneud gwaith gwerthfawr.

Rhestr o'r Llyfrau yr ymgynghorwyd a hwynt, ac y cyfeirir atynt.

Agricola. Tacitus. H. Furneaux. Oxford, 1894.
Ancient Britain and the Invasions of Julius Cæsar. Rice Holmes. Oxford, 1907.
Antiquary, The. London.
Archæologia Cambrensis. London.
Archeologie Celtique et Galoise. M. A. Bertrand.
Archæologia, published by the Society of Antiquaries of London. London.
Archæological Journal, The. The Roman Forces in Britain. W. T. Watkin.
Baedae Opera Historica. Plummer. Oxford, 1896.
Beitrage zur kinde der indogermanischen sprachen. A Bezzerberger.
Birrens and its Antiquities. Macdonald & Barbour. 1897.
British Barrows. Greenwell. Oxford, 1877.
British Forest Trees. Nisbet. London, 1893.
Brutiau, Y. Rhys & Evans. Oxford, 1890.
Celtic Art in Pagan and Christian Time. J. Romilly Allen. London.
Celtic Britain. Rhys. London, 1884.
Celtic Liturgies. Warren, Oxford, 1881.
Celtic Church in Britain and Ireland. Zimmer. London, 1902.
Celtic Scotland. Skene. Edinburgh, 1876—80.
Councils and Ecclesiastical Documents. Haddan and Stubbs. Oxford, 1869.
Cymmrodor, Y. Honourable Society of Cymmrodorion. London.
De Bello Gallico. Cæsar.
Elucidarium, The. Rhys & Jones. Oxford, 1894.
Edinburgh Review. Article (April, 1899). Haverfield.
Gododin, Y. The Honourable Society of Cymmrodorion. London, 1882.
Iolo Goch, Gweithiau. Ashton. Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. 1896.
Itinerarium, Antonini Augusti et Hierosolynitanum. Parthey & Pinder. Berlin, 1848.
Inscriptions, Christian in Britain. Hubner. Berlin, 1876.
Man's Place in nature, and other essays. T. H. Huxley. Collected Essays. vol. vii. London, 1834.
Keltic Researches. Nicholson. London, 1904.
Les Celtes depuis les temps le plus anciens jusgu'en l'an 100 *avant notre ere.* H. D'Arbois de Jubainville. Paris, 1904.
Les Mots Latins dans les lanques Brittoniques. Loth. Paris, 1892.
Life of St. Patrick. Bury. London, 1905.
Liverpool Committee for Excavations and Research in Wales and the Marches. Report, 1908.
Llyfr Du Caerfyrddin. Evans. Pwllheli, 1906.
Mabinogion, Y. Rhys & Evans. Oxford, 1897.
Mediterranean Race, The. G. Sergi. London, 1901.
Notitia Dignitatum. Edward Boking. Bonn, 1839—53.
Oxford Glosses. Archæologia Cambrensis, vol. iv. Fourth Series.
Origins of English History. Elton. London, 1890.
Proceedings of the British Academy, The. Vol. ii. London.
Pitt-Rivers' Excavations. 1887—1898.

Race Theories, Fallacies of. W. B. Babington. London, 1895.
Rhind Lectures in Archæology. J. Rhys. Reprint from the Scottish Review. April, 1890; July, 1891.
Transactions of the Honourable Society of Cymmrodorion. London.
Transactions of the Liverpool Welsh National Society. Liverpool.
The Dawn of European Civilization. G. Hartwell Jones. London, 1903.
The Growth of the Manor. P. Vinogradoff. London, 1905.
The Governance of London. Gomme. London, 1907.
The Foundations of England. Ramsay. London, 1898.
The Welsh People. Rhys & Brynmor Jones. London, 1900.
The Tribal System in Wales. Seebohm. London, 1904.
The British Race. Munro. London, 1909.
The Races of Britain. Beddoe. Bristol, 1885.
The Races of Europe. Ripley. New York, 1899.
Romans of Britain. Coote. London, 1878.
Roman Fort of Gelligaer. Ward. London, 1903.
Social England. Traill. London, 1894.
Testament Salesbury. Caernarfon, 1850.
Tacitus, the Annals of; The Roman Conquest of Britain under Claudius and Nero. Vol. ii. chap. v. pp. 127—146. H. Furneaux. Oxford, 1894—91.
Vocabulaire Vieux-Breton avec commentaire contenant toutes les gloses en Vieux-Breton Gallois, Cornique Armoricain, etc. J. Loth. Paris, 1884.

Dylanwad y Rhufeiniaid ar Iaith, Gwareiddiad a Gwaedoliaeth y Cymry.

PENNOD I.

RHAGARWEINIAD.

RHENNIR hanes cenhedloedd gan hynafiaethwyr yn gyfnodau yn ol cyflwr eu gwareiddiad. Pan nad oedd gan ddyn ond cerrig hollt yn arfau, gelwir yr oes honno yn "oes y meini geirwon"; pan ddefnyddiai gerrig nadd yn arfau, gelwid yr oes yn oes "y cabolfeini"; pan ddechreuodd ddefnyddio arfau pres yn lle arfau cerrig, gelwid yr oes yn "oes yr efydd"; a phan gyfnewidiwyd arfau haearn am arfau pres, gelwid yr oes yn "oes yr haearn." O oes y cabolfeini yn unig y gellir olrhain hanes gwahanol genhedloedd ym Mhrydain. Tybir, fodd bynnag, fod ym Mhrydain elfen frodorol cyn dyfod yr Iberiaid a'r Celtiaid yma yn oes y cabolfeini, ac na pherthynai yr elfen hon i'r teulu Ariaidd. A berthynai y Peithwyr i'r hen frodorion sydd bwnc anodd ei benderfynu. Gyda golwg ar hyn, ymron nad ellir dweyd fod ymhob pen opiniwn. A ganlyn yw y prif olygiadau mewn perthynas i iaith a gwehelyth y Peithwyr[1]: (1) Mai Teutoniaid oeddynt ac mai tafodiaith Gothaidd lefarent; dyma olygiad Pinkerton, ond nid oes neb a'i derbyn erbyn hyn. (2) Mai yr hen frodorion oeddynt, heb berthynas rhyngddynt â'r teulu Ariaidd, ac iddynt fenthyca llawer o eiriau o iaith y Brython a'r Gwyddel; dyna olygiad Syr John Rhŷs. (3) Mai Celtiaid oeddynt, ac yr hanent o'r gangen Wyddelig yn hytrach na'r gangen Frythonig; dyna olygiad Skene, ac ategir ef gan Nicholson[2]. (4) Mai Celtiaid oeddynt, ond fod perthynas nes cydrhyngddynt a'r gangen Frythonig na'r gangen Wyddelig; dyna olygiad Windisch, Dr. Whitley Stokes, a Dr. Macbain. Er cadarnhau eu golygiadau, dyfynna y ddau ddiweddaf eiriau o Ddaearyddiaeth Ptolemy ac o Dio Cassius, a mynnant mai geiriau Brythonig ydynt[3].

[1] *Beiträge zur Kunde der indogermanischen Sprachen*, xviii. 1892, pp. 98—108. A. Bezzenberger. *Ancient Britain and the Invasions of Julius Caesar: The Pictish Question*, pp. 409, 425. Rice Holmes.

[2] *Keltic Researches*, p. 21.

[3] The foregoing list of names and other words contains much that is obscure; but on the whole it shows that Pictish, so far as regards its vocabulary, is an Indo-European, and especially Celtic Speech. Its phonetics, so far as we can ascertain them, resemble those of Welsh rather than of Irish.—*Bezzenberger's Beiträge*, xviii. 1982, pp. 113—114. Dr. Stokes.

Yr Iberiaid—dyma'r bobl gyntaf ag y mae gennym ddim o'u hol ym Mhrydain ; tybir iddynt ddyfod i Brydain o Affrica drwy Hispaen a Ffrainc. O ran ymddanghosiad, dynion byrion, eiddil o gorff, oeddynt ; yr oedd eu pennau yn hirion, a'u gwallt a'u llygaid yn ddu ; claddent eu meirw mewn tomenydd hirion. Perthynent i'r Berbers yn Affrica, i'r Gauches yn y Canary Islands, a hefyd i'r hen Eifftiaid. Credir gan efrydwyr dyneg (*anthropology*), y wyddor honno geisia benderfynu cenedl dyn oddiwrth ei faint, ei liw, ei lun, ac yn enwedig oddiwrth ffurf ei ben, y ceir disgynyddion y bobl hyn ymysg pobl fyrion, pryd tywyll, Dinbych a Brycheiniog, Kerry a Donegal, Derbyshire a Yorkshire, a Basques[1] Hispaen. O ran cenedl, perthynent i dylwyth Mor y Canoldir—*Mediterranean Race*—fel y disgrifir hwy gan Sergi.

Y Celtiaid—tybir i'r bobl hyn ddyfod drosodd i Ynys Prydain yn oes y Cabolfeini o'r gwledydd orweddent oddeutu Mor y Canoldir ; dynion llygadlas, tal, cryfion, pennau llydain, a gwallt coch neu grasgoch ganddynt ; pan ddaethant i Brydain yr oeddynt wedi dysgu adeiladu caban crwn uwchlaw pantle yn y ddaear ; yr oedd eu gwareiddiad yn uwch nag eiddo yr Iberiaid ; perthynent yn agos i drigolion Belgium a deheudir yr Almaen, a gogleddbarth yr Eidal, a'r Slafoniaid tal, prydgoleu. Ymrannai y Celtiaid yn ddau dylwyth—y Gwyddyl a'r Brythoniaid. Am adeg dechreuad yr ymraniad hwn mae gwahanol farnau. Deil M. D'Arbois de Jubainville[2] nad oedd gwahaniaeth yn iaith y ddau deulu Celtaidd adeg eu dyfod i Brydain. Yn ol ei olygiad ef, gwnaed y cyfnewidiad yn ddiweddarach gan y Celtiaid orchfygasant Gâl. Mae'r tystiolaethau, fodd bynnag, yn llawer cryfach yn ffafr credu y bodolai y gwahaniaeth rhwng y gangen Wyddelig a'r gangen Frythonig ar y Cyfandir cyn i Gelt erioed gyrraedd yr Ynysoedd Prydeinig. Gwahaniaethent mewn gwisg ac mewn pwyntiau ieithyddol. Gwisgai'r Brython fath o lodrau neu glôs, ac yn hyn ymdebygai i'r cenhedloedd Germanaidd, tra yr ymdebygai y Gwyddel yn ei wisg i wyr Rhufain—gwisg y gellid dweyd am dani ei bod yn cael ei chynrychioli yn yr oes hon gan Albaniaid yr Ucheldiroedd. Try y prif wahaniaeth ieithyddol o amgylch y sain gyntefig *qu* ; yn y gangen Wyddelig gwneir *qu* yn *c* neu *ch*, ond yn y gangen Frythonig gwneir yr un *qu* yn *p*, a dechreuodd hyn rywbryd cyn dechreu hanes y cenhedloedd Celtaidd, canys ceir Galiaid y Cyfandir yn defnyddio *p* yn lle *qu* yr un modd ag y gwna Cymry heddyw. Gwasanaetha y geiriau *Cenarth* a *Penarth* fel engreifftiau ; mae'r gair *Cenarth* wedi ei fenthyca o'r Wyddelig, a medd yr un ystyr a'r gair *Penarth ; ceann* yw y ffurf Wyddelig o'r gair Cymraeg *pen ;* cymharer hefyd *Cantire* a *Pentir*. Tybir mai'r Gwyddyl adawodd y Cyfandir gyntaf am yr Ynysoedd Prydeinig ; ond a aethant hwy yn uniongyrchol i'r Iwerddon, ai ynte drwy Brydain sydd gwestiwn anodd i'w benderfynu. Cynrychiolir y ddau olygiad hyn gan

[1] Many photographs of Basques. . . . are recognised, both by myself, and by an observant Welsh anthropologist to whom I have submitted them, as being in no respect different from some of the ordinary types of feature in South Wales.—*Races of Britain*, p. 26. Dr. Beddoe.

[2] *Les Celtes*, pp. 17—19.

yr athrawon Kuno Meyer a Syr John Rhŷs ; aethant ar eu hunion i'r Iwerddon yn ol y blaenaf,[1] ; drwy Brydain yn ol y diweddaf. Cydnebydd y naill a'r llall, a'r rhai gynrychiolir ganddynt, i'r Gwyddyl breswylio ym Mhrydain ; profir hyn tuhwnt i amheuaeth gan dystiolaeth hen feddfeini Ogamaidd sydd ar gael y ddwy ochr i fôr Hafren ; gan eiriau Gwyddelig geir yn y Gymraeg, megis *arlwy, brechdan, bloneg, bocsach, bresych, brecan, breg, cablyd.* Ceir rhestr ddyddorol o'r geiriau hyn gan Syr John Rhŷs[2] ; profir yr un peth ymhellach gan restr Dr. Whitley Stokes o eiriau yn y Wyddelig fenthyciwyd o'r Gymraeg[3] ; gan enwau lleoedd megis *Cenarth, llwch* yn Am*lwch*, Tal-y-*llychau, rhath*, y *Rhath* (Roath, Caerdydd), Glan *Rath*, Llan *Rath, Cnwc* yn *Cnwc*-Dwnach, Cae-*Cnyciog, Llan-y-gwyddyl, Ynys-y-Gwyddyl, Cerrig-y-Gwyddyl* gan dystiolaeth llenyddiaeth Gymreig. Yn ol Mr. Kuno Meyer daeth y Gwyddyl i Brydain o'r Iwerddon yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, ac ymsefydlasant, yn fwyaf neilltuol, yngorllewin ac yn ne-orllewin y wlad. Bu raid i dylwyth ohonynt—y Desi—adael eu gwlad yn yr Iwerddon, ac i rannau gorllewinol Prydain y troisant eu hwynebau. Mae'r cwestiwn yn ymgodi pa fodd y cyfrifir am waith y Rhufeiniaid yn goddef iddynt ymsefydlu mewn talaeth berthynai iddynt hwy. Awgryma Professor Bury iddynt oddef hyn oherwydd fod poblogaeth y rhannau hyn o Brydain yn deneu, ac ar yr amod eu bod i gyflwyno gwasanaeth milwrol yn gyfnewid am y ffafr.[4] Er cadarnhau ei olygiad, dywed Mr. Kuno Meyer am y geiriau benthyg o'r Wyddeleg geir yn y Gymraeg, nas gellir profi fod yr un ohonynt wedi ei fenthyca cyn yr ail ganrif o'r Cyfnod Cristionogol,[5] ac fe gyfetyb hyn i'r adeg y gwnaeth y Gwyddyl eu rhuthr cyntaf ar Orllewin Prydain ; ac ychwanega fod tystiolaeth y beddfeini Ogamaidd yn gyfyngedig i Gernyw, Dyfneint, Gwlad yr Haf, ac Ynys Mon, y rhannau arbennig ag y gwyddys i'r Gwyddyl ymsefydlu ynddynt yn ystod y drydedd a'r bedwaredd ganrif o'r cyfnod Cristionogol, tra y gellid disgwyl eu cael mewn rhannau ereill o Brydain, os gwir y golygiad iddynt breswylio yma cyn dyfod y Brythoniaid, a rhaid cydnabod fod llawer o rym yn y ddadl. Cytuna Syr John Rhŷs ag ef mewn perthynas i ruthriadau y Gwyddyl ar orllewin Prydain a'u gwaith yn ymsefydlu mewn rhannau o'r wlad yn y drydedd a'r bedwaredd ganrif ; ond deil ef yn ychwanegol at hyn ddarfod i'r Gwyddyl, pan ar eu ffordd o'r Cyfandir, dramwy drwy Brydain, a gwladychu y rhan ddeheuol ohoni o fôr i fôr ; a phan ddaeth y Brythoniaid i'r wlad yn eu hol, gyrrwyd y Gwyddyl ganddynt i orllewin yr ynys, ac yn ddiweddarach i'r Iwerddon,

[1] No Gael ever set his foot on British soil, save from a vessel that had put out from Ireland.—*Trans. Hon. Society of the Cymmrodorion*, 1895—6, p. 69.

[2] *Archæologia Cambrensis*, vol. xii. Fifth Series, pp. 264—302.

[3] *Bezzenberger's Beiträge*, etc., xviii. 1892, pp. 56—132.

[4] *Life of St. Patrick*, p. 14.

[5] As to the list of Gaelic loanwords in Welsh, which Professor Rhŷs has been the first to collect, his theory is surely not necessary to explain their presence. None of them can have been borrowed before the second century of our era, the time of the first Gaelic invasion.—*Trans. Hon. Society Cymmrodorion*, 1895—96, p. 71.

ond ni yrrwyd hwynt yn llwyr drosodd ; arhosodd nifer ohonynt yng ngorllewinbarth y wlad, ac i bresenoldeb y rhai hyn, y gweddill a adawyd, yr olrheinia ef darddiad Gwyddelig diamheuol rhai o chwedlau y Mabinogion.[1] Seilia Syr John Rhŷs ei olygiad ar yr anhebygrwydd i'r Gwyddyl gymeryd mordaith mor hir, ag a olygai myned o'r Cyfandir yn uniongyrchol i'r Iwerddon,[2] ond nid yw y rheswm hwn yn rhyw argyhoeddiadol iawn. Teimla Dr. Beddoe anhawsder i dderbyn golygiadau Syr John Rhŷs a Mr. Kuno Meyer mewn perthynas i'r gosodiad ddarfod i'r Gwyddyl ymsefydlu mewn rhannau o orllewinbarth y wlad yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Nis gall ef gredu y gadawsai y Rhufeiniaid i'r Gwyddyl gymeryd meddiant drwy drais o ran helaeth o un o'u talaethau.[3] Yn ffafr golygiad Mr. Kuno Meyer, gellir dweyd fod awdur y cwynfan anfonwyd yn y flwyddyn 296 i Constantius Chlorus, yn cydnabod yn agored i hyn gymeryd lle, ac mae hon yn dystiolaeth bwysig. Gellir casglu ar seiliau cryfion fod dwy elfen Geltig ym Mhrydain oddeutu canol y cyfnod Rhufeinig, ac aeth y ddwy elfen yn un tua diwedd y cyfnod. Gorfuodd yr elfen Frythonig, a gosododd ei hiaith ar y Gwyddyl a breswylient ym Mhrydain ; ffrwyth y cyfuniad hwn yw y Cymry, a daeth eu hiaith yn iaith y wlad ar derfyn y cyfnod Rhufeinig. Amheuir y golygiad hwn gan ysgrifennydd diweddar. Deil ef mai yr Hen Wyddeleg oedd yr iaith ddaliai y maes ym Mhrydain yr adeg hon,[4] ond nid oes iddo lawer o ddilynwyr yn y gred hon.

[1] The Mabinogion are of Goidelic origin, but they do not come from the Irish or the Goidels of Ireland ; they come rather, as I think, from this country's Goidels who never migrated to the sister island, but remained here, and eventually adopted Brythonic speech.—*Trans. Hon. Soc. Cymmrodorion*, 1894—6, p. 21. Sir John Rhŷs.

[2] *Trans. Liverpool Welsh National Society*, 1894—5, p. 14. Sir J. Rhŷs.

[3] *The Races of Britain*, p. 29. Mewn atebiad i wrthwynebiad Dr. Beddoe. Gweler td. 17, awgrym Professor Bury.

[4] The next most important results of these studies are the demonstration of the great prominence of the Belgic element in the population of the British Isles, and the evidence that so many tribes known to us as inhabiting England and Wales in Roman times spoke not Old Welsh, as has hitherto been supposed, but Old Irish.—*Nicholson's Keltic Researches. Introd. iv.*

PENNOD II.

DYLANWAD Y RHUFEINIAID AR IAITH Y CYMRY.

MYNED tuhwnt i derfynau y testyn fyddai rhoi hanes y Rhufeiniaid yn dyfod i Brydain, a rhoi hanes y goncwest, y trefnu, yr amddiffyn, y gwrthryfela, y colli. Digon fydd dweyd i Iwl Cesar groesi o Gâl i Brydain gyda'r ail a'r seithfed leng yn y flwyddyn 55 c.c. Wedi glanio, gwelodd nad oedd ei fyddin yn ddigon i orchfygu y wlad, a chan ei bod yn barod yn hwyr ar y flwyddyn aeth yn ol, a daeth yma drachefn y flwyddyn ddilynol gyda byddin gryfach. Rhyw ddod ar ysbi a wnaeth y tro cyntaf, ond bu yn fwy llwyddiannus yr ail dro. Gorchfygodd Caswallon, "tywysog y Brytaniaid," cymerodd ddinas noddfa ei lwyth, a gorfododd ef i dalu teyrnged iddo, ac i gydnabod awdurdod Rhufain. Am gan mlynedd wedi ymadawiad Iwl Cesar, cafodd Prydain lonydd gan y Rhufeiniaid; ac yn ystod y cyfnod hwn, cyrhaeddodd Rhufain binacl ei henwogrwydd, ac y dechreuodd wywo, a'i mawredd gilio. Adnewyddwyd awdurdod Rhufain ym Mhrydain yn y flwyddyn 43 wedi geni Crist, anfonodd yr ymerawdwr Claudius ei gadfridog Aulus Plautius i ailorchfygu Prydain, a llwyddodd yntau yn yr hyn yr anfonwyd ef o'i blegid; gorchfygwyd trigolion deheubarth Prydain yng Nghamulodunum, sef Caer Colun, neu Colchester. Bu dylanwad y Rhufeiniaid yn fawr ar Brydain; meddent athrylith neilltuol at uno, trefnu, a llywodraethu—dyna eu cenhadaeth arbennig hwy.[1] Ymddengys fod gwahanol genhedloedd, yn ymwybodol neu yn anymwybodol, wedi eu hordeinio gan Dduw i gyflawni gwahanol genadaethau. Gan yr Iuddew yr oedd yr uchaf; datguddio sancteiddrwydd i'r byd. Y mae y Dwyreinwyr yn sefyll fel tystion i sylweddolrwydd yr Anweledig. Yr oedd y Groegwr yn adgofio y byd o Dragwyddol Brydferthwch. Ac ymddengys mai cenadwri y Rhufeiniwr oedd argraffu ar feddyliau dynolryw y drychfeddyliau o Gyfraith, Llywodraeth, Trefn." Mae y defnyddiau i'n galluogi i ffurfio syniad am yr hyn fu dylanwad y Rhufeiniaid ym Mhrydain yn lled brin; ac oherwydd hyn, manteisiol fydd defnyddio y dull cymharol yn yr ymchwiliad—ceisio cael allan bolisi cyffredin y Rhufeiniaid yn eu hymwneud â'r bobloedd a'r cenhedloedd orchfygid ganddynt, oblegid teg ydyw casglu i gwrs cyffelyb, i raddau mawr, gael ei ddilyn ym Mhrydain. Llawer o ysgrifenwyr ar y cyfnod Rhufeinig ym Mhrydian, heb wybodaeth ddigonol o hanes ymerodraeth Rhufain, yn dueddol i fychanu dylanwad y Rhufeiniaid, pan nad

[1] Hae tibi erunt artes, pacisque imponere morem
Parcere subjectis et debellare superbos.—Vergil. *Æneid*, vi. 852.

yw y dystiolaeth yn glir ; yn niffyg tystiolaeth uniongyrchol yr hyn ddylid wneud ydyw cyflenwi y diffyg drwy gyfeirio at yr hyn a wnaed gan Rufain mewn talaethau ereill ag y mae gennym hanes mwy cyflawn am danynt. Mae Mr. F. J. Haverfield, yn ei bapur ddarllenwyd ganddo o flaen y *British Academy* ar *The Romanization of Britain,*[1] wedi rhoddi engraifft ragorol i ni o'r defnydd ellid wneyd o'r dull cymharol mewn ymchwiliad o'r fath yma. Tery Mr. Haverfield y nodyn priodol, gesyd ni ar ben y ffordd, drwy roddi i ni yn nechreu ei bapur grynhodeb o'r llinellau y dylanwadodd Rhufain ar hyd-ddynt yng ngwahanol wledydd gorllewin Ewrob. Dengys fod y tystiolaethau yn cyfiawnhau'r casgliad ddarfod i'r Rhufeiniaid ddylanwadu ar Brydain yn gyffelyb i'r modd y dylanwadasant ar dalaethau ereill orchfygwyd ganddynt. Un o ganlyniadau gorchfygu talaeth gan y Rhufeiniaid oedd lleihau, ac hyd y gellid, ddileu y gwahaniaeth rhwng Rhufeiniwr a thalaethwr ; eddyf, fodd bynnag, nad oedd y dylanwad ym Mhrydain yn cgymaint, er ei fod yn ogymath[2] a'r dylanwad mewn gwledydd ereill yng ngorllewin Ewrob. Yn y cysylltiad hwn, rhaid sylwi fod gwahaniaeth mawr yn natur a gradd dylanwad y Rhufeiniaid ar dde a de-ddwyrain Prydain mewn cymhariaeth a'u dylanwad ar orllewin a gogledd y wlad,—yn y cyntaf gwelir graddau o ddylanwad bywyd dinesig Rhufain—*domi ;* yn yr olaf ni cheir ond olion bywyd milwraidd Rhufain—*militiæ.* Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y parthau o Brydain osodir allan drwy y rhaniadau hyn. O dde a de-ddwyrain Prydain, ymddengys i'r milwyr ymneilltuo yn gynnar, eithriadau anaml oedd sefydliadau yn y rhannau hyn o'r ynys, tra y ffurfiai yr hyn a alwn ni erbyn hyn yn Gymru, a rhannau gogleddol Prydain fath o ranbarthau milwraidd, gydag amddiffynfeydd a ffyrdd, ond ni cheid ynddynt drefi na'r nodweddion hynny a berthyn i fywyd dinesig. Arferiad Rhufain, yn neilltuol yn ei thalaethau yn Ewrob oedd crynhoi ei milwyr bron yn hollol yn y cyffindiroedd, ac nid oedd Prydain yn eithriad i'r rheol hon. I amddiffyn y rhanbarthau hyn—y cyffindiroedd—ceid byddin a wneid i fyny o oddeutu pedwar ugain mil o filwyr, ystyrid hi yn un o'r rhai pennaf o'r byddinoedd talaethol. Bu dylanwad Rhufain yn llawer mwy ar dde a de-ddwyrain yr ynys nag ar y gorllewin a'r rhannau gogleddol. Beth fu dylanwad y Rhufeiniaid ar iaith y Cymry ? Nid yw "iaith y Cymry" yn ymadrodd manwl, wrth son am y cyfnod Rhufeinig, am na ddaeth y gair "Cymry" i arferiad hyd derfyn y cyfnod. Fel y cyfeiriwyd yn ystod canol a thua diwedd y cyfnod Rhufeinig, gwneid i fyny doreth preswylwyr Prydain o Frythoniaid a Gwyddyl, a chan y ddeubar bobl hyn lleferid dwy iaith y Frythoneg a'r Wyddeleg. Cwerylai y Brythoniaid a'r Gwyddyl yn ddigon mynych â'u gilydd, ond pan ddechreuwyd ymosod arnynt gan y Saeson,

[1] *Proceedings of the British Academy*, vol. ii. pp. 1—8.

[2] Romano-British life was on a small scale. It was, I think, normal in quality, and indeed not very dissimilar from that of many parts of Gaul. But it was in any case defective in quantity . . . We have before us a civilization which like a man whose constitution is sound rather than strong, might perish quickly before a violent shock.—*Proceedings of the British Academy*, vol. ii. pp. 8, 9.

anghofiasant eu mân gwerylon ac ymunasant i wynebu'r perygl cyffredin. "Nid oeddynt yn gyfiaith y naill â'r llall, ac nis gallent annerch eu gilydd fel cyd-genedl, ond yr oeddynt yn gyd-wladwyr, hynny yw yn Gymry, canys y gair Cymro yw gwr o'r un fro, preswylydd yr un diriogaeth, cyd-wladwr." Dyma'r adeg y daeth y gair Cymry i fodolaeth fel enw ein cenedl ni, canys dyna pan y daeth y Genedl Gymreig i fodolaeth, sef pan asiwyd yr elfennau Brythonig a Gwyddelig yn un cyfangorff yng ngwres gorfodol ymosodiadau'r estron rywbryd, hwyrach, yn y chweched ganrif. O ran iaith, Brythonig yw'r Cymro, ond o ran gwaed a chenedl, cyfuniad yw o'r Brythonig a'r Gwyddelig.[1] A fabwysiadwyd y Lladin ym Mhrydain? A ddaeth iaith Rhufain yn iaith y wlad hon yn ystod y cyfnod Rhufeinig? Bydd y dull cymharol o'r gwerth mwyaf yn yr ymchwiliad hwn. Ni thal i ni gymeryd yn ganiataol i'r iaith gael ei mabwysiadu oherwydd gorchfygu y wlad gan y Rhufeiniaid, oblegid nid oedd yn rheol ddieithriad i'r gorchfygedig fabwysiadu iaith y gorchfygwyr; ceir engreifftiau i'r gwrthwyneb yn hanes yr Ymerodraeth; ysgafn iawn fu dylanwad Rhufain ar y rhannau orchfygwyd ganddi yn yr Aifft ac Asia Leiaf, ni symbylwyd gwareiddiad y gwledydd hyn drwy ddylanwad Rhufain, ac ni fabwysiadwyd ei hiaith ganddynt[2]; o'r ochr arall, y rheol gyffredin oedd mabwysiadu iaith y gorchfygedig, a gwneid pob peth er cefnogi y talaethwyr i gymeryd y cam hwn, a chynygid manteision neilltuol i'r rhai wnaent hyn—rhoddid y bleidlais a rhagorfreintiau ereill iddynt, a delid o'u blaen y gobaith am apwyntiadau yn Rhufain os mabwysiadent iaith y Rhufeiniaid a'u dull o fyw. Mae'r geiriau o darddiad Lladin a geir yn y Gymraeg—geiriau ddaeth i'r iaith yn ystod y cyfnod Rhufeinig—yn brawf sicr i'r iaith Ladin gael ei harfer, yn rhannol, a dweyd y lleiaf, yn y wlad hon. Nis gellir osgoi y casgliad hwn. Yna fe ymgyfyd cwestiynau ereill megis—Pa mor gyffredinol y mabwysiadwyd y Lladin? A ddaeth hi yn iaith y bobl, ai ynte yn iaith y mawrion a'r dysgedigion yn unig? Anodd ydyw ateb y cwestiynau hyn gyda dim sicrwydd; nid oes weledigaeth glir hyd yn oed ymysg y rhai hynny dalasant fwyaf o sylw i'r mater. Cytunir yn lled gyffredin mai prin y gellir dweyd i'r Lladin fod ar arfer yng ngorllewin a gogledd yr ynys[3]—y rhanbarthau milwraidd; ond ni cheir unfrydedd o gwbl mewn perthynas i'r graddau o ddefnydd wnaed o'r Lladin yn rhannau deheuol a de-ddwyreiniol yr ynys. Cynrychiolir y prif olygiadau gan Mr. F. J. Haverfield a Mr. George Laurence Gomme. Cred y blaenaf i'r iaith Ladin ddod i gael ei harfer yn lled gyffredin yn ne a de-ddwyrain yr ynys, a daw i'r casgliad hwn, yn fwyaf neilltuol, oddiwrth dystiolaeth hynafiaethol. Er profi ei olygiad, cyfeiria at waith tywysogion Prydeinig yn ysgrifennu geiriau Lladin ar eu harian; at y geiriau Lladin geid ar feddfeini yn y wlad, ac at absenoldeb geiriau Celtaidd ar feddfeini ym Mhrydain o fewn y cyfnod Rhufeinig. Deil ef i'r Lladin ddod,

[1] *Trans. Liverpool Welsh National Society*, 1894—5. Sir John Rhŷs.

[2] *Proceedings of the British Academy*, vol. ii. p. 2. Haverfield.

[3] *The Growth of the Manor*, p. 39. Vinogradoff. *Origins of English History*, p. 226. Elton.

nid yn unig yn iaith y mawrion, ond hefyd yn iaith y bobl gyffredin, ac er cadarnhau y gosodiad diweddaf, geilw sylw at yr ymchwiliadau wnaed yn Calleva, prif dref yr Atrebatiaid, sydd a'i hadfeilion Rhufeinig yn adnabyddus bellach wrth yr enw Silchester yng ngogledd swydd Hants, oddeutu deng milltir o Reading; yn yr ymchwiliadau hyn, deuwyd o hyd i gerfiadau yn yr iaith Ladin wedi eu gwneud, yn ol pob tebyg, gan weithwyr Calleva.[1] Cytuna Mr. Gomme âg ef yn hyn, eddyf fod Silchester a rhai dinasoedd ereill ym Mhrydain wedi mynd yn llwyr dan ddylanwad iaith a gwareiddiad Rhufain, nid oedd hyn ond y peth ellid ddisgwyl. Ni chred ef, fodd bynnag, fod y ffeithiau ddarganfyddwyd yn Silchester a mannau ereill yn gwarantu y casgliad dynnir oddiwrthynt, sef fod yr iaith Ladin wedi dod yn iaith fabwysiedig mwyafrif mawr de a de-orllewin yr ynys[2]; a daw Dr. Vinogradoff yntau i gasgliad cyffelyb.[3] Un wnaeth lawer er dwyn rhannau helaeth o Brydain i arfer yr iaith Ladin oedd Agricola—rhaglaw Prydain. Yr oedd Agricola yn rhyfelwr a gwladweinydd, ac ymddygai yn deg a hael tuag at y Prydeiniaid orchfygwyd ganddo; gwnaeth fywyd yn fwy diogel ac esmwyth iddynt; dysgodd hwynt i adeiladu gwell tai iddynt eu hunain, a rhoddodd iddynt o gyllid y wlad symiau o arian er adeiladu temlau a llysoedd barn. Yn raddol, daeth y Prydeiniaid gorchfygedig i hiraethu am feddu hyawdledd iaith Rhufain—iaith a ddirmygasid ganddynt hyd yn hyn. Hoffasant pob peth Rhufeinig, tai, gwisgoedd, pleserau, pechodau. "Dysgodd meibion pendefigion siarad Lladin, mabwysiadasant ddull Rhufain o wisgo, a dechreuasant ymarfer â badd a gwledd."[4] Ac meddai yr un ysgrifennydd ymhellach—"yn eu hanwybodaeth galwasant y cyfnewidiad yn wareiddiad, pan nad oedd mewn gwirionedd ond rhan o'u caethiwed." Tybir i oddeutu chwech neu saith gant o eiriau Lladin ddod i'r Gymraeg yn ystod y cyfnod Rhufeinig ac aros ynddi. Yn ychwanegol at y rhai hyn, diau i nifer fawr ddod i mewn i'r iaith lefaredig a cholli drachefn yn fuan allan ohoni. Mae y geiriau a ganlyn yn rhestr weddol gyflawn o'r geiriau fenthyciwyd o'r Lladin yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Geiriau yn dal perthynas â'r :—

Ty: *solium*, cadair, gorsedd, *a chair, throne; parietem*, pared, *a wall of the house; maceria*, magwyr (mogwyr), *an enclosure, a wall; fenestra*, ffenestr, *a window; columna*, colofn, *a column; postis*, post, *a door post; caprio*, cebr, ceibr, *a beam, a rafter*, "*clothes-horse*"; *transtrum*, trawst, *a cross-beam; porta*, porth, *a gate; cera*, cwyr, *wax; focus*, ffoc (y Cyfreithiau Cymreig a'r Mabinogion),

[1] The speech of ordinary conversation is equally well attested by smaller inscribed objects, and the evidence is remarkable, since it plainly refers to the lower class of Callevans. When a weary brick-maker scrawls satis with his finger on a tile, or some prouder spirit writes Clementius fecit tubum, when a bit of samian is marked fur, presumably as a warning from the servants of one house to those of the next . . . . we may be sure that the lower class of Calleva used Latin at their work.—*Proceedings of the British Academy*, vol. ii. pp. 9, 10. Haverfield.

[2] *The Governance of London*, p. 25.

[3] Such remains do not necessarily indicate an influence stretching wide and deep through the country; in fact they are grouped across it, at it were, in patches.—*The Growth of the Manor*, p. 38.

[4] *Agricola*, 21 Tacitus.

a fire-place ; scoparius, ysgubwr tŷ, *a sweeper ; solarium*, (h)oriawr, *sundial ; furnus*, ffwrnes, *an oven ; fontana*, ffynnon, *fountain, a well ; puteus*, pydew, *a well, a pit ; palus*, pawl, *a stake, a pole ; cippus*, cyff (cymharer Cyff Beuno, Cyff Elian, etc.), *a stake, post, a trunk, a box ; calcem*, calch, *lime ; cubiculum*, cuddigl, *a sitting room, a bed-chamber ; facula*, ffagl, *a flame ; flamma*, fflam, *a flame ; ma(n)sio*, maus (maws)—Maus pedir pedror, Gwenogvryn Evans, *Black Book of Carmarthen*, p. 11, l. 11 ; Maus llafar adar—*Myv. Archai.* 142 b., *mansion, house ; martellus*, morthwyl, *a hammer ; stabulum*, ystafell, *a chamber ; sebum*, swyf, *suet : sagina*, saim, *grease ; patella*, padell, *a pan, a large dish.*

Llestri ac Eiddo. *Caldarium*, callawr, callor, *a cauldron, a pot ; candela*, cannwyll, *a candle ; cavella*, cawell, *a basket ; cista*, cist, *a box or chest ; cupa*, cibyn, *a tub, a cask ; cultellus*, cyllell, *a small knife ; cuneus*, cyn, *a wedge ; disculus*, dysgl, *a dish ; gemma*, gem, *a gem ; lectica*, lleithig, *a cushion for the feet, a foot-stool ; lima*, llif, *a file, a saw ; liber*, llyfr, *a book ; margarita*, mererid (Myr eiry, neu faen Mererid—D.G. viii. 16), *a pearl ; pectinem*, peithyn, peithynen, *a comb, the read or slay of a weaver's loom ; tabula*, tafol, *a board, a writing tablet, a pair of scales for weighing ; spongia*, ysbwng, *a sponge ; tripus*, trybedd, *a three-footed-seat ; scamellum*, Hen Gymraeg scamel (*Oxford Glosses*—The Old Welsh Glosses on Martianus Capella, 116), *a little stool ; locellus*, llogell, *a compartment, in a locker or chest ; culcita*, Hen Gymraeg *cilchet.*

Cysgu ar blu neu bliant
A llennau cylchedau cant.—I. Goch, xxxiv. 79, 80.

a bed, cushion ; arca, arch, *a chest, box, coffin ; sextarius*, Hen Gymraeg hestaur, *a measure.*

Y Gegin a Dodrefn Teuluaidd.—*Brassica*, bresych, *cabbages ; caulis*, cawl, *a stalk, a cabbage ; caseus*, caws, *a cheese, cheese ; cerasia* (lliosog o *cerasium*), ceirios (Ceirios addfed, cwrs addfwyn—D.G. viii. 38), *cherries ; carina*, cerwyn, *a vessel, a large pot ; coquus*, Hen Gymraeg cog, cogydd, *a cook ; concha*, cwch, *a muscle-shell, a vessel ; circulus*, cyrchell, *a circle ; furca*, fforch, *a pitch-fork ; fructus*, ffrwyth, *fruit ; gluten*, glud, *glue ; vitrum*, gwydr, *glass ; lacte*, llaeth, *milk : mel*, mel, *honey ; saccus*, sach, *a sack ; saponem*, sebon, *soap ; sudor*, sudd, *juice ; succus*, sudd, sug, *juice ; trulla*, trulliad, *a butler ; juscellum*, iscell, *broth ; salsicia*, selsig, *a sausage*—Iolo Goch, xl. 53 ; *baculus*, bagl, *a stick, a staff ; daucum* (*daucus*), dawg, *carrot ;* (*ungen*), *unginis*, engwyn (enwyn), llaeth enwyn, *butter-milk :* Mal tannu engwyn ar traeth.—Skene—*The Book of Taliessin*, vol. ii. p. 116, l. 17.

Gwisgoedd a Phethau ddeil berthynas a Gwisgoedd. *Manica*, maneg, *a tunic-sleeve, a glove ; pannus*, panu, *to full cloth ; purpura*, porphor, *purple ; plecto*, plethu, *a plait ; torques*, torch, *a neck-chain ; pexa*, pais, gwlanog, brethyn a graen arno, *woolly, that still has the nap on ; cucullus*, cwcwll, *a cowl, a monk's hood.*

Rhannau y Corff.—*Corpus*, corff, *a body ; mentum*, mant (Cymharer mantach, *toothless*—Bleddyn ab y Mantach—*Record of Carnarvon*—St. Mantan, *the toothless*, gweler *Joyce's Irish Names of Places*, vol. i. p. 109), *the chin, jaw, mouth : barba*, barf, *a beard ; brachium*, braich, *the arm ; bucca*, boch, *the cheek ; palma*, palf, *the palm of the hand, the paw ; coxa*, coes, *a leg ; corona*, coryn, coryn y pen, *the crown of the head ; vesica*, chwysigen, *bladder.*

Amaethyddiaeth a'r Pethau berthynant iddi.—*Aratrum*, aradr, *plough ; calamus*, calaf, *the stalks of corn : capistrum*, cebystr, *halter ; cicuta*, cegid, *hemlock : catena*, cadwyn, *a chain ; culter*, cwlltr, cwlltwr, *a ploughshare ; fustis*, ffust, *a club, flail ; linum*, llin, *flax ; mensura*, mesur, *a measure of capacity, equivalent to a bushel nearly ; metula*, mwdwl, *a cock of hay ; porcellus*, porchell, parchell, *a young pig ; præsepium*, preseb, *a crib, a manger ; stipula*, sofl, *stubble ; soccus*, swch, *plough-share ; tabulatum*, taflod, *a loft, hay loft ; scoparium*, ysgubor, *a barn ; stratura*, ystrodur, *a pack-saddle ; fenum*, ffwyn, *newly cut hay ; confectio*, cyffeithio (tir), *to manure (land) ; radius*, Hen Gymraeg raid (*The Oxford Glosses :* The Old Welsh Glosses on Martianus Capella, 117), *a staff, rod ; jugum*, iau, *yoke ; scamnum*, ysgafn o yd, ysgafn o fawn.

Coedydd a Phlanhigion.—*Cerasium* (*cerasia*), ceirios, *cherries ; fagus*, ffawydd, *beechwood ; laurus*, llawr-wydd, *bay-tree ; linum*, llin, *flax ; lignum*, llwyn, *a grove ; papyrus*, pabwyr, *the rushes peeled to make rushlights ; castanea*, castan, *the chestnut tree ; cicuta*, cegid, *hemlock ; vicia*, gwyg, *a vetch ; storax*, ystor, *resin ; brassica*, bresych, *cabbages ; faba*, ffaf-en, ffa, *a bean, beans ; pinus*, pin-bren, pin-wydd, *pine-wood ; olea*, olewydden, *the olive-tree ; callum*, callod, *the hard skin or flesh of plants ; pirus*, pyr (Eiry mynyd coch blaen pyr—Skene, *The Red Book of Hergest*, vol. ii. p. 243, l. 21), *a pear-tree.* Cymharer yr enw lleol *Pirigtun*, yn awr *Purton.* Perthyna rhai o'r geiriau hyn i fwy nag un dosbarth, gellir edrych ar "bresych" fel yn perthyn i'r dosbarth hwn ac i'r dosbarth osodir allan dan y penawd "y gegin," mae'r un peth yn wir am nifer o eiriau eraill.

Geiriau cysylltiedig a Bywyd Milwraidd.—*Castra*, caer, *a fortification ; castellum*, castell, *a castle ; murus*, mur, *a wall ; maceria*, magwyr, mogwyr, *an enclosure, a wall ; pontem*, pont, *a bridge ; strata*, ystryd, *a road ; imperator*, amerawdwr, ymerawdwr, *an emperor ; lorica*, llurig, *a coat of mail ; sagitta*, saeth, *an arrow ; lamina*, llafn, *a blade ; legio*, lleng, *a legion ; miles*, milwr, *a soldier ; pedestres*, peddestr, *infantry ; peditem*, peddyd, *infantry ; papilio*, pebyll,[1] *a tent ; pelta*, pellt (Aessawr dellt ambellt a adawei—Gwenogvryn Evans, *Book of Ancirin*, p. 6, l. 7), *a shield ; fossa*, ffos, *ditch ; finis*, ffin, *a boundary ; vagina*, gwain, *a scabbard, a sheath ; spolium*, ysbail, *booty.*

Geiriau Morwrol.—*Longa* (*navis*), llong, *a* (*long*) *ship ; ancora*, angor, *an anchor ; remus*, rhwyf, *an oar ; transtrum*, trawst, *the crosstimber in a vessel ; portus*, porth, *a harbour ; cetus*, kyt (cyd),

[1] Ffurf unigol ydyw pebyll ond edrychir ar y gair erbyn hyn fel lliosog o "pabell." Cymharer yr enw lleol Cil y Bebyll, yn Sir Forgannwg.

whale, "o perued kyt"; *oceanus*, eigion, *the ocean; sagena*, sân (saen), *a drag-net, a seine* (cymharer *llestri'r san, fishing boats;* cymharer hefyd yr enw lleol, *Cil-san*, yn agos i Landeilo Fawr); *piscis*, pysg, *fish.*

ANIFEILIAID AC ADAR.—*Asina*, asen, *a she-ass; asinus*, asyn, *a he-ass; admissus* (*ammissus, amis, emis, emys*), emys,[1] ystalwyn, march, cadfarch, *a stallion, a warhorse; cervus*, carw, *a stag; animal*, anifail, *an animal; bestia*, bwystfil, *a beast; bubalus*, bual, *a bison; caballus*, ceffyl,[2] *an inferior riding or packhorse, a nag; leo*, llew, *a lion; draco*, draig, *a dragon; pavonem*, paun, *a peacock; pluma*, pluf, *a feather; grex* (*gregem*), gre, *a stud of horses; viverra*, gwiwer, *a squirrel, a ferret.*

HARNEIS—GER ANIFEILIAID.—*Habena*, afwyn, awyn, awen, *a rein; corbus*, corf, corof, coryf, *a saddle-bow; cingillum* (*cingula*), cengl, *a band, a girth; frena*, ffrwyn, *a bridle, bit; postilena*, postolwyn, postoloin, Hen Gymraeg, *a crupper; pedalis*, pedol, *a horse shoe; fragillum*, ffrewyll, *a scourge; stratura*, ystrodur, *packsaddle.*

GEIRIAU DDALIANT BERTHYNAS A THRAFNIDIAETH, DIWYDIANNAU, METELOEDD.—*Soldus*, swllt, arian, trysor, *a shilling, formerly it meant money generally*[3]; *cera*, cwyr, *wax; sebum*, sebon, *soap; aurum*, aur, *gold; sericus* (*-a-um*), *belonging to Seres*, serig, sirig (A sirig a rais erod,—D.G. cv. 14), *silk; plumbum*, plwm, *lead; durus-a-um*, dur, *hard steel; mensura*, mesur, *a measure; numerus*, nifer, *a number; opus* (*operis*), gober, *work.*

RHANIADAU AMSER, RHANIADAU GWLADOL, BYWYD CYMDEITHASOL.—*Ianuarius*, Ionawr, *January; Februarius*, Chwefror, *February; Martius*, Mawrth, *March; Aprilis*, Ebrill, *April; Maius*, Mai, *May; Augustus*, Awst, *August; Lunæ*, Llun, *Monday; Martis*, Mawrth; *Mercurii*, Mercher; *Iovis*, Iau; *Veneris*, Gwener; *Saturni*, Sadwrn; *Solis*, Sul; *Calendæ*, dyddiau Calan, *the Calends, or the first day of each month; tempus*, tymp, tymor, *time, a season; hora*, awr, *an hour; populus*, pobl, *people; plebs* (*plebem*), plwyf, pobl y plwyf, pobl—cymharer "plwyf Israel," "plwyf Brython," *the common people, now it means "a parish"; civitas* (*civitatem*), ciwed, *the state, city; pagus*, pau,[4] *a country; vicus*, gwig, *—wick; privatus*, priod, *belonging to an individual;* pertineo, perthyn, *belonging to; collatio*, cyllid, *a collection, a gratuity collected for the Roman Emperor; testis*, tyst, *a witness; hospes*, osb, *a guest; extraneus-a-um*, estron, *a stranger; gemellus*, gefell, *a twin; latro*, lleidr, *a thief; carcar* (*carcerem*), carchar, *a prison; rapio*, rheibio, *I seize, ravish.*

[1] Ffurf unigol ydyw "emys." Cymharer "pebyll," "deuddeg emys"—*Mab.* td. 61, ll. 29. Gweler hefyd *D.G.* clxxxviii. 36, *Iolo Goch*, i. 57, 58.

[2] Daw y gair hwn i'r Gymraeg o'r Lladin drwy y Wyddeleg.

[3] Peir yn llawn o swllt Iwerddon.—*Mab.* td. 136, ll. 15. Amlder eur, ac ariant a swllt a marchogion.—*Y Brutiau*, td. 115, ll. 26; td. 270, ll. 17. *The Elucidarium*, td. 2, ll. 3. Sonir yng Nghymraeg y Canol Oesoedd am un yn priodi merch oherwydd ei "swllt."

[4] Bro coedydd gelltydd gwylltion—pau prifwig.—*G. Owen.*

CYFFREDINOL.—*Abstrusus*, astrus, *perplexed ; adorno*, addurn, *an adornment ; aetas*, oed, *age ; altare*, allor, *an altar ; altus* (*-a-um*), allt, *high, a cliff, the side of a hill ; argentum*,[1] ariant, arian, *silver : ascendo*, esgyn, *I ascend ; astutus* (*-a-um*), astud, *attentive ; benedico*, bendigo, *I bless ; benedictio*, bendith, *a benediction ; beneficium*, Hen Gymraeg binfic, Cymraeg y Canol Oesoedd benffyg, benthyg, *a favour, a kindness ; captivitas*, caethiwed, *captivity; captus* (*-a-um*), caeth, *captive caught ; caritas* (*caritatem*), cardod, *dearness, love, charity ; castigo*, cystwyo, *I chastise ; cavus* (*-a-um*), cau, *hollow ; centrum*, cethr, *a sharp point ; coctus* (*-a-um*), coeth, *refined ; compar*, cymar, *an equal, one of a pair ; compello*, cymell, *I compel ; confessio*, cyffes, *a confession ; confinium*, cyffin, *boundary ; consecro*, cysegru, *I consecrate ; consilium*, cysyl ("y derbyniesam y cyssul," *Test. Salesbury*, td. 289, ll. 21), *deliberation, plan, advice ; consolido*, cysylltu, *I consolidate ; consonus* (*-a-um*), cyson, *harmonious, consistent ; construo*, cystrawen, *I build or construct*, cystrawen—*the construction of sentences, syntax ; contendo*, cynnen, *strife ; contrarius* (*-a-um*), cythraul ("gwynt cythrawl"—*a contrary wind*), *contrary ; contrudo*, cythruddo, *I press together ; conventio*, cenfaint,[2] *an assembly, a meeting, a convention ; cornu*, corn, *a horn ; corporo*, corffori, *I* (*in*) *corporate ; corrigia*, carai, *a shoelatchet ; crasso*, Hen Gymraeg, *craseticion, I make thick, I condense ; crassus* (*-a-um*), cras, *rough, gruff, solid ; cupidus*, cybydd, *a miser ; deficio*, diffyg, *a deficiency, an eclipse ; deleo*, dileu, *I annihilate ; densus* (*-a-um*), dwys, *close, dense ; depended*, dibynnu, *I rely on ; culex*, cylion,[3] *a gnat, midge ; descendo*, discyn, *I descend ; destillo*, distyllu, distyll, *I distil*,—distyll y don, *the ebb of the wave ; destruo*, distryw, *I destroy ; desubito*, disyfyd, *sudden ; diluvium*, diluw, *deluge ; discupulus*, discybl, *a disciple ; disparatio*, disperod, *a separation, a going astray ; divinus* (*-a-um*), dewin, *a person divinely inspired, a soothsayer ; doctus* (*-a-um*), doeth, *learned, wise ; effectus*, effaith, *a result, effect ; elementa*, elfen, elfennau, *elements ; excuso*, escus, *an excuse ; factum*, ffaith, *a thing done ; factus* (*-a-um*), ffaeth (cymharer diffaeth, tir diffaeth, *uncultivated land*) ; *fides*, ffydd, *faith ; firmamentum*, ffurfafen, *the firmament, firmus* (*-a-um*), ffurf,[4] *firm, steadfast ; fistula*, Hen Gymraeg fistl,[5] *a pipe or tube ; forma*, ffurf, *form ; fovea*, ffau, *a pitfall ; fucus*, ffug, *sham ; fuga*, ffo, *a fleeing ; fundo*, ffynnu, *I pour, I pro-*

[1] Tueddir llawer erbyn hyn i ameu tarddiad Lladin y gair "arian," ffafriant y golygiad ei fod ef o darddiad Celtaidd.

[2] Yr un yw y gair hwn o ran tarddiad a'r Saesneg, *convent* a *convention*. Defnyddid y gair am (1) llu, nifer fawr o bobl neu anifeiliaid ; (2) defnyddir y gair gan Iolo Goch am gyfundeb o fyneich.

Chwe mil saith ugeinmil saint
Ag unfil wi o'r genvaint.—*I. Goch*, lxix. 53, 54.

(3) Defnyddir yn awr am anifeiliaid, "cenfaint o foch." Cymharer yr enw lleol *Covent Garden*.

[3] Cymharer y gair "cylionwr," pryfetwr, un yn dal pryfed.

Gwylia yno gulionwr,
Galw o'r gell, gywelyr gwr.—*D.G.* lxxv. 25, 26.

[4] Mae ein gobeith yn ffurf am danoch.—*Test. Salesbury*, ii. Corinthiaid i. 7.

[5] *The Oxford Glosses :* The Old Welsh Glosses on Martianus Capella, 118.

duce in abundance ; gradus, gradd,[1] *a step ; grammatica*, gramadeg, *grammar, a grammar ; honestus*, onest, *honest, honourable ; horarium*, oriawr, *a watch ; humilis*, ufyll, ufell, ufil,[2] *humble ; humilitas* (*humilitatem*), ufellfod, ufylltod, *humility ; inferna*, uffern, *the infernal regions ; initium*, ynyd, *a beginning, especially in reference to the beginning of Lent ; intervenio*, athrywyn, *I intervene ; labor*, llafur, *toil, drudgery ; laicus*, lleyg, *lay ; lamina*, llafn, *a blade ; largus*, llary,[3] *of a generous disposition, liberal ; scutum*, ysgwyt, *a shield ; laxus* (*-a-um*), llais, *loose ; lis* (*litis*), llid, *indignation ; macula*, magl, *a mesh ; magister*, meistr, *a master ; maledictio*, melldith, *a curse ; membrana*, memrwn, *a parchment ; membrum*, mymryn, *a small portion, a particle ; modus*, modd, *manner ; monumentum*, mynwent, *a monument, a family tomb ; muto*, mudo, *I move, change ; mutus* (*-a-um*), mud, mudan, *dumb, a dumb person ; nota*, nod, *a mark ; nubila* for *nubilia* (Uch no phob nyfel—Skene, *The Book of Taliesin*, p. 175, l. 15), *cloud ; occasio*, achos, *cause ; occupo*, achub, *I seize ; offero*, offeiriaid, *I offer ; offula*, ufflon, *small pieces ; oleum*, Hen Gymraeg oleu, Cymraeg diweddar olew, *olive oil ; paratus*, parod, *prepared ; pasco*, pesgu, *to fatten ; patella*, padell, *a pan ; pater*, pader, Gweddi'r Arglwydd, *a father, the Lord's Prayer ; peccatum*, pechod, *sin ; pecco*, pechu, *I sin ; peregrinus*, pererin, *a foreigner ; perfectus* (*-a-um*), perffaith, *perfect ; periculum*, perigl, *danger ; peus* (*-a-um*), pais, *woolly ; pila*, pel, *a ball ; pilum*, pilwrn, *a fine arrow ; piscis*, pysg, pysgodyn, *a fish ; pix* (*picis*), pyg, *pitch ; poena*, poen, *pain ; porto*, Hen Gymraeg bleu-porthetic,[4] dwyn blew neu wlan, *I bear, I carry ; prandium*, preiniawg yn cyd-breiniawg, *a meal, the fodder of animals ; professio*, proffes, *a professing ; prudens*, prudd[5], yn yr ystyr y defnyddir y gair yng Nghymraeg y Canol Oesoedd, *forseeing, prudent ; primus*, prif, *chief, first ; pulvis*, pylor, powdwr ; *punctum*, pwyth, *a puncture ; putris* (*-e*), pwdr, *rotten ; rapidus*, rhebydd (Rebyd uilet regethwys,—Skene, *The Red Book of Hergest*, p. 270, l. 6), *rapid, quick ; regula*, rheol, *a rule ; reliquum*, rhelyw, *remainder ; rete*, rhwyd, *a net ; rota*, rhod (cymharer yr ymadrodd "troad y rhod"), *a wheel ; ruina*, rhewin, *a falling down, ruin ; sanctus* (*-a-um*), sant, *holy ; scala*, ysgol, *a ladder ; scelus*, ysceler, *an atrocious action ; securus*, segur, *free from care ; sentio*, synio, *I think ; serpens*, sarff, *a serpent ; siccus*, sych, *dry ; simplex*, syml, *simple ; sonus*, swn, *a noise ; spatium*, yspaid, *space ; spiritus*, ysbryd,

[1] Ceir y gair yn ei ystyr gyntefig yn ysgrifenwyr y Canol Oesoedd :

Yn esgynnu gradeu y twr.—*Y Brut.* td. 205, ll. 11.

Neitia hyn yw dy natur,
I mewn dros raddau y mur.—*D.G.* clxiv. 41, 42.

Ac odyno adyrchauawd y vynyd ar hyt y gradeu tu ar neuad.—*De Carolo Magno*, td. 29, ll. 10.

[2] Na buost uffil—*Ll. D. Caerfyrddin*, td. 22, ll. 4. Evans.

[3] Llary yw a gwiw lleuer gwawr.—*Iolo Goch*, l. 12. Cymharer *Numeri* xii. 3. Gweler hefyd *Ll.D.C.* td. 67, ll. 7 ; td. 53, ll. 19]; td. 71, ll. 2. *Y God.* td. 234, ll. 376 ; td. 250, ll. 469.

[4] *The Oxford Glosses :* The Old Welsh Glosses on Martianus Capella, 118.

[5] Ni pherthynai i'r gair yng Nghymraeg y Canol Oesoedd yr ystyr o "drist." Gweler *Mab.* td. 93 ll. 18, td. 94, ll. 13. *The Elucid.* td. 131, ll. 12. *Test. Salesbury*, td. 51, ll. 28.

spirit ; splendidus (*-a-um*), ysplennydd, *splendid ; superbus*, syberw, *proud ; tabella*, tafell, *a small board, a thin cake ; taberna*, tafarn (cymharer "tafarnau gwerth," siopau i brynnu a gwerthu,—*Deffyniad Ffydd Eglwys Loegr*, td. 45, ll. 25), *a hut, a tavern ; tempestas*, tymhestl, *the weather, a storm ; terminus*, terfyn, *boundary ; tractatus*, traethawd, *treatise ; tragula*, trail, *a drag-net ; trinitas*, (*trinitatem*), trindod, *trinity ; turma*, tyrfa, torf, *a multitude ; vacuus* (*-a-um*), gwag, *empty ; vapor*, gwybr, wybren, *vapour, steam ; venenum*, gwenwyn, *poison ; vinum*, gwin, *wine ; vipera*, gwiber, *a viper ; viridis*, gwyrdd, *green ; virtus*, gwyrth, *worth, virtue, miraculous power ; vitium*, gwyd, *vice ; pugillares*, peullawr,[1] *writing tablets.*

Amcanwyd cyfyngu y rhestr i eiriau ag y mae lle i gredu iddynt ddyfod i'r iaith o fewn y cyfnod Rhufeinig ; gadawyd allan eiriau yn dwyn delw Lladin y Canol Oesoedd. Y mae presenoldeb y fath nifer o'r geiriau hyn yn ein hiaith yn dystiolaeth gref i ddylanwad y Rhufeiniaid ar ein gwlad. Cadarnheir y dystiolaeth hon gan y llu mawr o enwau personol o darddiad Rhufeinig oedd ar arfer ymysg y Cymry ar ddiwedd y cyfnod Rhufeinig, ac yn y cyfnodau ddilynodd yn uniongyrchol. Gwasanaethed a ganlyn fel engreifftiau : Ceris, *Carausius ; Ætern* (*Æternus*), Edeyrn ; *Boia*, Bwya,—cymharer yr enw lleol *Clegyr Fwya ; Ceionius*, Cein ; *Donatus*, Dunaut ; *Ennianus*, Enniaun ; *Apulicius*, Abloyc ; *Tupianus*, Typiaun neu Tybion ; *Abianus*, Ebiaun ; *Eugenius*, Eugein (Owein) ; *Mauricus* (*Mauricius*), Mouric ; *Tit*(*u*)*latus*, Titlat ; *Docilis*, Docil ; *Tacitus*, Tacit, Tegid ; *Paternus*, Padarn ; *tribunus*, Triphun ; *Cuneglasus*, Cinglas ; *Honorinus*, Aneurin ; *Honorius*, Eneuris ; *Antoninus* (*Antonius*), Antun ; *Caelius*, Coyl ; *Saturninus*, Sadyrnin,—cymharer yr enw lleol *Llansadyrnin*, Sir Gaerfyrddin ; *Urbigena*, Urien ; *Ambrosius*, Emrys ; *Augustinius*, Awstin ; *Constantinus*, Cystenyn ; *Mercurius*, Mercher (Merchyr) ; *Agricola*, Aircul ; *Romanus*, Rhufain, Rhufein-iad, Rhufon-iog ; *Marcianus*, Meirchion ; *Papinius*, Pebin (Dol pebin) ; Peuliniog, *Paulinus ; Vergilius*, Fferyllt ; *Antonius*, Antun ; *Marianus*, Meriaun. Ceir rhai awgrymiadau yn ffafrio'r golygiad fod rhieni tua diwedd y cyfnod Rhufeinig ym Mhrydain yn dechreu rhoi dau enw i'w plant, un yn enw Rhufeinig i'w arfer mewn cysylltiadau cyhoeddus, a'r llall yn enw Prydeinig i'w arfer yng nghylch y cartref a'r teulu.[2] Ceir prawf pellach o ddylanwad y Rhufeiniaid ar yr iaith mewn llawer o enwau lleoedd. Ymysg ereill gellir nodi enwau lleoedd a'r gair "castra," "caer," "chester," yn rhan ohonynt : *Caer-segeint*, Silchester ; *Caer Peris*, Porchester ; *Caerleri*, Cirencester ; *Caer-leon ; Caer-colun*, Colchester ; *Caer-wrangon*, Worcester ; *Caer-loyw*, Gloucester ; *Caer-wynt*, Winchester ; *Caer-fyrddin*, Carmarthen ; *Caer-narfon*, Carnarvon ; *Caer-*

[1] Y enw ym peullawr.—*Skene*, vol. ii. l. 11.

[2] It may have been the habit of the native provincials to give their children two names, a Latin name which stamped them as Romans, as well as a British name, which would naturally be used in home life. Calparinus called his son Patricius, but if Patricius talked as a child with his father and mother the Brythonic tongue of his fore-fathers, he bore the name of Sucat. He was thus double-named like the Apostle Paul, who bore a Roman as well as a Jewish name from his youth up.—*Life of St. Patrick*, p. 23. I. B. Bury.

hun ; Caer-sws ; Cairluit coyt [Castra] Le(c)to-cetum, Licet-field, Lichfield ; *Caer-cucerat*, Cockermouth ; *Caer-Draithou*, Drayton, yn Sir Amwythig ; *Caer-Dorm*, Dormchester, yn Sir Huntingdon ; *Caer Bobien* rhwng Aberystwyth a Machynlleth ; *Caer-liwelydd*, Carlisle. Geiriau a "fossa" yn elfen ynddynt : *Fosseway, Ffos-y-ffin ;* enwau a "strata" yn rhan ohonynt : *Strat-ford, Stret-ford, Ystrad-Rhondda, -Cynlais, -Clwyd ;* enwau a'r gair "*calx*," calch, *lime*, ynddynt : *Calchyth* (*Cealchyth*), *Chalkport.* Ceir y ffurfiau *Calchyth, Cealchyth* mewn gwreithred, geir yn yr Amgueddfa Brydeinig, perthynol i'r flwyddyn 785 o'r Cyfnod Cristionogol. Cymharer *Chelsea.* Cymharer hefyd *Odencolc* (*Cart. Sax.* ii. p. 34, *British Museum*). Enwau a'r gair "colonia" ynddynt. *Lin-coln, Caer-colun, Col-chester.* Gellir ychwanegu enwau fel *Llychwr* (Leucarum), *Deganwy* (Decantæ, Decanti, arx Decantorum), *Conovium, Speen* (Lladin *Spinæ*—drain. Ceir y gair yn y ffurf *Spinis* yn yr *Antonine Itinerary*) ; *Caer Efrog*, Eboracum ; *Ilkley*, Olicana ; *Caer-went*, Venta Silurum ; *Rhyd Orddwy*, "ford of the Ordovi" ; *Varis* (? Bod-fari), *Maridunum, Nido* (Neath), Castell Nedd, *Bomio* (Cowbridge) ; *Mediolanum, Maglona.* O roddi ystyriaeth i'r nifer fawr o eiriau o darddiad Lladin geir yn y Gymraeg nis gellir osgoi y casgliad ddarfod i'r Rhufeinaid ddylanwadu yn fawr ar iaith y bobl ddaeth i gael eu hadnabod, oddeutu diwedd y cyfnod Rhufeinig, fel y Cymry. Ni bu y dylanwad hwn, fodd bynnag, yn unffurf yng ngwahanol rannau y wlad ; bu yn llwyr iawn yn y dinasoedd Rhufeinig sefydlwyd, ac yr oeddynt yn lliosog yn ne-a de-ddwyrain y wlad ; ni bu eu dylanwad mor fawr y tu allan i'r trefi, hyd yn oed yn y rhannau hyn ; ac ysgafn iawn a fu yng ngorllewin a gogledd y wlad—Cernyw, Cymru, a rhannau gogleddol Prydain gan gynnwys Ystrad Clwyd (Cumberland, Westmoreland, a Lancashire).[1] Naturiol yw credu i'r iaith Ladin ddal ei thir am beth amser wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, yn y rhannau hynny o'r wlad yr oedd wedi ei mabwysiadu fel iaith lafaredig ynddynt ; ac yn ffafr y golygiad hwn gellir cyfeirio at waith y Cymry yn galw eu hunain yn y chweched ganrif yn Rhufeiniaid, mewn cyferbyniad i'r barbariaid ;[2] cadarnheir hyn i ryw raddau gan dystiolaeth Bede, dywed ef y siaredid pum iaith ym Mhrydain yn ei amser ef, ac yn eu mysg enwa'r iaith Ladin ; ond ni ddylid rhoddi gormod o bwys ar ei dystiolaeth ef, am y golygai ef, yn fwyaf arbennig, yr ieithoedd ddefnyddid yng ngwasanaeth crefydd. Bu'r Lladin yn iaith crefydd ym Mhrydain am ganrifoedd ar ol dyddiau Bede, ond nid teg oddiwrth hynny fyddai casglu ei bod yn iaith gyffredin unrhyw adran o'r bobl.[3]

[1] There can be no dispute as to the permanence of Celtic language and culture in the North and in the West of the island —*The Growth of the Manor-Roman influence*, pp. 37, 38. Vinogradaff.

[2] *Inscript. Christ. Brit.* Hubner.

[3] Bede is speaking of the existence in Britain of five languages, rather than five nations ; and more particularly of languages employed in the service of religion, as Professor Earle has rightly remarked. Saxon Chronicle p. 279. Hence Bede was obliged to include Latin, the most important of them all from his point of view. He does not mean that in his day there were descendants of the Roman legionaries existing in such distinctness in Britain as to form a separate "gens." *Baedae Opera Historica*, Tom. ii. p. 7, note. Plummer.

PENNOD III.

DYLANWAD Y RHUFEINIAID AR WAREIDDIAD Y CYMRY.

Cyn y gellir trafod y mater hwn i unrhyw bwrpas, rhaid deall beth olygir wrth wareiddiad. Gair anodd ei ddeffinio ydyw, gan eanged ei ystyr. Gesyd allan y camrau gymerir gan genedl neu berson unigol o sefyllfa is i sefyllfa uwch o fod—yr hyn nodwedda y bywyd fel yr ymlwybra o fod yn wyllt i fod yn war. Gellir olrhain y camrau hyn i ryw raddau, drwy sylwi ar y gwahanol agweddau y rhydd cenedl ddatganiad i'w bywyd drwyddynt, megis celfyddyd, dull o lywodraethu a thrafod materion cyhoeddus,amaethyddiaeth, masnach, crefydd, sefydliadau milwrol. Er mesur dylanwad y Rhufeiniaid ar y bobl y daeth y mwyafrif ohonynt ar derfyn y cyfnod Rhufeinig i gael eu hadnabod fel " y Cymry," rhaid ymholi ym mha le y safai y bobl hyn o ran gwareiddiad cyn dyfod y Rhufeiniaid i'w mysg ac ar adeg eu hymadawiad ; rhaid ymholi ymhellach a giliodd gwareiddiad Celtaidd yn llwyr o flaen gwareiddiad Rhufain ai ynte yn rhannol. Fel rheol a cenhedloedd drwy y cyrsiau hyn yn hanes eu gwareiddiad,—bywyd crwydrol, yn yr ystad hon dibynnant bron yn gwbl am eu cynhaliaeth ar helwriaeth a physg ; bywyd bugeiliol, yn yr ystad hon, mae dyn wedi dysgu'r modd i ddofi'r anifeiliaid. Pa fodd y gwnaeth hyn, a pha beth a'i cymhellodd, erys hyn yn ddirgelwch. Nid oes ball, fodd bynnag, ar awgrymiadau, megis rhyw ymdeimlad greddfol o berthynas, ymdeimlad o angen cyfathrach â'r anifeiliaid er diogelwch yn erbyn ysbrydion drwg[1] ; bywyd amaethyddol,[2] yn yr ystad hon ychwanegir cynnyrch y tir at helwriaeth a physg fel moddion byw. Yr oedd preswylwyr Prydain wedi cyrraedd y gwareiddiad amaethyddol ymhell cyn dyfod y Rhufeiniaid i'r wlad hon.[3] Nis gellir dweyd fod amaethyddiaeth wedi dadblygu i'r un graddau ymhob rhan o'r ynys, elfennol iawn oedd yn rhannau canol a gogleddol y wlad, ond yn y rhannau deheuol yr oedd yn llawer pellach ymlaen, ac yn dod yn nes i ystad amaethyddiaeth ar y Cyfandir—yn Gâl yn neilltuol.[4] Y mae y rhaniadau y cyfeiriwyd atynt mewn pennod flaenorol—y rhaniadau dinesig a milwrol—*domi* a *militiæ*—yn dra phwysig wrth ymwneyd â'r cwestiwn hwn. Rhaid gochel eithafion yn yr ymdriniaeth, mae y gwirionedd fel mewn llawer o faterion

[1] *Celtic Religion*, pp. 9, 10. E Anwyl.

[2] *The Dawn of Civilization*, chap. iii. p. 33 ; also chap. x. pp. 113—124. G. Hartwell Jones.

[3] *De Bello Gallico*, v. 12. Caesar

[4] *De Bello Gallico* v. 13, sect 3. Caesar.

eraill, yn gorwedd rhwng dau eithaf. Myn rhai ysgrifenwyr fychanu dylanwad gwareiddiad y Rhufeiniaid ar Brydain, gosodir allan y cyfnod Rhufeinig fel "mere interval of arrested growth, ... an irrelevant episode."[1] Mor eithafol yw y golygiad hwn, ag y teimla un sydd wedi gwneud y cyfnod yn astudiaeth oes, fod yn rhaid iddo wrthdystio yn gryf yn erbyn y fath ddatganiad.[2] O'r ochr arall, rhaid peidio priodoli gormod o le i ddylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y wlad hon yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Cynrychiolir yn lled deg y syniadau goleddir mewn perthynas i'r mater gan yr athrawon F. J. Haverfield, P. Vinogradoff, a Mr. G. Laurence Gomme. Os perthyn bai i'r cyntaf, tuedda i roddi gormod o le i ddylanwad y Rhufeiniaid, dyry ormod o bwys ar dystiolaethau hynafiaethol geir yn olion hen ddinasoedd Rhufeinig, a thyn gasgliadau rhy gyffredinol oddiwrthynt. Nid ymddengys yn rhoddi ystyriaeth ddigonol i'r gagendor oedd rhwng gwareiddiad Rhufain a gwareiddiad preswylwyr Prydain y pryd hyn, a'r anhawsder i'r rhai diweddaf ymgyfaddasu at wareiddiad oedd gymaint yn uwch na'r eiddynt hwy. Gogwydda y diweddaf yng nghyfeiriad bychanu yn ormodol ddylanwad Rhufain ar wareiddiad y wlad hon. Deil Dr. Vinogradoff y fantol yn lled deg rhyngddynt. Cymhery ef ddylanwad gwareiddiad Rhufain ar y wlad hon i afon yn ymrannu yn fân ffrydiau, gan gyfoethogi y dyffryn yr â drwyddo, a'r wlad o amgylch iddo, ond heb lwyddo i newid ymddangosiad cyffredinol y wlad.[3] Amcenir yn y gweddill o'r bennod hon ffurfio syniad am yr hyn fu dylanwad Rhufain ar Brydain, drwy gymharu ystad celf, dull o lywodraethu, masnach a thrafnidiaeth, crefydd, a sefydliadau milwrol, ar ddechreu ac ar ddiwedd y cyfnod Rhufeinig. Mae profiad cenedl ac ystad ei gwareiddiad yn fynych yn cael eu corffori yn ei chelfyddyd.[4] Yr oedd celf—*art*—celfyddyd gain, yn flodeuog ym Mhrydain cyn dyfodiad y Rhufeiniaid, ac yr oedd y gelfyddyd hon yn nodweddiadol o'r teulu Celtaidd—perthynai iddi ei phriod nodweddion. Ceid engreifftiau o gelf y Celtiaid yn Gâl—Gâl y tu yma a thu hwnt i'r Alpau, ym Mhrydain a'r Iwerddon. Tybir iddi ddechreu yn niwedd "oes yr haearn"; adnabyddid hi wrth wahanol enwau, megis, "La Tène," rhoddid iddi yr enw hwn oddiwrth dref yn perthyn i Gâl ym mhen gogleddol Llyn Neuchâtel yn Switzerland. Adnabyddid hi wrth yr enw "Marnian" yn Ffrainc; gelwid hi yn "Marnian" oddiwrth yr engreifftiau nodedig geir ohoni yng nghladdfeydd dyffryn y Marne—claddfeydd gymerant i mewn y cyfnod rhwng 350 a 200 cyn Crist. Ym Mhrydain, adnabyddir hi fel "Late Celtic." Ceir yr engreifftiau

[1] *Social England : Introduction*, p. xxiii. Dr. Traill.

[2] The Romano-British Antiquary cannot possibly accept the statements of Dr. Traill as to the four centuries of Roman domination being a period of "arrested growth" as far as civil progress was concerned. Let him study what has recently been revealed at Silchester, a well-ordered provincial town, the centre of a district almost entirely destitute of any show of military force; let him reflect that the conditions of Silchester were repeated in many parts of England, and he will abandon the old fashioned notion that the Roman rule of England was an affair of camps and military stations.—*Historical Review*, vol. ix. Haverfield.

[3] *The Growth of the Manor*, p. 83.

[4] *Celtic Art in Pagan and Christian Times*, p. 13. J. Romilly Allen.

goreu ohoni ym Mhrydain yn Sir Gaerefrog. Un o brif nodweddion celfyddyd Geltaidd ydyw y *spiral devices*, ei hoffder o bortreadu planhigion a ffurfiau anifeilaidd, a'r amddifadrwydd o ffurfiau dynol.[1] Dywedir fod y Celtiaid yn y cyfnod hwn yn ddiffygiol mewn gallu i gynhyrchu syniadau newyddion mewn celfyddyd, ond i wneud i fyny am y diffyg hwn, meddent allu eithriadol i fenthyca syniadau oddiwrth bobl y deuent i gyffyrddiad â hwy, drwy ryfel neu fasnach. Ymddengys y perthynai iddynt ddau allu, y derbyniadol a'r ffurfiadol; gwneid argraff neilltuol arnynt gan yr hyn a welent, cymerent ef i mewn, a rhoddent ffurf ac argraff eu meddwl eu hun arno,[2] nes ei gwneud hi yn anodd i un sylweddoli mai llinell wedi ei benthyca o gelfyddyd cenedl arall oedd. Gwelir hyn yn amlwg iawn wrth sylwi ar y ffigyrau ar eu darnau arian.[3] Er cael syniad am nodweddion celfyddyd ymysg y Celtiaid, yn "oes yr haearn" hyd ddyfodiad y Rhufeiniaid, ni raid ond astudio yr engreifftiau rhagorol a gaed yn y tomenydd crynion a berthyn i'r oes honno. Ceir casgliad rhagorol o'r engreifftiau hyn yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn Devizes, Sheffield, Edinburgh, a Dublin. Beth fu dylanwad y Rhufeiniaid ar gelfyddyd Geltaidd? Esgeuluswyd hi i raddau mawr; yn ol y duedd y cyfeiriwyd ati, dechreuwyd dynwared celfyddyd fwy gorffenedig y Rhufeiniaid.[4] Ni raid wrth well prawf o hyn na'r un a geir o gymharu y darganfyddiadau wnaed mewn pentref Celtaidd yn agos i Glastonbury yn Somerset, a'r darganfyddiadau a wnaed gan General Pitt-Rivers mewn pentrefi ddaeth yn gynnar dan ddylanwad y Rhufeiniaid, megis Rotherley, Woodcuts, ac Woodyates oddeutu un-filltir-arddeg i'r de-orllewin i Salisbury. Yn yr olion yn y pentref Celtaidd gwelir fod celfyddyd yn cadw yn glir y nodweddion arbennig berthynai iddi fel celfyddyd Geltaidd; ond yn y pentrefi ereill, mae'r nodweddion hyn wedi eu colli, a dynwarediad o gelfyddyd Rufeinig wedi cymeryd eu lle.[5] Yr oedd eithriadau, fodd bynnag, i'r gogwydd hwn oedd yn rhy gyffredinol. Yn y brondlysau wneid yn agos i Brough yn Westmoreland, yn y cistiau bychain ac arnynt addurniadau bychain yn y ffurf o ddail, a gynhyrchid yn New Forest, ac yn y man gelfi wneid yn Castor yn agos i Peterborough, ceir engreifftiau teg o gelfyddyd Geltaidd yn cadw ei phriod nodweddion er gwaethaf y llanw Rhufeinig ddaethai i mewn. Ceir eithriad neilltuol o'r duedd gyffredinol yn y cerflun o Minerva yn y Spa yn Bath.[6] Saif celf mewn perthynas agos i grefftau, gweddau

[1] The suggestion of returning spirals, the evident delight of the artist in plant and animal forms and his neglect of the human figure—all these are Celtic.—*Proceedings of the British Academy*, vol. ii. p. 16.

[3] *Celtic Art in Pagan and Christian Times*, p. 13. J. Romilly Allen.

[3] *Archeologie Celtique et Galoise*, p. 387. M. A. Bertrand.

[4] All native arts, however beautiful, tend to disappear before the more even technique and the neater finish of town manufactures. The process is merely part of the honour which a coherent civilization enjoys in the eyes of the country folk.—*The Proceedings of the British Academy*, p. 15. Haverfield.

[5] *Pitt-Rivers' Excavations*, 1887—1898.

[6] The British Celt abandoned his national art and adopted the Roman provincial fashion. He did not abandon it entirely . . . . The Castor ware and the Gorgon's head are exceptions. The rule stands that the material civilization of Britain was Roman.—*The Proceedings of the British Academy*, pp. 15, 16, 17. Haverfield.

ymarferol ar gelf ydyw y rhai diweddaf. Cyfeirir yn y Mabinogion at waith preswylwyr gorllewin Prydain fel yn rhagori mewn gwahanol grefftau. Rhaid cydnabod mai yn y ddeuddegfed ganrif y cymerodd y Rhamantau hyn eu ffurf lenyddol, a hwyrach y dywedir nas gellir rhoddi unrhyw bwys ar unrhyw dystiolaeth geir ynddynt pan yn ymwneud â'r cyfnod Rhufeinig; ond dylid cofio fod y mater geir ynddynt lawer yn hŷn; ant a ni yn ol yn fynych i gyfnodau boreuaf llenyddiaeth Geltig, gwelir yn aml fod eu gwreiddiau yn y cyfnod cyn-hanesiol. Dygodd y rhai fu yn adeiladu y rhamantau hyn y meini o bell, defnyddiasant hwy heb wybod fawr am y graig y naddwyd y meini ohoni. Casglasant hen draddodiadau eu cenedl, a dygasant eu dyfais a'u medr llenyddol i weithio arnynt. Nid amherthynasol, gan hynny, yr hyn a geir yn y Mabinogion, hyd yn oed wrth ymwneyd â'r cyfnod Rhufeinig ym Mhrydain. Gosodir allan dywysogion Dyfed yn myned i Loegr, ac yn byw wrth eu crefftau, megis gwneud cyfrwyau a chorfeu, tariannau, esgidiau gyda gwaegau hardd, gloewi cleddyfau, etc., a chan ragored y gwaith wnaent ar y pethau hyn, ni fynnai y bobl yn y lleoedd yr arosent brynnu ond ganddynt hwy.[1]

Nid oedd dim ag y gwahaniaethai y Celtiaid a'r Rhufeiniaid yn fwy oddiwrth eu gilydd nag yn yr hyn y gellir edrych arno fel sylfaen eu bywyd llywodraethol. Ymysg y Celtiaid, edrychid ar y teulu neu y llwyth fel y pwynt cychwyn—*yr unit*, dyna sylfaen eu bywyd cymdeithasol a'u cyfundrefn o lywodraeth wladol ac eglwysig; ond ymysg y Rhufeiniaid y ddinas oedd y sylfaen—y pwynt cychwyn. Gosodir allan bolisi Rhufain tuag at y byd oddiallan gan un o'i phoetau hi ei hunan:—

Yn ddinas ti a wneist y byd i gyd.[2]

Llywodraeth dinas oedd llywodraeth Rhufain, a dyna'r math o lywodraeth yr amcanai ei sefydlu yn y gwledydd orchfygid ganddi. I ba raddau y llwyddodd i wneud hyn ym Mhrydain? Hanes y cyfnod etyb y cwestiwn. Rhaid dweyd, ar y cychwyn, mai ychydig o ffeithiau sicr sydd ar gael mewn perthynas i'r cwestiwn hwn; daw ein gwybodaeth yn hytrach yn y ffurf o gasgliadau anuniongyrchol. Wrth wneud trefniadau i lywodraethu talaeth, gwnai y Rhufeiniaid y dinasoedd yn gartref awdurdod—y dinasoedd godent y trethi angenrheidiol, ac ynddynt hwy y gweinyddid cyfiawnder. O amgylch y dinasoedd hyn yr oedd y tir a berthynai iddynt, ac oedd i fod o dan eu hawdurdod—yr *ager attributus*—a chedwid enwau y rhai ddalient y tiroedd hyn gan ynadon y ddinas.[3] Yn nechreu y cyfnod Rhufeinig, nid oedd ond pump o ddinasoedd ym Mhrydain wedi eu sefydlu ar linellau dinasoedd breiniol yr Eidal: Colonia[4]—Camulodunum (Colchester), Municipium[4]—Verulamium (St. Alban), Colonia—Lindum (Lincoln),

[1] *The Red Book of Hergest—Mabinogion*, tdd. 47—49. Rhys & Evans.

[2] "Urbem fecisti orbem terrarum."

[3] *Romans of Britain*, pp. 42—119. Coote.

[4] The historical difference between the *colonia* and *municipium* is that which is made by Auluos Gellius, namely, that the *municipium* was taken into the Roman state from without, while the *colonia* was an off-shoot from within.

Colonia—Glevum (Gloucester), a Colonia—Eboracum (York). Sefydlwyd y dinasoedd hyn yn y ganrif gyntaf a'r ail o'r cyfnod Cristionogol. A chan nad oedd ond pump o'r rhai hyn, nis gallasai dull Rhufain o lywodraethu fod wedi ei fabwysiadu ond mewn rhannau cymharol fychain o Brydain, hyd yn oed a chaniatau fod y tiroedd o amgylch—y dinasoedd—yr *ager attributus*—yn dra eang. Y casgliad naturiol y deuir iddo oddiwrth y ffeithiau hyn ydyw nas gallasai dylanwad y Rhufeiniaid fod yn fawr ar yr hen ddull a ffynnai ymysg y Celtiaid o lywodraethu eu hachosion. Dywedir, fodd bynnag, i'r dinasoedd Rhufeinig liosogi yn fawr cyn diwedd y cyfnod Rhufeinig; yn ol un ysgrifennydd, yr oedd eu nifer dros ddeg a deugain,[1] ac fe duedda hyn i fynd yn erbyn y casgliad dynnwyd yn barod. Dadleuir ymhellach i ddull Rhufain o lywodraethu ddylanwadu hyd yn oed ar y rhannau o'r wlad lle y cedwid at hen ddull y Celtiaid o drafod achosion cyhoeddus ar linellau y llwyth yn hytrach nag ar linellau y ddinas. Dywedir y gadawodd y Rhufeiniaid i'r hen breswylwyr y fframwaith cymdeithasol yr oeddynt wedi arfer â hi, ond llwyddasant i roddi ysbryd newydd yn yr oll,—ac ysbryd Rhufain oedd hwn. Amcanwyd eu Rhufeineiddio yn ddiarwybod iddynt eu hunain.[2] Wrth edrych ar y cwestiwn yng ngoleuni y ffeithiau hyn, ymddengys i'r Rhufeiniaid ddwyn cyfundrefn newydd o lywodraeth i mewn i Brydain; ond bas ac arwynebol fu y dylanwad, onide fe fuasai delw Rhufain lawer yn amlycach ar sefydliadau y Cymry yn y cyfnod ddilynodd ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain. Nid oes y sail leiaf i gredu i'r Cymry gyfnewid "cyfundrefn y llwyth" am "gyfundrefn Rhufain" o lywodraethu. Cadarnheir hyn gan ymchwiliadau dynion fel Syr Henry Maine, Mr. Frederic Seebohm, Dr. Skene, ac ereill. Eu tystiolaeth glir hwy ydyw fod "cyfundrefn y llwyth"—*the tribal system*—yn un o nodweddion gwahan Celtiaid Cymru, yr Iwerddon, a Scotland, cyn ac wedi dyfodiad y Rhufeiniaid i'r wlad hon. Deuwn i'r casgliad mai ychydig fu dylanwad y Rhufeiniaid ar sefydliadau mwyaf nodweddiadol y Celtiaid, ar eu dull o lywodraethu, gweinyddu barn, a thrafod eu hachosion cyhoeddus. Nid peth hawdd ydyw i bobl newid eu sefydliadau, nid peth ellir wneud ar fyr amser ydyw; a chan y ceir prawfion fod yr hen sefydliadau Celtaidd yn flodeuog yn y cyfnod wedi ymadawiad y Rhufeiniaid, nis gellir osgoi y casgliad mai ysgafn ac arwynebol fu dylanwad Rhufain arnynt. Nid ym Mhrydain yn unig y cafodd y Rhufeiniaid y profiad hwn o fethiant, cawsant brofiad cyffelyb yn Mauritania a Numidia, yn yr Hispaen, Macedonia, a Phannonia.[3]

[1] *Romans of Britain*, pp. 346—347. Coote.

[2] The cantonal or tribal magistrates were classified and arranged just like the magistrates of a municipality. Even the same titles were in use. The cantonal *civitas* had its *duoviri* and quæstors and so forth, and its *ordo* or senate, precisely like any municipal *colonia* or *municipium*. So far from wearing a national aspect, this cantonal system merely became one of the influences which aided the romanization of the country. It did not involve like the municipal system the substitution of an Italian for a native institution. Instead, it permitted the complete remodelling of the native institution by the interpenetration of Italian influence.—*The Proceedings of the British Academy*, vol. ii. p. 21. Haverfield.

[3] *The Growth of the Manor*, p. 46. Vinogradoff.

Bydd sylwi ar y cyfnewidiad ddaeth dros amaethyddiaeth y wlad hon yn ystod y cyfnod Rhufeinig yn gymorth i ffurfio syniad am yr hyn fu dylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y bobl ddaeth yn ddiweddarach i gael eu hadnabod fel y Cymry. Gwelwyd yn barod[1] fod preswylwyr y wlad wedi cyrraedd y gwareiddiad amaethyddol, o'r hyn lleiaf yn ne-ddwyrain y wlad, cyn dyfod y Rhufeiniaid. Codid yd mewn cyflawnder yn y rhannau hyn. Yn ystod ymosodiad cyntaf Cesar ar Brydain, dywedir i fyddin Rhufain, a rifai ddeuddeng mil o leiaf, fedi digon o wenith yng nghymdogaeth Walmer yn unig, i ddiwallu eu hanghenion am ragor na phythefnos. Y flwyddyn ddilynol, gorchmynodd Cesar i wyr Essex ddwyn iddo ddigon o ŷd i ddiwallu anghenion pedair lleng a'u catrodau cynorthwyol, a deucant ar bymtheg o wyr meirch ; a dygwyd iddo yr hyn a geisiai o fewn ychydig ddyddiau. Cadarnheir y tystiolaethau hyn gan brawfion hynafiaethol gaed yn yr ymchwiliadau wnaed yn Bigbury, yn agos i Gaergaint, yn Glastonbury ac yn Hunsbury. Cafwyd yn y lle blaenaf gryman haearn a swch aradr, ac yn y lleill wahanol fathau o rawn wedi eu hystorio yn ofalus, a nifer fawr o ddarnau o felinau llaw—*querns*—wedi eu gwneyd o gerrig.[2] Ceir tystiolaeth hynafiaethol y codid ŷd yn swydd Efrog yn "oes y bronz."[3] Anfonid ŷd hefyd i'r cyfandir o Brydain cyn dyfodiad y Rhufeiniaid. Ond er y tystiolaethau hyn mewn perthynas i'r rhannau o Brydain nesaf i'r Cyfandir, a'r awgrymiadau a geir fod rhyw gymaint o sylw wedi ei dalu i amaethyddiaeth mewn rhannau ereill o Brydain, eto teg ydyw casglu mai pell yn ol oedd stad amaethyddiaeth ym Mhrydain adeg dyfod y Rhufeiniaid. Fel y lliosogai yr hen breswylwyr ai yn anhawddach iddynt gynnal eu hunain ar yr hyn gynhyrchid gan fywyd bugeiliol ; profodd angenrheidrwydd yn fam dyfais iddynt, troisant eu sylw at gynnyrch y ddaear, a symbylwyd hwy yn fawr yn hyn gan y Rhufeiniaid. Dygir tystiolaeth i ddylanwad y Rhufeiniaid yn y geiriau Lladin ddygwyd i mewn yn ystod y cyfnod ; sylwer yn neilltuol ar y rhestr o'r geiriau a'u cyfeiriad yn arbennig at amaethyddiaeth, coedydd, a phlanhigion.[4] Dywedir i'r Rhufeiniaid ddwyn i mewn y castan (*chestnut*), y blanwydden (*plane tree*), y gollen ffrengig (*walnut*), y llwyfen (*elm*), y bisgwydden (*lime*), yr aethnen (*poplar*), y winwydden (*vine*), y ceirios (*cherry*), y rhuddygl (*radish*), y bysen (*pea*).[5] Dywedir hefyd mai y Rhufeiniaid ddygodd i'r wlad hon am y waith gyntaf yr hydd (*fallow-deer*) a'r wningen, ac awgrymwyd mai iddynt hwy yr ydym i ddiolch am ddwyn y ddafad i Brydain. Nis gall y diweddaf, fodd bynnag, fod yn gywir, oblegid ceir prawfion hynafiaethol y megid defaid gan breswylwyr swydd Dorset yn "oes y bronz."[6] Nis gellir derbyn chwaith

[1] td. 16.

[2] *Archæological Journal*, lix. 1902, pp. 213—16. *Archæologica*, xlvi. 1881, pp. 422, 451. *Excavations in Cranborne Chase*, A. Pitt-Rivers, iii. 4—6.

[3] *Forty Years' Researches*, pp. 111—2, J. R. Mortimer. *British Barrows*, p. 114.

[4] Pennod ii. td. 10.

[5] Nisbet's *British Forest Trees*

[6] *Archæologia*, xliii. 1871, p. 536. *Excavations in Cranborne Chase*, iv. p. 132. Pitt-Rivers.

dystiolaeth Cesar[1] fod y ffawydden a'r ffynidwydden yn anadnabyddus ym Mhrydain yn ei ddyddiau ef. Edrychir ar y dderwen, yr onen, y fedwen, yr helygen, a'r hyn a elwir yn ffawydden a ffynidwydden yr Alban fel yn perthyn yn naturiol i'r tir.[2] Rhoddai y Rhufeiniaid sylw neilltuol i amaethyddiaeth fel y gwelir oddiwrth eu gwaith yn sefydlu yr hyn a elwir y *Colonate,*[3] a bu eu dylanwad yn fawr er dadblygu amaethyddiaeth ym Mhrydain ; ond rhoddi gormod o gredyd i'r Rhufeiniwr, a bradychu anwybodaeth, ydyw awgrymu mai goroesiad o'r *colonus* Rhufeinig ydyw *taeog* y Cyfreithiau Cymreig fel y gwneir gan Ramsay.[4] Y taeogion oedd y rhai hynny, yn ol y Cyfreithiau Cymreig, na pherthynent i wyr y llwyth, y rhai na redai gwaed y tylwyth yn eu gwythienau. Gallsai y rhai hyn, mae'n wir, wedi buddugoliaethau Cunedda, gynnwys yma ac acw rai o'r *coloni* Rhufeinig. Edrychid ar y taeogion o safle y llwyth, ac nid gyda chyfeiriad at eu safle yn y gyfundrefn amaethyddol a ffynnai—"their's was a condition derived from the tribal system and not from agricultural subjection." Yr oedd rhyw elfennau cyffredin yn perthyn i'r *colonus* a'r *taeog*, ond gyrru y gymhariaeth yn rhy glos yw awgrymu y perthynent i'r un dosbarth, ac mai goroesiad o'r blaenaf yw y diweddaf. Os rhaid olrhain "bonedd" y taeogion, mwy rhesymol ydyw edrych arnynt fel disgynyddion yr hen frodorion ddalient y wlad cyn dyfod y llwythau Celtaidd.[5] Yn ol pob tebyg, gwnaeth y Celtiaid yr hen frodorion yn weision iddynt, gorfodasant hwy i gyflawni y caledwaith ar eu ffermydd, daethant yn "gymynwyr coed ac yn wehynwyr dwfr" i'w gorchfygwyr.[6] Dylanwadodd y Rhufeiniaid, nid yn unig ar gyfundrefn amaethyddol Prydain, ond hefyd ar y dull o ddal tir. Ym mysg y llwythau Celtaidd, perthynai y tir i'r llwyth neu y gwely—i gynhulliad o bobl ac nid i bersonau unigol ; ond edrychai Cyfraith Rhufain ar dir yn fwy fel eiddo personau unigol, a mabwysiadwyd y golygiad hwn i raddau gan y Celtiaid ym Mhrydain.[7]

Perthynai i Brydain beth enwogrwydd masnachol ymhell cyn dyfod y Rhufeiniaid, ar gyfrif yr arian a'r haearn, a'r alcan, a'r plwm a geid ynddi. Daeth y Phoeniciaid yn gynnar i wybod am adnoddau Prydain, a phenderfynasant fanteisio arnynt. Ffurf-

[1] *De Bello Gallico*, v. 12. Caesar. Gweler *Archæol. Journal*, lxv. p. 135 : "The interest of this find lies in the fact that it has sometimes been doubted whether the beech grew in Britain at the time of the Roman occupation."

[2] Nisbet's *British Forest Trees.*

[3] The *coloni* are farmers, originally free farmers, bound by agreement, and free to recede from that agreement after having satisfied its conditions ; ultimately farmers attached to the soil, which they cultivate in consequence of a permanent and hereditary tie, although protected by law in their personal status, the use of their holding, and the fixity of their rent. —*The Growth of the Manor*, p. 76. Vinogradoff.

[4] *The Foundations of England*, vol, i. p. 105 Ramsay.

[5] *Celtic Scotland*, iii. p. 139. Skene.

[6] *The Welsh People*, pp. 13, 39. Rhŷs and Brynmor-Jones. *The Tribal System in Wales*, iii. Section 2, pp. 51—54. F. Seebohm.

[7] One very important result of the Roman occupation of Britain was undoubtedly its powerful influence in furthering private property and private appropriation of land.—*The Growth of the Manor*, p. 52, Vinogradoff.
The Dawn of Civilization, chap. xvii. G. Hartwell Jones.

iwyd cyfathrach fasnachol cydrhwng y Phoeniciaid a'r Prydeiniaid, ac anfonid cynhyrchion Prydeinig i Tarsis ar lan yr Hispaen—un o'r trefedigaethau sefydlwyd gan y Phoeniciaid. Ar ol y Phoeniciaid, dechreuodd y Groegiaid fasnachu â Phrydain; galwyd eu sylw at gynhyrchion Prydain gan y daearyddwr Pytheas, a da oedd ganddynt hwythau cael cyfle i ffurfio cysylltiad â gwlad fyddai yn debyg o ychwanegu at eu dylanwad a'u cyfoeth. Dau gan mlynedd yn ddiweddarach na Pytheas, daeth daearyddwr arall ar ymchwil fasnachol i Brydain—Posidonius, Rhufeiniwr o genedl. Daeth, gwelodd, tystiolaethodd; a diau i'w dystiolaeth ef fod yn symbyliad mawr i Cesar ddwyn ei luoedd i Brydain. Cerid ymlaen fasnach helaeth rhwng Prydain a Gâl yn y cyfnod flaenorai ddyfodiad Cesar. Rhoddodd y Rhufeiniaid fywyd newydd i fasnach oedd yn lled flodeuog yn flaenorol. Gwnaethant hyn yn neilltuol drwy ddwyn Prydain i gyffyrddiad agosach â'r byd oddi allan; eangwyd fel hyn gylch eu gwelediad[1]; a thrwy ddwyn gwahanol rannau Prydain yn nes at eu gilydd drwy y ffyrdd rhagorol a wnaed ganddynt. Yr oedd cysylltiad yn bod yn flaenorol rhwng de a gogledd, dwyrain a gorllewin; dygir tystiolaeth i hyn gan y darnau arian perthynol i dde-ddwyrain y wlad a gafwyd yn nyffryn yr Hafren yn y gorllewin, a dyffryn y Clyde yn y gogledd, ond gwnaed y cysylltiad hwn lawer yn agosach gan y Rhufeiniaid. Ni raid ond rhoddi ychydig ystyriaeth i'r rhwydwaith o ffyrdd a wnaed ganddynt er gweled cymaint raid fod eu dylanwad er symbylu masnach y wlad. Gwnaethant lawer hefyd er sychu corsydd ac er clirio fforestydd yn y wlad.

Nid oes dim wna gymaint i wareiddio gwlad a Christionogaeth; fel yr afon welodd y prophwyd, dwg fywyd a phrydferthwch y ffordd yr el. A fu y Rhufeiniaid yn offerynau i ddwyn yr efengyl i gyrraedd y llwythau Celtaidd ym Mhrydain? Erys llawer o dywyllwch ynghylch y mater hwn.[2] Coleddir dau olygiad gyda golwg ar hyn; yn ol un dosbarth o haneswyr, ni dderbyniwyd Cristionogaeth gan yr adran Geltaidd o'r preswylwyr hyd yr hanner cyntaf o'r bumed ganrif, a mynachaeth fu yn offeryn, ac nid y Rhufeiniaid, i'w dwyn atynt y pryd hynny. Cydnabyddir gan y dosbarth hwn fod eglwys Gristionogol ym Mhrydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Profir hyn gan ffeithiau nas gellir eu gwadu. Aeth tri chynrychiolydd o Brydain i Gyngor Arles yn y flwyddyn 314, sef Eborius, Restitutus, ac Adelphius, ac mae seiliau cedyrn dros gredu fod esgobion Prydeinig yng Nghynghorau Nicæa (325), Sardica (343), ac Ariminum (359). Gwadent, fodd bynnag, fod yma eglwys Brydeinig yn cael ei gwneyd i fyny o'r elfen Geltaidd frodorol cyn y bumed ganrif, eglwys y Rhufeiniaid breswylient ym Mhrydain oedd yn hytrach. Cymer y golygiad hwn yn ganiataol

[1] The remark has been made by the Athenian philosopher that a seafaring life tends to foster the democratic spirit. This principle might be more widely applied. Then, as now, travel broke down the barriers that nature placed between country and country, or between race and race. It widened the mental vision, it facilitated mutual communication, it stimulated, if it did not produce, the versatility which proceeds from a knowledge of "the cities and the minds of many men."—*The Dawn of European Civilization*, p. 37. G. Hartwell Jones.

[2] *Councils and Ecclesiastical Documents*, vol. i. pp. 1—40. Haddan & Stubbs.

fod y Rhufeiniaid yn preswylio eu hunain, ac heb ymgymysgu â'r hen frodorion. Ategant y golygiad hwn drwy gyfeirio at enwau Rhufeinig y tri esgob gynrychiolai Brydain yng Nghyngor Arles; ond nid oes llawer o rym yn y ddadl hon pan gofier fod llawer o'r hen breswylwyr yn mabwysiadu enwau Rhufeinig o fewn y cyfnod hwn.[1] Rhoddant bwys ar nodwedd filwrol y cyfnod Rhufeinig ym Mhrydain, ac edrychant ar y gwareiddiad ddygwyd i mewn ganddynt fel wynebiad ddiflanodd gydag ymadawiad y llengoedd, cyfeiriant at yr hyn gymerodd le yn Gâl fel yn cadarnhau eu golygiad, ac at amddifadrwydd o unrhyw gyfeiriadau mewn llenyddiaeth a thraddodiadau Cymreig at eglwys Brydeinig yn bodoli cyn y bumed ganrif. Anodd derbyn y golygiad hwn, cymerir ynddo olwg rhy gyfyng ar ddylanwad y Rhufeiniaid. Cynrychiolir y golygiad hwn gan yr athrawon Zimmer, Hugh Williams, a M. Loth.[2] Cred ereill, ac yn eu mysg, Warren a Haverfield, "y bodolai y ddwy elfen—y Rhufeinig a'r Geltaidd—yn eglwys Brydeinig y drydedd a'r bedwaredd ganrif."[3] Mewn beirniadaeth ar erthygl[4] Dr. Hugh Williams, maentumia Mr. Haverfield fod yr ysgrifennydd yn cymeryd yr amhosibl yn ganiataol. Dywed yn yr erthygl, yn ymarferol, mai yr unig Gristionogion ym Mhrydain yn y bedwaredd ganrif oedd y Rhufeiniaid, wedi eu hymadawiad hwy oddeutu y flwyddyn 410, nid oedd ym Mhrydain eglwys Gristionogol o gwbl,—yr oedd bron yr oll o'r rhai adawyd ar ol yn baganiaid; ond erbyn y flwyddyn 450, yn ol yr un ysgrifennydd, yr oedd bron yr oll yn Gristionogion. Nis gellid disgwyl cyfnewidiad mor fawr mewn amser mor fyr—yr oedd y peth yn amhosibl.[5]

Bu dylanwad y Rhufeiniaid fel gallu milwrol yn fawr ac yn arhosol ar Brydain. Un o'r pethau cyntaf wnai y Rhufeiniaid yn y gwledydd orchfygid ganddynt oedd ffyrdd milwraidd ar draws ac ar hyd y wlad. Nid oedd Prydain yn eithriad i'r rheol hon. Yn *Nhaith Antoninus*, cyfeirir at bymtheg o'r ffyrdd mawrion hyn; ai wyth ohonynt drwy Lundain. Yr oedd y rhai canlynol ymysg y rhai pwysicaf o'r ffyrdd Rhufeinig: (1) Y ffordd o Lundain i Colchester, Ipswich, a Norwich, gyda changen o Colchester i Stretford, Caergrawnt, Lincoln, a Chaerefrog; (2) Y ffordd o Lundain i Verulam, Worcester (gyda changen i Ffestiniog a Chaernarfon),[6]

[1] Pennod ii. td. 14,

[2] *The Celtic Church in Britain and Ireland.* Zimmer. *The Christian Church in Wales. Trans. Soc. of Cymmrodorion* (1892—3), pp. 55—132. H. Williams. *Les Mots Latins dans des Lanques Brittoniques*, p. 30. Loth.

[3] *Celtic Liturgies*, p. 158. Warren.

[4] *The Christian Church in Wales. Trans. of Soc. of Cymmrodorion* (1892—3), pp. 55—132.

[5] We have no time for it. Mr. Williams allows it thirty years, but the result is too vast for a generation to produce. Mr. Williams' is a theory invented to explain an imaginary difficulty, and it has no proof to support it.—*The English Historical Review*, xi. 417—30, July 1896. Haverfield.

[6] Credir y ceid dwy brif-ffordd Rufeinig yng Nghymru—Sarn Helen a gychwynai o Maridunum (Caerfyrddin) ac a ai drwy Llannio, Pennal, Tomen y Mur, i Segontium (Caernarfon), a'r ffordd gychwynai o Nedum (Castell Nedd) ac a ai drwy Gastell Collen, Caersws, Mediolanum (?Meifod). Tybir yr ymunai y ddwy gangen naill ai yng nghymdogaeth Llanuwchllyn neu yn Nhomen y Mur, gyda dwy gangen drachefn o'r man cyfarfod, un i Segontium drwy Conovium a'r llall drwy Lanfrothen a Beddgelert.

Caer, Caerefrog, Caerliwelydd, gyda changen o Verulam i Leicester a Lincoln; (3) Y ffordd o Lundain i Silchester a Bristol, gyda changen o Newbury i Gaerloyw, Henffordd, ac Amwythig; (4) Y ffordd o Lundain drwy Guildford i Southampton; (5) Y ffordd o Lundain i Rochester, Caergaint, Richborough, a Dover. Yma ac acw ar hyd y ffyrdd hyn, codid amddiffynfeydd milwraidd, ac o amgylch yr amddiffynfeydd, codai yn raddol drefi a dinasoedd.[1] Gwnaed cyfeiriad yn barod[2] at y gwahaniaeth rhwng y rhanbarthau milwraidd a'r rhanbarthau dinesig o Brydain. Perthynai i gyfundrefn filwraidd y Rhufeiniaid ddau ddosbarth o amddiffynfeydd —nifer fawr o amddiffynfeydd bychain yng ngwahanol rannau y wlad, ac ychydig o amddiffynfeydd pwysig yn y rhannau yr oedd ymosodiad y gelyn yn debyg o fod yn gryfaf. Yn y rhai blaenaf, gosodid y milwyr cynorthwyol—yr *auxilia;* yn y rhai diweddaf, gosodid y llengoedd, sef y milwyr gynrychiolent yr hen fyddin o ddineswyr Rhufeinig, a'r rhai hynny oedd wedi mabwysiadu dull Rhufain o fyw, ac wedi dod i mewn i'w rhagorfreintiau. Codid yr *auxilia* nid o fysg dineswyr Rhufeinig, ond o fysg y gwahanol genhedloedd orchfygwyd gan y Rhufeiniaid.[3] Rhagorai y llengoedd o ran genedigaeth, dygiad i fyny, cymeriad, gallu i ymladd, yn ogystal ag o ran y tâl roddid iddynt am eu gwasanaeth. Yr oedd tair o lengoedd ym Mhrydain,[4]—yr *Ail Augusta* yn Isca Silurum (Caerlleon-ar-Wysg), yn Sir Fynwy; yr *Ugeinfed Valeria Victrix* yn Deva (Caerlleon-ar-Ddyfrdwy), a'r *Chweched Victrix* yn Eboracum (Caerefrog). Cynwysent o bum i chwe mil o wyr yr un; ac eithrio nifer fechan o wyr meirch wasanaethent fel ysbiwyr a brysgenhadau, gwneid y llengoedd i fyny o wyr traed. Gwneid yr *auxilia* i fyny o gwmniau bychain yn amrywio o bum cant i fil; yr oedd y mwyafrif ohonynt yn wyr traed, ond ceid yn eu mysg adran o wyr meirch. Codid hwy y rhan fynychaf yn y rhannau mwyaf cynhyrfus o'r ymerodraeth, ac yr oedd yn rhan o bolisi Rhufain i'w symud hwy o'u gwlad eu hunain i wasanaethu mewn gwledydd ereill, am y gallasent fod yn elfen o berygl i heddwch yr ymerodraeth, pe gadewid hwy yn eu hen gylch. Nid oeddynt, fel rheol yn ddineswyr Rhufeinig, ni pherthynai y ddinasfraint iddynt, ond gallent eu hennill fel gwobr gwasanaeth ffyddlawn. Yr oedd y llengoedd wedi eu gosod ar y terfynau, rhwng y rhannau yr ydys wedi eu galw y rhai milwrol a dinesig. Mewn cysylltiad â'r llengoedd hyn, oddeutu deugain o amddiffynfeydd dan ofal yr *auxilia;* perthynai i'r catrodau cynorthwyol amddiffyn y muriau oedd ar y gororau, gofalu am gadw meddiant o'r ffyrdd arweinient i'r prif amddiffynfeydd, a rhoddi i lawr derfysgoedd allai godi yn y rhannau mynyddig o'r wlad—yn y gogledd ac yn y rhannau a gyfetyb erbyn hyn i Gymru. I'r dosbarth diweddaf o amddiffynfeydd y perthyn Gelligaer, y Gaer yn Sir Frycheiniog, Caersws,

[1] The legionary fortresses collected settlers—traders, women, veterans, under the shelter of their ramparts, and their canabae or "bazaars" to use an Anglo-Indian term, formed centres of Roman speech and life, and often developed into cities.—*The Proceedings of the British Academy*, vol. ii. p. 3. Haverfield.

[2] Pennod ii. td. 6.

[3] *Agricola*, 19. Tacitus.

[4] *The Roman Forces in Britain. The Archæol. Journal*, vol. xli. pp. 244—271. W. T. Watkin.

a lliaws ereill; a da y gwneir yn edrych i mewn i'w hanes. Mae Cymdeithas Naturiaethwyr Caerdydd wedi cyhoeddi disgrifiad manwl o'r amddiffynfa yn Gelligaer.[1] "Yr oedd y gaer yn bedair-onglog; amgylchynid hi gan glawdd o bridd, gyda gwyneb o waith maen ar y tu allan ac ar y tu mewn . . . . yr oedd pedwar porth iddi, un yng nghanol pob ochr; ar bob ochr iddynt yr oedd ystafell wedi ei threfnu yn nhrwch y mur, lle y preswyliai y milwyr oedd yn gyfrifol am agor a chau y drysau." O fewn i'r gaer hon, caed olion llawer o adeiladau, ac amlwg yw iddi gael ei bwriadu yn gartref llawer o filwyr. Ni chaed, fodd bynnag, drwy yr ymchwiliadau gwerthfawr hyn unrhyw oleuni mewn perthynas i'r adran o'r fyddin Brydeinig oedd yn dal Gelligaer yn erbyn y Siluriaid; y tebygrwydd ydyw y perthynai i'r *Ail Augusta* oedd a'i chartref yng Nghaerlleon ar Wysg. Tybir iddi gael ei hadeiladu gan Julius Frontinus oddeutu'r flwyddyn 76 o oed Crist.[2] Yn ei dystiolaeth o flaen y *Welsh Monuments' Commission*, galwai yr Athro Haverfield Gelligaer "yr engraifft berffeithiaf o amddiffynfa Rufeinig ar gael." Gwneir ymchwiliadau manwl i hanes yr amddiffynfa yng Nghaersws[3] dan nawdd "Pwyllgor Lerpwl," a than arweiniad yr Athro R. C. Bosanquet, ac ail ymchwiliad i hanes yr Amddiffynfa yng Nghaerlleon ar Wysg, mewn cydweithrediad â Chymdeithas Hynafiaethwyr Sir Fynwy.[4] Nid yw'r gwaith eto ond dechreu. Da fyddai gwneyd ymchwiliad a chloddio i adfeilion lleoedd fel y Gaer yn agos i Brecon, Tomen y Mur ger Maentwrog, Cefn y Gaer ym Mhennal, Llannio yng Ngheredigion, Castell Collen ger Llandrindod, Gobannium (Abergafenny). Y talai y fath ymchwiliadau yn dda am y drafferth, ni raid ond meddwl am yr hyn fu ffrwyth cloddio ac ymchwilio cyffelyb yn Silchester, yn Cranborne Chase, yn Birrens ac ynglŷn â'r hen "villas" Rhufeinig.[5]

Wedi ystyried celfyddyd, y dull o lywodraethu, amaethyddiaeth, masnach, crefydd, a sefydliadau milwraidd ym Mhrydain yn ystod y cyfnod Rhufeinig, beth yw y casgliad raid dynnu mewn perthynas i ddylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y Cymry. Mewn cyfeiriadau materol, bu eu dylanwad yn fawr drwy y ffyrdd a wnaethant, drwy y bywyd newydd roisant ym masnach y wlad, a thrwy ddwyn i mewn gyfundrefn well o amaethyddiaeth; ond ysgafn iawn fu eu dylanwad ar ddull yr hen drigolion o fyw a llywodraethu eu hachosion. Ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid, gwelir fod y Cymry yn cadw at y sefydliadau oedd yn nodweddiadol o'r llwythau Celtaidd; nid ymddengys i gwrs cyffredin eu bywyd gael newid fawr arno. Ac nid anodd cyfrif am hyn; yng ngorllewin a gogledd y wlad ni cheid ond milwyr, a llawer o'r rhai hynny—yr

[1] *The Roman Fort of Gelligaer in the County of Glamorgan.* John Ward.

[2] *The Roman Fort of Gelligaer*, pp. 95, 96. Ward.

[3] *Cohors I Celtiberorum.* This cohort is named in both the Sydenham and Chesters *tabulæ.* No inscriptions by it have yet been found, but several tiles have occurred at the Roman Station Caersws (Montgomeryshire), inscribed C.I.C.F., evidently mentioning some cohort, which I think may be this one. I would expand the words as *C(ohors) I C(eltiberorum) F(ecit).* *The Roman Forces in Britain. The Archæological Journal*, vol. xli pp 256,257. W. T. Watkin.

[4] *Liverpool Committee for excavation and research in Wales and the Marches.* First Annual Report, 1908. Also *Excavations at Caerwent. The Archæol. Journal*, vol. lviii. pp. 93—95.

[5] *Excavatins in Cranborne Chase*, 4 vols. printed privately, 1887—98. *Excavations on the site of the Roman city of Silchester.* Fox and Hope, 1891—98.
Birrens an its Antiquities. Macdonald and Barbour, 1897.

auxilia—heb fod yn Rhufeiniaid o ran gwaed a chymeriad. Yn y de a'r de-ddwyrain yr oedd yn wahanol, yma ni cheid ond ychydig o filwyr, ac eithrio y rhai hynny oedd wedi gwasanaethu eu hamser yn ffyddlon, a breintiau dinesig wedi eu rhoddi iddynt fel gwobr am eu ffyddlondeb. Yr oedd y gweddill yn ddineswyr Rhufeinig mewn masnach, ac yn dal cysylltiad â'r llywodraeth, ac yn trefnu eu hachosion yn ol cyfraith ac arfer Rhufain.[1] Yr oedd amryw bethau yng nghyfraith Rhufain a thuedd ynddynt i gadw y rhai fynnai fyw yn ei hol yn ddosbarthiadau breintiedig, ac i'w lluddias i ymgymysgu â'r rhai nad oeddynt ddineswyr Rhufeinig. Ymysg y rhai hyn, gellir nodi y gyfraith mewn perthynas i briodas—*jus conubii.* Ni chaniateid i Rufeiniwr briodi wrth ei ewyllys, ac yn neilltuol ni chaniateid i un yn un o'r talaethau, ac yng ngwasanaeth y llywodraeth, briodi estron tra y parhai tymor ei wasanaeth ; ond gallai drwy drefniad neilltuol sicrhau hyn ar derfyn ei dymor gwasanaeth. Drachefn, yr oedd gan y Celtiaid hwythau eu *jus conubii* oedd yn rhwystr iddynt yr un modd briodi estron. Dylanwadai y gyfraith mewn perthynas i fasnach—y *jus commercii*—yn gyffelyb. Yr oedd anhawsterau lawer ar y ffordd i'r ddeubar bobl ymdoddi i'w gilydd, ac y mae'r ffeithiau cliriaf yn erbyn credu iddynt ymdoddi i'w gilydd. Gosodir allan y Cymry yn cymeryd rhan flaenllaw yn erbyn yr Eingl a'r Saxoniaid yn y cyfnod ddilynodd ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain ; a phrawf yr ymosodiadau a wnaed ganddynt ar arfordiroedd Ffrainc, a'u gwaith yn gorchfygu Llydaw, a rhannau helaeth o'r wlad ar hyd glannau yr afon Loire, nad oes sail i'r dybiaeth i'w bywyd cenedlaethol gael ei lyncu i fyny ym mywyd eu gorchfygwyr Rhufeinig. Rhaid addef, fodd bynnag, i ddylanwad y Rhufeiniaid fod yn llwyr iawn o fewn y trefi sefydlwyd ganddynt, ac yn y rhanbarthau a'u cylchynent. Olion bywyd Rhufeinig ddaw i'r golwg mewn trefi fel Silchester, a gellir dweyd yr un peth am dai y tirfeddianwyr—y *villas* Rhufeinig—y ceir engreifftiau mor ragorol ohonynt yn Bignor, Darenth (Kent), Woodchester, ac Andover. Ni ddarganfyddwyd hyd yma olion *villas* fwy i'r gogledd nag Alborough (Isurium) yn Yorkshire, na mwy i'r gorllewin na Llanilltyd Fawr yn Sir Forgannwg, ac yn Ely[2] yn agos i Gaerdydd. Meddyliwyd unwaith fod ym Mhendarren, yn agos i Ferthyr Tydfil, olion *villa*, ond nis gellir edrych ar hyn fel ffaith wedi ei sefydlu.[3]

[1] The colony was another Rome transferred to the soil of another country . . . and the Roman law with all its formal usages was transferred unchanged to the provinces.—*The Governance of London*, p. 20. Gomme.

[2] At Ely, near Cardiff, the Roman "villa," discovered last spring has been further excavated by Mr. Storrie and the Cardiff Naturalistic Society. There appears to have been some prehistoric dwelling on the site, and subsequently a large Roman house, which was succeeded according to the excavators, by a smaller Roman house. The walls are thick and plastered ; the pavements of coarse red tesserae, or concrete, or earth ; while the lesser finds include coins, fibulæ, glass, pottery.—*Antiquary*, xxx. p. 208.

[3] At Penydarren House, close to the Railway Station Merthyr Tydfil, there was a find—the remains include a hypocaust, many tiles, pipes and among small objects, some samian and many black potsherds, a bronze ornament, some oxidized sheetlead and other indications of Roman life. The whole has been generally explained as a "villa," but it is possible that the finds belong to a fort which would certainly have a hypocaust in its bath-house. Merthyr lies outside the area occupied by Roman civilian life,and it is not itself a very lively spot for a "villa" ; and on the other hand the Roman road from Cardiff and Gelligaer to Brecon (y Gaer) must have passed near it. Excavations, however, can alone decide the point.—*Antiquary*, xxxviii. pp. 376, 377.

PENNOD IV.

DYLANWAD Y RHUFEINIAID AR WAEDOLIAETH Y CYMRY.

Os anodd ffurfio syniad clir am yr hyn fu dylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y Cymry, anhawddach fyth ydyw penderfynu beth fu eu dylanwad arnynt mewn ystyr genedlonol. Gan ei anhawdded, a chan brined y defnyddiau er ein galluogi i ffurfio syniad am dano, amheua rhai a ellir ei ystyried yn gwestiwn ymarferol.[1] Cydnabyddir anhawsder y cwestiwn ar bob llaw.[2] Yr ystyr roddir gennym i'r gair gwaedoliaeth yn y cysylltiad hwn ydyw y nodweddion etifeddwyd gan y Cymry oherwydd i'w hynafiaid ddyfod i gysylltiad â'r Rhufeiniaid. Ychydig fu y dylanwad hwn. Yr oedd y Rhufeiniaid a'r bobl ddaeth yn ddiweddarach i gael eu hadnabod fel Cymry yn rhy debyg i'w gilydd, ac yn berthynasau rhy agos i'w gilydd mewn ystyr genedlonol, i'r dylanwad fod yn fawr. Perthynai y Celtiaid—y cyff y disgynnai y Cymry ohono—i'r un teulu mawr a'r Rhufeiniaid, y teulu gynhwysai y bobl breswyliai y gwledydd o amgylch Mor y Canoldir—y *Mediterranean Race* fel y'i disgrifir gan Sergi ; ac oherwydd hyn, anodd mesur eu dylanwad ar waedoliaeth y Cymry. Yr oedd y *type* yn barod ym Mhrydain.[3] Disgrifir y *Mediterranean Race* fel dynion byrion, eiddil, pennauhirion, gwallt-ddu, llygad-ddu ; a dyma nodweddion anianyddol y bobl ddaeth i Brydain yn gynnar yn "oes y cabolfeini," ac oherwydd hyn amhosibl ydyw penderfynu faint o nodweddion anianyddol y Cymry ddylid olrhain i'r bobl ddaeth i Brydain yn "oes y cabolfeini," a faint i'r rhai ddaeth yma yn y cyfnod Rhufeinig. Gellir dweyd y perthynai y Rhufeiniaid pur i'r hyn a elwir y "cenhedloedd clasurol." Ceid yn y rhai hyn gyfuniad o nodweddion y *Mediterr-*

[1] "Your subject is a very difficult problem, I am not even sure that it is an actual problem," Professor J. Arthur Thomson, mewn llythyr at yr ysgrifennydd.

[2] A man is what he is at any period of life, first, by virtue of the original qualities which he has received from his ancestors, and secondly, by virtue of the modifications which have been effected in his original nature by the influence of education and conditions of life. But what a complex composition of causes and conditions these simple statements imply. —*Pathology of Mind*, p. 87. Maudsley.

[3] To return to Britain. The foundation of our population is the early neolithic invasion or rather spread of mankind from the south northward as the climate improved after the Ice Age and whilst Britain was still a part of the continent. These early neolithic settlers were of the Mediterranean type. From this it will be seen that the most probable trace of Roman influence in British inheritance would be the occurrence of the Mediterranean type in Britain, but that type is already abundant for other reasons, so we cannot gauge the influence of the Romans in this respect.—Professor H. J. Fleure.

anean Race,[1] ond wedi eu tymheru gan nodweddion pobl fwy gogleddol; dyma y Rhufeiniaid pur—*the classical Roman type;* a gellir dweyd yn ddibetrus mai ychydig iawn fu ei ddylanwad ar waedoliaeth y Cymry. Mae pob seiliau i gredu mai ychydig iawn o'r dosbarth diweddaf ddaeth i Brydain, ac wedi eu dod, fel y gwelwyd,[2] yr oedd cyfraith Rhufain mewn perthynas i briodas âg estroniaid yn rhwystr iddynt ffurfio cyfathrach â'r rhai y deuent i'w mysg, ac felly rhaid fod eu dylanwad, mewn ystyr genedlonol, yn fychan iawn. Milwyr oedd toreth y bobl ymsefydlasant ym Mhrydain yn y cyfnod Rhufeinig. Daw y cwestiwn i'w ystyried, gan hynny, yn ymarferol i hyn—Pa fodd y gwneid i fyny y byddinoedd Rhufeinig y pryd hyn? Beth oedd cyfartaledd y Rhufeiniaid pur yn y fyddin? Gwneid i fyny y llengoedd, o Rufeiniaid neu rai wedi ennill drwy wasanaeth ffyddlawn, freintiau dineswyr Rhufeinig. Cyfyngid y llengoedd, yn ymarferol, i dri lle, Isca Silurum, Deva, ac Eboracum, ac felly nis gallent hwy ddylanwadu ond ar gylch bychan o'r wlad. Gwneid y catrodau cynorthwyol—yr *auxilia*—i fyny o wahanol elfennau; ychydig o waed Rhufeinig oedd ynddynt,[3] ac amhosibl oedd iddynt fod yn offerynau trosglwyddiad nodweddion Rhufeinig i'r rhai y ffurfient gyfathrach â hwy. Dyna dystiolaeth y rhai edrychant i mewn i'r matur o safle dyneg—

[1] The foundation of the population of the Mediterranean Countries is a long-headed, dark-haired, dark-eyed, sparely built type, and, in the formation of the classical nations, they were subdued by more northerly types. Probably the typical "Roman" physiognomy was that of a dominant military caste, Mediterranean with some other elements as well, but no doubt among the common soldiery there would be a large number of Mediterranean individuals.

[2] Pennod iii. td. 27.

[3] The proportion of true Italian blood in the Roman army in Britain was small compared with German, Spanish, and other barbarian elements. Professor R. C. Bosanquet.

Armee de Bretagne (an. 124) 846.

Legio	ii.	Augusta.
	vi.	Victrix.
	xx.	Valeria Victrix.
Ala	i.	Hispanorum Asturum. An inscription found bearing this name at Gaer, near Brecon.
	i.	Qu . . . . u alis.
		Picentia.
		Petriana.
Cohors	i.	Hispanorum.
	i.	Frisiasorum.
	i.	Hamiorum Sagittariorum.
	i.	Vangionum Miliaria.
	i.	Baetasiorum.
	i.	Delmatarum.
	i.	Tungrorum Miliaria.
	iii.	Bracaraugustanorum.
	ii.	Lingonum.
	i.	Aquitanorum.
	i.	Menapiorum.
i.		Ulpina Trajana Cugernorum Civium Romanorum.
i.		Fida Vardulorum Civium Romanorum.
i.		Batavorum.
ii.		Asturum. Inscriptions bearing the name of Cohors ii. Asturum have been found at Llanio and at the neighbouring church of Llanddewi Brefi.
ii.		Dongonam.
ii.		Nerviorum.
iii.		Nerviorum.
vi.		Nerviorum . . . . Civium Romanorum.

Daremberg et Saglio Dictionnaire Des Antiquités. Tome 2, p. 916.

anthropology. Ar hyn, dywed Dr. Beddoe[1]—"The *Notitia Imperii*[2] shows us that bodies of Syrians, Cilicians, Spaniards, Moors, Thracians, Dalmatians, Frisians formed the military colonists of the stations of Britain; and when the emperors themselves were often not of Italian birth, and the most trusted officers and governors were provincials or even barbarians, we have no reason to suppose *that any notable proportion of genuine Roman blood found its way to this country.* . . . . It is of some importance in explaining the disappearance in most cases of all traces of the blood of these colonists, a disappearance which may also depend, in part, on the heterogeneous character of the Romanized population taken *en masse*, which would render its potency in breeding very inferior to that of a comparatively uniform, and pure bred race like the British rural population among which it was dispersed." "The Roman occupation, it is generally admitted, can have made little difference in the racial characteristics of Britain."—*Y Cymmrodor*, vol. viii. p. 6. Isambard Owen. I gasgliad cyffelyb y daw Professor Huxley mewn perthynas i ddylanwad y Rhufeiniaid ar waedoliaeth y Cymry,[3] a'r un modd Professor Boyd-Dawkins—"So far as I know, the Roman Conquest made little difference in the ethnology of this country. There were no great displacements of people. The iron hand of the military power prevented the Belgae from driving away the Celts, as they were doing when Caesar first found them. So that really, *ethnologically, the influence of Rome on the people of this country may be taken to be next to nothing*, and is in wonderful contrast to the vast influence of Rome exercised on the civilisation of this country."[4] Mae y casgliad y daw yr Athro Boyd-Dawkins iddo dipyn yn ysgubol, hwyrach mai gwell fuasai dweyd fod y maes eto heb ei chwilio yn ddigonol i gyfreithloni unrhyw ddatganiad pendant, y naill ffordd na'r llall. Dyma gyfle rhagorol i ddyneg a gwyddoreg pennau i wneud gwaith rhagorol. Da ydyw gweled fod Prifysgol Cymru yn dechreu symud yn y mater hwn. Ers rhai tymhorau bellach, mae yr Athro H. J. Fleure wedi bod yn gwneyd ymchwiliadau ac arbrawfiadau yng ngwahanol rannau canolbarth Cymru, gyda'r bwriad o gael allan y gwir mewn perthynas i'r cwestiwn hwn. Mae ef wedi dangos y ffordd i eraill i'w ddilyn. Onid ellid cychwyn rhywbeth tebyg yng Ngogledd Cymru, ac yng Ngwent a Morgannwg—rhanbarthau mor gyfoethog mewn olion Rhufeinig?[5] Ymchwiliad manwl sydd yn angenrheidiol, ac nid tynnu ar y dychymyg fel y gwneir yn y dyfyniadau a ganlyn: "In these remote sites of Roman Wales I am disposed to think it just possible that the Roman element may still linger. Many of the inhabitants of the parish of Conwyl Caio, between Llandovery and Lampeter . . . . consider themselves as the descendants of

[1] *Races of Britain.*

[2] A gyfansoddwyd ychydig flynyddoedd cyn ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydain, oddeutu y flwyddyn 400.

[3] *Journal of the Ethnological Society.* New Series. Vol. ii. pp. 384—6.

[4] *The Ancient Ethnology of Wales. Y Cymmrodor*, vol. v. p. 219.

[5] Gellir disgwyl llawer o oleuni ar y cwestiwn hwn oddiwrth ymchwiliadau yr *Ethnological Survey Committee of the British Association.*

a Roman colony, many of them pride themselves on their Roman descent, and Roman names are extremely prevalent among them . . . . . The name Conwyl Gaio or Cynvyl Gayo has been supposed to mean the advanced host of Gaius."[1] "I have observed features in the peasantry at Caersws wholly at variance with those of the surrounding Welsh. Apart, however, from these mere fragmentary remnants of that great people, I believe the Romans left nothing behind them but the architectural relics of their art, and the palsying influence of their luxuries."[2] Rhaid derbyn y datganiadau hyn gyda chryn lawer o halen y ddihareb. Nid ydynt, a dweyd y lleiaf, yn ffrwyth ymchwiliadau manwl; mae ffordd fwy rhagorol. Gellid cychwyn yr ymchwiliad mewn lleoedd fel Caerlleon ar Wysg, Segontium, Caersws,[3] Gelligaer, Llanio, Mediolanum (? Meifod), Speen yn Berkshire, Kentchester yn Sir Henffordd, Wroxeter yn Sir Amwythig, Catterick, drwy ymholi a sylwi a oes rhywbeth yn ymddangosiad a nodweddion preswylwyr y lleoedd hyn yn awgrymu tarddiad Rhufeinig neu yn dwyn delw dylanwad Rhufain. Er engraifft, pe ceid fod preswylwyr Speen o liw tywyll, tra y mae trigolion Berkshire, fel rheol, o bryd goleu, naturiol fyddai ymholi pa fodd i gyfrif am y gwahaniaeth hwn. A ellid olrhain hyn i ddylanwad y Rhufeiniaid? Mor bell ag yr aeth ymchwiliadau yr Athro H. J. Fleure, Aberystwyth, mewn lleoedd fel Llanio a chymydogaethau Caerfyrddin—lleoedd o gryn bwysigrwydd yn y cyfnod Rhufeinig—ni chafwyd unrhyw seiliau i gredu i'r Rhufeiniaid ddylanwadu fawr ar waedoliaeth y Cymry, ond nid yw yr ymchwiliadau hyd yma ond cychwyn, ac felly mae'n rhy fuan i dynnu llawer o gasgliadau oddiwrthynt.

"COEL."

[1] *Cambrian Register*, vol. iii. p. 39.

[2] *Archaeologica Cambrensis*, vol. ix. (1854). Jellinger C. Symons.

[3] One might expect Caersws to have been what Gelligaer apparently was, a small fort built in the early days of the Roman Conquest to facilitate the subjection of the Welsh hill tribes.—*Antiquary*, xxxvii. 342—343.

CYNYRCHION EISTEDDFODOL O DAN OLYGIAETH
E. VINCENT EVANS (*Vinsent*).

Hanes Mynachdai Gogledd Cymru hyd eu diddymiad. . . . .

Gan y Parch. D. D. WILLIAMS.

CYHOEDDEDIG GAN

"Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol."

LERPWL:
Argraffwyd (dros y Gymdeithas) gan HUGH EVANS A'I FEIBION, Swyddfa'r "Brython"
1913

NODIAD.

I'r traethawd a ganlyn y dyfarnodd y Beirniaid—yr Hybarch Archddiacon Thomas, F.S.A., a'r Parch. John Fisher, B.D.—y wobr o Ddeg Gini a gynygiwyd ynglŷn â'r testyn yn Eisteddfod Genedlaethol 1908 (Llangollen).—[E. VINCENT EVANS.]

CYNHWYSIAD.

PENNOD I.

Mynachaeth.

Mynachaeth. O ba le y daeth i Brydain ? Gwahanol ffurfiau ar Fynachaeth. Yr urddau Mynachaidd ; Urdd Clugny ; Urdd Cistercia ; Canoniaid Rheolaidd—Canoniaid Awstin ; yr urddau Cardod : byr hanes am yr urddau hyn, eu nodau gwahaniaethol.....1

PENNOD II.

Y Mynachdy.

Y Mynachdy ; gwahanol rannau, eglwys, clwysdy, hundy, gwesty, etc.; Prif swyddogion y mynachdy : Abad, gorchwyliwr, pobydd, etc. Cyfansoddiad llywodraethol : abaty, priordy, y gwahaniaeth rhyngddynt ; bywyd y cwfeniaid ; perthynas yr esgob a'r mynachdy ac a'r cwfeniaid ; y myneich a'r clerigwyr ; bywyd mewn mynachdy.....7

PENNOD III.

Mynachdai Gogledd Cymru—Y Cyfnod Cyntaf.

Bangor Iscoed, Ynys Enlli, Clynnog Fawr yn Arfon, Caergybi, Llanelwy, Bangor Deiniol, Clwyd, Beddgelert : eu hanes, cyfeiriadau atynt yn ein llenyddiaeth 12

PENNOD IV.

Mynachdai Gogledd Cymru—Yr Ail Gyfnod.

Y gwahaniaeth rhwng De a Gogledd Cymru yn niwedd yr unfed ganrif ar ddeg : y De i raddau mawr dan ddylanwad y Normaniaid, y Gogledd yn cadw ei hanibyniaeth : mynachdai Deheudir Cymru yn cael eu sefydlu gan y Normaniaid, mynachdai'r Gogledd ac eithrio Basingwerc gan y tywysogion Cymreig. Aberconwy, Basingwerc, Llanegwestl, Ystrad Marchell, Cymmer, Llanfaes, Penmon : eu hanes, cyfeiriadau llenyddol 26

PENNOD V.

Sefydliadau Mynachaidd.

Sefydliadau addysgol, sefydliadau elusenol : Rhuddlan, Rhuthyn, Dinbych, Bangor yn Arfon, Llan llugan, Gwytherin, Ysbytai Marchogion Ieuan Sant,—*Knights Hospitallers of St. John of Jerusalem* 40

PENNOD VI.

Y gwasanaeth wnaed i'r genedl gan y Myneich.

Ein dyled fel cenedl yn fawr iddynt; gofalasant am grefydd, gwnaethant lawer er addysgu y wlad, buont yn nodded i'n llenyddiaeth; gofalasant am hen lawysgrifau gwerthfawr, cadwasant gofnodion o ddigwyddiadau pwysig gymerent le o'u hamgylch; buont yn swcwr i dlodion y wlad pan nad oedd un ddarpariaeth er eu cynorthwyo; cadwyd ysbryd celf yn fyw ganddynt; gwnaethant lawer er gwella amaethyddiaeth ac er meithrin lletygarwch, y mynachlogydd oedd gwestai y wlad o fewn eu cyfnod, ac wrth adael y gwesty ni byddai dim i'w dalu; gwasanaethent yn achlysurol fel ariandai i'r wlad. 45

PENNOD VII.

Eu dirywiad a'u diddymiad.

Y Dadeni,—ei ddylanwad ar fynachaeth: yr urddau cardod yn dirywio—yn colli yr ysbryd hunanymwadu a'i nodweddai hwy unwaith. Lolardiaeth—ffurf ar gymdeithasiaeth—ysbryd beirniadu yr eglwys a'r wladwriaeth. Y Diwygiad Protestanaidd: Harri viii. a Chromwell. Dirprwyaeth i edrych i sefyllfa y mynachlogydd. Eu diddymiad; rhannu'r yspail..... 49

Y llyfrau yr ymgynghorwyd a hwynt.

RHESTR o'r llyfrau yr ymgynghorwyd â hwynt; lle y bernir hynny yn angenrheidiol nodir yr argraffiad.

Annales Cambriæ. Y Cymmrodor, ix. 1888.
Archæologia Cambrensis.
Apollinaris Sidonius : Mon. Ger. Hist.
Baedae Opera, Plummer. Oxford 1896.
Brut y Tywysogion, Rhys and Evans. 1896.
Cambridge History of English Literature, The : Ward and Waller. Cambridge, 1907.
Cefn Coch MSS, The. Fisher. Liverpool. 1899.
Celtic Church of Wales, The. J. W. Willis Bund. London, 1897.
Celtic Review, The.
Celtic Britain. Rhys. Llundain, 1884.
College Histories—University of Wales. W. C. Davies and W. Lewis Jones. London, 1905.
Councils and Ecclesiastical Documents relating to Great Britain and Ireland. Haddan and Stubbs. Oxford, 1869.
Cymmrodor, Y. Cylchgrawn Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion. Llundain.
Cyff Beuno, Eben Fardd. Tremadog, 1863.
Dafydd ab Gwilym, Gweithiau. Cynddelw. Liverpool, 1873.
Dictionary of National Biography.
Eminent Welshmen. Williams.
Empire and the Papacy, The. T. F. Tout. London, 1903.
English Monastic Life. F. A. Gasquet. London, 1904.
Elucidarium, The, and other Tracts in Welsh from Llyvyr Agkyr Llanddewivrevi. J. Morris Jones and John Rhys. Oxford, 1894.
England in the Age of Wycliffe. G. M. Trevelyan. London, 1904.
Friars, The Coming of the. Augustus Jessopp. London, 1905.
Giraldus Cambrensis. Introduction by W. Llewelyn Williams. London, 1908.
Gorchestion Beirdd Cymru. Rhys Jones. Caernarfon (Dim dyddiad).
Gweithiau Lewis Glyn Cothi. Tegid a Gwallter Mechain. Rhydychen, 1837.
Geiriadur Dr. Davies, Mallwyd. Llundain, 1632.
Historia Ecclesiastica Baedae. Plummer. Oxford, 1896.
History and Antiquities of the town of Aberconwy and its neighbourhood. Robert Williams. Denbigh, 1835.
History of the Friars School, Bangor, The. Barber and Lewis. Bangor, 1901.
Historia Anglicana. Thomas Walsingham.
Historical Lectures and Addresses. Creighton. London, 1903.
History of the Welsh Church, A. Newell. London, 1895.
Hibbert Lectures, 1883, *The.* Charles Beard. London, 1903.
Islwyn, Gweithiau. O. M. Edwards. Gwrecsam, 1896.
Iolo MSS.
Leland's Itinerary in Wales. L. Toulmin Smith. London, 1906.
Life of St. Winifred. Prior Robert of Shrewsbury.

Liber Landavensis, The. W. J. Rees. Llandovery, 1840.
Lives of the British Saints. S. Baring-Gould and John Fisher. London, 1907.
Meaning of History, The. Frederic Harrison. London, 1894.
Monasticon Anglicanum. William Dugdale. London, 1655—73.
Mediæval Wales. A. G. Little. London, 1902.
Notitia Monastica. Thomas Tanner. London, 1744.
Newman's Historical Sketches.
Oxford Studies in Social and Legal History. General Editor, Vinogradoff. Vol. I. Valor Ecclesiasticus, Savine. Oxford, 1909.
Old Churches of Arllechwedd, The. Herbert L. North. Bangor, 1906.
Peckham's Register. C. T. Martin. London, 1882—85.
Pennant's Tours in Wales. John Rhys. Caernarvon, 1883.
Portionary Churches of Mediæval North Wales, The. A. N. Palmer. Wrexham, 1886.
Red Book of Hergest, The. Vol. i. Rhys and Evans. Oxford, 1887.
Rymer's Fœdera.
St. Asaph, The Diocese of. D. R. Thomas. London, 1874.
Stephens' Literature of the Kymry. Llandovery. 1849.
Speculum Ecclesiæ. Brewer. London.
Tribal System in Wales, The. Frederic Seebohm. London, 1904.
Wales : The Story of the Nations. Owen Edwards. London, 1902.
Welsh Abbeys, Being Short Accounts of their Abbots, Lands, Buildings and Churches. John A. Randolph. Carmarthen, 1905.
Yn y Lhyvyr Hwnn, a Ban o gyfreith Howel. J. H. Davies. Bangor, 1902.

Hanes Mynachdai Gogledd Cymru hyd eu diddymiad.

PENNOD I.

MYNACHAETH.

Un o'r llinellau amlycaf yn hanes yr Eglwys Geltaidd ydyw Mynachaeth; astudier ei hanes yng Nghymru, yn yr Iwerddon, yn Scotland, neu ar y Cyfandir, a cheir fod hon yn elfen gyffredin. Ymgyfyd y cwestiwn—O ba le, a pha adeg, y daeth Mynachaeth gyntaf i Brydain? O berthynas i'r lle y daeth ohono ceir dau olygiad—yr Aipht a Deheudir Ffrainc. Nid llawer o wahaniaeth sydd rhwng y ddau olygiad; gellir edrych ar fynachaeth yr Aifft yn dod i Brydain drwy fynachaeth Deheudir Ffrainc, a ffurfiwyd ar gynllun un yr Aifft. Yr oedd John Cassian y gwr sefydlodd Fynachaeth yn Neheudir Ffrainc, wedi treulio llawer o amser yn yr Aifft ac wedi ei swyno yn fawr gan gyfundrefn y wlad i ddatblygu y bywyd crefyddol, fel y dengys ei weithiau—*De Institutis Cœnobiorum* a'r *Consolationes Patrum*. Planhigyn o'r Aifft oedd yr un blanwyd gan John Cassian ym Massilia, a phlanhigyn cyffelyb o'r un lle oedd yr un roddwyd i lawr gan Honoratus yntau yn Lerins. Deuwn i'r casgliad ddarfod i fynachaeth ddod i Brydain o Ddeheudir Ffrainc—Massilia a Lerins, ac i'r lleoedd hyn dderbyn eu cynllun a'u hysbrydiaeth o'r Aifft. Ceir ffurf wahanol ar Fynachaeth yng Ngogledd Ffrainc—ffurf a delw Martin o Tours arni—ond yn hyn dilynodd Prydain John Cassian yn hytrach na Martin o Tours. Pa bryd y daeth Mynachaeth i Brydain? Ni cheir unrhyw dystiolaeth ei bod yma cyn dechreu y bumed ganrif, a thegi ydyw casglu ei bod wedi ei sefydlu cyn ymweliad Germanus â'r wlad hon yn y flwyddyn 429, a'i ail ymweliad yn y flwyddyn 447; pe na buasai Mynachaeth wedi ei sefydlu anodd ydyw credu y buasai ef yn gadael hyn yn ddisylw, ac y buasai y gwr ysgrifennodd hanes bywyd Germanus yn peidio cofnodi pwysiced ffaith. Dywedir i Ffaustus ddod o Brydain i Fynachdy Lerins cyn i Honoratus adael y lle yn 426; yr oedd Ffaustus y pryd hyn o un ar bymtheg i ddeunaw oed yn ol tystiolaeth Engelbrecht.[1]. Awgrymir dau beth gan hyn: fod Mynachaeth wedi rhoddi ei throed i lawr ym Mhrydain cyn 426, ac fod cydymdeimlad rhwng Mynachaeth Prydain a'r ffurf a geid ar Fynachaeth yn Neheudir Ffrainc. Disgrifir Riocatus fel

[1] Engelbrecht's *Fausti Opera*, Prolegomena, iv—xi.

un o'r un wlad a Ffaustus, ac fel esgob a mynach ; daeth yntau o Brydain i Ddeheudir Ffrainc oddeutu'r flwyddyn 450.[1] Yng ngoleuni y ffeithiau hyn, gellir edrych ar y deugain mlynedd cyntaf o'r bumed ganrif fel y blynyddoedd y sefydlwyd Mynachaeth ym Mhrydain.

Wrth ddatblygu yn raddol cymerodd Mynachaeth wahanol ffurfiau ; ar y cyntaf ymddengys mai'r syniad llywodraethol oedd bywyd o neillduedd ; ymffurfio yn gyfundeb er mwyn ymarfer y dyledswyddau o hunanymwadu, myfyrio, gweddio ; yr oedd pob peth ganddynt yn gyffredin, a phawb yn rhwym i roddi ufuddod i'r gwr osodwyd yn ben arnynt—yr abad. Yr oedd yr holl drefniadau wedi eu ffurfio fel ag i fod yn gwrs o ddisgyblaeth er dadblygu y bywyd crefyddol o fewn y mynachdy ei hunan. Yn ddiweddarach cymerodd Mynachaeth olwg uwch ar ei chenhadaeth ; tywynnodd y gwirionedd ar ei meddwl mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wella ei hunan oedd drwy ymdrech i wella eraill. O gredu hyn, daeth y mynachdy yn ysgol. Cymerodd Illtud y blaen gyda hyn yng Nghymru. Sieryd Gildas yn uchel am Illtud yn y cymeriad hwn, disgrifir ef ganddo fel "dysgawdwr gwych braidd yr oll o Brydain"[2]; yn y mynachdai dysgid yr ieuanc a'r rhai mewn oed mewn crefydd a materion cyffredin. Cyfeiria Alcuin at Gildas fel "y mwyaf athrylithgar o ysgol Illtud Sant." Deuai nifer fawr i'r ysgolion hyn : yn ol tystiolaeth "Llyfr Llandaf,[3]" yr oedd gan Ddyfrig ddwy fil o dan ei ofal yn Henllan-ar-Wy ; yr oedd dwy fil a chant yn derbyn eu haddysg un adeg ym Mangor Is Coed ; a dwy fil a phedwar cant yn Llanilltud Fawr ; gwneid gwaith cyffelyb yn Nhŷ Gwyn Mynyw, ac ym Mangor Deiniol. Yn y trydydd cyfnod yn hanes Mynachaeth, gwelir tuedd i fyned yn ol at y bywyd nodweddai y gyfundrefn ar y cychwyn ; yn y cyfnod cyntaf ceid cyfundeb o bobl yn ceisio neillduedd oddiwrth y byd oddiallan, yn y trydydd cyfnod ceir yr un peth gan bersonau neillduol—yr unig yn chwilio am neilltuedd er cael mantais i fyw y bywyd uwch. Dyma gyfnod yr ancr a'r meudwy—cymerai i mewn gyfnod maith ; ond gellir dweyd iddo ddechreu yn ystod yr hanner olaf o'r chwechED ganrif. Achosai y mudiad hwn bryder i garedigion Mynachaeth ; anfonodd Columbanus at y Pab Gregori Fawr i gael ei farn ef ar hyn, ac ysgrifennodd Finian at Gildas er cael ei gyngor gyda golwg arno. Ai y myneich yn y cyfnod hwn i leoedd anghyfanedd i breswylio, ond nid y rhai a wnaent hyn oedd y dosbarth pwysicaf o'r meudwyaid, ond y rhai wnaent iddynt gell o fewn y tir berthynai i dylwyth y Sant.[4] Dywedir na chafwyd prawf o fodolaeth yr un o'r celloedd hyn yng Nghymru,[5] ond gall hynny fod o ddiffyg chwilio yn briodol am danynt.[6] Perthyn pwysigrwydd neilltuol i'r

[1] *Apollinaris Sidonius*, Mon. Ger. Hist., viii. 157.

[2] *Gildas, De Excidio Brit.* cc 33—36.

[3] *Liber Landavensis*, td. 324.

[4] "The real anchorite was the one who did not leave the territory of the tribe of the Saint, but built himself a cell or enclosure on it, in which he dwelt, and out of which he rarely came." *The Celtic Church of Wales*, p. 169 : J. W. Willis Bund.

[5] Sonir am "guddygl meudwy" yn y Mabinogion. *Mab. Red Book of Hergest*, vol. i. p. 211.

[6] *The Celtic Church of Wales*, p. 169 : J. W. Willis Bund.

mudiad hwn, am y cydnabyddid ynddo yr egwyddor y gellir rhannu esgobaeth a'i gwneud yn nifer o henaduriaethau. Y cyfnod hwn, o bosibl, ddyry gyfrif am y *Llanau* a'r *Cilau* geir fynyched ynglŷn âg enwau lleoedd yng Nghymru.

Y pedwerydd cyfnod yn hanes Mynachaeth ydyw yr un y gwelir y myneich yn troi yn genhadon ynddo. Gwelwyd gogwydd yn y cyfeiriad hwn yn gynnar yn hanes Mynachaeth,—cymerodd afael yng Ngholumbanus a Samson, a pherffeithiwyd y syniad yn hanes y Brodyr Cardod. Dengys Samson wrth ysgrifennu at ei ewythr eanged oedd ei syniad am fywyd mynach—bywyd ydyw iddo ef o dreulio ac ymdreulio er mwyn eraill,—bywyd o grwydro o le i le gan bregethu i'r bobl yn yr iaith a ddeallant, gan sefydlu mynachdai, gan iachau y rhai cleifion, a chan wrando yn amyneddgar ar yr achosion ddygir ger ei fron, a chan eu hateb yn addfwyn a boneddigaidd.[1] Ceir yr un nodyn yn ysgrifeniadau Gildas—galwad i fywyd o weithgarwch, galwad i ymdreulio er lles eraill; yr hen syniad am fywyd mynach oedd un yn gwneud ei oreu i gadw ei enaid ei hun; syniad diweddarach ydyw un yn ymroi i fod yn foddion i achub eneidiau eraill.

Perthynai i Fynachaeth yr Eglwysi Celtaidd ffurfiau a'u gwahaniaethai oddiwrth Fynachaeth Eglwys Rhufain; nid ar yr un llinellau yr ymddatblygent; y cwrs ddilynid gan Eglwys Rhufain oedd hwn: cyfnod y meudwy i ddechreu, cyfnod yr ysgol yn ol hynny, ac yn ddiweddaf cyfundeb o bobl dan reolaeth yr abad; ond dechreuai yr Eglwysi Celtaidd lle y diweddai Eglwys Rhufain: cychwynent hwy drwy ymffurfio yn gyfundeb, wneid i fyny o feibion a merched, er amddiffyn eu gilydd ac er cyffroi y naill y llall i'r hyn oedd dda, yna daeth cyfnod yr ysgol, ac yn ddiweddaf y cyfnod pan droai y myneich yn genhadon,—yr oedd i Fynachaeth yr Eglwysi Celtaidd ddigon o nodweddion gwahaniaethol i gyfiawnhau'r casgliad mai nid ffurf mohoni ar gyfundrefn Benedict, ond cynnyrch y tir—y meddwl Celtaidd yn penderfynu ar ffurf i grefydd ddatblygu ynddi yn unol â'i anianawd ef. Ni pherthynai i Fynachaeth Geltaidd unrhyw "reol buchedd" fel yr un y cysylltir enw Benedict â hi; gwir y ceir "rheol Columba," ond math o ddatganiad oedd hon o'r hyn oedd ddymunol a da, yn hytrach na rheol fanwl ag yr oedd yn rhaid cadw ati. Dylid, fodd bynnag, wneud eithriad o'r myneich Celtaidd ar y Cyfandir—ymrwyment hwy i gadw "rheol Columba." Drachefn, ni phroffesai myneich yr Eglwysi Celtaidd fod arnynt unrhyw rwymedigaeth i ymgadw rhag priodi—llinell oedd mor nodweddiadol o Fynachaeth Eglwys Rhufain. Yr oedd y gwahaniaeth mwyaf rhwng safle a galiu yr esgob yn y ddwy gyfundrefn; ceir ychwaneg ar hyn ymhellach ymlaen.[2] Ceir prawf pellach mai dau dyfiad gwahanol oedd Mynachaeth Rhufain a Mynachaeth yr Eglwysi Celtaidd o edrych ar eu trefniadau eglwysig; yn ol cyfundrefn Rhufain rhennid y wlad yn wahanol blwyfi, a gosodid eglwys ymhob plwyf, ac edrychid ar yr holl drigolion o fewn y cylch fel yn perthyn iddi; y plwyf oedd yr *unit*—

[1] *Vita Sams.*, p. 121.

[2] Pennod ii.

y pwynt cychwyn ; ond edrychai yr Eglwys Geltaidd ar yr holl wlad fel perchenogaeth y gwahanol dylwythau, a rhennid y tylwythau hyn yn ddau ddosbarth—tylwyth y tir a thylwyth y Sant. Pan roddid darn o dir i dylwyth neilltuol, byddai tylwyth y Sant yn gosod i fyny eglwys ar unwaith er darparu ar gyfer anghenion ysbrydol y tylwyth, a hynny nid am eu bod yn byw o fewn rhyw gylch neilltuol ond am y perthynent i'r tylwyth, a chanddynt hawl i'w holl freintiau. Ymdrechodd yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru yn hir ac yn ddewr am ei hawl i fyw ei bywyd ei hunan ac i gadw ei phriod nodweddion, yn hytrach nag ymgolli ym mywyd unrhyw eglwys arall, gwrthododd ymostwng i'r mynach Awstin ac i gael ei rheoli gan Rufain. Yr oedd y blynyddoedd o 602 hyd 1100 yn dymor o ymrafael rhwng yr Eglwys Geltaidd ac Eglwys Rhufain ; ni chydnabyddai y flaenaf awdurdod y Pab, ac ni fynnai edrych arni ei hunan fel rhan o'r Eglwys lywodraethid ganddo. Gwnai cynrychiolwyr Eglwys Rhufain bob peth o fewn eu gallu yn y cyfnod hwn i wanhau yr eglwys yng Nghymru. Datganodd Theodore o Tarsus, archesgob Caergaint, nad oedd rym yn urddau yr Eglwysi Celtaidd, ac na pherthynai i'w hesgobion y galluoedd berthynai yn naturiol i'r swydd hon, am nad oeddynt wedi eu cysegru yn briodol; a llwyddodd i berswadio Chad, un o'r esgobion Cymreig, i gymeryd ei ail-gysegru yr adeg y dyrchafwyd ef i fod yn Esgob Lichfield ; bu hyn yn ddyrnod dost i achos yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru ; syniad yr Eglwys hon am Sant y pryd hyn oedd un a chanddo allu i gyflawni gwyrthiau—gweithredoedd goruwchnaturiol, a hynny ar gyfrif rhyw alluoedd berthynai i'w swydd gysegredig ; gollyngodd Chad ei afael o hyn oll wrth gymeryd ei ail-gysegru yn Esgob Lichfield. Bu dyfodiad y Normaniaid i'r wlad hon yn foddion i gryfhau Eglwys Rhufain ac i wanhau yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru. Haerai William y Gorchfygwr i'r Cymry ymostwng iddo yr adeg yr aeth i Dyddewi yn 1079, iddynt ddatgan eu parodrwydd i dalu gwarogaeth iddo, ac i'w gydnabod ef fel eu harglwydd ; a daliai fod hyn yn rhoddi hawl iddo ymyryd â'u materion eglwysig, ac ni fu yn fyr o wneud hyn. Daeth y Normaniaid a'u sefydliadau crefyddol gyda hwy,—crefydd Rhufain oedd eu crefydd hwy,—gwnaent eu goreu i hyrwyddo Eglwys Rhufain. Gosodwyd i fyny nifer o sefydliadau Benedict ar ororau Cymru i gychwyn, ac yn ddiweddarach aethant i Ddeheudir Cymru. Lle bynnag y ceid castell Normanaidd ceid crefydd-dy dan ei gysgod ; dywedid mai tri anhebgor sefydliad Normanaidd oedd castell, mynachdy, ac eglwys.[1] Rhoddwyd dyrnod drom arall i'r Eglwys Geltaidd yng Nghymru pan y llwyddodd Eglwys Rhufain i sicrhau iddi ei hunan yr hawl i apwyntio esgobion i esgobaethau Cymreig. Drwy orthrwm hyd yma y llesteiriwyd dylanwad yr Eglwys Geltaidd yng Nghymru, ond yn y ddeuddegfed ganrif daeth y Cisterciaid i'r wlad hon, a gwnaethant fwy na neb i gryfhau Eglwys Rhufain yng Nghymru ; buont hwy yn foddion i ennill y Cymry i fabwysiadu crefydd Rhufain ac i ddod yn aelodau o'i heglwys. Ar eu dyfod i'r wlad hon, gosodasant eu hunain yn ochr y Cymry yn eu gwrth-

[1] *The Celtic Church of Wales*, p. 477 : J. W. Willis Bund.

wynebiad i'r Saeson, cydymdeimlent â dyheadau y Cymry yn eu hymdrech am anibyniaeth eu gwlad ; ond darbwyllasant arweinwyr Cymru y byddai i'r Cymry aros yn genedl er colli ohonynt eu heglwys. Fe lygrwyd y Cymry drwy weniaith y Cisterciaid i roddi eu heglwys i fyny ac i fwrw eu coelbren yn Eglwys Rhufain—Eglwys ag y bu ei dylanwad yn oruchaf yng Nghymru o'r drydedd ganrif ar ddeg hyd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Mewn pennod arweiniol ar Fynachaeth, angenrhaid yw cyfeirio at yr Urddau Mynachaidd. Yn y ddegfed ganrif, ymddanghosodd Urdd Clugny, a buont yn foddion i ddwyn bywyd newydd i Eglwys Rhufain—yr Eglwys y gellir ei hystyried y pryd hyn fel Eglwys Gorllewin Ewrob. Yr adeg y cododd yr urdd hon yr oedd yr Eglwys wedi dirywio yn fawr, a theimlai llawer awydd am weled ei diwygio. Teimlid fod yn rhaid puro y ffynonellau—y mynachdai, ac nid gwaith hawdd oedd hyn. Yn ol Cyfundrefn Benedict, yr oedd pob mynachdy yn anibynol a hunan-lywodraethol, ac oherwydd hyn anodd oedd dyfeisio cynllun i fynd at yr oll a'u gwellhau. Yr anhawster yna roddodd fôd i Urdd Clugny ; yr oedd Abad Clugny i'w ystyried yn ben pob mynachdy perthynol i'r urdd yn Ewrob, prioriaid o dano ef lywodraethent y mynachdai, talent swm o arian yn flynyddol i'r prif abad ac i ddibenion cyffredin yr urdd. Yr oedd Abad Clugny yn fath o bab Mynachaeth. Bu dylanwad yr urdd yn fawr ac yn dda. Cadw yr eglwys yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd oedd yr hyn yr amcanent ato ; ac er sicrhau hyn, credent y dylai yr Eglwys fod yn anibynol ar y Wladwriaeth, ac y dylai orfodi ei hoffeiriaid i ymgadw rhag priodi.[1] Mewn amser, aeth yr urdd yn fydol, a chollodd ei dylanwad, a chodwyd urdd arall—Urdd y Cisterciaid—i barhau y gwaith ddechreuwyd ganddi. Cafodd hon ei bôd oddeutu dechreu y ddeuddegfed ganrif ; cychwynwyd hi yn Citeaux rhwng Dijon a Châlons. Ymsefydlai y Cisterciaid mewn lleoedd unig, anghysbell. Gwahaniaethai yr urdd o ran cyfansoddiad oddiwrth Urdd Clugny ; yr oedd pob mynachdy Cisterciaidd yn anibynol a hunan-lywodraethol ; ond yr oedd yr abadau yn rhwym i ddod ynghyd ar adegau neilltuol i fath o gymanfa gyffredinol,—a'r cymanfaoedd hyn oedd cyrff llywodraethol yr urdd. Hyd yn hyn, nodweddid yr urddau mynachaidd gan ymdrech i ymneilltuo o'r byd er dianc rhag y trachwant sydd ynddo. Yn y ddeuddegfed ganrif, tywynnodd ar feddwl yr Eglwys fod uwch math ar rinwedd na dianc o'r byd, sef " byw yn y byd ac eto heb fod o'r byd." Bu i Ryfeloedd y Groes ran neilltuol er dwyn y gwirionedd hwn adref. " God found out the Crusades as a way to reconcile religion and the world." Danghoswyd yn glir yr un egwyddor ym mywyd y Canoniaid Rheolaidd, neu Ganoniaid Awstin—dynion gyfunent yn eu bywyd fywyd y mynach a bywyd yr offeiriad plwyf. Gwelwyd y duedd hon ar ei pherffeithiaf ym mywyd y Brodyr Cardod. Bu eu dylanwad yn fawr. Gwnaethant fwy, o bosibl, na neb arall yn y drydedd ganrif ar ddeg, er cadw crefydd yn fyw ac yn bur ; ond nid dyna'r oll wnaethant. Yn wleidyddol, buont yn wŷr canol—yn offerynau i ddwyn hen ysbryd y bendefig-

[1] *The Empire and the Papacy*. p. 99, T. F. Tout

aeth i ddygymod â'r ysbryd newydd ddechreuai ymddangos ymysg gwerin gwahanol genhedloedd. A yr Esgob Creighton cyn belled a dweyd mai syniadau yr Urddau Cardod roddodd fôd i ryfel y Barwniaid yn Lloegr.[1] Gwneid y Brodyr Cardod i fyny o bedwar dosbarth,—y Dominiciaid neu y Brodyr Duon, ymsefydlasant hwy yng Nghymru ym Mangor, Rhuddlan, Aberhonddu, Hwlffordd, a Chaerdydd ; y Francisciaid neu y Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd, Caerfyrddin, a Llanfaes ; y Carmeliaid, neu y Brodyr Gwynion yn Ninbych ; a Brodyr Awstin yng Nghasnewydd, Sir Fynwy. Y ddau ddosbarth pwysicaf a lliosocaf oedd y Francisciaid a'r Dominiciaid ; apeliai y rhai blaenaf at y lliaws drwy gyfrwng pregethu. Disgrifir Francis, sylfaenydd yr urdd, fel John Wesley y drydedd ganrif ar ddeg.[2] Yr oedd cenadwri y Dominiciaid yn fwyaf neilltuol at y dysgedig. Dywedir mai John Wesley a'r Esgob Butler fu yn brif foddion i ddwyn bywyd newydd i Loegr yn y ddeunawfed ganrif ; apeliai y naill at y dosbarth cyffredin, tra yr apeliai y llall at y dosbarth meddylgar, dysgedig. Gwnaed gwaith cyffelyb yn y drydedd ganrif ar ddeg gan Francis a Dominic. Ychydig fu nifer a dylanwad y Carthusiaid ym Mhrydain. Dywedir na bu ganddynt un adeg fwy na naw o dai.[3] Sefydlwyd yr urdd hon gan Bruno Sant yn yr unfed ganrif ar ddeg, a chymer yr urdd ei henw oddiwrth Chartreuse. Nodweddid yr urdd gan lymdra ei disgyblaeth. Adeg diddymu y mynachdai, yn yr unfed ganrif ar bymtheg, perthynai i'r urdd hon wyth o fynachdai ac oddeutu cant o aelodau.[4]

[1] "It was the work of the friars, in politics, to make a bridge between the spirit of democracy and the old spirit of autocracy."—*Historical Lectures and Addresses*, p. 77: Creighton ; *The Coming of the Friars*, p 47 : Jessopp. "It was the ideas of the friars that found expression in the Barons' War."—*Historical Lectures and Addresses*, p. 110 : Creighton.

[2] *The Coming of the Friars*, p. 47 : Jessopp.

[3] *The Coming of the Friars*, p. 125 : Jessopp.

[4] *English Monastic Life*, p. 222 : F. A. Gasquet.

PENNOD II.

Y MYNACHDY.

Y RHAN bwysicaf o'r mynachdy oedd yr eglwys ; ac mewn gwledydd o hinsawdd oer, gosodid yr eglwys i fyny, fel rheol, ar du y gogledd i'r mynachdy, fel y byddai i'w muriau trwchus fod yn gysgod rhag gwyntoedd oer y gogledd. Adeiledid hi fynychaf ar ffurf croes, a bwriedid i hyn fod yn arwyddluniol. Yn nesaf mewn pwysigrwydd deuai y clwysdai—y rhannau o'r mynachdy ffurfiai gartref i'r myneich ; cymerai y prior ei le agosaf i'r eglwys a'r myneich wedi hynny yn ol trefn eu hoed. Yr oedd i'r Abad, ar gyfrif ei urddas, le ar wahan. Yn y bwyty, fel yr awgryma yr enw, y cymerai y myneich eu prydau ; safai hwn, fel rheol, cyn belled ag y byddai yn gyfleus oddiwrth yr eglwys. Ynglŷn â'r bwyty ceid y gegin lle y paratoid y bwyd. Yn ol rheolau Urdd Clugny yr oedd dwy gegin i fod mewn mynachdy, yn y gyntaf yr oedd y myneich i wasanaethu bob un am wythnos yn ei gylch, yn yr olaf gwasanaethid gan weision taledig. Disgrifir yn fanwl yn y *Custumals* ddodrefn y ceginau, megis y crochanau, dysglau, llwyau. Cyfeiria Tudur Aled at gegin Aberconwy—cegin y "gwr a gadwai Gwynedd"—ac at brysurdeb y cog yn arlwyo croeso iddo.

> Glwys yw cegin y t'wysog
> Troi mae'r gwaith trwm ar ei gog.[1]

Yr hundai,—y dortor neu'r dortur, fel y disgrifir y rhan hon o'r mynachdy gan y beirdd,[2] oedd y rhannau neilltuid i'r myneich orffwys ynddynt. Trefnid ystafell fechan i bob mynach. Rhan bwysig o'r mynachdy oedd yr ysbyty—cartref y claf, yr hen, a'r methedig—rhoddid pwys neilltuol ar hyn, a delid yr abad yn gyfrifol am unrhyw ddiffyg yn hyn ar ran y swyddogion wasanaethent oddi tano ; disgwylid iddo fod yn dra gofalus ar gael o'r cleifion a'r methedig yr oll oedd yn angenrheidiol iddynt. Rhannau ereill o'r mynachdy oedd y gwesty, lle y croesawid dieithriaid. Rhoid croeso i'r holl ddieithriaid, ond nid yr unrhyw groeso gaent i gyd. Gofalai yr abad am y dieithriaid anrhydeddus,—caredigion y sefydliad, tra y derbynid gan swyddogion is rai ddeuent i'r mynachdy ar negeseuau masnachol, tlodion crwydr, a myneich berthynent i grefydd-dai ereill ; y parlwr—y *locutorium*—oedd fath o ystafell siarad lle y trafodid rhwng abad, prior, a myneich gwestiynau

[1] *Gorchestion Beirdd Cymru*, td. 235 : Rhys Jones.
[2] *Gorchestion Beirdd Cymru*, td. 206 : Rhys Jones.

ddalient berthynas â'r mynachdy, a lle y caniateid i'r myneich ymgomio â'r rhai ddeuent i ymweled â hwy ; yr elusendy lle y rhoid cymorth i'r tlodion, safai hwn fel rheol yn agos i'r eglwys, a byddai yng ngofal un o'r myneich hynaf yn y sefydliad ; gwasanaethai yr elusendy hefyd fel ysgol rad i blant tlodion ; yr ystafell ymdwymo at wasanaeth y myneich ; cyneuid tân yn hon ar y cyntaf o Dachwedd a pharheid ef hyd y Pasg ; clwysgordy—*chapter-house*—hwn oedd uchel-lys y mynachdy, yma y trafodid pob materion o bwys, megis ethol yr abad a swyddogion ereill y mynachdy, yma y cyffesid pechodau ac y ceryddid am droseddau anfad. Ymgynullid i'r clwysgordy yn wythnosol, ac mewn rhai mynachdai yn ddyddiol, yn uniongyrchol wedi'r gwasanaeth boreuol. Hwn oedd y lle y cleddid yr abadau ynddo, a gosodai hyn gysegredigrwydd ychwanegol arno ; y llyfrgell a'r ystafell ysgrifennu. Dyna brif rannau mynachdy.

Prif swyddog y mynachdy oedd yr abad, edrychid arno fel cynrychiolydd Crist o fewn y sefydliad, ac yr oedd pawb o fewn y mynachdy yn rhwym i ufuddhau iddo ; disgwylid iddo ymgynghori â swyddogion eraill mewn achosion o anhawsterau neilltuol, ond ei awdurdod ef oedd i fod yn oruchaf. Telid gwarogaeth ac anrhydedd neilltuol iddo ; pan ai heibio yr oedd pawb i godi ac i ymgrymu iddo ; yn y clwysgordy a'r bwyty, nid oedd neb i gymeryd ei le hyd oni byddai ef wedi eistedd ; pan eisteddai yn y clwysdy, nid oedd neb i gymeryd ei sedd yn agos ato heb ei ganiatad. Yr oedd llywodraeth y sefydliad ar ei ysgwydd ef, a disgwylid iddo fod yn hollol ddiduedd a didderbynwyneb yn ei ymwneud â'r rhai oedd o dan ei ofal. Y nesaf mewn pwysigrwydd i'r abad oedd y prior ; apwyntid ef gan yr abad wedi ymgynghori â'r myneich hynaf yn y sefydliad. Perthynai iddo ef ofalu am iawn drefn a pherffaith ddisgyblaeth ; disgwylid iddo fod yn addfwyn a gostyngedig ac yn esiampl berffaith mewn ffyddlondeb i ddefodau gwasanaeth crefydd. Yn absenoldeb yr abad, cynerai y prior ei le, ac yn ei absenoldeb yntau gwasanaethid gan yr is-brioriaid. Yr oedd y cantor yntau yn swyddog pwysig ynglŷn â bywyd y mynachdy, rhaid oedd iddo fod yn offeiriad cymwys, ac yn un hollol gynhefin âg arferion eglwysig ; iddo ef y perthynai trefnu pob gwasanaeth crefyddol a'r rhai i gymeryd rhan ynddo, efe oedd arweinydd y gân o fewn y mynachdy, a gofalai yn fynych am y llyfrgell ; ymysg swyddogion eraill y mynachdy gellir nodi yr Elusenwr, Croesawr y dieithriaid, yr Ystafellydd—yr un ofalai am ddillad y myneich—y cog a'r goruchwyliwr. Cyn y gellir ffurfio syniad cywir am nodwedd y llywodraeth, rhaid cymeryd i ystyriaeth yr urdd y perthynai y mynachdy iddi. Yn y mynachdai sefydlwyd gan y Cluniaid, math o unbenaeth oedd y llywodraeth ; yr oedd y prioriaid yn derbyn eu hawdurdod gan Abad Clugny, ac yr oeddynt yn rhwym i dalu gwarogaeth iddo, ac i anfon swm o arian yn flynyddol iddo. Yr oedd y Mynachdai Cisterciaidd yn anibynol a hunan-lywodraethol ; dewisent eu habad eu hunain ; ac yr oedd y rhai hyn yn rhwym i ddod ynghyd ar adegau neilltuol i fath o gymanfaoedd cyffredinol lle y trafodid cwestiynau ddalient berthynas â'r urdd. Yr oedd i'r mynachdai drwy eu habadau lais yn y llywodraeth eglwysig—

gwneid yr eglwysi yn un mewn math o gyngrair. Rhaid gwahaniaethu yn fanwl rhwng y tai lywodraethid gan abadau a'r tai oedd dan ofal prioriaid ; mae'r gwahaniaeth yn bwysicach nag yr ymddengys ar y cyntaf. Pan geir mynachdy dan ofal prior, fel rheol, mae'r priordy yna yn ddibynol ar rhyw abaty arall, naill ai yn y wlad hon neu ar y Cyfandir. Cell berthynol i Abaty St. Florence o Saumur oedd priordy Mynwy. Perthynai priordy Aberhonddu i Battle Abbey, a phriordy Ewenni i St. Peters, Gloucester. Fel y gwelwyd, mewn pennod flaenorol, credid un adeg mai'r ffordd i fyw bywyd ysbrydol uchel oedd drwy ddianc o gymdeithas ein cyd-ddyn ; dyna syniad yr ancr a'r meudwy ; ond nid dyna, fel rheol, sydd i'w ddeall wrth fywyd y mynach, ond golyga yn hytrach nifer o bobl yn ymffurfio yn gyfundeb er mantais i ddatblygu eu bywyd ysbrydol—byw ynghyd mewn mynachdy, gan ymostwng i reolau a disgyblaeth y sefydliad. Fe nodweddid bywyd y gwahanol grefydd-dai gan lawer o debygrwydd, ychydig oedd o wahaniaeth yn hyn o beth rhwng y gwahanol urddau. Gwneid y cyfundeb i fyny o fyneich, eu gweision, y rhai weithient ar y tir perthynol i'r mynachdy, ac ymwelwyr achlysurol. Cynhelid chwe' gwasanaeth bob dydd, ac un am hanner nos, a disgwylid yr holl gwfeniaid——pawb berthynai i'r sefydliad, i'r rhai hyn.[1] Ymysg y Cisterciaid, nid oedd y rheol hon lawn mor fanwl. Dechreuai y dydd o fewn y mynachdy am chwech o'r gloch y boreu. Cymerai y myneich eu boreufwyd oddeutu hanner awr wedi wyth, eu cinio am un ar ddeg, a'u swper am bump o'r gloch ; ar ddyddiau neilltuol o fewn y flwyddyn, pan na chaniateid i'r myneich swper, rhoddid iddynt, os dymunent, ychydig ddiod—y *potum caritatis*—ac ychydig fara oddeutu hanner awr wedi chwech yn y gaeaf, a hanner awr wedi saith yn yr haf. Bu glythineb droion yn ffaeledd amlwg yn hanes y myneich ; pan ddygwyd i mewn ddiwygiad drwy y Cisterciaid rhoid pwys neilltuol ar fyw bywyd symlach o ran bwyta ac yfed. Caniateid i'r myneich nifer o oriau bob dydd fel seibiant, i amcan ymarferiadau corfforol, ac i ddwyn ymlaen unrhyw waith y teimlent ddyddordeb ynddo. Yr oriau hyn oedd o ddeuddeg tan bump yn y prydnawn yn yr haf, ac o un tan chwech yn y prydnawn yn y gaeaf. Yn ystod yr oriau hyn ai pob un at ei waith ei hun—ysgrifennu, darllen, canu, gwaith y gegin, y pobty, yr ardd, y maes. Darperid yn y modd hwn ar gyfer anghenion y sefydliad, a chai'r cwfeniaid ymarferiadau corfforol gryfhai eu cyfansoddiadau ac a'i cadwai rhag diogi a musgrellni. Cwestiwn yn gofyn cryn sylw yw perthynas yr esgob a'r mynachdy. Cyn y gellir ymwneud â'r cwestiwn, rhaid deall y gwahaniaeth rhwng safle yr esgob yn Eglwys Geltaidd y Cymry a'i safle yn Eglwys Rhufain. Yn Eglwys Rhufain yr oedd yn rhaid i un cyn y gellid gwneud esgob ohono, fod wedi myned drwy urdd diacon ac urdd offeiriad ; yn yr Eglwys Geltaidd gallai un ddod yn esgob ar unwaith heb iddo fyned drwy unrhyw urdd eglwysig yn flaenorol ; yr oedd yn rhaid wrth dri o leiaf o esgobion er cysegru esgob yn Eglwys Rhufain, ond yn Eglwys Geltaidd y Cymry yr oedd un esgob yn ddigon i'r amcan

[1] *Peckham's Register*, ii., Preface, p. lxviii., etc.

hwn ; yn Eglwys Rhufain perthynai i'r esgob esgobaeth, ond yn yr Eglwys Geltaidd swyddog oedd yr esgob o fewn y mynachdy, heb fod ganddo unrhyw diriogaeth i fwrw golwg arni, ac nid oedd ganddo unrhyw awdurdod ar y myneich ; fel holl swyddogion y mynachdy, yr oedd ef ei hunan dan lywodraeth yr abad. Yn raddol, fodd bynnag, fel y gwelwyd, daeth yr Eglwys Gymreig dan ddylanwad Eglwys Rhufain, ac un o ganlyniadau naturiol hyn oedd cryfhau dylanwad yr esgob, o fod yn swyddog is-raddol o fewn y mynachdy daeth yn ben y clerigwyr o fewn cylch neilltuol—yr esgobaeth, ac yr oedd iddo awdurdod drostynt. Yr oedd yr esgob unwaith islaw yr abad, yna daeth yn gyfartal âg ef, ac yn ddiweddaf daeth uwchlaw iddo. Naturiol, gan hynny, oedd iddynt fod yn eiddigus o'u gilydd. A oedd gan yr esgob awdurdod ar y mynachdai ddigwyddai fod o fewn cylch ei esgobaeth, a hawl i ymweled â hwy, a gweinyddu cerydd am unrhyw afreoleidd-dra allai ffynnu yn eu mysg ? Er osgoi y fath ymweliadau, dadleuai swyddogion y mynachdy nad oedd mynachdy o angenrheidrwydd yn sefydliad eglwysig, nad oedd raid i'r abad fod yn wr eglwysig, cafwyd nifer fawr o dro i dro nad oeddynt, ac nad oedd y myneich yn rhwym o fod mewn urddau eglwysig. Rhyddhawyd rhai abatai oddiwrth y fath ymweliadau—gwnaed hyn gyda Battle Abbey ; wedi caniatau yr egwyddor hon, ymladdai eraill am yr un rhagorfraint. Bu llawer o ymgyfreithio rhwng yr esgobion â'r abadau mewn perthynas i'r cwestiwn hwn ; yn fynych gwneid achosion digon dibwys yn achlysur ymrafael a chyfraith ; anodd yw peidio credu na cheisiai y myneich yn fynych rhyw esgus o gweryl â'r esgobion er mwyn cael rhywbeth i dorri ar unffurfiaeth bywyd o fewn muriau mynachdy. Gan nas gallai yr abad a'r esgob gytuno â'u gilydd, naturiol oedd gweld yr un ysbryd yn llywodraethu y myneich a'r clerigwyr yn eu hymwneud â'u gilydd. Nodweddid y myneich i raddau mawr gan eu rhaib am eiddo a meddiannau ; dioddefodd y clerigwyr cyffredin yn fawr oddiwrth eu rhaib.[1] Yspeilid eu tai yn fynych gan y myneich, a thrwy gyfrwysdra a dichell, llwyddasant i fynd a degwm aml i blwyf i'r mynachdy y perthynent hwy iddo. Fel rheol, lle y ceir ficer yn lle rheithor yn Lloegr a Chymru, cyfeiria hyn at adeg pan yr aed a'r degwm oddiar y plwyf ac y trosglwyddwyd ef i'r mynachdy. Wedi mynd a'r brasder ymaith, rhoddai y myneich rywun—yn fynych y rhataf ellid gael—i wasanaethu y cyfryw blwyf, ac fel hyn gwnaent gam parhaol âg ef. Ceir engraifft bellach o raib y myneich am feddiannau yn y twyllo, a'r ffugio enwau fu ynglŷn â siarterau y gwahanol fynachdai ; tueddid i esgusodi ac i edrych gyda llawer o dynerwch ar amryw weithredoedd a'u hanrhydedd yn ddigon amheus, os byddent yn foddion i ddwyn elw i'r mynachdy ac i osod bri arno,—edrychent ar yr amcan fel yn cyfiawnhau, yn cyfreithloni y moddion. Teg ydyw cyfeirio, fodd bynnag, ddarfod i'r myneich wneud rhyw fath o iawn i'r plwyfi hyn am fynd a'r degwm oddiarnynt drwy baratoi yn yr ysgolion

[1] "Of all the sins that the monks had to answer for, this greedy grasping at Church property, this shameless robbery of seculars was beyond compare the most inexcusable and the most mischievous."—*The Coming of the Friars*, p. 158 : Jessopp.

cysylltiedig â'r mynachdy wyr ieuainc fyddai yn ofalwyr am y plwyfi hyn ; ac mewn rhai amgylchiadau, gofelid yn fanwl am y ficerdai a'r eglwysi hyn gan y myneich eu hunain.[1] Rhaid cadw mewn cof hefyd mai myneich Eglwys Rhufain fu yn foddion i ddwyn i'r Eglwys Gymreig y degwm fel taliad ag y gorfodid ei dalu drwy rym cyfraith.[2] Trwyddynt hwy y daeth, a thrwyddynt hwy y collwyd ef, mewn rhai amgylchiadau.

[1] *English Monastic Life*, p. 194 : F. A. Gasquet.

[2] *The Celtic Church of Wales*, p. 370 : J. W. Willis Bund.

PENNOD III.

MYNACHDAI GOGLEDD CYMRU.

Y CYFNOD CYNTAF.

Enlli.—Yr oedd un o grefydd-dai hynaf[1] y wlad hon yn Ynys Enlli. Sefydlwyd ef yn gynnar yn y chweched ganrif gan Cadfan. Cysylltir y Saint Cymreig âg wyth o deuluoedd, a pherthynai Cadfan i gyff Emyr Llydaw ; i'r un teulu perthynai Samson, Padarn a Winwaloe. Mab oedd Cadfan i Eneas Llydaw a daeth drosodd i'r wlad hon yn gynnar yn y chweched ganrif mewn canlyniad i'r ymosodiad wnaed ar Lydaw gan Ymerodraeth Ffrainc. Daeth gydag ef nifer o'i gydwladwyr, y rhai, fel yntau, fynnent ymroddi i fywyd o ymgysegriad i amcan crefydd. Sefydlwyd amryw eglwysi gan y sant hwn,—Llangadfan yn Sir Drefaldwyn, a Thywyn Meirionydd, ac Enlli mewn cydweithrediad âg Einion Frenin. Cysegrwyd crefydd-dy Enlli i'r Wyryf Fendigaid, ac ystyrid ef yn hynod ar gyfrif ei gysegredigrwydd,—gysegrediced oedd fel mai prif ddymuniad llawer o Saint Cymreig oedd cael lle bedd ynddo. Gadawodd Dyfrig ei esgobaeth yn ei hen ddyddiau pan y teimlodd nad oedd yn ddigonol i waith ei swydd, ac ymneilltuodd i fyw bywyd meudwy yn Ynys Enlli,[2] lle y bu farw yn y flwyddyn 612 ; ond ar y seithfed o Fai, yn y flwyddyn 1120, symudwyd ei weddillion i Eglwys Llandaf. Tybir i gynifer ag ugain mil o saint gael eu claddu yn yr Ynys, ac oherwydd hyn gelwir hi yn fynych yn "Ynys y Saint," ymysg y rhai hyn gellir nodi Deiniol, Esgob Bangor. Yr oedd y beirdd hwythau yn dyheu am gael bedd ym mangre'r pererinion,—dymuniad Meilir oedd am iddo gael ei "gynnwys ym plith plwyv gwirin gwerin Enlli."[3] Ysgrifennwyd gan Hywel Dafydd, bardd Rhaglan, gywydd i'r ugain mil saint a aeth i Enlli, yn y cywydd dywed :—

Mi af i luniaw fy medd,
I'r Ynys oddiar Wynedd . . . .
Gwyr un waed gwerin ydynt,
Gwyr un dad gwerin Duw ynt ;
Eithr od aeth alaeth olwg,
Athrod draw am weithred drwg,
Parent a deisyfent saint
I'm diwedd a maddeuaint.[4]

[1] ". . . . senior domus religiosa est de tota Wallia, excepta insula Sanctorum Bardigeye." —*Councils*, Haddan and Stubbs, vol. i. p. 584 ; *Notitia Monastica*, p. 703 : Tanner.

[2] *Liber Landavensis*, p. 328 ; *Vita Samsonis*, c. 19.

[3] Stephens : *Literature of the Kymry*, p. 23.

[4] *Merthyr Tydvil Manuscript*, 105.

Credir i nifer fawr fynd am loches i Ynys Enlli yr adeg y dinistriwyd Bangor Iscoed,[1] yn eu mysg gellir nodi Brothen, sefydlydd Llanfrothen.[2] Dywed Pennant hefyd i'r Ynys fod yn un o gyrchleoedd y Cyldwys—mynoich Albanaidd a Gwyddelig a ymneilltuent i ynysoedd a chonglau dirgel a phellenig, er mwyn cael mwy o hamdden i weddio a myfyrio, ac i hyfforddi yr ieuengtid ddeuai atynt; cadarnheir tystiolaeth Pennant gan eiriau Gerallt Gymro.[3] Yn ddiweddarach gosodwyd i fyny un o sefydliadau Benedict yn yr Ynys.[4] Yn ol Llawysgrifau Sebbright, ymddengys i ddeiseb gael ei chyflwyno gan Abad Enlli i Edward II. yn achwyn fod Sirydd Caernarfon wedi honni yn anghyfiawn oddiarno ef y tâl o wyth swllt a thrigain a chwecheiniog yn groes i feddiant-roddeb oedd ganddo. Gorchmynodd y brenin i ymchwiliad gael ei wneud i'r achos gan brif ynad Cymru; ac fel ffrwyth yr ymchwiliad hwn, datganwyd fod yr Abad yn dal ei dir yn Sir Gaernarfon, fel elusen pur a pharhaus, ac nad oedd unrhyw wasanaeth neu gydnabyddiaeth leol yn ddyledus oddiwrtho, a gorchmynwyd gan y brenin, wedi ymgynghoriad â'i gyngor, fod yr arian godwyd yn anheg oddiar Abad Enlli i'w talu yn ol iddo, ac ychwanegwyd nad oedd neb i flino y mynachdy mwyach.[5] Edrychid ar Enlli fel lle eithriadol gysegredig, nid yn unig gan Gymru, ond gan yr Iwerddon hefyd.[6] Gwaddolwyd Enlli yn helaeth gan dywysogion Cymru, a chan garedigion crefydd; ac ymysg ei habadau, gellir nodi Idwal fab Gruffydd ab Cynan, Cadwallon ab Owen Gwynedd, Llywelyn ab Cadwallon, Madog y Caws, a'i habad diweddaf, John Conwy, etifedd Bodnithoedd, ym Myllteyrn. Parhaodd y sefydliad yn Enlli hyd adeg diddymu y mynachdai yn yr unfed ganrif ar bymtheg, pryd yr oedd ei meddiannau yn ol Dugdale yn werth £46 1s. 4d., ac yn ol Speed yn werth £58 6s. 2d. Trosglwyddwyd yr eiddo hwn i ddechreu i Syr Thomas Seymor, ac yn ddiweddarach i John, Iarll Warwig. Ceir llawer o gyfeiriadau at Enlli yng ngweithiau beirdd Cymru; dyfynnwyd o rai ohonynt yn barod, gellid ychwanegu lliaws ereill. Cymerer a ganlyn yn engreifftiau; am Einion Frenin, yr un y credir y bu iddo law flaenllaw yn sylfaenu crefydd-dy Enlli, dywed Hywel ab Rheinallt:

> Y crefyddwr cryf addwyn,
> Aur yw dy fedd er dy fwyn,
> Einion Fawr Einion Freiniol
> Frenin a'th werin i'th ol.

A chyda chyfeiriad at yr ugain mil saint gladdwyd yn Enlli, dywed T. Celli:

> Awn i Enlli rhi yn rhod,
> O nwyf bur i Nef barod.

[1] *Pennant's Tours in Wales*, vol. ii 370.
[2] *Lives of the British Saints:* S. Baring-Gould and John Fisher, vol. i., p. 303.
[3] *Itinerary through Wales, Giraldus Cambrensis*, p. 116: W. Llewelyn Williams.
[4] *A History of the Welsh Church*, p. 293: Newell.
[5] *Welsh Abbeys*, p. 9: John A. Randolph.
[6] *The Celtic Church of Wales*, p. 138: J, W. Willis Bund.

Canodd Islwyn yntau gywydd prydferth i Enlli "diffynfa'r ffydd" : os bechan oedd yr Ynys, mawr oedd y fendith geid ynddi :

Er lleied am-led dy dir
Y fendith oedd gyfandir.
Ni fu erwi gan feirwon,
O wir saint mor fras a hon ;
Yn dirion cuddia d'oror
Ugain mil wrth eigion mor . . . .
Mae Cadfan o dan dy do
Hoff was i'r ne'n gorffwyso . . . .
Y monachod mynychynt
Ein Enlli gain yn llu gynt.
Glaniaw rhag llid gelynion
Wnai saint yn yr ynys hon ;
I fwynhau, i fyw yn ol
Cywir foddion crefyddol . . . .
Finnau, yn llesgedd f'henaint,
Hoffwn cyfrifwn yn fraint
Gael treulio yno mewn hedd
O dawel ymneilldued
Eiddilion flwyddi olaf
Fy ngyrfa, yn noddfa Naf.[1]

Yn ei restr o grefydd-dai Sir Gaernarfon cyfeiria Leland at Ynys Enlli, gwnaeth Leland ei daith yn ystod y blynyddoedd 1536—1539, ac amlwg yw fod y sefydliad yn Enlli yn cadw ei gymeriad crefyddol i fyny yn ystod y blynyddoedd hyn.[2]

Bangor Iscoed.—Un o fynachdai pwysicaf Gogledd Cymru yn y cyfnod cyntaf oedd Bangor Iscoed ; arweiniai yn yr ymdrech am anibyniaeth yr Eglwys Gymreig. Hanes byr sydd i'r sefydliad. Cychwynwyd ef yn ystod y rhan olaf o'r chweched ganrif gan Dunawd Ffur, mab Pabo Post Prydain, yr hwn hefyd oedd yr abad cyntaf, a dinistriwyd y sefydliad naill ai yn y flwyddyn 613 neu 616. Nid ymestyn yr hanes ond dros oddeutu hanner can mlynedd ; ond gwnaeth y sefydliad waith mawr mewn byr amser. Efe a gymerai y blaen yn yr ymdrech rhwng Eglwys Rhufain a'r Eglwys Geltaidd. Mynnai Eglwys Rhufain i'r Eglwys Gymreig ymostwng iddi hi, ac mewn trefn i ddwyn hyn oddiamgylch rhoddodd y Pab Gregori lawn awdurdod i Awstin o Gaergaint, ei gynrychiolydd ym Mhrydain, i ddelio yn ol ei ddoethineb gyda'r Eglwys Gymreig. Yr oedd y gwaith hwn wrth fodd calon Awstin, ac oddeutu y flwyddyn 603 galwodd gynhadledd o'r esgobion Prydeinig i ymgynghori gydag ef. Pwy oedd yr esgobion hyn, amhosibl yw dweyd. Nis gellir rhoi fawr bwys ar y rhestr a geir yn yr *Iolo MSS.*[3] ; enwir saith o esgobion yn y rhestr hon, Henffordd, Llandaf, Padarn, Bangor, Llanelwy, Wig, a Morgannwg. Nid oes unrhyw sail i'r fath restr. Bede ydyw ein hawdurdod ar y mater hwn, ac ni rydd ef

[1] *Gweithiau Islwyn*, td. 281—283 : O. M. Edwards.
[2] *Leland's Itinerary in Wales*, part. vi., p. 81.
[3] *Iolo MSS.*, 143, 548.

unrhyw fanylion yn eu cylch ; gallai fod yn eu mysg gynrychiolwyr Cymry Ystrad Clwyd, mae yr ymadrodd ddefnyddir ganddo—*Brettonum episcopi*[1]—yn ddigon penagored i gynnwys Ystrad Clwyd ; ac am y nifer, yr oll ddywed Bede ydyw mai saith oedd ohonynt yn ol y traddodiad—*ut perhibent.* Yng ngoleuni y ffeithiau hyn, mae'r casgliad y daw Haddan a Stubbs iddo yn hollol deg,—"nid oes dystiolaeth ddigonol i brofi pwy oedd yr esgobion hyn."[2] Cafwyd dwy gynhadledd, a cheisiodd Awstin gan gynrychiolwyr Eglwys y Cymry gydymffurfio âg Eglwys Rhufain, ac ymuno gyda hi mewn cenhadaeth i efengyleiddio y Saeson, a chydymffurfio âg Eglwys Rhufain gyda golwg ar amseriad y Pasg a'r dull o fedyddio.[3] Gwrthododd yr esgobion delerau Awstin ; a dywedir i'r diweddaf broffwydo y byddai dinistr yn eu dal am wrthod ohonynt gydymffurfio â dymuniad Eglwys Rhufain. Ceir atebiad Dunawd i Awstin yn ddiweddarach yn hanes ein llenyddiaeth, ond nis gellir derbyn ei ddilysrwydd, mae'n amlwg mai "atebiad gwneud" ydyw, a'i fod yn ddiweddarach na chyfnod Sieffre o Fynwy. Rhoddir yr atebiad yn gyflawn gan Haddan a Stubbs.[4] Nid hir y bu daroganaid Awstin heb ei gyflawni ; ym mrwydr Caer a ymladdwyd yn y flwyddyn 613 neu y flwyddyn 616, daeth nifer fawr o fyneich Bangor Iscoed i faes yr ymladd i weddio am lwyddiant y Prydeiniaid. Wedi gweled o Aethelfrith hwynt a deall eu neges, dywedodd—"Os ydynt yn gweddio ar Dduw yn ein herbyn, maent yn ymladd yn ein herbyn er nad ydynt yn dwyn arfau, ymosodant arnom drwy weddiau anffafriol i ni."[5] Gorchmynodd, gan hynny, i'w wyr ymosod arnynt hwy yn gyntaf, a lladdwyd oddeutu deuddeg cant ohonynt ; llwyddodd oddeutu deg a deugain i ddianc. Priodolai Bede eu dinistr i'w gwaith yn gwrthod cydymffurfio â chyngor Awstin, ac wrth wneud y fath sylw, dengys Bede ei ragfarn yn erbyn y Cymry ac yn erbyn eu heglwys. Wedi ennill brwydr Caer, aeth Aethelfrith i Fangor Iscoed, a dinistriodd y sefydliad mynachaidd oedd yno. Yr oedd ysgol enwog ym Mangor Iscoed, ac yn ol tystiolaeth Bede, mynychid hi gan ddwy fil a chant o ysgolheigion.[6] Tybia rhai i Pelagius, Finian, Gildas, Nennius a Chybi dderbyn rhan o'u haddysg ym Mangor Iscoed.[7] Ymwrthyd, fodd bynnag, un o'r awdurdodau uchaf ar hanes Bangor Iscoed â'r syniad hwn.[8] Nid oes unrhyw sail i gredu fod ym Mangor Iscoed abaty o gwbl ; y tebygrwydd yw y byddai y cwfeniaid yn byw mewn cytiau syml diaddurn ar lannau yr afon Ddyfrdwy oddeutu Bangor. Chwedlau gwneud yw y rhai

[1] *Historia Ecclesiastica*, cap. ii.

[2] *Haddan & Stubbs : Councils*, vol. iii. p. 41 ; *Baedae Opera Historica*, Tomus ii., p. 75, Plummer.

[3] *Historia Ecclesiastica*, cap. ii., 81, 82.

[4] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., pp. 122, 149 ; *Baedae Opera Historica*, Tomus ii., p. 75 : Plummer.

[5] *Historia Ecclesiastica*, vol. ii. p. 84.

[6] *Historia Ecclesiastica*, cap. ii, p. 82.

[7] *The Celtic Church of Wales*, p. 174 : J. W. Willis Bund.

[8] "Neither Lupus, Germanus, nor Pelagius could ever have been connected with Bangor. Nor is there any evidence for connecting Gildas or Nennius with it. I doubt moreover, whether St. Cybi was ever a member of this monastery . . . It would not be safe specifically to name any saint as belonging to the monastery of Bangor Iscoed except Dunawd himself and perhaps his son Deinioel"—A. N. Palmer. *Cymmrodor*, vol. x., p. 21.

hynny broffesant ddarlunio eangder a gwychder adeiladau mynachaidd Bangor Iscoed.[1]

Clynnog Fawr yn Arfon.—Sefydlwyd y fynachlog hon yn nechreu y seithfed ganrif gan Feuno Sant. Perthynai Beuno i gyff Cadell Deyrnllwg ym Mhowys ; i'r un teulu o saint perthynai Tyssilio, Catwg, a Phedrog. Mae ar gael grynhodeb byr o hanes bywyd Beuno yn *Llyvyr Agkyr Llandewivrevi*[2] gwaith ysgrifennwyd yn y flwyddyn 1346 yn Llanddewi Brefi. Yn ol yr hanes hwn, a ganlyn oedd cerrig milltir ei fywyd. Ganwyd ef ym Manhenig ym Mhowys ar lan yr afon Hafren, a dywedir am ei rieni, Bugi ei dad a Beren ferch Llawdden ei fam, eu bod yn ddynion "gwirion" a da eu buchedd. Anfonwyd ef pan yn ieuanc i Gaerwent i'w addysgu gan Tangusius yn yr ysgol sefydlwyd gan Ynyr Gwent. Gwnaeth ddefnydd da o'i fanteision. "Achyt ar sant hwnnw ybu ef drwy ganhorthwy duw yn dyscu yny wybu yr holl yscrythur lan. Odyna ydysgawd ef wassanaeth aryoleu yr eglwys. ac ykymerth urdeu ac y bu offeirat." Gwnaeth Beuno y fath argraff ffafriol ar Ynyr Gwent fel y penderfynodd y diweddaf ymneilltuo o'i safle frenhinol a dod yn ddisgybl iddo, a danghosodd ei barch ymhellach iddo drwy gyflwyno tiroedd iddo yn Ewyas. Dyma gyfrif am Llanfeuno yn y rhanbarth hwn. Ar glywed o Feuno am afiechyd ei dad, aeth ar unwaith i Bowys i weini arno, yn fuan wedi iddo gyrraedd bu ei dad farw. Yn fuan wedi hyn, aeth Beuno i ymweled â brenin Powys, a derbyniwyd ef yn garedig a boneddigaidd gan y brenin, yr hwn a roddodd iddo Aber rhiw yn Sir Drefaldwyn. Rhaghysbyswyd iddo fod y Saeson yn debyg o feddiannu y rhanbarth roddwyd iddo gan Fawan brenin Powys, ac felly barnodd yn ddoeth ymadael oddiyno. Wedi rhoddi Aber rhiw yng ngofal un o'i ddisgyblion, aeth Beuno i Feifod ac arhosodd am yspaid o amser gyda Tyssilio ; o Feifod aeth i Wyddelwern ym Meirionydd, lle bu cryn ymrafael rhyngddo â meibion Selyf. Wedi blino ar helynt meibion Selyf, aeth Beuno i lan yr afon Ddyfrdwy i geisio lle i weddio Duw, ond nis cafodd hyn nes dyfod ohono at Temig fab Eluid. Oddeutu yr adeg hon bu farw Cadfan brenin Gwynedd, a dilynwyd ef yn y frenhiniaeth gan Gadwallon ei fab, yr hwn a roddodd i Feuno a'r rhai oedd gydag ef dir i weddio ac i breswylio ynddo yng Ngwredog yn Arfon, yn gyfnewid am y waell aur roddasid iddo ef gan y Sant. Ar y llecyn hwn, adeiladodd Beuno eglwys, a thra yr oedd yn adeiladu mur ynghylch yr eglwys, daeth gwraig ato i ddymuno arno fendithio y mab newydd eni oedd yn ei harffed. Atolygodd Beuno arni aros ychydig nes gorffen ohonynt y gorchwyl oedd ganddynt mewn llaw. Yn ystod yr aros hwn, wylai y plentyn yn dost. Wedi ymofyn o Feuno achos yr wylo hwn, dywedodd mam y plentyn mai treftad ei mab oedd y tir feddiannwyd ganddynt, ac nad oedd gan y brenin unrhyw hawl i'w roddi iddo ef. Aeth Beuno ar unwaith i ymweled â'r brenin, gan gymeryd y wraig hon a'i phlentyn gydag ef, ac wedi ei geryddu am yr hyn a wnaeth, gofyn-

[1] A. N. Palmer: *Cymmrodor*, vol. x., p. 16.

[2] *The Elucidarium* pp 113—127: J Morris Jones

nodd iddo roddi tir arall iddo, neu ddychwelyd y waell aur roddwyd yn anrheg iddo ; ond ateb trahaus roddodd y brenin iddo, ni newidiai y tir, ac am y waell yr oedd yn barod wedi ei rhoddi i arall. Trwy yr ateb hwn, dygodd y brenin arno ei hunan wg y sant. "Mi aarchaf heb ef yduw na bo hir ymedych ti ar tir adayar." Wedi ymadael o bresenoldeb y brenin, cyfarfu Beuno â Gwyddnaint cefnder Cadwallon, ac yr oedd yn awyddus i wneud iawn i'r sant am ddrygfoes y brenin. Gwyddnaint " arodes dros yeneit ehun ac eneit cadwallawn ygeuynderw. yduw a beuno. ydref ehun a elwit Kellynnawc yn dragywydawl. heb val aheb ardreth aheb vedyant ydyn orbyt na hawl arnei." Yr oedd eglwys Clynnog yn un o'r rhai harddaf yn y wlad ; dywed Leland ei " bod yr eglwys harddaf yn Sir Gaernarfon, ei bod yn rhagori ar eglwys Bangor, ei bod bron gymaint a Thyddewi ond o wneuthuriad gwahanol.[1] Disgrifir yr eglwys gan Pennant fel yr adeilad gwychaf o'r math hwn yng Ngogledd Cymru.[2] Yr oedd Beuno yn fawr ei barch, ac erys ei enw ynglŷn âg enwau lleoedd megis Capel Beuno, neu Eglwys y Bedd lle gorwedd gweddillion y Sant, Ffynnon Feuno, Gored Beuno. Cedwir ei enw hefyd ynglŷn â *Chyff Beuno*, a *Nod Beuno* ; am y ddau ddiweddaf, dywed Eben Fardd : " Cystal i chwi geisio torri Cyff Beuno " fyddai y dywediad gynt yng Nghlynnog, pan geisiai rhywun wneud rhywbeth hynod o anhawdd. Mae yr hen gist hon yng nghadw yn yr Eglwys hyd y dydd heddyw. Un darn o bren ydyw wedi ei gafnio yn geudod eang oddimewn, a rhan o'i arwyneb uchaf wedi ei lifio allan i wneud cauad, a thwll ynddo i fwrw darnau arian yr offrymau i mewn drwyddo. Y mae bollt haiarn hir a chref yn rhedeg drwy dri o'r hespennau, ar ba rai y byddai tri o gloiau i'w ddiogelu, a'r agoriadau yn cael eu cadw, un gan yr offeiriad a'r ddau arall gan y Wardeniaid . . . . Cedwid ynddo werth yr anifeiliaid a fyddent yn dwyn arnynt " nod Beuno," sef hollt naturiol yn y glust ; y rhai oeddynt drwy gyflawn hawl yn offrymau priod y Sefydliad ; yr oedd heblaw hyn, lawer o offrymau gwirfoddol yn cael eu bwrw i mewn yn achlysurol."[3] Bu farw Beuno yn ol pob tebyg, ar yr unfed ar hugain o Ebrill yn y flwyddyn 642. Tybir mai y Cyldwys oedd y dosbarth o fyneich drigiannent yng Nghlynnog yng nghyfnod cyntaf y fonachlog, ac mae hyn yn debyg pan gofir fod yr un dosbarth yn Enlli yr un adeg.[4] Yn ddiweddarach daeth y Cisterciaid—y Myneich Gwynion—i Glynnog. Nid oes wybodaeth pa hyd yr arosasant, yr oeddynt wedi mynd cyn y flwyddyn 1291. Yn y flwyddyn 1288, caniataodd y Pab Nicolas IV. ddegfed ran o dderbyniadau y clerigwyr i Edward I. i ddwyn traul y Groesgad yr ymgymerai â hi ; gorchmynodd y brenin fod pob bywoliaeth eglwysig i'w phrisio o fewn talaethau Caergaint ac Efrog, gorffennwyd hyn yn ystod y blynyddoedd 1291—92.[5] Yr adeg y gwnaed Trethiad Nicolas yr oedd

[1] *Leland's Itinerary in Wales*, part vi., pp. 52, 86—87.

[2] *Pennant's Tours*, vol. ii., p. 384.

[3] *Cyff Beuno*, td. 62, 63 : Eben Fardd.

[4] *Cyff Beuno*, td. 56 : Eben Fardd.

[4] *Leland's Itinerary in Wales*, part vi., p. 52 ; *Welsh Abbeys*, p. 12 : J. A. Randolph.

[5] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i. p. 597.

Clynnog yn eglwys golegaidd gyda phump o ganoniaid yn perthyn iddi.[1] Gwaddolwyd Clynnog Fawr gan Ruffydd ab Cynan, a daeth yr eglwys mewn canlyniad yn un o "sefydliadau'r Goron." Perthynai i Glynnog dri chapeliaeth, capeliaeth unedig Llanwnda a Llanfaglan, capeliaeth unedig Llangeinwen a Llangaffo yn Sir Fôn, a chapeliaeth Llangelynin yn Sir Feirionydd. Parhaodd Clynnog Fawr yn eglwys golegaidd hyd yr amser y diddymwyd y mynachdai. Ni ddeuai sefydliad eglwysig Clynnog yn briodol o fewn cylch y weithred er diddymu y crefydd-dai; yr oedd yr arian ddeuai i'r sefydliad o dan £200, ac nid oedd y sefydliad yn fynachdy mewn ystyr fanwl; "ymwelwyd," fodd bynnag, âg ef, newidiwyd ei gymeriad colegaidd, ac yspeiliwyd ef o'i feddiannau. Perthyn Perigloriaeth Clynnog i Goleg Iesu, Rhydychen, ac mae'r Ficeriaeth yn nawdd Esgob Bangor.

Yr oedd yng Nghlynnog lyfr a elwid *Llyfr Beuno*, neu y *Tiboeth*. Ceir y nodiad a ganlyn gan Dr. John Davies o Fallwyd yn ei *Eiriadur* mewn perthynas iddo: "Tiboeth y gelwid Llyfr Beuno Sant oedd yn eglwys Glynnog yn Arfon, a maen du arno; yr hwn a'sgrifennasa Twrog yn amser Cadfan frenhin, ac a ddiangodd pan losgodd yr eglwys. Hwn a welais i, mêdd *T.W. anno* 1594.[2]." Y *T.W.* y cyfeirir ato ydyw Dr. Thomas ap William, ac mae'n debyg fod y llyfr yr un a'r *Graphus Sancti Beunoi* y cyfeiriwyd ato gan amryw dystion yng Nghaernarfon yn y flwyddyn 1537. Gellir casglu mai math o gofrestr oedd o feddiannau y sefydliad, rhestr o aelodau y clwysgor, ac ambell gofnod o ddigwyddiadau o ddyddordeb cyffredinol.[3] Ceir llawer o gyfeiriadau yn ein barddoniaeth at Feuno a'r sefydliad yr oedd yn ben arno, gwasanaethed a ganlyn fel engreifftiau:

Adyn ar i hôl ydwyf,
Ywch ben gwen ŷch bannog wyf . . . .
Nid ydoedd pan oedd yn iach
dan ael wineu dyn lanach
Lasar a godes Iesu
yn fyw o'r bedd yn farw bu
gwnaed Duw am ddyn gannaid hir
i minnau godi meinir
dulas ydwy fal deilen
o frig yw am farw gwen
hon fo'r seithfed ddiledryw
bun fain a wnêl Beuno'n fyw.[4]

[1] *The Taxatio of Pope Nicholas* mentions five 'portions' in connection with it (Clynnog), namely,—'The portion of Master Anian Goch in the church of Clynnog Fawr, 9½ marks; the portion of William Fychan and obventions, 7 marks; the portion of Matthew the Chaplain, in the same 7½ marks; the portion of John, the chaplain in the same 7 marks; the portion of David, the Chaplain, in the same, 7 marks."—*Portionary Churches of Mediæval North Wales*, p. 17: A. N. Palmer.

[2] *Dictionarum Duplex*, d.g. "tiboeth": John Davies.

[3] *Cymmrodor*, vol. xix., pp. 77, 78.

[4] *Cefn Coch MSS.*, p. 268.

Yn y llinellau uchod, cyfeiria Dafydd Nanmor at wyrthiau Beuno—ei allu i godi y marw yn fyw. Yn y llinellau a ganlyn ceir disgrifiad byw o "oes fodlon ar Ddefod" gan Eben Fardd.

Monachdy heb ddim nychdod,—sefydliad
Oes fodlon ar Ddefod ;
Pawb yn y clyw'n byw a bod
Ar rywbeth dd'wedai'r Abod.[1]

Caergybi.—Sefydlwyd mynachdy Caergybi gan Gybi Sant. Dy wedir ei fod yn ddisgynnydd o deulu bonheddig yng Nghernyw, ac fod ei dad yn Wledig ac yn frenhin lleol yng Nghernyw. Anghytunir mewn perthynas i'w achau. Yn ol yr achau Cymreig, disgynnai o Gystenyn Gorneu—"ap Gereint ap Erbin ap Cystennyn Gorneu" ; yn ol eraill disgynnai o Selyf "ap Gereint ab Erbin ap Lludd," y gwr osodir allan fel adeiladydd Caer-ludd—Llundain. Y golygiad cyntaf yw yr un dderbynnir yn fwyaf cyffredinol,—yn ol hwn yr oedd Cybi yn gefnder i Dewi Sant. Yr oedd ei fam Gwen yn chwaer i Nôn mam Dewi o Fynyw. Bu Cybi yng Nghernyw hyd ei seithfed flwydd ar hugain, pryd yr aeth ar daith i Jerusalem. Wedi dychwelyd i'r wlad hon, bu yn ymdeithio yng Nghernyw, Morgannwg, Porthmawr, yn agos i Dyddewi, a'r Iwerddon. Ymadawodd o'r Iwerddon oherwydd anghydwelediad rhyngddo â Fintan, a daeth mewn cwrwgl, efe a'i ddisgyblion, i Gymru, ac wedi glanio ohono sefydlodd eglwys yn Llangybi yn agos i Bwllheli. Yr oedd Maelgwn Gwynedd ar y cyntaf yn wrthwynebol iddo, ond yn ddiweddarach daethant yn gyfeillion, a rhoddodd y brenin iddo y lle yr adeiladodd Cybi fynachdy arno wedi hynny. Bu Cybi farw oddeutu canol y chwched ganrif, a chladdwyd ef yng Nghaergybi. Cysylltir ei enw â thair o eglwysi eraill yng Nghymru : Llangybi yn Arfon, Llangybi yng Ngheredigion, a Llangybi ym Mynwy. Ychydig iawn o ddefnyddiau hanes Mynachlog Caergybi sydd ar gael o adeg marw Cybi hyd "Drethiad Nicolas" yn y flwyddyn 1291. Rywbryd cyn y dyddiad yna, yr oedd y sefydliad wedi ei wneud yn eglwys golegaidd[2] yn debyg i'r hyn gymerodd le ynglŷn â Chlynnog. Gwaddolwyd Caergybi gan Ruffydd ab Cynan ; perthynai i'r sefydliad bedwar o ganoniaid, ond yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gwnaed y nifer yn ddeuddeg. Y Goron wnai yr apwyntiadau yng Nghaergybi fel yng Nghlynnog. Yr oedd cysylltiad agos rhwng y ddau sefydliad, yn fynych apwyntid yr un person yn ganon i'r naill sefydliad a'r llall,[3] a'r tebygrwydd yw mai yr un oedd y "rheol buchedd" y cydymffurfient â hi yn y ddau sefydliad ; a phan gollasant eu cymeriad colegaidd cysylltwyd hwy â Choleg Iesu, Rhydychen. Mae hanes sefydliad eglwysig Caergybi yn hynod bwysig yn y cyfnod rhwng Trethiad Nicolas a diddymiad y mynachdai, am y ceir ynddo ddrych o gysylltiad y "tylwyth" a'r "eglwys" yng nghyfundrefn eglwysig y Cymry. Fel y gwelwyd

[1] *Cyff Beuno*, td. 37 : Eben Fardd.

[2] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 597 ; *Monasticon Anglicanum*, vi. 1475.

[3] *Cymmrodor*, vol. xix., p. 71.

mewn pennod flaenorol,[1] yn ol cyfundrefn Eglwys Rhufain, rhennid y wlad yn wahanol blwyfi,a gosodid eglwys ymhob plwyf, ac edrychid ar yr holl drigolion o fewn y cylch fel yn perthyn iddi ; ond edrychai yr Eglwys Geltaidd ar yr holl wlad fel perchenogaeth y gwahanol dylwythau, a rhennid y tylwythau hyn yn ddau ddosbarth —tylwyth y tir, a thylwyth y sant. Pan roddid darn o dir i dylwyth neilltuol, byddai tylwyth y sant yn gosod i fyny eglwys ar unwaith er darparu ar gyfer anghenion ysbrydol y tylwyth ; y tylwyth oedd y pwynt cychwyn yng nghyfundrefn yr Eglwys Geltaidd. Gwelir yr egwyddor ar waith yn eglwys golegaidd Caergybi.[2] Mae ar gael ysgrif berthynol i'r bedwaredd ganrif ar ddeg a cheir ynddi restr o enwau y deuddeg canon wasanaethai eglwys Caergybi o fewn y cyfnod, ac enwau eu noddwyr. Cynrychiolai y noddwyr hyn wahanol "genhedloedd " yn yr ystyr roddir i'r gair yng Nghyfreithiau Cymru, a " gwelyau " yn yr ystyr roddir iddo yn y Cyfreithiau. Y " gwely " oedd y tir berthynai i'r " genedl " neu i gorff o bobl edrychent ar berson neilltuol fel eu hynafiad cyffredin—yr un y cawsant eu bod ohono. Yr wyth " genedl " apwyntient ganoniaid Caergybi oedd : cenedl Cadwgan ab Llywarch, cenedl Madog ab Llywarch, cenedl Iorwerth ab Llywarch, cenedl Bledrws ab Hwfa, cenedl Cyfnerth ab Hwfa, cenedl Ieuan ab Hwfa, cenedl Iorwerth ab Hwfa, a chenedl Gronwy ab Iorwerth.[3] Caergybi yw yr engraifft gliriaf sydd wedi dod i'r goleu hyd yn hyn o eglwys a'i hapwyntiadau yn cael eu gwneud gan gynrychiolwyr perchenogion y tiroedd gymerid i mewn fel maes arolygiaeth yr eglwys ; ond fel y bydd gwybodaeth yn eangu ac ymchwiliad yn mynd rhagddo yn y cyfeiriad hwn, hwyrach y gwelir nad oedd ond un ymysg lliaws. Mae Gerallt Gymro yn tystiolaethu mai hon oedd yr egwyddor y gweithredid yn ei hol yn ei ddyddiau ef.[4]

Llanelwy.—Sant Asa, Sant Asaf. Yr enw cyntaf ynglŷn â sefydliad eglwysig Llanelwy ydyw Cyndeyrn. Yn ol achau y saint Cymreig, mab oedd Cyndeyrn i Owain ab Urien, o gyff Coel Godebog. Cyfeirir ato yn achlysurol fel Cyndeyrn Garthwys. Yr oedd i'w dad Owain a'i daid Urien Rheged le amlwg mewn hanes a rhamant. Dygwyd Cyndeyrn i fyny dan ofal Sant Serf, ac efe oedd yr anwylaf o'i holl ddisgyblion. Pan yn bump ar hugain, ar ddymuniad Morcen, brenin Ystrad Clwyd, gwnaed Cyndeyrn yn esgob. Yn ddiweddarach, fodd bynnag, sylwodd Cyndeyrn fod Morcen yn llai ffafriol iddo, ac wedi marw y brenin, credai fod ym mryd ei olynwyr ei roddi i farwolaeth, ac er osgoi hyn diangodd Cyndeyrn i Gymru am noddfa, a chroesawyd ef gan Dewi Sant ym Mynyw. Gwahoddodd Cadwallon Law Hir Cyndeyrn i'r dalaeth lywodraethid ganddo ef, a derbyniodd yntau y gwahoddiad, ac ymsefydlodd ar lan yr afon Elwy oddeutu flwyddyn 560, a sefydlodd Goleg, neu Ysgol Fynachaidd yno, a dywedir i'r sefydliad gynyddu cymaint

[1] Pennod i.

[2] *The Tribal System in Wales*, p. 232 : F. Seebohm.

[3] *Portionary Churches of Mediæval North Wales :* A. N. Palmer, pp. 3, 6.

[4] *Topography of Wales*, book ii. chap. 6 : Giraldus Cambrensis.

fel y rhifai y rhai a berthynai iddo naw cant a phump a thrigian.[1] Dygid at Gyndeyrn feibion boneddigion yn ogystal a meibion y dosbarth cyffredin, fel y byddai iddo eu dwyn i fyny yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd. Dyna gychwyn sefydliad eglwysig Llanelwy—arferir ymadrodd penagored yn fwriadol, am nad yw yn glir a ydym i'w ystyried fel mynachdy ai ynte fel esgobaeth ; os y diweddaf, rhaid cofio na olyga yr ymadrodd yr ystyr a berthyn iddo mewn amser diweddar. Yr unig awdurdodau dros wneud Cyndeyrn yn sylfaenydd esgobaeth Llanelwy ydyw *Bywyd Cyndeyrn* gan Jocelin—gwaith perthynol i'r ddeuddegfed ganrif, a *Llyfr Coch* Asaph.[2] Dywed Willis Bund nad oedd esgobion yn yr ystyr roddir i'r gair yn gyffredin hyd adeg dyfod y Normaniaid i'r wlad hon.[3] Dyry yr un awdwr yn yr un gwaith olwg i ni ar y mynachdy yn datbylgu yn esgobaeth. "The whole history of the Welsh Church, after the coming of Augustine, is an account of how the bishop grew in importance from a subordinate place in the monastery, until he became the head of the clergy in the diocese, and exercised jurisdiction over them and it. The Llandaff records bring this out very clearly, and whether genuine or not, they are the best account we have of the deprcciation of the abbot and the appreciation of the bishop. In this part of the case, what evidence there is, goes to show that the episcopal system in Wales was like that in Ireland—bishops belonging to monasteries, and under the orders of the abbot. Then came the evolutionary process whereby the bishop gradually became the equal, and afterwards the superior, of the abbot. It is a most interesting piece of ecclesiastical history, showing how local ideas and surroundings modify even the beliefs and opinions of men in ecclesiastical affairs, how the bishop became first abbot, then, having the control of the monastery and the possessions of the monastery added to it that of the surrounding districts ; and when he obtained this became "a lord bishop," exercising civil and ecclesiastical jurisdiction over a defined area.[4] Mae'r dyfyniad yn hir, ond mae mor bwysig a theifl gymaint o oleuni ar hanes Llanelwy a Bangor Deiniol yn datblygu yn eglwysi cadeiriol, fel y barnwyd yn ddoeth ei roddi yn ei hyd. I gasgliad pur debyg y daw Haddan a Stubbs yn eu hymchwiliad hwythau i'r un cwestiwn ; edrychant hwy ar yr esgobaeth yn yr ystyr ddiweddar fel yn tyfu yn raddol o'r sefydliad mynachaidd.[5] I ddychwelyd at Cyndeyrn gwnaed ef yn esgob Glasgow gan Rhydderch Hael yn y flwyddyn

[1] *The Lives of the British Saints*, vol. i., p. 12 : S. Baring-Gould, J. Fisher.

[2] *Red Book*, Vita, p. 45. "Monasterium Sedem Cathedralem constituit."

[3] *The Celtic Church of Wales*, p. 252 : J. W. Willis Bund.

[4] *The Celtic Church of Wales*, pp. 268—64 : J. W. Willis Bund.
The Diocese of St. Asaph, p. 5 : D. R. Thomas.

[5] In Wales, Bishops not diocesan, but presiding over monastic or educational institutions, are perhaps faintly traceable about the sixth century . . . . On the other hand, as soon as ever the history of Wales emerges from the darkness that conceals it for a century after the departure of the Romans, a diocesan Episcopate is found established there, with a monastic establishment indeed as the centre of each see, but with the Bishop as such as its head.—*Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., pp. 142—143.

573, a pharhaodd yn y swydd hon hyd ei farw yn y flwyddyn 612.[1] Cyn gadael Llanelwy am Glasgow, apwyntiodd Cyndeyrn Asaph Sant yn olynydd iddo, a rhoddodd hyn foddlonrwydd i'r bobl ac i'r cwfeniaid o fewn y sefydliad. Yr oedd Asaph yn un o ddisgyblion Cyndeyrn. Enw ei dad oedd Sawyl mab Pabo Post Prydain, a ddaethai i Gymru am nodded pan y gorchfygwyd ef gan y Gwyddyl Ffichti, a chroesawyd ef gan Gyngen brenin Powys, a rhoddwyd tir iddo i ymsefydlu arno. Yr oedd i Pabo amryw feibion, Dunawd, Cerwydd,Sawyl,acArddun; gwelir felly fod Asaph yn nai i sefydlydd mynachlog Bangor Iscoed—Dunawd, ac yn gefnder i Deiniol sefydlydd ac esgob cyntaf Bangor yn Arfon. Enw ei fam oedd Gwenaseth, merch Rhiain Hael o Rhieinwg. Daeth enw Asaph yn amlycach ynglŷn a Llanelwy na'r eiddo ei athro a'i ragflaenydd ; cyfrif dau beth am hyn, ni bu Cyndeyrn mewn cysylltiad â'r sefydliad ond am dymor byr, oddeutu tair blynedd ar ddeg, 560—573, ond bu cysylltiad maith rhwng Asaph â'r lle, ac yno y rhoddwyd ei weddillion i orwedd. Cedwir coffadwriaeth am dano yn fyw ynglŷn â llawer o enwau lleoedd, megis Ffynnon Asa, Llanasa, Pantasa, Onen Asa ; mewn ewyllys berthynol i'r ail ganrif ar bymtheg ceir yr ymadrodd "Gweirglodd Ffynnon Asaph."[2] Nid oes sicrwydd pa bryd y bu Asaph farw, cyfeirir at y flwyddyn 596, ond mae y dyddiad yna yn amlwg yn rhy gynnar. Ceir rhai cyfeiriadau at Asaph gan ein beirdd—gan Iolo Goch, Lewis Glyn Cothi, a William Lleyn.[3] Dyry hanes Cyndeyrn ac Asaph a'r cyfundeb o bobl a'u dilynai syniad lled dda i ni am y modd y datblygodd y sefydliad mynachaidd yn esgobaeth yn ystyr ddiweddar y gair. Buddiol, hwyrach, fyddai cyfeirio yn fyr at hyn. Ymsefydlodd dilynwyr Cyndeyrn mewn bythod o fewn y tir amgylchai yr eglwys yn Llanelwy, cadwent wasanaeth yn yr eglwys hon, ac o Lanelwy fel canolbwynt gwnaent ymdrech i efengyleiddio y wlad o amgylch. "Yn raddol, codid eglwysi yn y rhanbarthau hyn naill ai gan arglwyddi y cymydau neu gynrychiolwyr y tylwyth, a gwnai y sylfaenwyr fel rheol ddarpariaeth er eu cynnal, a deuent, yn ymarferol, yn eglwysi plwyf dan nawdd y sawl a'i gwaddolasant. Credir i'r rhan liosocaf o'r "eglwysi tylwythol" gael eu bôd yn y modd hwn. Trefnid rhanbarth neu blwyf i'r eglwysi hyn, a chaent y degwm berthynai i'r rhanbarth.[4] Eglura yr un awdwr ymhellach y modd y cynhelid yr eglwysi hyn mewn adegau cyn bod talu degwm yn beth cyffredin ; yn yr amgylchiadau hyn, gofelid am danynt gan y fam eglwys ac ystyrid yr eglwys ddibynnol fel *chapel of ease* a thrigolion y rhanbarth fel plwyfolion y fam eglwys. Gofelid am nifer o'r eglwysi hyn gan ganoniaid neu aelodau y sefydliad mynachaidd yn Llanelwy, ond dalient i fyw yn y lle diweddaf, ac nid o fewn cylch eu gofal. Yn ddiweddarach, gosodwyd Ficeriaid ar yr eglwysi, a rhoddid iddynt gyfran o'r

[1] 612 yn ol yr *Annales Cambriæ*, 603 yn ol awdurdodau eraill.

[2] *Lives of the British Saints*, vol. i., p. 184 : S. Baring-Gould, J. Fisher.

[3] *Lives of the British Saints*, vol. i., p. 185 : S. Baring-Gould, J. Fisher.

[4] *Portionary Churches of Mediæval North Wales*, p. 14 : A. N. Palmer. *The Diocese of St. Asaph*, chap. i., pp. 1—10 : D. R. Thomas. *Notitia Monastica*, d.g. Sir Fflint : Tanner.

degwm berthynai i'r cylch y gwasanaethent ynddo ; yn gyffredin un ran o dair—" treian gweini " yr hen gyfreithiau ; ai y gweddill i gynnal y fam eglwys yn Llanelwy. Credwn y ceir cnewyllun y sefydliad esgobaidd yn yr hen drefniad hwn, a dengys y modd y daeth y cyfnewidiad yn raddol oddiamgylch. Ni pherthyn dweyd dim am esgobaeth Llanelwy yn y gwaith hwn ; myned dros y terfyn fyddai hynny. Dywedir i Tyssilio Sant ddilyn Asaph yn Llanelwy, ond nid oes sicrwydd am hyn ; y cofnod cyntaf y gellir dibynnu arno ydyw yr un gyfeiria at apwyntiad Gilbert yn esgob Llanelwy gan Theobald, archesgob Caergaint, yn y flwyddyn 1143. Dywedir, fodd bynnag, i Chebar, esgob Llanelwy, fyned gyda Hywel Dda i Rufain i ymgynghori gyda'r Pab mewn perthynas i rai o hen gyfreithiau Cymru. Mae un o'r geiriau briodolir i Asaph wedi dod i lawr i'n dyddiau ni—" A wrthwyneba air Duw, a genfigena wrth iachawdwriaeth dyn."[1]

Bangor Deiniol.—Bangor Fawr yn Arfon. Sefydlwyd yr esgobaeth hon—arferir y gair nid yn ei ystyr ddiweddar—gan Deiniol mab Dunawd, sefydlydd Bangor Iscoed, ac ŵyr Pabo Post Prydain ; hannai o deulu Coel Godebog. Dywedir i Deiniol gynorthwyo ei dad yn sefydliad Bangor Iscoed, ac iddo yn ddiweddarach sefydlu Bangor Fawr yn Arfon, ac wedi hynny gwnaed hi yn esgobaeth gan Faelgwn Gwynedd[2] ; ac apwyntiodd Dyfrig Deiniol fel yr esgob cyntaf.[3] Ond nis gellir adeiladu fawr ar y ffeithiau hyn ; ni ddywedir ar ba awdurdod y gallai tywysog Cymreig wneud esgobaethau ; ac y mae y cyfeiriad at y rhan fu gan Ddyfrig ynglŷn â'r mater yn ddigon naturiol pan gofier mai amcan " Llyfr Llandaf " oedd dangos pwysigrwydd esgobaeth Llandaf a safle uwchraddol ei hesgob. Y tebygrwydd ydyw i'r sefydliad eglwysig gychwynwyd gan Ddeiniol ym Mangor fyned drwy gwrs o ddatblygiad cyffelyb i'r un yr aed drwyddo yn Llanelwy er dod yn esgobaeth yn ystyr ddiweddar y gair. Anodd yw penderfynu pa bryd y sefydlwyd yr esgobaeth gan Ddeiniol, awgrymir y flwyddyn 525 gan Olygydd y *Cambro-Briton*, ond mae y dyddiad hwn yn amhosibl ; yr oedd Deiniol yn un dderbyniodd ei addysg ym Mangor Iscoed. Ni sefydlwyd Bangor Iscoed hyd hanner neu chwarter olaf y chweched ganrif.[4] Nis gallai Bangor yn Arfon, gan hynny, fod wedi ei sefydlu lawer cyn diwedd y chweched ganrif. Wrth fyned i mewn i'r cwestiwn o ddyddiadau, gwelir nad oes fawr sail i'r hyn ddywedir am Faelgwn Gwynedd a Deiniol. Bu farw Maelgwn Gwynedd yn y flwyddyn 547.[5] Bu Deiniol farw, yn ol yr *Annales Cambriæ*, yn y flwyddyn 584.[6] Yr unig gasgliad diogel y gellir dyfod iddo

[1] Quincunque verbo Dei adversantur,
Saluti hominum invident.

[2] *Welsh Saints*, p. 258 : Rees. *Celtic Britain*, p. 248 : J. Rhys.

[3] *Liber Landavensis*, p. 5.

[4] " We conclude from all this that Bangor monastery was not founded until the last half, or even perhaps the last quarter of the sixth century."—*Cymmrodor*, x. p. 15 A. N. Palmer.

[5] *Annales Cambriæ*. *Y Cymmrodor*, vol. ix., p. 155.

[6] *Lives of the British Saints*, vol. i., 180 : S. Baring-Gould and J. Fisher.

ydyw i'r esgobaeth gael ei sefydlu tua diwedd y chweched ganrif neu ddechreu y seithfed. Tybir i Deiniol ymneilltuo cyn ei farw i Enlli, ac yn hyn dilynai esiampl Dyfrig. Wedi marw Deiniol, yr enw nesaf ag y mae unrhyw hanes iddo ynglŷn âg esgobaeth Bangor yw Elfod; perthynai ef i deulu Caw, ac yr oedd yn yr esgobaeth oddeutu canol yr wythfed ganrif. Yr oedd Elfod yn wr lled ymhongar, ac ymgymerodd â newid amser y Pasg dros holl Gymru. Bu helynt flin ynglŷn â hyn. Bu farw Elfod yn y flwyddyn 809. Ymsefydlodd y Brodyr Cardod ym Mangor yn y flwyddyn 1277, o dan nawdd y brenin Edward I. Ceir ychwaneg ar hyn mewn pennod ddiweddarach. Ail-gysegrwyd Bangor yn adeg y Normaniaid; Llanelwy oedd yr unig esgobaeth Gymreig lwyddodd i osgoi hyn.

Mynachdy Dyffryn Clwyd.—"Mynachdy wedi ei ddinistrio. Dywedir i fynachdy gael ei sefydlu yma gan Elerius Sant a flodeuai yn y seithfed ganrif."[2] Camgymeriad Tanner yw hyn am fynachdy Gwytherin—gweler *Penn. v.* d.g. Gwytherin.[3]

Beddgelert.—Yr oedd un o grefydd-dai hynaf y wlad hon ym Meddgelert, gosodir ef yr agosaf i sefydliad Ynys Enlli o ran hynafiaeth.[4] Dywedir ar awdurdod Gerallt Gymro mai'r dosbarth o fyneich adnabyddir fel y Culdwys drigiannent yno ar y cyntaf.[5] Daeth y lle yn ddiweddarach yn gartref i ganoniaid Awstin; y ddau le arall yr ymsefydlasant yng Nghymru oedd Hwlffordd a Chaerfyrddin; caniataodd Anian esgob Bangor lythyr maddeuant y Pab i bawb roddai help i Briordy Canoniaid duon Beddgelert. Gwnai hyn fel ffrwyth ei ymchwiliad i hanes y sefydliad, dywedai y perthynai i'r Priordy amryw siarteri,—rhoddwyd un gan Llywelyn Fawr, tair gan Llywelyn ab Gruffydd, un gan yr Arglwydd Owen, ac un gan yr Arglwydd Dafydd. Yr oedd hefyd lythyrau oddiwrth y Pab ar gael yn ffafr y Sefydliad. Ac ar y cyfrifon hyn, dyry yr esgob ei nawdd dros y sefydliad, a chyfeiria yn neilltuol ato fel lle manteisiol i deithwyr rhwng Lloegr a Chymru a'r Iwerddon orffwyso a derbyn lletygarwch.[6] Dywed Pennant y perthynai myneich Beddgelert i urdd Gilbert—urdd sefydlwyd gan Gilbert, rheithor Sempringham—yr oedd "rheol buchedd" yr urdd hon yn gyfuniad o reol Awstin a rheol Benedict, yn ol trefniadau yr urdd hon caniateid i feibion a merched fyw ynghyd. Y rheswm ddyry Pennant dros ei olygiad ydyw iddo ddod o hyd i ddarn o dir yn agos i'r eglwys yn dwyn yr enw *Dol y Lleian.*[7] Blinwyd llawer ar Briordy Beddgelert gan Cisterciaid Aberconwy; ceisient wneud Beddgelert yn sefydliad dibynnol neu gell perthynol iddynt hwy,

[1] Pennod v.—Sefydliadau Mynachaidd.

[2] *Notitia Monastica*, d.g. Sir Ddinbych: Tanner.

[3] *Life of St. Winifred:* Prior Robert of Shrewsbury.

[4] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., 584.

[5] *Y Cymmrodor*, ix., td. 156.

[6] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i. pp. 580, 581.

[7] *Pennant's Tours in Wales*, vol. ii., pp. 344, 345; *The Old Churches of Arllechwedd*, p. xx., note: North.

a chael gan y cwfeniaid fabwysiadu eu hurdd a'u dull hwy o fyw.[1] Perthyn enwogrwydd i Feddgelert fel lle bedd Rhys Goch Eryri a Dafydd Nanmor, a chyfansoddwyd cywydd gan Lewis Daron, un o feirdd y bymthegfed ganrif, i Dafydd Prior Beddgelert yn dymuno arno roddi march yn anrheg i Sion Wynn o Wydir, ac yn ei ganmol am ei wybodaeth a'i haelioni. Adeg diddymu y mynachdai yr oedd Priordy Beddgelert yn werth yn flynyddol, £70 3s. 8d. yn ol Dugdale, a £69 3s. 8d. yn ol Speed.

[1] *A History of the Welsh Church*, p. 276: Newell.

PENNOD IV.

MYNACHDAI GOGLEDD CYMRU.

YR AIL GYFNOD.

WEDI gorchfygu Lloegr, nid aeth William y Gorchfygwr ymlaen i orchfygu Cymru. Nid damwain hyn, ond rhan o'i gynllun; yr oedd William yn awyddus i roddi gwaith i'w farwniaid terfysglyd rhag iddynt mewn adeg o hamdden wedi i gyfnod yr ymladd fyned drosodd, ddod yn elfen o berigl iddo. Gosododd y rhai cryfaf ohonynt ar ororau Cymru: Huw Flaidd yng Nghaer, Roger de Montgomeri yn yr Amwythig, a William FitzOsbern yn Henffordd. Rhwng y rhain yr oedd amryw eraill llai amlwg. Gwnai y rhai hyn eu goreu i wthio y Cymry o'u blaen i gyfeiriad y gorllewin. Yn ystod teyrnasiad William Rufus a Harri I., bu yr ymdrech hon ar ran y barwniaid yn neilltuol lwyddiannus, yn arbennig yn Ne Cymru. Enillasant bron yr oll oedd yn werth ei gael yn Ne a Dwyrain Cymru. Dyma yr adeg y ffurfiwyd Iarllaeth Penfro ac Arglwyddiaeth Morgannwg,[1] ac arglwyddiaethau llai pwysig, megis Gŵyr a Brycheiniog. Llwyddasant yn y Gogledd hefyd, ond nid i'r un graddau; ar y gororau yn unig y ffurfiwyd arglwyddiaethau Normanaidd yn y Gogledd, ym Montgomeri, Bromfield, Denbighland, a Chirk. Bu Gwynedd a'i thywysogion yn drech na grym ac ystrywiau y barwniaid Normanaidd. Cyfrif y gwahaniaeth hwn am y ffaith mai arglwyddi Normanaidd fel rheol geir yn sefydlu mynachdai yn Ne Cymru, tra mai y tywysogion Cymreig gymer y blaen gyda hyn, gydag un eithriad—Basingwerc,—yn y Gogledd. Wedi gorchfygu darn o wlad, codai y Norman ei gastell, a deuai mynach ar ei ol i weddio drosto ac i dderbyn tiroedd gan y trawsfeddiannwr pan ar ei wely angau. Yr oedd dwy urdd fynachaidd[2] wedi dod i amlygrwydd mawr yn ystod y cyfnod hwn—y Benedictiaid a'r Cisterciaid, y Benedictiaid ddaeth gyntaf i'r wlad hon a'r Cisterciaid yn eu hol. Yr oedd y Normaniaid yn fwy ffafriol i'r Benedictiaid; a sefydlwyd nifer dda o fynachdai perthynol iddynt yn Ne Cymru.[3] Yn y gwaith hwn mae a wnelom â'r mynachdai yng Ngogledd Cymru. Cyfyd y cwestiwn—Beth gyfrif am waith y tywysogion Cymreig yn codi mynachdai ac yn eu noddi hwynt? Ar y cychwyn, rhaid cymeryd yn ganiataol fod Cymru wedi ymostwng i'r anorfod—yr oedd wedi derbyn ffurf lywodraeth Eglwys Rhufain i fod yn rheol i'w heglwys hithau fyw a gweithredu wrthi; yr oedd hen eglwys y Cymry wedi ei cholli yn Eglwys

[1] *Cymmrodor*, vol. ix., p. 205—*A Study in Constitutional History*: Tout.

[2] Gweler Pennod i. td. 9.

[3] *Mediæval Wales* p. 105: A. G. Little.

Gatholig Rhufain, yr oedd pob teimlad o ymraniad wedi darfod. Credid yn y cyfnod hwn mai'r ddwy weithred fwyaf derbyniol gan Dduw y gallsai dyn eu cyflawni oedd—ymuno yn Rhyfeloedd y Groes, a sefydlu a gwaddoli mynachdy. Teimlai y tywysog awydd gwneud iawn am ei weithredoedd pechadurus, ac "ar anogaeth dwyfol dduwioldeb," sefydlai grefydd-dy "er cadwedigaeth ei enaid ei hun ac eneidiau eraill." Gwnai y tywysogion Cymreig hyn yn fynych fel mater o bolisi. Perthynai i'r Babaeth allu aruthrol y pryd hyn. "Yr oedd syniad ardderchog wedi rhoddi bod i Babaeth y Canol Oesoedd. Yr oedd i fod yn allu cyfiawn a phur, i achub y gwan rhag cam, i fod yn farnwr di-wyrni rhwng y diniwed a'r hwn a'i llethai, i fod mewn gwirionedd yr hyn a honnai fod,—datguddydd ewyllys Duw cyfiawnder a thrugaredd yn helyntion ac ymrafaelion teyrnasoedd y ddaear."[1] Ac nid "athrawiaeth bapur" mo hon; yr oedd y Babaeth lawer tro wedi bod yn fraich i'r gwan yn erbyn y cadarn. Rhoddodd Gregori VII. bob cymorth i'r Almaen yn ei hymdrech yn erbyn yr ymerawdwr, a rhoddodd Innocent III. yr un help i eglwys a barwniaid Lloegr yn erbyn John. Onid ellid dwyn gallu y Babaeth i gynorthwyo anibyniaeth Cymru? Crododd Llywelyn Fawr fod hyn yn bosibl, a gweithredodd ar y gred hon. Aeth i gyfamod â'r Pab, a rhyddhaodd Innocent III. ef oddiwrth bob ffyddlondeb oedd cyfraith ffeudalaidd yn ofyn oddiwrtho i frenin Lloegr. A gellir dweyd ei bod yn rhan o wladweiniaeth y tywysogion Cymreig o amser Llywelyn Fawr hyd amser Owen Glyn Dwr i gadarnhau eu hunain drwy gyfamod gwleidyddol â Ffrainc a thrwy sicrhau cymorth y Babaeth i gysegru ac i sicrhau anibyniaeth Cymru. Ac i sicrhau ffafr y Pab yr oedd yn rhaid cofio am hawliau yr urddau mynachaidd. Y Cisterciaid oedd yr urdd ffafriwyd yn bennaf yng Ngogledd Cymru. Ymsefydlodd y Cisterciaid gyntaf ym Mhrydain yn Waverley yn y flwyddyn 1129; yma, drwy ymdrechion Esgob Winchester—William Gifford—y codwyd eu habaty cyntaf. Daeth yr urdd i Gymru am y waith gyntaf yn y flwyddyn 1143,[2] ac ymsefydlasant yng Nghwm Hir, a chyn diwedd y ganrif yr oedd ganddynt sefydliadau blodeuog yn Ystrad Marchell, Aberconwy, Glyn y Groes, Cymmer. Y mae cwrs hanes *Basingwerc* yn wahanol i hanes mynachdai eraill Gogledd Cymru o fewn yr un cyfnod. Gorweddai y fynachlog hon ar lan y Ddyfrdwy, ac erys ei hadfeilion eto i roddi rhyw syniad am y mawredd berthynai iddi unwaith. Sefydlwyd hi, yn ol pob tebyg, gan y Normaniaid; ac yng Nghronicl St. Werburgh, enwir Ranulph, Iarll Caer, fel ei sylfaenydd a'r flwyddyn 1131 fel adeg ei sefydliad; myn eraill nad oedd y Ranulph hwn ond un o gymwynaswyr y sefydliad. Cred Leland mai y brenin Harri II. oedd y sefydlydd, tra yr haera Tanner i'r abaty gael ei gychwyn gan Iarll Caer ac i Harri II. berffeithio y gwaith a'i wneud yn sefydliad Cisterciaidd. Lle mae defnyddiau hanes mor brin a'r awdurdodau yn gwahaniaethu gymaint oddiwrth eu gilydd, hwyrach mai yr unig gasgliad diogel y gellir dod iddo ydyw fod yn y fan hon grefydd-dy wedi ei sylfaenu gan rywun, ac iddo yn ddiweddarach gael ei droi yn sefydliad

[1] *Cymru*, cyf. xii., td. 150.

[2] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 348.

Cisterciaidd. Dywedir i Harri I. sefydlu cell berthynol i'r Templars yn y fan hon.[1] Ac wrth ddisgrifio ei daith drwy Gymru gyda'r Archesgob Baldwin, dywed Gerallt Gymro iddynt droi i letya dros noswaith i "gell fechan Basingwerc."[2] Digwyddodd hyn yn y flwyddyn 1188. Awgrymir hefyd fod safle y fynachlog—ar godiad tir ac heb fod ymhell oddiwrth gastell—yn milwrio yn erbyn y syniad fod y lle o'r cychwyn yn sefydliad Cisterciaidd.[3] Dadleuir gan ysgrifennydd yn yr *Archæologia Cambrensis* i Basingwerc gael ei sefydlu, nid gan y Cymry, ond gan y Saeson.[4] Yr oedd safle Basingwerc yn bwysig iawn,—yr oedd yn y Berfeddwlad, maes yr ymladd mewn modd neilltuol rhwng Lloegr a Chymru,—a naturiol, gan hynny, oedd i Sais a Chymro ymgiprys am dani. Rhoddwyd iddi siarter gan Harri II., yr hon a ddodai awdurdod cyfraith i'r rhoddion drosglwyddwyd i'r sefydliad gan Ranulph, Iarll Caer.[5] Rhoddwyd iddi hefyd siarter gan Llywelyn Fawr a chan ei fab Dafydd, ac yr oedd tywysogion Cymreig wedi ei noddi cyn ei ddyddiau ef. Sicrhaodd Llywelyn iddi yn ei siarter bob peth oedd ei hynafiaid wedi roddi iddi er lles eu henaid, a chyhoeddodd iddi "heddwch a llonyddwch oddiwrth bob gwasanaeth daiarol ac oddi wrth bob bydol dreth." Ac ymddygodd Dafydd ab Iorwerth mewn modd cyffelyb tuag ati yn y flwyddyn 1240. Dyry Dugdale[6] restr o'r gwaddoliadau berthynai i Basingwerc: eglwys *Glossop, Treffynnon, Fulbrook;* capel Basing, y tai berthynai i'r hen fyneich, y felin a'r oll berthynai iddi, eiddo yn *Longenedale* yn Sir Derby; *Calders* a'i thrigolion, *Kethlenedei, Holes*, a rhan gyfran o *Lecche*, a chanswllt yn y flwyddyn o gyllid Caer. Cadarnhawyd y rhoddion uchod i'r sefydliad gan Siarter Harri II. ac ychwanegwyd llawer atynt gan Siarter Llywelyn a Dafydd, ymysg pethau eraill rhoddwyd i'r sefydliad y bumed ran o'r pysgod ddelid ym mhysgodfeydd Rhuddlan; caniatad i brynu a gwerthu er budd Basingwerc yn ddidoll ymhob ffair a marchnad drwy eu tiriogaethau hwy; a thir pori i'r anifeiliaid berthynai i'r sefydliad yng ngwahanol rannau y wlad,[7] yr oedd tir pori i'w defaid mor bell a mynyddoedd Meirionydd yng nghyffiniau Llanuwchllyn a Llyn Tegid. Ymddengys i feddiannau'r sefydliad gynyddu llawer yn eu gwerth gyda threigliad amser; yn adeg Trethiad y Pab Nicolas, 1291, eu gwerth oedd £46 11s. 0d., adeg diddymiad y mynachdai yr oedd y meddiannau yn werth £150 7s. 3d. yn ol Dugdale, a £157 15s. 2d. yn ol Speed. Ynglŷn â'r mynachdai yn gyffredin, ceid yr achyddwr, yr hanesydd neu'r cofiadur, a'r bardd. Cyfunai Guttyn Owain, bardd Basingwerc, y tair swydd ynddo ei hunan. Yr oedd yn achyddwr gwych, a dywedir i Harri VII. ei roi ar waith i olrhain ei

[1] *Welsh Abbeys*, pp. 11—12: John A. Randolph.

[2] *Itinerary through Wales*, p. 129, Giraldus Cambrensis: W. Ll. Williams.

[3] *A History of the Welsh Church*, p. 305: Newell.

[4] *Archæalogia Cambrensis* for 1891, pp. 126—134.

[5] *Monasticon Anglicanum*, p. 720: William Dugdale.

[6] *Monasticon Anglicanum*, p. 720: William Dugdale.

Pennant's Tours, vol. i., pp. 36—37.

achau.[1] Edrychir arno hefyd fel cofiadur Ystrad Fflur a Basingwerc, gadawodd ar ei ol y llyfr a adnabyddir fel "Llyfr Du Basing"; cyfeirir yn llawnach at hwn mewn pennod ddiweddarach; yr oedd hefyd yn fardd gwych. Canodd gywydd i Domas ab Dafydd Pennant, abad Dinas Basing; ymneilltuodd yr abad hwn o'r bywyd mynachaidd, a phriododd Angharad, ferch Gwilym ab Gruffydd ab Gwilym o'r Penrhyn, ger Bangor, a chymerwyd ei le fel abad gan ei fab Nicolas. Am yr abad, dywed Guttyn Owain:—

Ei ddwywawl arglwyddïaeth
Yw'r lawn i roi ar lan traeth.
Punnoedd mab Dafydd Pennant
Perai a gwin per i gant,
Da gweddai lle dygwyddodd,
Mewn tair rhent, a maint y rhodd . . . .
Darn o'r nef, dêyrn ein iaith,
Da'r adeiliai dai'r dalaeth.

Yn yr un cywydd ceir gan y bardd ddisgrifiad rhagorol o fynachlog Dinas Basing:—

Difai naddfaen, defnyddfawr,
A derw tir mewn dortur mawr!
Tai melus win, teml y saint,
Tair cafell, tŷ i'r cwfaint.
Tŷ da i'r ŷd, o'r tu draw,
Tŷ brag sydd, tŷ brics iddaw;
Gwal geryg wrth Gilgwri,
A thŷ porth ar ei thop hi;
Caed ar fur lle caid aur faich,
Caer fain yn cau ar fynaich.
Ef a lanwodd felinau,
Yn mhob glyn, a phen bryn brau.[2]

Aberconwy.—Ac eithrio Ystrad Fflur, Aberconwy oedd y sefydliad mynachaidd pwysicaf yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn. Yr hyn oedd Ystrad Fflur i Geredigion a theulu'r Deheubarth, dyna oedd Aberconwy i Wynedd a thywysogion y Gogledd. Daeth nifer o fyneich i'r lle o Ystrad Fflur, a sefydlwyd Aberconwy gan Llywelyn Fawr yn y flwyddyn 1185, a chysegrwyd hi i'r Wyryf Fendigaid a'r Holl Saint."[3] "Myfi Llywelyn fab Iorwerth, tywysog holl Ogledd Cymru, trwy fewnol rym duwioldeb, er iachawdwriaeth fy enaid ac eneidiau fy rhagflaenoriaid a'm holynwyr a roddaf,"—ac yna dilyn derfynnau'r wlad roddodd y tywysog i'r Cisterciaid. Ymysg yr enwau a nodir fel yn perthyn i'r mynachdy, ceir Ffynnon y Meirch, Cerrig Llwynogod, Llyn Alwen, Erw'r Forfran, Gwern y Gof, Crogfryn, Blaenchwilogen, Gwernbleiddiau, Rhedynog Felen, Trefarthen, ac Aberpwlledarlas. Cyfeirir yn y siarter at y rhagorfreintiau berthynai i'r sefydliad, ymysg pethau eraill nodir nad oedd

[1] *Dr. Powell's History of Cambria,*

[2] *Gorchestion Beirdd Cymru,* tdd. 206—207: Rhys Jones.

[3] *Monasticon Anglicanum,* p. 918: William Dugdale.

Aberconwy i fod yn gyfrifol am unrhyw arian fenthycid gan y myneich berthynai iddi, os gwneid hynny heb ganiatad yr Abad. Yn yr abaty hwn gyfodwyd ac a waddolwyd gan Llywelyn ab Iorwerth y claddwyd y tywysog yn y flwyddyn 1240. Mae'r cofnod o hyn ym *Mrut y Tywysogion* yn ddyddorol, dyfynnwn ychydig frawddegau: "Deugein mlyned adeucant amil oed oet crist. panuu uarw Llywelyn ab Iorwoerth tywyssawc Kymry. Gwr oed anawd menegi y weithretoed da ac y claddwyt ynaber conwy. wedy kymryt abit crfeyd ymdanaw.[1] " Cyffelyb yw tystiolaeth yr *Annales Cambriæ* mewn perthynas i Llywelyn a'i garedigrwydd i'r myneich. "Rhoddodd fwyd a diod i dlodion Crist, gwnaeth gyfiawnder a phawb yn ol eu haeddiant . . . . drwy gariad gwnaeth ei hunan yn agos at bawb, a chadwodd y myneich mewn tangnefedd."[2] Bu Dafydd mab Llywelyn Fawr hefyd yn un o garedigion y sefydliad yn Aberconwy, ac er marw ohono yn Abergwyngregin, claddwyd ef gyda'i dad yn Aberconwy yn y flwyddyn 1246.[3] Dwy flynedd yn ddiweddarach daeth dau Abad a chorff Gruffydd i'w gladdu yno gyda'i frawd. Er iddynt ymryson llawer a'u gilydd yn eu bywyd ni wahanwyd hwynt yn eu marwolaeth. Yn y flwyddyn 1289[4] symudwyd y sefydliad Cisterciaidd o Aberconwy i Faenan, ychydig filltiroedd yn uwch i fyny i'r dyffryn; saif Maenan bron yn gyfarwyneb a "ffynnon Trefriw." Gwnaed hyn gan Edward I., a thrwy ganiatad y Pab Nicolas. Ymddygodd Edward I. yn hynod o anrhydeddus tuag at y myneich yr adeg hon, caniataodd iddynt ddal y tiroedd berthynai iddynt o'r blaen a mwynhau eu rhagorfreintiau, ac os cymerai oddiarnynt rai o'u tiroedd a'u meddiannau oddeutu Conwy, rhoddai yn eu lle eiddo cyfwerth yng nghymdogaeth Maenan. Gwnaeth y brenin hyn ar yr amod eu bod yn apwyntio dau Sais yn gaplaniaid, ac un Cymro er budd y rhai hynny na ddeallent Saesneg. Dechreu'r duedd i ladd yr iaith Gymraeg. Yr oedd un o'r ddau Sais i fod yn Ficer parhaus, ac i'w enwi gan y cwfeiniaid a'i gyflwyno gan yr esgob. Cadarnhawyd yr oll a wnaed rhwng y brenin a'r sefydliad mewn dwy siarter dyddiedig o Gaernarfon.[5] Symudwyd y myneich yn ddiweddarach o Faenan i Vale Royal yn Sir Gaer.

Adeg diddymiad y mynachdai ystyrid y tiroedd berthynai i fynachdy Maenan yn cynhyrchu cyllid blynyddol o £162 15s. 0d. yn ol Dugdale, £197 10s. 10d. yn ol Speed. Yn y flwyddyn 1563, daeth y lle y safai yr abaty arno a'r dre ddegwm yn eiddo i Eliseus Wynne, un o hynafiaid Arglwydd Niwbwrch. Symudwyd corff Llywelyn Fawr gyda'r sefydliad o Aberconwy i Faenan, ac yn ddiweddarach o Faenan i Wydir; gorwedd ei fedd carreg yn awr yn eglwys Llanrwst.[6] Bu i'r sefydliad hwn ran bwysig yn hanes Cymru;

[1] *Brut y Tywysogion—The Red Book of Hergest*, vol. ii., p. 369. Rhys and Evans.

[2] *Annales Cambriæ*, pp. 82, 83.

[3] *Annales Cambriæ*, p. 83; *Brut y Tywysogion—The Red Book of Hergest*, vol. ii., p. 370: Rhys and Evans.

[4] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., pp. 588—589.

[5] *The History and Antiquities of the Town of Aberconwy*, p. 74 and Appendix, pp. 163—177; *The Record of Caernarvon*, pp. 145, 146, 149.

[6] *The Old Churches of Arllechwedd*, p. 33; Herbert L. North. *The Diocese of St. Asaph*, p. 47 · D. R. Thomas.

yn ystod ymdrech Llywelyn ein Llyw Olaf am anibyniaeth Cymru, cydnabyddid ef ac Ystrad Fflur y ddau sefydliad pwysicaf o'u bath yng Nghymru. Drwy abadau Ystrad Fflur ac Aberconwy apeliodd Llywelyn, yn y flwyddyn 1275, at esgobion Lloegr, ar iddynt farnu rhwng Edward ac yntau. Yr oedd Esgob Bangor wedi esgymuno Llywelyn, yr oedd Esgob Llanelwy—Anian o'r Nannau—wedi ei athrodi o flaen esgobion Lloegr ac o flaen y Pab. Yn Ystrad Fflur, Mawrth y seithfed, yn y flwyddyn 1274,[1] ysgrifennwyd llythyr at y Pab Gregori X., gan abadau'r mynachdai Cisterciaidd, ac yn eu mysg Aberconwy, yn dymuno am i'r Pab beidio credu'r anwireddau ddywedwyd gan Esgob Llanelwy am Llywelyn. Bu yr ymdrech hon yn llwyddiannus, oblegid anfonodd y Pab at Archesgob Caergaint i'w orchymyn i beidio esgymuno Llywelyn os byddai'n foddlon i gyfarfod cenhadon yr Archesgob yng Nghymru; a dyna'r hyn oedd Llywelyn yn ei ddeisyfu. Canodd Tudur Aled un o'i gywyddau goreu i Abad Aberconwy i ddeisyf ganddo farch yn anrheg i Cynrig, perthynas i'r bardd. Yr oedd Cynrig ar briodi merch deg, ond rhaid oedd cael "march i'w dwyn." Credir fod y bardd ei hunan yn aelod o urdd y Ffrancisciaid. Yn y cywydd ceir disgrifiad rhagorol o Faenan. Dyfynnir nifer o linellau ohono:

Gydag un a geidw Gwynedd,
Y cawn ar lan Conwy wledd;
Abad ar y seithwlad sydd,
Aberconwy barc winwydd:
Arglwydd yn rhoi gwleddau'n rhad.
Arfer ddwbl ar fwrdd abad:
Glwys yw cegin y t'wysog
Troi mae'r gwaith trwm ar ei gog.
Conwy mewn dyffryn cynes,
Cefn y ffrwd y caf win ffres;
Tai aml am win, teml y mel,
Trwsiant, a bwtri isel . . . .
P'le ceisiwn sesiwn y saint?
Gydag ef a'i gyd-gwfaint.
Gwŷr un rhif, gwerin Rhufain,
Gwyn a rhudd yw gownau rhai'n.
Os gwyn ei fynwes a'i gob?
O'r un wisg yr â'n esgob:
Fe âi'r mab ar fur a main,
Be'i profid yn bab Rhufain.
Aent a mil o renti man,
Yntau fynai rent Faenan.[2]

Ni wna Gerallt Gymro ond crybwyll yn unig enw mynachdy Cisterciaidd Conwy. Nid oedd y sefydliad yr adeg yr ai yr Archesgob Baldwin a Gerallt drwodd ond ieuanc, tair blynedd oedd er yr adeg y sefydlwyd ef.[3]

[1] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i. pp. 498, 499.

[2] *Gorchestion Beirdd Cymru*, td. 235: Rhys Jones.

[3] *Itinerary through Wales*, p. 128: Giraldus Cambrensis: W. Llewelyn Williams.

Yn ychwanegol at Aberconwy sefydlwyd dau grefydd-dy arall yng Ngogledd Cymru gan Llywelyn Fawr,—*Llanfaes* a *Phenmon.* Perthynai Llanfaes i'r Brodyr Llwydion—y Ffrancisciaid ; sefydlodd Llywelyn hi er coffadwriaeth am Joan ei wraig. Cyfeirir ym *Mrut y Tywysogion* at sefydliad Llanfaes,—"Y ulwydyn rac wyneb y bu uarw giwan uerch Ieuan frenin gwreic lywelyn ab iorwoerth. vis whefrawr yn lys Aber, ac y cladwyt mywn mynwent newyd ar lan ytraeth. y gyssegrassei howel escob Llanelyw. Ac oe henryded hi ydadeilawd Llywelyn ab Iorwoerth yno vanachlawc troetnoeth a elwir Llanvaes ym mon."[1] Cymerodd hyn le cyn y flwyddyn 1240; yn y flwyddyn 1237, yn ol Haddan a Stubbs.[2] Daeth yn lle bedd amryw wyr o bwys,—brenin Denmarc, Arglwydd Clifford, amryw arglwyddi a barwniaid gwympasant yn y rhyfeloedd rhwng y Cymry a'r Saeson. Gwnaed cryn ddifrod i'r lle gan Harri IV.[3] Brenin lloegr, ond adferwyd ef gan Harri V., yr hwn a wnaeth drefniad fod wyth o frodyr crefydd i fod bob amser yn y sefydliad.[4] Bu Edward II. yntau yn garedig wrth y sefydliad. Yr oedd y Brodyr yn gefnogwyr aiddgar i Owen Glyndwr a'r mudiad gynrychiolid ganddo. Ceir amryw gyfeiriadau at Llanfaes yn ein barddoniaeth, gwasanaethed a ganlyn fel engraifft allan o lawer :—

Od aeth Ieuan a'i anedd,
I Lanfaes wrth lunio'i fedd.—*Hywel Dafydd.*

Y crefydd-dy arall y cysylltir enw Llywelyn Fawr âg ef ydyw Penmon. Ynglŷn â Phenmon mae'r cwestiwn yn ymgodi—A oedd crefydd-dy ym Mhenmon cyn adeg Llywelyn ? Y farn gyffredin ydyw fod y fath sefydliad yn y lle er y chwched ganrif. Enwir Einion Frenin fel ei sylfaenydd—gwr y cysylltir ei enw gyda Chadfan fel sylfaenydd crefydd-dy Ynys Enlli, a'r un y tybir iddo sefydlu eglwys Llanengan yn Lleyn. Cyfyd cwestiwn arall—A oedd y crefydd-dy ym Mhenmon o'r cychwyn ai ynte yng Nglanach—Ynys Seiriol ? Os derbynir y golygiad ddarfod i Einion Frenin gychwyn y sefydliad, digon naturiol fyddai tybied iddo ddilyn cynllun tebyg i'r un ddilynwyd yn Ynys Enlli, cychwyn yng Nglanach ac yn ddiweddarach dyfod o'r ynys i dir Môn, ond dylid cofio nad yw hyn oll ond dyfaliad. Ceir llinellau yng ngweithiau Cynddelw awgrymant fod ym Mhenmon sefydliad crefyddol yn ei ddyddiau ef. Dyma ei eiriau :—

Hyd Gaergaint i gadw braint Brython,
Hyd Gaer Llyr, a hyd Gaer Lleon,
Hyd Ystreigyl Enigyl, hyd Aeronydd ydd aeth,
Ei benaeth o Benmon.

Mae'r chwedl am Gybi yn cyfarfod Seiriol abad Mynachdy Penmon, yn ffafrio'r syniad fod yn y lle grefydd-dy er yn foreu.[5] Cyfeiria

[1] *Brut y Tywysogion—Red Book of Hergest*, vol. ii., p. 368 : Rhys and Evans.

[2] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 465.

[3] *Wales, The Story of the Nations*, p. 271 : Owen Edwards.

[4] *Monasticon Anglicanum*, vol. i., p. 55 ; William Dugdale. *Pennant's Tours in Wales*, vol. iii., pp. 32—33.

[5] *A History of the Welsh Church*, p. 83 : Newell.

Gerallt yn ei *Daith trwy Gymru* at Ynys Lenach[1] fel y geilw efe hi, fel mangre sefydliad eglwysig. Mabwysiedir yr un golygiad gan Pennant a Dugdale.[2] Y tebygrwydd, gan hynny, ydyw i Llywelyn Fawr roddi bywyd newydd i hen sefydliad oedd yn bod yn barod, a newid rhyw gymaint ar ei garictor. Dywedir gan ysgrifennydd diweddar i Lywelyn osod urdd y Gilbertiaid ym Mhenmon.[3] Cyllid blynyddol y sefydliad adeg diddymiad y mynachdai oedd £47 15s. 3d.

Cymmer neu y Fanner.—Safai mynachlog y Cymmer oddeutu milltir o Ddolgellau,yn agos i uniad yr afonydd Wnion a Mawddach, ac erys digon o'i holion i roddi syniad am yr hyn oedd unwaith. Sefydlwyd y fynachlog gan Feredydd, arglwydd Lleyn a Meirionydd, a'i frawd Gruffydd, meibion Cynan ab Owen Gwynedd. Llwyddodd Cynan a'i frawd Hywel i ennill Meirionydd oddiar ei ewythr Cadwaladr, arglwydd Meirionydd, yn y flwyddyn 1148. Yr oedd safle Meirionydd yn y ddeuddegfed ganrif yn hynod bwysig. Yn y cyfnod hwn yr oedd Gwynedd, Powys, a'r Deheubarth yn ymryson â'u gilydd am oruchafiaeth, a'r cryfaf ohonynt oedd i gael Meirionydd. Credai yr hen dywysogion mai un ffordd i gadw meddiant o'u tir, mewn adeg yr oedd popeth mor ansicr, oedd drwy sefydlu a gwaddoli crefydd-dai ; yr oedd mynachdy Cisterciaidd ymhob rhanbarth o Wynedd erbyn diwedd y ddeuddegfed ganrif,—Aberconwy yn Eryri, Basingwerc yn y Berfeddwlad, Ystrad Marchell ym Mhowys Isaf, Glyn y Groes ym Mhowys Uchaf, a Chymmer ym Meirionydd. Sefydlwyd Cymmer tua diwedd y ddeuddegfed ganrif,—1198 neu 1200[4], a daeth nifer o fyneich Cwmhir ac a ymsefydlasant ynddi.[5] Cysegrwyd y sefydliad i'r Wyryf Fendigaid. Yn y flwyddyn 1209, rhoddodd Llywelyn ab Iorwerth siarter i'r lle, yn cadarnhau y rhoddion gyflwynwyd gan y sefydlwyr, ac yn ychwanegu rhoddion a rhagorfreintiau pellach i'r lle ; yn y siarteri hyn, gosodir allan derfynnau'r tiroedd oedd i fod yn eiddo rhagllaw i'r sefydliad. Ni wneir cyfeiriad at y mwnau oedd yn y gymydogaeth, a'r casgliad naturiol yw nad oeddynt eto wedi eu darganfod. Yn ychwanegol at ei berchenogaeth ym Meirionydd, perthynai i'r mynachdy diroedd yn Lleyn. Yr oedd y teimlad cenedlaethol yn gryf yng Nghymmer, ac yr oedd amryw o'i habadau yn wyr o safle uchel. Cyn ei farw, wedi ymgynghori â'r tywysogion Cymreig yn Ystrad Fflur, penderfynodd Llywelyn Fawr mai Dafydd ac nid Gruffydd oedd i fod yn olynydd iddo ar yr orsedd. Amser blin gafodd Dafydd ar yr orsedd, yr oedd gorthrwm Lloegr drymed fel y penderfynodd, yn y flwyddyn 1244, apelio at y Pab i ddymuno arno fod yn blaid iddo, ac os gwnai Innocent IV.

[1] "This island is called in Welsh, Ynys Lenach, or the ecclesiastical island, because many bodies of saints are deposited there, and no woman is suffered to enter it."—*Itinerary through Wales, Giraldus Cambrensis*, p. 123 : W. Ll. Williams.

[2] *Pennant's Tours in Wales*, vol. iii., pp. 35, 36 ; *Monasticon Anglicanum*, vol. ii. 338 : Dugdale.

[3] *The Old Churches of Arllechwedd, Introd.* xx. (note) : Herbert L. North.

[4] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., 394.

[5] *A History of the Welsh Church*, pp. 303, 304 : Newell.

hynny, yr oedd Dafydd yn foddlon i ddod yn wr ffydd iddo, i ddal ei dywysogaeth dano, ac i anfon swm mawr o arian yn flynyddol iddo. Apwyntiodd y Pab abadau Aberconwy a Chymmer i wneud ymchwiliad i'r mater. Wedi cael yr awdurdod hwn gan y Pab, gwysiodd y ddau abad Harri III. i ymddangos ger eu bron hwy yng Nghaerwys ar yr ugeinfed o Ionawr yn y flwyddyn 1245, er mwyn iddynt wneud yr ymchwiliad y gorchmynwyd hwy i'w gyflawni. Cynhyrfodd hyn y brenin a'i farwniaid i ymosod eilwaith ar Gymru ac i drymhau'r gorthrwm, a daeth gair oddiwrth y Pab yn gorchymyn i'r abadau beidio mynd ymlaen gyda'r ymchwiliad. Ymunodd abad Cymmer, gyda'r abadau ereill berthynai i'r sefydliadau Cisterciaidd yng Ngogledd Cymru, mewn gwrthdystiad yn erbyn Esgob Llanelwy ar gyfrif yr anwireddau ddywedodd am Lywelyn ein Llyw Olaf wrth y Pab. Un o abadau Cymmer oedd Hywel, cefnder Owen Glyn Dwr. Ni chydymdeimlai Hywel â'i gefnder yn ei gynlluniau a'i ysbryd gwrthryfel, ac er ceisio ei berswadio i adael y cwrs ddilynai gwahoddodd Hywel ef i aros gydag ef ar delerau cyfeillgar. Derbyniodd Owen y gwahodd, ac aeth i Gymmer ; ac un diwrnod, pan allan yn rhodianna gyda'u gilydd, anelodd Hywel ei fwa ato, a darfuasai am Owen onibae am y wasgod ddur a wisgai. Wedi gweld brad ei gefnder, ffyrnigodd Owen, aeth yn ymladd rhyngddynt, ac Owen a orfyddodd. Cyllid blynyddol Cymmer adeg diddymiad y mynachdai oedd £51 13s. 4d. yn ol Dugdale ; £58 15s. 4d. yn ol Speed.

Ystrad Marchell.—Safai mynachdy Cisterciaidd Ystrad Marchell yn Sir Drefaldwyn, oddeutu tair milltir o dref Trallwm.[1] Hyd heddyw, erys ychydig olion o'r mynachdy. Sefydlwyd yr abaty yn y flwyddyn 1170, gan Owen Cyfeiliog, tywysog Powys, rhyfelwr, a bardd,—awdwr y "Corn Hirlas." Dywedir y byddai'r tywysog hwn a'i ben milwyr yn ei gylch, a phan ganai glod pob un, gorchymynai i'r menestr lanw'r corn a'i roi i'r sawl a folid ; archai iddo'i lanw i Dudur a Moreiddig, ac adroddai eu campau ; ond erbyn edrych, nid oeddynt yno, yr oedd y ddau wedi cwympo yn y frwydr. Llywodraethai Owen ar Bowys Isaf, ac yn ol tystiolaeth Gerallt Gymro yr oedd yn un o'r tri tywysogion Cymreig mwyaf blaenllaw yn ei ddydd.[2] Yn niwedd ei oes, ymneilltuodd i'r crefydd-dy sefydlwyd ganddo. "Y vlwydyn honno y bu uarw owein кefeilawc ynystratmarchell. wedi kymryt abit ycrefyd ymdanaw."[3] Yr oedd hyn yn beth digon arferol ymysg yr hen dywysogion Cymreig ; ymddygodd Llywelyn Fawr, fel y gwelwyd, yn gyffelyb. Gelwir y crefydd-dy hwn wrth yr enwau *Pola, Alba Domus* Ystrad Marchell, *Valle Crucis.* Dugdale sydd yn gyfrifol am yr enw olaf, ac mae yn ffrwyth cymeryd siarter Madog ab Gruffydd Maelor fel yn cyfeirio at Ystrad Marchell, ac nid at Llanegwestl fel y dylasai wneud. Gelwid hi yn *Alba Domus* am mai o Dŷ Gwyn ar Dâf y daeth y myneich cyntaf i'r lle. Cadarnheir

Leland's Itinerary in Wales, p. 55.

Itinerary through Wales, p. 136, Giraldus Cambrensis : W. Ll. Williams.

Brut y Tywysogion—The Red Book of Hergest, vol. ii., p. 341 : Rhys and Evans.

hyn gan y ffaith fod abad Tŷ Gwyn ar Dâf yn ymwelydd swyddogol âg Ystrad Marchell. Gelwid y lle yn *Pola* yn ddigon naturiol oddiwrth enw'r plwy' yr oedd ynddo. Yn siarter y sylfaenydd, gosodir allan y tir yn Ystrad Marchell yn cael ei roddi er anrhydedd i Dduw a'r Wyryf Fair, yna nodir terfynnau'r tiroedd. Yn y flwyddyn 1183, ychwanegwyd at diroedd y sefydliad drwy rodd gan Elis ab Madog, cefnder Owen Cyfeiliog. Bu Gwenwynwyn yntau, mab Owen Cyfeiliog, yn haelfrydig i'r sefydliad gychwynwyd gan ei dad; yn y flwyddyn 1201 rhoddodd siarter yn cyflwyno i Ystrad Marchell holl dalaeth Cyfeiliog. Derbyniodd y sefydliad lawer o roddion gan eraill hefyd, a phrynwyd tiroedd gan y myneich eu hunain fel yr oeddynt yn mynd rhagddynt mewn cyfoeth, ond mae'n amlwg iddynt, mewn rhyw fodd, golli llawer o'u meddiannau; oblegid adeg Trethiad y Pab Nicolas yn y flwyddyn 1291, nid oedd eu holl eiddo ond gwerth rhyw ugain punt,—£18 10s. 10d. oddiwrth feddiannau tymhorol; 13s. 4d. yn rhent o'r Amwythig; a 3s. yn y flwyddyn oddiwrth weddgyfarodir. Ni raid mynd ymhell i gael esboniad ar y modd y collasant lawer o'u tiroedd rhwng y blynyddoedd 1170 a 1291. Yn y rhyfel rhwng Llywelyn ac Edward I., ffafriai y myneich hyn Edward, ac fel cospedigaeth arnynt, aeth Llywelyn a llawer o'u tir oddiarnynt; a phan orchfygwyd Llywelyn gan Edward I., aeth pob eiddo berthynai, neu dybid berthynai, i'r tywysog Cymreig yn eiddo i'r gorchfygwr. Gwnaeth y "brodyr" ymdrech i adennill eu tiroedd yn ystod y blynyddoedd 1321—1322; gwnaethant apêl at y brenin am gyfiawnder, a gorchmynodd yntau i ymchwiliad gael ei wneud i'r achos. Cafodd y sefydliad gymwynaswr yn yr Esgob Lewis Cherleton o Henffordd, gadawodd iddo swm sylweddol o arian yn ei ewyllys. Dywed Dugdale i'r myneich Cymreig gael eu symud yn nechreu teyrnasiad Edward III. o Ystrad Marchell i abatai Seisnig, ac i fyneich Seisnig gymeryd eu lle, ac i'r sefydliad gael ei roddi dan arolygiaeth Buildewas yn Sir Amwythig.[1] Yr oedd amryw o abadau Ystrad Marchell yn ddynion o gryn bwys, ac mae sicrwydd i un ohonynt fod droion yng Nghyngor Cyffredinol Citeaux, ac mae pob lle i gredu fod y mwyafrif ohonynt yn gymeriadau diargyhoedd, yr hyn y proffesent fod; daeth yr abad Dafydd ab Owen, yn Esgob Llanelwy yn y flwyddyn 1503. Yr oedd eithriadau yn eu mysg hwythau, syrthiodd Enoc ail abad Ystrad Marchell, i anfoesoldeb, a bu raid iddo ymneilltuo o'i swydd gysegredig ac o'r bywyd mynachaidd. Mae bron yn sicr mai at Enoc y cyfeirir gan Gerallt Gymro.[2] Fel y gellid disgwyl, dioddefodd holl abatai Gogledd Cymru yn fawr drwy wrthryfel Owen Glyn Dwr, ac nid oedd Ystrad Marchell yn eithriad yn hyn: gwnaed i fyny i raddau am y difrod hwn drwy garedigrwydd Syr John de Cherleton. Ychwanegodd ef at ragorfreintiau Ystrad Marchell mewn trefn i unioni y cam wnaed â hwynt drwy wrthryfel Owen Glyndwr. Pa fodd y dioddefodd y sefydliad nid yw yn

[1] *Monasticon Anglicanum*, p. 104: William Dugdale.

[2] *Itinerary through Wales*, p. 54, Giraldus Cambrensis: W. Ll. Williams.

hysbys ; cyfeiria un ysgrifennydd, fodd bynnag, at Owen Glyndwr "yn ymosod ar Fontgomeri ac yn llosgi y lleoedd amgylchent y Trallwm" ; mae'n ddigon posibl y cymerir i mewn Ystrad Marchell yn y "lleoedd amgylchent y Trallwm."[1] Yr oedd cell berthynol i Ystrad Marchell yn agos i Lyn Arenig,[2] yn agos i'r ffordd fawr arweinia o'r Bala i Ffestiniog, heb fod ymhell o'r Filldir Gerrig yng nghwmwd Penllyn. Rhoddwyd tiroedd i fyneich Ystrad Marchell yn y rhan hon o'r wlad gan Wenwynwyn tywysog Powys, a phan dderbynient diroedd yn rhodd mewn rhanbarthau pell oddiwrth y mynachdy, arferai y myneich sefydlu cell er darparu ar gyfer anghenion ysbrydol pobl y cylch ; a thybir fod Gwenwynwyn wedi cysylltu amod â'r rhodd, sef eu bod i ddarparu man aros iddo ef pan y byddai yn teithio drwy y rhanbarth. Ceir amryw enwau lleoedd yn dwyn tystiolaeth i gysylltiad y myneich â'r ardal hon, megis Coed y Mynach, Cwm Tir Mynach, Pont Mynachdwr. Adeg diddymiad y mynachdai perthynai i'r sefydliad gyllid blynyddol o £73 7s. 3d.

Mae i Ystrad Marchell bwysigrwydd ynglŷn â llenyddiaeth Gymreig. Credir i *Freuddwyd Rhonabwy* yn ei ffurf bresennol gael ei ysgrifennu ym mynachdy Ystrad Marchell. Ceir yn y fabinogi ddisgrifiad rhagorol o'r "dull o fyw yn y wlad" yr adeg hynny—"A phan doethant parth ar ty. sef y gwelynt lawr pyllawc anwastat yn y lle ybei vrynn arnaw. a breid yglynei dyn arnaw rac llyfnet y llawr gan vissweil gwarthec ae trwnc. yn y lle ybei bwll dros vynwgyl ytroet ydaei ydyn gan gymysc dwfyr athrwnc y gwarthec. agwrys kelyn yn amyl ar yllawr. gwedy ryyssu or gwarthec eu bric. Aphan deuthant ykynted yty y gwelynt partheu llychlyt goletlwm. a gwr wrach yn ryuelu ar y neillparth. a phan deelei annwyt arnei ybyryei arffedeit or us ampen y tan hyt nat oed hawd ydyn or byt diodef y mwc hwnnw yn mynet ymywn ydwy ffroen. ac ar y parth arall y gwelynt croen dinawet melyn. ablaenbren oed gan un onadunt agaffei vynet ar y croen hwnnw."[3]

Fel y cyfeiriwyd, yr oedd sylfaenydd a noddwr cyntaf Ystrad Marchell—Owen Cyfeiliog—yn fardd gwych, fel y prawf y llinellau hyn o'r Corn Hirlas :—

Estyn y corn er cydyfed,
Hiraethlawn am llyw lliw ton nawfed.
Bugelydd Hafren balch eu clywed,
Bugunant cyrn medd mawr a wna neued . . . .
Torrynt torredwynt uch teg adfan . . . .
Aur gunieid, lunieid, coch eu hongyr.
. . . . poed hir eu trwydded,
Yn i mae gweled gwaranred gwir.

Canodd Gutto'r Glyn gywydd marwnad i Lywelyn ap y Moel, un o gwfeniaid Ystrad Marchell :—

[1] *Williams's Eminent Welshmen*, s.n. Owen Glendower.

[2] *Arch. Camb.* vol. iii., 5th series, p. 118.

[3] *B uddwyd Rhonabwy, Llyfr Coch Hergest*, cyf. i., td. 145 : Rhys and Evans.

Mae arch yn Ystrad Marchell
Ymynwent cwfent a'i cell . . . .
Mawr yw anaf cerdd dafawd,:
Mawr os gwir marw eos gwawd ;
Tristach ydyw'r byd trostaw,
Tresbas drud dros Bowys draw . . . .
Gweddw yw'r gerdd amguddio'r gwr.
Gweddw yw gwlad o gywyddau glwys,
Gwedi bwa gwawd Bowys,
Gweddw'r serch egwyddor son,
Gweddw yw Arwystl gwydd irion ;
Ni chyrch nac eos na chog,
O Lwyn On i Lanwennog ;
Nid byw cariad taladwy,
Nid balch ceiliog mwyalch mwy, ...
A thorri canllaw awen,
Athraw gwawd, a threio gwen . . . .
Ei gorff ef aeth i'r crefydd,
Ancr i Fair yn y cor fydd.

Llangwestl, Glyn-y-Groes, *Valle Crucis*.—Oddeutu dwy filltir o Langollen, ychydig ymhellach i'r gogledd na Chastell Dinas Bran, mewn glyn prydferth a ymegyr i ddyffryn y Ddyfrdwy, gwelir olion hen fynachdy Cisterciaidd Glyn-y-Groes, a sefydlwyd gan Fadog ab Gruffydd Maelor o Gastell Dinas Brân yn y flwyddyn 1200. "Deucant mlyned amil oed oet Crist . . . . y ulwydyn honno y grwndwalwyt manachlawc lenegwestyl yn ial."[1] Yn y ddeuddegfed ganrif rhanwyd Powys rhwng Owen Cyfeiliog a Gruffydd Maelor, y rhannau o gwmpas yr Hafren i Owen a'r rhannau oddeutu'r Ddyfrdwy i Gruffydd. Fel y gwelwyd, codwyd mynachdy Cisterciaidd ym Mhowys Isaf gan Owen Cyfeiliog yn y flwyddyn 1170, a deng mlynedd ar hugain yn ddiweddarach gwnaed yr un gymwynas â Phowys Uchaf gan Fadog, y gwr roddodd ei enw i Bowys Fadog. Daeth y myneich i Lanegwestl o Ystrad Marchell, a rhoddodd Madog iddynt dre ddegwm Llanegwestl fel eu perchenogaeth. Yn y siarter dywed y sylfaenydd "Yn y flwyddyn 1200, yn cael ei gymell gan gariad Duw, a'i berswadio gan Pedr, abad y Tŷ Gwyn yn Ne Cymru a Diniawel abad Ystrad Fflur, rhoddodd y Tywysog Madog ab Gruffydd Maelor i Dduw, i Fair y Wyryf Fendigaid, ac i fyneich Ystrad Marchell dre ddegwm Llanegwestl a'r oll o fewn i'w therfynau, i adeiladu mynachdy er anrhydedd i Dduw, a'r fam fendigaid y Wyryf Mair, fel y gallent wasanaethu Duw yn ol rheol buchedd urdd y Cisterciaid." Gwasanaethai Philip, abad Ystrad Marchell, Philip, abad Glyn-y-Groes, Caradog ab Huw, ac Ednowain Sais fel tystion o'r weithred hon. Ddwy flynedd yn ddiweddarach, cadarnhawyd y weithred hon a throsglwyddwyd ychwaneg o feddiannau i'r sefydliad. Yr oedd y tiroedd ychwanegwyd yn Ial yn bennaf ; geilw Guttyn Owain abad Llanegwestl yn "bab

[1] *Brut y Tywysogion—The Red Book of Hergest*, vol. ii., 342 : Rhys and Evans. *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 394.

Ial."[1] A ganlyn yw rhai o'r enwau : Buddugre, Banhadlen, Creigiog. Rhoddwyd i'r sefydliad diroedd hefyd yng Ngwrecsam a'r cylch. Cyflwynodd Reyner, Esgob Llanelwy, hanner degwm Wrecsam i Lyn-y-Groes, e rhoddwyd yr hanner arall gan ei olynydd Abraham, a rhoddodd Hywel ab Ednyfed, Esgob Llanelwy, eglwys Llangollen i'r sefydliad.[2] Yn Nhrethiad y Pab Nicolas yn y flwyddyn 1291 ceir rhestr o feddiannau mynachdy Glyn-y-Groes, a rhoddir eu gwerth fel £14 14s. 8d. Adeg diddymu y mynachdai yr oedd eiddo y sefydliad yn werth yn flynyddol £188 8s. 0d. yn ol Dugdale, a £214 3s. 5d. yn ol Speed. Y fynachlog hon, ynghyd âg un Tintern, oedd yr unig rai yng Nghymru a chanddynt gyllid blynyddol o dros ddau gant o bunnau adeg diddymiad y mynachdai. Daeth Dafydd ab Iorwerth, un o abadau Glyn-y-Groes, yn Esgob Llanelwy, a thybia rhai fod ei olynydd yn yr esgobaeth, Dafydd ab Owen, yn abad Glyn-y-Groes, ond myn eraill mai abad Ystrad Marchell oedd hwn. Bu cryn ddadl cydrhwng Anian, Esgob Llanelwy, ag abad Glyn-y-Groes : y pwynt y dadleuid yn ei gylch oedd nawddogaeth yr eglwysi hynny y cyflwynwyd eu degwm i'r sefydliad mynachaidd. Dadleuai'r abad y perthynai hyn iddo ef ; credai ef, gan fod eglwys Llangollen, a'r eglwysi ddibynnai arni Wrecsam, Rhiwabon, y Waun, Llansantffraid, a Llandegla, y byddai un ficer yn y fam-eglwys yn ddigonol i'r oll ; ond credai yr esgob y dylid apwyntio ficer i bob un o'r eglwysi dibynnol hyn. Gofynwyd am i'r Pab gyfryngu, a thrwy ei gynrychiolwr, abad Talyllychau, rhoddodd ei ddyfarniad yn ffafr abad Glyn-y-Groes, a bu raid i'r esgob dalu dirwy am ymyryd, a bu raid i'r ficeriaid hwythau roddi bob un £60 yn iawn i'r abad.[3] Bu y mynachdy yn hynod gefnogol i lenyddiaeth Gymreig. Yr enw amlycaf ynglŷn â Glyn-y-Groes ydyw Gutto'r Glyn,—un o feirdd mwyaf toreithiog ei gyfnod. Credir iddo gyfansoddi oddeutu cant ac ugain o ddarnau barddonol, cywyddau yn bennaf ; mae ym meddiant yr ysgrifennydd bedwar ugain o'i gywyddau—rhai mewn argraff, ond y nifer fwyaf mewn llawysgrifau. Yr oedd yn ei flodeu oddeutu canol y bymthegfed ganrif, rhwng 1430 a 1468. Efe oedd bardd Llanegwestl. Yn ei "Awdl i Ddafydd abad Llanegwestl," dyry i ni syniad am yr hyn oedd bywyd o fewn mynachdy yn y bymthegfed ganrif yng Nghymru : dyfynnwn ychydig linellau o'r awdl.

Yr Abad :

Un blaenawr o aur eiriau, diwladaidd
Abadaidd wybodau,
Iarll ac imp yr holl gampau,
A chwardd fry gyda cherdd frau
Sanctaidd a llariaidd ar allorau—Duw
Y dywed weddiau.

[1] *Gorchestion Beirdd Cymru,* td. 203 : Rhys Jones.

[2] *Pennant's Tours in Wales,* vol. ii., pp. 2—3.

[3] *The Diocese of St. Asaph,* p. 43 : D. R. Thomas

Y cwfeint :

Saint yw y gwfeint nid gau,
Saint Antwn, sant yw yntau.
Gwr adeilodd y delwau a'r côr
A'r cerygl a'r llyfrau
Arglwydd walch i roi gwleddau,
O fewn cwrt, ni fyn naccau.

Ychwanegir llawer at fanylion y darlun yn nisgrifiad Guttyn Owain o Abaty Llanegwestl yn ei awdl i'r un person.

Haelioni'r sefydliad :

Afon o lasfedd i'w yfed—a gawn,
Gwin, osai, a chlared ;
Meddyglyn rhwydd in' rhed,
Pob da esmwyth, pob dismed.

Rhif y gro a fo ar fywyd—ei oes,
Heb eisiau na chlefyd ;
Y goreu uwchlaw'r gweryd
Am aur o abadau'r byd.

Dafydd galondid Ifor,
Dy fawl nid âi rhwng dau for :
Dy glod yw rhoi da a gwledd,
Dy ras enwog dros Wynedd.
Dwr nid oes na darn o dir,
Na thŷ dyn ni'th adwaenir
Mwya son am haelioni,
Dyn o'ch iaith am danoch chwi.

Bu dylanwad y Cisterciaid ar Gymru yn fwy na dylanwad unrhyw urdd fynachaidd arall. Mewn pennod arall cyfeirir yn helaethach at eu gwasanaeth a'n dyled iddynt. Er cymaint ein dyled i Gerallt Gymro am y darlun byw ddyry i ni o bobl, arferion, a dulliau yr oes yr oedd yn byw ynddi, nis gellir derbyn ei farn fel un ddiduedd pan y mae a wnelo'r farn honno a'r Cisterciaid. Cyfrif dau beth am hyn : y Cisterciaid oedd prif gynrychiolwyr Eglwys Rhufain yn adeg Gerallt,—yr eglwys y cyd-ymffurfiai hen Eglwys y Cymry yn raddol â'i dysgeidiaeth a'i harferion ; hwynthwy oedd ei brif wrthwynebwyr yn ei ymdrech i gadw anibyniaeth Eglwys y Cymry. Dywedir hefyd fod elfen arall fwy personol i'w chymeryd i ystyriaeth wrth gyfrif am ei ragfarn. Maentumir iddo, mewn cyfwng o gyfyngder ariannol, roddi ei lyfrgell ar wystl i fyneich Ystrad Fflur ; wedi hynny, aeth atynt a'i fryd ar ddadwystlo'r llyfrau, ond gwrthododd y myneich eu rhoddi iddo am y dywedent eu bod wedi eu prynu hwy ganddo. Beth bynnag yr eglurhad, mae'n amlwg fod Gerallt yn gadael i'w deimlad lywodraethu ei farn wrth son am y Cisterciaid.

PENNOD V.

SEFYDLIADAU MYNACHAIDD.

"A fynno ddeall bywyd y Canol Oesoedd rhaid iddo astudio yn neilltuol y drydedd ganrif ar ddeg—un o'r cyfnodau pwysicaf yn hanes dynolryw."[1] Un o ddigwyddiadau pwysicaf y ganrif hon oedd dyfodiad y Friars—y Brodyr Cardod neu'r Brodyr Pregethu. Gwneid hwy i fyny o bedwar dosbarth,—y Dominiciaid—y Brodyr Duon, y Francisciaid—y Brodyr Llwydion, y Carmeliaid—y Brodyr Gwynion, a Brodyr Awstin. Cyfeiriwyd yn barod at y pwyntiau o wahaniaeth yn y gwahanol urddau hyn.[2] Nid oedd yr urddau cardod yn lliosog yng Nghymru, ac nis gellid disgwyl hynny, pan gofier yr hyn a ystyriai yr urddau fel eu cenhadaeth neilltuol. Gosodid i fyny y sefydliad Benedictaidd, fel rheol, yng nghymdogaeth castell, ceid y Cisterciaid fynychaf yng nghanol y wlad, ond yn y trefi—ac yn y rhannau isaf ohonynt—y ceid y brodyrdy, —*ffreudur* y beirdd.[3] Ychydig oedd o drefi yng Nghymru, ac ychydig, mewn cymhariaeth, oedd nifer y Brodyr Pregethu. Ymsefydlasant yng Ngogledd Cymru, ym Mangor, Rhuddlan, Llanfaes, Rhuthyn, a Dinbych.

Bangor yn Arfon.—Daeth y Brodyr Cardod i Fangor yn y flwyddyn 1277,[4] a bu Edward I. yn gefn iddynt, ond tybir nad oedd ganddynt gartref o'u heiddo eu hunain hyd y flwyddyn 1300, pryd y rhoddwyd iddynt ddarn o dir gan Anian, Esgob Bangor.[5] Dywedir mai "acer" a roddwyd iddynt o dir, ond nid arferid y gair yn ei ystyr gyfyng y pryd hynny, ond golygai swm amhenodol o dir, ac mae rhesymau dros gredu i Anian gyflwyno iddynt lawn pedair acer o dir—a defnyddio y gair yn ei ystyr ddiweddar. Bu Tudur ab Gronwy o Benmynydd, Môn, hefyd yn gefnogydd aiddgar i Frodyr Cardod Bangor, a chladdwyd ef yn y flwyddyn 1311, mewn tir perthynol i'r urdd. Dymunodd yr Esgob Gervase de Castro yntau gael ei gladdu "yng nghôr Brodyr Pregethu Bangor," a gadawodd lawer o eiddo iddynt yn ei ewyllys, ac nid anghofiodd frawdoliaeth Llanfaes a Rhuddlan. Gadawodd Roger Sylle hefyd, yn y flwyddyn 1527, eiddo yn ei ewyllys i Frodyr Bangor. Adeg diddymiad y sefydliad yn 1539, yr oedd yr eiddo berthynai i'r lle, gan gynnwys yr adeiladau, yn werth pymtheg swllt ar hugain yn y flwyddyn. Ni pherthyn i'r gwaith hwn ddilyn hanes y lle ar ol y flwyddyn uchod; digon yw dweyd ei fod bellach ers canrifoedd

[1] *The Meaning of History*, p. 146: Frederic Harrison.

[2] Pennod i.

[3] *Dafydd ab Gwilym*, xi., td. 14.

[4] *Notitia Monastica*, p. 705: Tanner.

History of Friars School, p. 104, note B: Barber & Lewis.

wedi cyfyngu ei hunan i un wedd ar yr amcan oedd mewn golwg gan y Brodyr wrth ei sefydlu, sef cyfrannu addysg i'r ieuenctid. Perthynai ffreudur Bangor i urdd y Brodyr Duon—y Dominiciaid.

Llanfaes.—Gweler *Pennod iv.*, tdd. 32—33.

Rhuddlan.—Mae Rhuddlan wedi chwareu rhan bwysig yn hanes Cymru yn wleidyddol ac eglwysig. Yn Rhuddlan, yn y flwyddyn 1284, y gwnaed Deddf Cymru. Yn hon, rhannodd Edward I. deyrnas Llywelyn yn chwe Sir,—Môn, Caernarfon, Meirion, Fflint, Ceredigion, a Chaerfyrddin; a threfnwyd fod i Gymru rhagllaw gael ei rheoli gan siryddion brenin Lloegr, ac nid gan ei thywysogion ei hunan fel o'r blaen. Yn y flwyddyn 1281, ysgrifennai Edward I. lythyr yn awgrymu gwneud Rhuddlan yn gartref esgobaeth y dalaeth yn hytrach na Llanelwy.[1] Amlwg yw, gan hynny, fod Rhuddlan yn lle eglwysig o gryn bwys yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac yn wir cyn hynny, oblegid ymwelodd yr Archesgob Baldwin a Gerallt â'r lle yn ystod eu taith, ac wedi gwasanaeth ac arddeliad[2] arno, aethant o Ruddlan i eglwys gadeiriol Llanelwy. Ymsefydlodd y Brodyr Duon yn Rhuddlan cyn y flwyddyn 1268, oblegid yn y flwyddyn honno gwnaed Prior y sefydliad, Anian II., de Schonau, y Brawd Du o'r Nannau, fel y'i gelwid, yn Esgob Llanelwy.[3] Daeth un arall o brioriaid Rhuddlan i sylw rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yn y flwyddyn 1284, anfonodd yr Archesgob Peckham lythyr at Edward I. i alw ei sylw at y ddifrod wnaed i feddiannau a sefydliadau eglwysig yng Nghymru gan filwyr Seisnig yn ystod y rhyfel oedd newydd derfynu, ac i erfyn arno yn rasol i unioni y cam hwn. Rhoddodd y brenin ystyriaeth i'r gŵyn hon, a gorchmynodd i'r Archesgob wneud ymchwiliad pellach i'r mater. Apwyntiodd yr Archesgob ddirprwyaeth i wneud y gwaith hwn—aelodau y ddirprwyaeth oedd Prior Rhuddlan, Warden Llanfaes, a Ralph de Brocton. Ni bu'r ddirprwyaeth yn ofer; rhoddwyd iawn sylweddol i ddeon a chlwysgor Llanelwy, i esgobaeth Bangor, i fynachdy Ystrad Fflur, ac i Frodyr Duon Rhuddlan.[4] Ni raid ond ystyried adroddiad Peckham o'i ymweliad â Chymru er gweled fod y Brodyr Cardod yn gwneud gwaith rhagorol; hwy, yn ol tystiolaeth yr Archesgob, oedd y bobl gadwent y tân sanctaidd i gynneu yr adeg hon yng Nghymru, a mynnai iddynt wneud yn fawr ohonynt ar gyfrif eu gwaith.[5] Gwelodd y sefydliad lawer amser blin, ond daliodd ymlaen hyd yr adeg y diddymwyd y mynachdai. Trosglwyddwyd ef y pryd hyn, a'r oll berthynai iddo, i Harri ab Harri. Dywedir fod ysbyty ynglŷn â'r sefydliad er y flwyddyn 1281.[6]

Rhuthyn.—Bu yn Rhuthyn sefydliad perthynol i'r Carmeliaid—y Brodyr Gwynion, ond nid oes odid ddim o hanes y frawdoliaeth ar gael; yr unig dystiolaeth a erys ydyw yr ychydig enwau lleoedd

[1] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., pp. 529, 530.

[2] *Itinerary through Wales*, p. 129. *Giraldus Cambrensis*: W. Ll. Williams.

[3] *The Diocese of St. Asaph*, p. 221: D. R. Thomas.

[4] *Rymer's Fœdera*, i., 2, 642, 648, 650.

[5] *Councils, Haddan & Stubbs*, pp. 562—567, 571—574.

Notitia Monastica, s.n. Fflintshire: Tanner.

megis Stryt y Prior, etc. Nid oes wybodaeth pa bryd y daethant yma. Tybia hanesydd esgobaeth Llanelwy iddynt ddyfod i Ruthyn gyda'r Greys, a gwneir y peth yn fwy tebyg, fel y dywed yr ysgrifennydd hwn, pan gofier mai'r Greys fu yn foddion i ddwyn yr urdd i Loegr yn y flwyddyn 1250.[1] Nid oes gan Dugdale a Thanner odid ddim i'w ddweyd am sefydliad y Brodyr Gwynion yn Rhuthyn.[2]

Gwytherin.—Yn hanes boreu yr Eglwys Geltaidd darllennir am nifer o sefydliadau cymysg ; ynddynt ceid meibion a merched wedi ymneilltuo o'r byd er cael hamdden a thawelwch i ymgyrraedd at y bywyd uwch drwy fyfyrdod a gweddi. Nid oedd dim yn anghyson yn hyn, oblegid nid edrychai yr Eglwys Geltaidd ar ymgadw rhag priodi fel yn hanfodol i'r bywyd mynachaidd.[3] O'r sefydliadau hyn, gwneid llawer er goleuo ac addysgu y wlad o amgylch. I'r dosbarth hwn o sefydliadau y perthynai yr un geid unwaith yng Ngwytherin. Myn traddodiad i'r seintiau Cybi a Sannan gael eu claddu yng Ngwytherin. Mae gwahaniaeth barn, fodd bynnag, gyda golwg ar hyn.[4] Dywedir hefyd i Wenfrewi, pan yrrwyd hi allan o Dreffynnon, gael ei chyfarwyddo i fyned am noddfa i Wytherin,[5] ac iddi yn ddiweddarach gael ei chladdu yno. Wedi ei marw, daeth Gwenfrewi i amlygrwydd mawr ; a daeth Gwytherin i sylw, os nad i beth enwogrwydd, fel man ei bedd, a sefydlwyd lleiandy yn y lle, er anrhydedd iddi. Nid oedd Gwytherin i gael cadw ei braint yn hir, oblegid yn gynnar yn y ddeuddegfed ganrif symudwyd gweddillion Gwenfrewi o Wytherin i'r Amwythig. Bu hyn, mae'n amlwg, yn ddyrnod drom i grefydd-dy Gwytherin, oblegid nid oes odid ddim o'i hanes wedi'r digwyddiad yma ar gael. "Gwitherine—A nunnery here is mentioned by many that write of St. Winefrede"—dyna'r oll ddewyd Dugdale am y sefydliad.[6]

Llanllugan.—Sefydlwyd lleiandy yn Llanllugan oddeutu diwedd y ddeuddegfed ganrif gan Urdd y Cisterciaid, ac yr oedd mewn cysylltiad neilltuol â'r mynachdy berthynai i'r urdd yn Ystrad Marchell. Credir fod yn y lle grefydd-dy er y chweched ganrif ; os felly, digwyddodd yn gyffelyb yn Llanllugan i'r modd y digwyddodd ym Masinwerc, yng Nghymmer, a Phenmon. Rhoddodd y Cisterciaid fywyd newydd yn y sefydliad oedd wedi bodoli ers amser maith—er adeg Lleian merch Brychan Brycheiniog, yn ol rhai, er adeg Ffraid—*Bridget*—yn ol eraill. Ar ol sefydlu mynachdy Ystrad Marchell yn y flwyddyn 1170 y ceir y cyfeiriadau cyntaf at Llanllugan y gellir dibynnu arnynt. Dywedir i Enoc, abad Ystrad Marchell, sefydlu lleiandy yn Llansantffraid ym Mhowys, a thybir mai at Llanllugan y cyfeirir. Yr awdurdod cyntaf gyda golwg ar y sefydliad ydyw siarter Meredydd ab Robert, ab Llywarch, ab

[1] *The Diocese of St. Asaph*, pp. 441—442.

[2] *Notitia Monastica*, s.n. Denbighshire. *Monasticon Anglicanum*, p. 267 : Tanner.

[3] *The Celtic Church of Wales*, p. 289 : J. W. Willis Bund.

[4] *Dictionary of National Biography*, s.n. Cybi : Tout.

[5] *Pennant's Tours in Wales*, vol. i., p. 45—47. *The Diocese of St. Asaph*, p. 543 : Thomas.

[6] *Notitia Monastica*, s.n. Denbighshire.

Trahaearn, ab Caradog, ab Collwyn, ab Owain, ab Bleddyn, ab Bedws, ab Ednowain Bendew, yr hwn oedd yn byw yn adeg Llywelyn Fawr. Yn y flwyddyn 1239, rhoddodd Huw, esgob Llanelwy, y rhan o ddegwm Llanfair Caereinion berthynai i feibion Sulien, at wasanaeth lleiandy Llanllugan.[1] Yn y flwyddyn 1263, rhoddodd Anian, esgob Llanelwy, i Abades a Lleiandy Llanllugan gyfran o ddegwm Llanllwch-haiarn. Adeg Trethiad y Pab Nicolas yr oedd meddiannau tymhorol y sefydliad yn werth £1 9s. 0d. Yn ol y *Valor Ecclesiasticus* a wnaed yn y flwyddyn 1535, yr oedd holl eiddo y sefydliad yn werth £32 0s. 8d. Cofnod byr sydd gan Tanner a Dugdale am y sefydliad hwn, ac nid oes gan Leland ond brawddeg,—"Llanlligan a veri litle poore Nunneri about the border of Kedewen and Nother Powis." Credir mai un o leianod Llanllugan ddaeth yn wraig i Enoc, abad Ystrad Marchell. Ceir cyfeiriad at Llanllugan yng ngweithiau Dafydd ab Gwilym; yn y cywydd "i yrru llattai i hudo mynaches i'r llwyn," dywed:—

Peraist im' fun, ar ungair,
Par im' weled merched Mair;
Dewis lun, dos y Lan falch
Llugan lle mae rhai lliwgalch;
Cais yn y Llan ag anerch,
Salw yw'r modd, selwr merch.[2]

Dinbych.—Sefydlwyd priordy'r Carmeliaid—y myneich gwynion—yn Ninbych gan Syr John Salusbury yn y flwyddyn 1289. Gadawyd eiddo i'r sefydliad gan amryw; rhoddodd Esgob Llanelwy—Llywelyn ab Madog, swm o arian at wasanaeth y priordy a'r llestri arian dderbyniodd gan Henry de Salbri. Dywedir i Syr John Salusbury, sefydlydd y priordy, fyned gyda'r Groesgad i'r Tir Sanctaidd, ac mai ar ei ddychweliad y gwnaeth gartref yn Ninbych i'r Myneich Gwynion. Dywed yr *Archæologia Cambrensis* i Syr John drosglwyddo y priordy, yn y flwyddyn 1284, i Ynys Enlli, ond nid oes dim i gadarnhau hyn yn y rhestr o feddiannau berthynai i Ynys Enlli adeg diddymu y mynachdai. Bu Henry Standish, Esgob Llanelwy, yn noddwr i'r sefydliad. Mae Tudur Aled wedi disgrifio y lle:—

Lle odidogach, lle daw dugiaeth,
Ni chae iarll yw roi no chôr lle'r aeth,
Na brenin yn sîn wasanaeth—harddach
Na gwledd degach no'i gladdedigaeth.

Ysbytai Marchogion Ieuan Sant—Knights Hospitallers of St. John of Jerusalem. Dechreuodd yr urdd hon yn y flwyddyn 1092 pan adeiladwyd ysbyty i'r pererinion yn Jerusalem. Ancan yr urdd hon ar y cychwyn oedd darparu ar gyfer anghenion y rhai aent ar bererindodau i'r Tir Sanctaidd, a rhoddi nodded iddynt

[1] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 465.

[2] *Dafydd ab Gwilym, Gweithiau* xi., td. 13.

ar eu teithiau. Dilynent reol buchedd Awstin Sant, a gwisgent wisg ddu a chroes wen arni. Daethant i Brydain yn fuan, wedi ymffurfio yn urdd, a gosodasant i fyny eu sefydliad cyntaf yn y wlad hon yn Llundain oddeutu'r flwyddyn 1140. Sefydlasant gelloedd dibynnol—*commanderies*—mewn gwahanol rannau o'r wlad.

Ysbyty Ifan—Hospitium Sancti Ioannis. Tybir i'r ysbyty hwn gael ei sefydlu oddeutu'r flwyddyn 1190 gan Ifan Prys, ac iddo roddi Manor Tir Ifan at wasanaeth y sefydliad a llwyddo i gael y lle i'w gydnabod fel noddfa ffoedigion. Noddwyd y sefydliad ymhellach yn y flwyddyn 1225 gan Lywelyn ab Iorwerth, drwy roddi iddo ddegwm Ellesmere, a chadarnhawyd hyn gan Edward II. yn y flwyddyn 1316. Gwnaed Ysbyty Ifan yn ddiweddarach yn gell ddibynnol ar Halston yn Sir Amwythig. Yr oedd safle Ysbyty Ifan ar yr hen ffordd Rufeinig rhwng Conovium a Mons Heriri, a rhwng Caer a Chaernarfon mewn cyfnod diweddarach, yn gwneud y lle yn un manteisiol i gael noddfa ynddo. Yn niwedd y bymthegfed ganrif, daeth y lle yn gartref haid o ladron yn byw ar yspeilio y wlad o amgylch. Gorfodwyd hwy, fodd bynnag, mewn amser i adael y lle, a chiliasant i Ddinas Mawddwy, a daethant i gael eu hadnabod rhagllaw fel "Gwylliaid Mawddwy." Ar ol diddymiad y mynachdai, cyflwynwyd yr Ysbyty a'r tir a berthynai iddo i Dr. Elis Price—y Doctor Coch—gan y Frenhines Elizabeth. Nid erys unrhyw olion o'r ysbyty, ond tybir y safai yr ochr orllewinol i eglwys Ysbyty Ifan.

Tregynon.—Yr oedd cell berthynol i Farchogion Ieuant Sant yn Nhregynon. Yr oedd hon hefyd yn ddibynnol ar Halston. Ni wyddis gan bwy y sefydlwyd y gell yn Nhregynon.

PENNOD VI.

Y GWASANAETH WNAED I'R WLAD GAN Y MYNEICH.

PA fudd fu o fynachaeth ? Gellir ateb, llawer ymhob rhyw fodd. Gofalasant am grefydd y wlad pan nad oedd gennym yr un sefydliad arall i ofalu am hyn ; cadwasant y lamp i gynneu, daliasant y faner i fyny, buont yn golofnau i gynnal achos crefydd yn y nos fu yn ei hanes. Gwnaeth yr hen fynachdai yn y cyfnod cyntaf waith rhagorol, parhawyd y gwaith gychwynwyd ganddynt hwy gan y sefydliadau Benedictaidd a Cisterciaidd, a dilynwyd hwythau gan wahanol adrannau y Brodyr Cardod. Dyma oedd eu prif waith, i hyn y codwyd hwynt—i gadw ysbryd crefydd yn fyw yn y wlad. Yn yr ymdrech hon gwnaethant lawer mwy, buont yn foddion i oleuo a gwareiddio y wlad, ac i ddwyn addysg o fewn ei chyrraedd. Dylid cofio, gyda diolchgarwch, mai'r myneich a'r sefydliadau gychwynwyd ganddynt roddodd gychwyn i'r gyfundrefn addysg ag yr ymffrostiwn ynddi,—hwy fu'r *pioneers*. Gwnaed peth cyfeiriad at hyn mewn pennod flaenorol.[1] Tybir i Dyfrig, Illtud, Padarn, ac eraill sefydlu nifer o ysgolion yn eu dydd hwy, —ysgolion hynodid ar gyfrif y nifer fawr o efrydwyr a'u mynychent, yn ogystal ac ar gyfrif y gwyr enwog fu mewn cysylltiad â hwy. Caniateid i wyr lleyg yn ogystal a gwyr eglwysig fyned i'r sefydliadau hyn.[2] Bu'r myneich a'u sefydliadau ymysg prif noddwyr ein llenyddiaeth, hwy gadwent gân a chwedl, a hwy groniclent ffeithiau ddaeth wedi hynny yn ffynonellau ein hanes ; yr oeddynt yn aml yn ddigon "ofergoelus, yn rhoddi cred mewn llawer chwedl ffol ; eto iddynt hwy yn fwy na neb rhaid diolch am gadw ysbryd Cymru yn hoenus, a'i llenyddiaeth yn fyw drwy ganrifoedd o orthrwm a thywyllwch."[3] Bu eu dylanwad ar ein llenyddiaeth yn fawr mewn amryw gyfeiriadau. Un diffyg fu yn hir mewn llenyddiaeth Gymreig ydyw cyfyngder cylch ei gwelediad. Pobl fuom fel Cymry yn "preswylio ein hunain, ac heb ein cyfrif ynghyd a'r cenhedloedd." Fe gyfrifai ein safle ddaearyddol i ryw raddau am hyn. Ni ddylanwadodd cynhyrfiadau llenyddol Ewrob bob amser ar Gymru. Bu dylanwad y myneich ar ein llenyddiaeth yn foddion i unioni i ryw raddau y duedd hon ; buont yn ddolen gydiol rhwng bywyd Ewrob a bywyd Cymru, a rhoddasant gryn help i feddwl Cymru ddilyn meddwl Ewrob. Yr oedd hyn yn wir yn neilltuol am fyneich yr ail gyfnod—cyfnod y sefydliadau Lladinaidd gysylltir yn fwyaf neilltuol â'r Benedictiaid a'r Cisterciaid. Drwy y mynachdai Cymreig y cyfnod hwn,

[1] Pennod i.

[2] *College Histories—University of Wales*, p. 7 : W. C. Davies, a W. Lewis Jones.

[3] *Yny Lhyvyr hwnn*, Rhagarweiniad td. xi. : J. H. Davies.

daeth yr ysbryd lywodraethai feddwl Ewrob i gyffyrddiad â'r meddwl Cymreig, ac eangodd cylch ei weledlad. Gwnaethant wasanaeth gwerthfawr drwy y croniclau a gadwent. Ni chyfyngid y cofnodion i ffeithiau ddalient berthynas â'r sefydliad y cedwid y Cronicl ynddo, ond rhoddent ar gof a chadw ddigwyddiadau o ddyddordeb cyffredinol. Un o groniclau pwysicaf y mynachdai Cymreig oedd yr eiddo Margam. Ymestyn y Cronicl hwn o'r flwyddyn 1066 hyd y flwyddyn 1232. Ysgrifennwyd ef yn y drydedd ganrif ar ddeg, a cheir ynddo lawer o gofnodion pwysig yn dal perthynas â Chymru,—ystyrir ef yn un o'r awdurdodau ar hanes ein gwlad o fewn y cyfnod y mae yn ymwneud âg ef. Benthyciwyd y rhan gyntaf ohono—y ffeithiau gofnodir rhwng y blynyddoedd 1066 a 1147, o waith William o Malmesbury.[1] Bu cysylltiad agos rhwng mynachdy arall—Ystrad Fflur—âg un o'r croniclau pwysicaf yn hanes Cymru—yr *Annales Cambriæ*. Dyma, i raddau mawr, sylfaen yr hyn sydd gan groniclau eraill i'w ddweyd am ein hanes bore; ymestyn o'r flwyddyn 444 hyd y flwyddyn 954, a pharhawyd ef hyd y flwyddyn 1288. Ysgrifennwyd y rhan ddiweddaf ohono ym Mynachdy Ystrad Fflur. Y tebygrwydd ydyw i *Frut y Tywysogion* hefyd gael ei ysgrifennu yn Ystrad Fflur. I'r un dosbarth y perthyn "Llyfr Du Basing" a gyfansoddwyd gan Guttyn Owain, bardd a chofnodydd Mynachdy Basingwerc. Eithriad yw cysylltu enwau â'r hen groniclau fel y gwneir yn yr amgylchiad hwn ynglŷn â "Llyfr Du Basing"; fel rheol, nid yw yn wybyddus pwy a'u hysgrifennodd; y drefn hon oedd yr un ddilynid, cedwid cyfrol yn yr ystafell ysgrifennu berthynai i'r mynachdy gyda nifer o ddalennau rhyddion yn y gyfrol, ar y dalennau rhyddion caniateid i unrhyw un wneud nodiadau o ddigwyddiadau ymddanghosai iddo ef yn bwysig; ar ddiwedd y flwyddyn trefnid i ryw un person neilltuol fyned drwy'r dalennau hyn gan wneud cofnodiad byr o'r pethau goreu oedd ynddynt i'w dodi yn y gyfrol, ac felly i'w trosglwyddo i lawr i oesoedd a ddeuai ar ol. Dyna'r modd y datblygai yr hen groniclau. Yn niwedd y ddeuddegfed ganrif y cymerodd y *Mabinogion* y ffurf lenyddol a berthyn iddynt yn awr, a thybir mai rhai o'r myneich a roddodd iddynt eu gwisg bresennol. Cysylltir *Breuddwyd Rhonabwy* â mynachdy Ystrad Marchell.[2] I un o'r myneich—ancr Llanddewibrefi—yr ydym yn ddyledus am gorff o ddiwinyddiaeth y Canol Oesoedd—yr *Elucidarium*. Ceir nodiad byr yn y llyfr ei hunan yn cyfrif am y modd yr ysgrifennwyd ef. "Gruffydd ab Llywelyn ab Phylip ab Traharn o'r Cantref Mawr, a barodd ysgrifennu y llyfr hwn drwy law cyfaill iddo, sef dyn oedd yn ancr ar y pryd yn Llanddewivrevi . . . yn y flwyddyn 1346."[3] Mae nifer fawr o gywyddau Cymru yn y Canol Oesoedd a'u cyfeiriad at wahanol abadau. Gwelwyd mewn penodau blaenorol ddarfod i'r mynachdai fod yn blaid i'r teimlad cenedlaethol. Cymerodd y mynachdai yn

[1] *The Cambridge History of Modern Literature*, vol. I., p. 256 : W. Lewis Jones. *Sources of History*, p. 261 : C. Gross.

[2] *The Celtic Review*, Oct. 1907, p. 149 : Edward Anwyl.

[3] *The Elucidarium, Introd*, p. ix. : J. Morris Jones and John Rhys.

fynych eu hochr gyda'r Cymry yn erbyn y Saeson, yr oedd hyn yn wir yn neilltuol am Gonwy, Ystrad Fflur, Cwm Hir, a'r Cymmer. Amddiffynent hawliau rhandiroedd y ceisid mynd a'u hiawnderau oddiarnynt. "Ac obyt a amheuho vn or breynheu hene, clas Bancor arey Beuno ae Reydu."[1] Gwnaethant wasanaeth rhagorol i'r genedl drwy ofalu am y tlodion, a hynny ar adeg nad oedd yr un ddarpariaeth arall ar eu cyfer. Yn eu hadeg, hwy oedd y sefydliadau wnaent y gwaith tebycaf i'r hyn a wneir gan Fyrddau Gwarcheidwaid y dyddiau hyn.[2] Yr oedd elusenwyr ynglŷn â'r mynachdy a'u gwaith, a'u dyledswydd hwy oedd gweini i'r tlodion fel na byddai angen ar neb. Ymwelent hefyd â'r trigolion. Yr oeddynt yn ddoeth iawn yn eu hymwneud â'r tlodion. Os byddai ymysg y rhai a ofynai elusen rywrai wedi gweled dyddiau gwell ac yn anfoddlon i aros yn yr elusendy gyda'r tlodion, parchent eu teimladau, a rhoddent gymorth iddynt. Egwyddor yr *out-door-relief* yn cael ei chydnabod. Colled ddirfawr i dlodion y wlad oedd diddymu y mynachdai, a bu raid gwneud darpariaeth ar ran y llywodraeth i ddwyn ymlaen y gwaith wneid mor ddistaw a diymhongar gan y mynachdai.[3] Gwnaeth y myneich lawer i wella amaethyddiaeth y wlad. Wedi iddynt ymsefydlu mewn rhyw gwŵr gwyllt, anghysbell, o'r wlad, ymroent ati i wella y tir o gwmpas y sefydliad. Byddai yr anialwch a'r anghyfaneddle yn llawenychu o'u plegid, gorfoleddai y difaethwch a blodeuai fel rhosyn. Lle nad oedd unwaith ond eithin a grug, gwelid gerddi a gwinllanoedd a thir ffrwythlawn yn ymddangos.[4] Yr oedd y myneich yn hynod ar gyfrif eu lletygarwch. Y mynachdai oedd y gwestai—y mannau aros—i dlawd a chyfoethog yn y Canol Oesoedd, yn neilltuol y mynachdai hynny a safent ar y prif-ffyrdd rhwng lleoedd pwysig, megis Margam ar y ffordd rhwng Bristol a'r Iwerddon. Apwyntid swyddog neilltuol—*guest master*—i groesawu y dieithriaid ac i ofalu fod eu hangenion yn cael eu diwallu, gofelid am ddyn o gallineb eithriadol i'r swydd hon, yr oedd i gofio bob amser y gwneir cyfeillion drwy eiriau mwyn, a gelynion drwy eiriau geirwon. Ni raid ond darllen y *Mabinogion* er gweled fod Cymry y Canol Oesoedd yn feistriaid ar y gelfyddyd o groesawu dieithriaid. Yr oedd yn y mynachdy ran wedi ei neilltuo at wasanaeth y rhai ddeuant ar ymdaith. Yr oedd y dieithriaid i'w derbyn fel Crist ei hunan. Bu'r mynachdai yn ddefnyddiol lawer tro drwy wneud y gwaith a wneir gan ariandai y wlad mewn amseroedd diweddarach.[5] A chadwyd ysbryd celf yn fyw yn eu mysg, fel y gwelir yn amlwg oddiwrth olion eu hadeiladau, eu darluniau a'r llythrennau artistig a geir mewn hen lawysgrifau gynyrchwyd ganddynt. Symir i fyny ddylanwad y myneich ar y wlad gan Mr. Thorold Rogers yn

[1] *Councils, Haddan & Stubbs*, vol. i., p. 121.

[2] *History of Friars Schools*, p. 15: Barber and Lewis.

[3] *English Monastic Life*, p. 91: F. A. Gasquet.

[4] *Henry VIII. and the English Monasteries*, p. 466: F. A. Gasquet.

Oxford Studies in Social and Legal History, Vinogradoff, bk. ii., ch. iii. *Giraldus Cambrensis*, iv. Pref. xxxvi.: S. J. Brewer.

[5] *Mediæval Wales*, p. 115: A. G. Little.

y geiriau a ganlyn : " Y myneich oedd wyr llen y Canol Oesoedd, hwy oedd haneswyr, cyfreithwyr, athronwyr, meddygon, efrydwyr natur, sefydlwyr ysgolion, awdwyr croniclau, athrawon mewn amaethyddiaeth, yr oeddynt yn dirfeddianwyr caredig a theg, ac amcanent ddelio yn anrhydeddus â'r mân amaethwyr ddalient ffermydd odditanynt."[1] Credir, hefyd, y bu i Fynachaeth, yn neilltuol y ffurf Cisterciaidd arni, ddylanwad anuniongyrchol ar ffurfiad y Cyfansoddiad Prydeinig. Pan yr oedd y sefydliadau Cisterciaidd ar eu cryfaf yn y wlad hon yr oedd y Cyfansoddiad Prydeinig yn araf ymffurfio. Fel y gwelwyd,[2] fe nodweddid y sefydliadau hyn gan lawer o anibyniaeth, trafodent eu hachosion eu hunain heb lawer o ymyriad o'r tu allan, ond nid yn gwbl felly ; perthynai i'r urdd fath o Gymanfa Gyffredinol wneid i fyny o abadau y gwahanol fynachdai ; yn y Cymanfaoedd hyn fe gyfnewidiai y sefydliadau syniadau gyda golwg ar y modd i ddwyn y gwaith ymlaen, fe gyfatalient eu gilydd. Fe gyfunai y gyfundrefn ddwy egwyddor bwysig,—rhyddid i bob sefydliad i gymeryd ei lwybr ei hunan, ond cedwid y duedd hon rhag rhedeg i eithafion drwy gydnabod gallu canolog o'r tu allan. Dyna'r ffurf gymerodd y Cyfansoddiad Prydeinig yntau wrth ddatblygu—ceisio cyfuno y ddwy egwyddor y cyfeiriwyd atynt, ond rhoddi y pwys mwyaf ar hawl y bobl i benderfynu drostynt eu hunain pa gwrs a gymerent mewn gwahanol amgylchiadau. Mae Llywodraeth Prydain mewn gwirionedd yn Llywodraeth werinol ; oblegid, er ei bod hi o ran ei ffurf yn frenhiniaeth, a bod elfennau pendefigol ynddi hefyd, eto llais corff y bobl yn y diwedd a orfydd.

[1] *Henry VIII. and the English Monasteries*, p. 462 : F. A. Gasquet.

Pennod i.

PENNOD VII.

DIRYWIAD A DIDDYMIAD Y MYNACHDAI.

YMGYFYD y cwestiwn yn y meddwl,—pa fodd y gellir cyfrif am waith y wlad yn dygymod â'r syniad am ddiddymu sefydliad fu mor wasanaethgar iddi ag a fu Mynachaeth ? Hanes y wlad, ac yn neilltuol hanes Mynachaeth yng nghanrifoedd diweddaf y sefydliad, etyb y cwestiwn hwn. Bu cyfuniad o amgylchiadau ar waith er dwyn hyn oddiamgylch, a cheisir eu holrain yn y bennod hon. Ymlaenaf oll, bu y cynhyrfiad ddisgrifir fel y Dadeni yn elfen bwysig. Un o ganlyniadau cyntaf y Dadeni oedd y dyddordeb newydd ddechreuid deimlo mewn llenyddiaeth glasurol,—maes esgeuluswyd bron yn llwyr yn ystod tywyllwch y Canol Oesoedd. Penderfynwyd mynd yn ol at yr hen am ysbrydiaeth, ac nid cyfyngu eu hunain yn ormodol, fel y gwnaethant hyd yma, i weithiau Jerome ac Awstin—dau nodweddiadol o'r cyfnod oedd yr adeg hon yn prysur derfynu ; tybiai y blaenaf nas gallai un fod yn Gristion ac ar yr un pryd yn edmygydd o Cicero, tra nas gallai y diweddaf faddeu iddo ei hunan am yr amser gollodd yn darllen Homer a Virgil. O astudio llenyddiaeth Rhufain, a Groeg wedi hynny, daeth syniad eangach am fywyd ; gwelwyd mai anfantais oedd ei gyfyngu a'i gaethiwo i ryw rychau neilltuol, a theimlwyd mai eu dyledswydd oedd ei fyw yn ei holl arweddion, gyda'r mwynhad a'r calondid mwyaf. O gael golwg newydd ar fywyd, cododd gwrthryfel yn erbyn llyffetheiriau eglwys a thraddodiad,—yn erbyn pob peth ymddanghosai fel yn cyfyngu bywyd. Fe gynrychiolai y myneich blaid y llyffetheiriau,—y blaid fynnai gyfyngu bywyd, a chododd teimlad yn eu herbyn ; hawliwyd yr hyn sydd naturiol mewn crefydd ac mewn pob cysylltiad arall. Ni cheir gwell engraifft yn unman o'r gwrthdystiad wnaed yn erbyn bywyd y myneich yn y bedwaredd ganrif ar ddeg na gweithiau Dafydd ab Gwilym. Plentyn y cynhyrfiad newydd oedd ef. Ni chredai ef fod crefydd yn gofyn i unrhyw un fod yn anaturiol. Yr oedd yn rhy naturiol i oddef y myneich a'u crefydd. Gwyddai ef fod anian yn waith llaw y Creawdwr, ac am hynny credai mai nid pechod oedd i ddyn arfer yn briodol y pethau da a grewyd iddo gan Dduw. Dyry y llinellau a ganlyn syniad i ni am y safle gymerai ac am ei wrthwynebiad i Fynachaeth ei oes :—

Nid ydyw Duw mor greulon
Ag y dywaid hen ddynion ;
Ond celwydd yr offeiriaid
Yn darllain hen grwyn defaid ;
Ni chyll Duw enaid gwr mwyn
Er caru gwraig na morwyn.
Tri pheth a gerir drwy byd,
Gwraig, a hinon, ac iechyd.

Merch fydd decaf blodeuyn
Yn y Nef, ond Duw ei hun . . . .
O'r nef cad pob digrifwch
Wyneb llawen llawn ei dy
Wyneb trist drwg a ery . . . . .
Anaml a ŵyr gywydd per
A phawb a ŵyr ei bader.
Ac am hynny, 'r dwyfawl frawd
Nid cerdd sydd fwyaf pechawd.[1]

Mae'r dystiolaeth hon yn fwy gwerthfawr, pan gofier fod Dafydd ab Gwilym, fel y rhan fwyaf yn ei oes ef, yn babydd selog. Bu mudiad y Dadeni yn elfen y rhaid rhoddi ystyriaeth iddi wrth gyfrif am y modd y dechreuodd y myneich golli ffafr y wlad. Ystyriaeth arall gyfrif am waith y myneich yn colli ffafr ydyw y dirywiad gymerodd le yn y myneich—yn yr urddau cardod eu hunain. Ar eu dyfodiad i'r wlad hon yn y drydedd ganrif ar ddeg, gwnaethant waith rhagorol, buont yn fywyd o feirw i grefydd y wlad, a phe cadwasent i fyny y cymeriad berthynai iddynt ar y cychwyn, ni oddefasai y wlad i unrhyw frenin, pa mor gryfed bynnag y gallsai fod, i wneud niwed iddynt ac i'w sefydliadau. Ond ni chadwasant hwythau eu dechreuad, pallodd eu sêl a'u cariad cyntaf, collasant yr ysbryd o hunan aberth oedd yn llinell amlyced ynddynt unwaith, a daethant yn fydol a hunan-geisiol, cyd-ymffurfiasant â'r byd, a dechreuodd teimlad y wlad droi yn eu herbyn. Ceir prawf amlwg o hyn yng ngweithiau'r beirdd Cymreig. Yr oedd Sion Cent yn un o weledyddion ei oes, dygwyd ef i fyny yn babydd, a theimlai fawr eiddigedd dros fywyd pur, fel y dengys amryw ddarnau o'i farddoniaeth ; cymerer a ganlyn fel engraifft :—

Od ai i'r nef rhaid yn wir,
Ffinio dros y corph anwir,
A thalu'r ffydd Gatholig
Yn y tan o'r enaid dig ;
Crist ni dderbyn o'r croesdan
Enaid o'i law ond yn lân.

Ceir gan Sion Cent ddernyn esyd allan yn darawiadol y cyfnewidiad ddaethai dros y myneich—y brodyr cardod—yn ei ddyddiau ef. Dyfynnir rhai llinellau ohono :

Y meneich aml eu mwnai
Muriau teg mawr yw eu tai ;
Breisgion ynt ar eu brasgig
Breisgion difeinyddion dig
A'r brodyr pregethwyr gynt
A oeddynt heb dda iddynt ;
Y maent hwy hoewbwy hybeirch
Yn dri llu yn meddu meirch.
Cryfion ynt yn eu crefydd
Cryfion diffodyddion ffydd.

[1] *Gweithiau Dafydd ab Gwilym*, tdd. 209, 210 : Cynddelw.

Y fath newid awgrymir, yn y dernyn uchod, yng nghymeriad y bobl arweiniwyd gan Francis a Dominic. Tlodi oedd eu nôd angen y pryd hynny, ond erbyn hyn rhai " aml eu mwnai ydynt " ; ar eu dyfod i'r wlad hon dewisodd yr urddau hyn rannau isaf, tlotaf, y trefi fel eu maes i lafurio ynddo, ond erbyn dyddiau Sion Cent " muriau teg mawr oedd eu tai " ; ar eu cychwyniad allan buont yn foddion i ail-ennyn ffydd yn y wlad, ond erbyn y bedwaredd ganrif ar ddeg yr oeddynt wedi rhedeg i'r eithaf arall,—wedi dod yn " gryfion ddiffodyddion ffydd." Dywedir i Sion Cent cyn diwedd ei oes adael Eglwys Rhufain ac ymuno â'r Lolardiaid, ac oherwydd hyn gall rhai edrych arno fel un yn ysgrifennu dan ddylanwad rhagfarn, a buasai grym yn hyn pe safasai tystiolaeth Sion Cent yn erbyn y myneich ar ei phen ei hun, ond cadarnheir ei dystiolaeth gan eraill oedd yn gydoeswyr âg ef. Ceir llu o gyfeiriadau yn Nafydd ab Gwilym at ddirywiad y brodyr crefydd :

Mawr yw siarter ei gartref,
Myharen o nen y nef.
Goreu im' fyned fal gwr,
Yn feudwy, swydd anfadwr.

Yna y cefais druth atcas,
Gan y Brawd a'r genau bras.

Ceir prawf fod y myneich wedi dirywio, nid yn unig yng Nghymru, ond hefyd mewn gwledydd eraill, drwy ddarllen Chaucer, Langland, Boccaccio, a Walter Map.[1] Erbyn canol y bymthegfed ganrif—yn nyddiau Lewis Glyn Cothi—yr oedd y myneich wedi mynd yn fwrn ar y wlad. Cymerent fantais ar ofergoeledd y bobl ac aent o amgylch gan gynnyg darnau o ddelwau y saint yn gyfnewid am angenrheidiau bywyd. A ganlyn ydyw disgrifiad y bardd o grwydriadau y myneich :—

Bob ddau y gler a ddeuyn,
Bob tri vry i dŷ pob dyn :
Wrth y drws un â'i grwth drwg,
A baw arall â'i berwg ;
O'r lle bai arall â'i bib
A rhyw abwy a rhibib.
Un a bryn, er na bai'r wedd,
Delw o wydr er dwy lodwedd ;
Arall a wnai, o'r lle noeth,
O gwr gwernen grair gwarnoeth ;
Un a arwain, yn oriog,
Gurig lwyd dan gwr ei glog ;
Gwas arall a ddwg Seiriol,
A naw o gaws yn ei gôl ;
Drwy undeb erchi i'r Drindawd
Cnuv o wlan acw, neu vlawd.[2]

[1] " It is the satire of the Welsh bards upon priests and friars that unite them to the more adventurous spirit of the earlier Renaissance in other European countries. Neither Langland nor Boccaccio is more severe on the black sheep of the Church than Dafydd ap Gwilym."—*A Welsh Poet of Chaucer's Age ; Quarterly Review*, October, 1901 : W Lewis Jones.

[2] *Gweithiau Lewis Glyn Cothi*, tdd. 283, 281 : Tegid a Gwallter Mechain.

Dyna un peth wnaeth ddiddymiad y mynachdai yn beth posibl—y drwg locheswyd oddifewn iddynt ; dwg drygioni y gallu a'i dinistria oddimewn iddo ei hun, â yn oddaeth ohono ei hun, derfydd am dano yn ogystal a'r corff allanol y glyn wrtho.

Ffaith arall y rhaid ei hystyried, wrth geisio cyfrif am waith y wlad hon yn goddef i'r mynachdai gael eu diddymu, ydyw y Diwygiad Protestanaidd. Mae pob digwyddiad mawr fel hwn yn cael ei hir baratoi ; gwir yr ymddengys ar adegau fel yn torri allan yn sydyn, ond o edrych yn fanylach fe welir fod y sydynrwydd yn ymddanghosiadol yn hytrach na gwirioneddol. Uchaf y don fu yn codi yn raddol oedd cynhyrfiad mawr yr unfed ganrif ar bymtheg. Ym ysg dylanwadau eraill, bu i Lolardiaeth wneud llawr er chwyddo y don hon. Ffurf foreu ar gymdeithasiaeth oedd Lolardiaeth, a rhoddwyd llawer o rym i'r mudiad gan John Wycliffe a'i ddysgeidiaeth, a chan Wrthryfel y Bobl—y *Peasant Rising*—yn y flwyd dyn 1381. Yn ysgil cymdeithasiaeth y bedwaredd ganrif ar ddeg daeth ysbryd beirniadu—ysbryd beirniadu yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Ac yn y Canol Oesoedd fe ystyrid yr Eglwys mor bwysig a'r Wladwriaeth. Y cyfeiriad arbennig gymerodd y feirniadaeth oedd ymosodiad ar y mynach a'r offeiriad yn yr Eglwys, ac ar y llywodraethwr anghyfiawn a gorthrymus yn y Wladwriaeth ; a gwneid allan nad oedd gan y naill na'r llall hawl i warogaeth y Cristion. Un o'r cyhuddiadau ddygid yn erbyn y myneich oedd eu bod yn gwneud maddeuant am bechod yn beth rhy hawdd i'w sicrhau—" yr oedd par o hen esgidiau a chinio roddid i'r Brawd Cardod " yn sicrhau maddeuant llawn.[1] Rhoddwyd grym ychwanegol i'r ymosodiad hwn ar y Brodyr Cardod gan y ffaith y caent ddianc yn llwyr rhag dwyn eu rhan o drethi y wlad. Edrychai yr urddau hyn arnynt eu hunain fel gwyr ffydd nid i'r brenin ond i'r Pab, ac ystyrient fod eu heiddo yn perthyn i'r diweddaf, ac oherwydd hyn nas gallesid cyffwrdd arno gan Loegr.[2] A chan fod y fath gysylltiad agos, fel y danghosent hwy eu hunain, cydrhynggddynt âg Eglwys Rhufain, aeth y wlad i edrych arnynt fel goruchwylwyr y Pab—fel *standing army*[3] Eglwys Rhufain.

Cymerai y Diwygiad Protestanaidd wahanol ffurfiau mewn gwahanol wledydd ; yr un amcan oedd iddo a'r un ysbryd weithiai drwyddo, ond dibynnai dull ei ymddanghosiad i raddau mawr ar anian y genedl y gweithiai o'i mewn, ac ar ei hamgylchiadau. Yn yr Almaen a Ffrainc, yr ochr grefyddol oedd amlycaf yn y mudiad, ond yn Lloegr rhoddodd Harri VIII. er cyrraedd ei amcanion ei hunan, osgo wleidyddol i'r Diwygiad. Er rhwyddhau ei ffordd i ddwyn i ben ei gynlluniau ei hunan, penderfynodd y brenin wneud Eglwys Loegr yn anibynol ar Eglwys Rhufain, a chafodd wr o'r un feddwl ag ef yn Thomas Cromwell i gario allan ei gynlluniau. Rhagllaw yr oedd y brenin i fod yn ben Eglwys Loegr, efe oedd i

[1] *England in the Age of Wycliffe*, p 146 : G. M. Trevelyan.

[2] *Historica Anglicana*, i., 523—324 : Thomas Walsingham..

[3] " They were a papal militia, independent of the Bishops, and owing allegiance only to their own generals and the Pope . . . and by the time of the Reformation they were the shame of the Papacy."—*The Hibbert Lectures* 1883, pp. 8—9 : Beard.

dderbyn yr arian ai gynt i'r Pab, a gwnaed llys i dderbyn pob apêl ai o lysoedd eglwysig Lloegr i lys y Pab. Rhan o'r un cynllun oedd gwanhau ymhob modd y sefydliadau hynny oedd yn brif ateg Eglwys Rhufain yn y wlad hon; ac fel y gwelwyd, yr oedd y mynachdai ymysg y blaenaf o'r rhai hyn, ac yr oedd eu cyfoeth yn symbyliad mawr i rai wedi rhoi eu bryd ar eu dinistrio: byddai cael meddiannau y sefydliadau hyn yn gryn help i wneud y brenin, i raddau mawr, yn anibynol ar y wlad—nôd gwladweiniaeth Cromwell. Gwnai dwy ystyriaeth rwyddhau y ffordd i sylweddoli cynllun y brenin a'i weinidog Cromwell mewn perthynas i'r mynachdai; wedi'r newid fu mewn perthynas i gysylltiad Lloegr âg Eglwys Rhufain ymddanghosai'r myneich fel rhai yn noddi gelynion eu gwlad, ac yr oedd eu bywyd afreolaidd yn dystiolaeth bellach yn eu herbyn. Dywedid wrth Cromwell am Urdd Awstin yn Llundain, "Eu bod yn eistedd uwch ben eu cwrw'n lle gweddio, yn debycach i Wyddelod meddwon nag i wŷr eglwysig. Nid oes fwy o reol arnynt nag sydd ar y diafliaid yn eu cartref. Mae'r plant yn debycach i hyddod ieuanc yng nghoed Sherwood nag i blant yn dysgu crefydd." Yn wyneb yr ystyriaethau hyn, penderfynwyd anfon dirprwywyr i chwilio cyflwr mynachlogydd y deyrnas. Ni chafwyd y mynachdai cyn waethed lleoedd ag yr ofnai rhai, ond er hyn penderfynwyd eu dadwaddoli. Y mynachdai lleiaf, fe ddywedir, oedd y rhai gwaethaf, a dyma y rhai cyntaf y deliwyd â hwy—rhai a llai o gyfoeth ganddynt na deucant yn y flwyddyn. Gwnaed yr ymchwiliad hwn yn ystod y blynyddoedd 1534 a 1535. Gwyddai'r dirprwywyr beth ddisgwylid oddiwrthynt, ac ni siomasant y sawl a'u hapwyntiodd, a derbyniasant eu gwobr. Rhoddwyd iddynt lawer o'r tir berthynai unwaith i'r mynachdai, a llawer o hen drysorau gedwid ynddynt. Ychydig iawn o fanylion sydd ar gael ynghylch y modd y rhannwyd yr ysbail berthynai i'r hen fynachdai adeg eu diddymiad. Mewn erthygl yn yr *Archæologia Cambrensis*, dyry Mr. Edward Owen beth cyfrif am yr hyn a ddaeth o'r clychau berthynai i'r sefydliadau hyn, ac mewn erthygl ddiweddarach yn yr un gwaith â rhagddo, gan roddi cyfeiriad eangach i'w ymchwiliad. Cyfeirir ganddo at y defnydd wnaed o'r plwm oedd yn adeilwaith y sefydliadau hyn—Margam, priordy Brycheiniog, Ystrad Fflur, Penmon, Llanllugan, Glyn-y-Groes, Cymmer, Rhuddlan, a Basingwerc. Dywedir ddarfod anfon y plwm oedd ynglŷn â'r sefydliad diweddaf i'r Iwerddon, ond pa un ai i amcanion y *mint* oedd yno, yr anfonwyd ef, ai i'r amcan o'i ddefnyddio ynglŷn â thoi y Castell, nid yw yn glir.[1] Pe buasai y tiroedd dderbyniwyd drwy ddiddymiad y mynachdai wedi eu ffurfio yn fath o "dir y Goron," gallasent fod yn ffynhonell o elw a gwneud llawer er ysgafnhau y trethi, ond ni wnaed hyn, yr oedd y brenin yn barhaus mewn angen arian, ac yr oedd y gwyr oedd o'i amgylch yn dyheu am dir yn wobr am eu ffyddlondeb. Bu diddymiad y mynachdai yn ddyrnod drom i'r eglwys, a llesteiriodd lawer ar ei defnyddioldeb: trowyd llawer o eiddo i amcanion cy-

[1] *Archæologia Cambrensis*: vol. xiii, 5th series, pp. 262—265, also vol. xiv. 5th series, pp. 285—292.

ffredin ddefnyddid yn gwbl cyn hyn i amcanion eglwysig, ac er hyrwyddo buddiannau crefydd yn y wlad. Daeth llawer o wyr lleyg yn berchenogion bywoliaethau eglwysig, ac er derbyn ohonynt hwy swm mawr oddiwrth y cyfryw fywoliaethau, ni roddent hwy i'r ficeriaid wnant y gwaith ysbrydol yn y bywoliaethau hyn, ond yr hyn ganiateid i'r ficeriaid cyn y Diwygiad Protestanaidd. Ceisiwyd gwneud rhyw ychydig o iawn am y camwri a wnaed, ond hynod leied wnaed. Trosglwyddwyd y cyllid berthynai i Briordy Aberhonddu i Esgobaeth Tyddewi, ond ni pharhawyd hyn ond am un flwyddyn, ac yr oedd hyn yn engraifft o'r hyn a wnaed yn y rhan fwyaf o amgylchiadau—iawn mewn enw yn unig ac nid mewn gwirionedd. Ond er cyfyngu ar ei hadnoddau, byw a wnaeth yr eglwys, yr oedd elfen ddwyfol ynddi,—yr oedd fel y "berth yn llosgi ond heb ei difa."

"ANCR MEIRION."

CYNYRCHION EISTEDDFODOL O DAN OLYGIAETH
E. VINCENT EVANS (*Vinsent*).

Addysg Cymru yn y Canol Oesau . . .

Gan y Parch. D. D. WILLIAMS

CYHOEDDEDIG GAN

"Gymdeithas yr Eisteddfod Genedlaethol."

LERPWL:
Argraffwyd (dros y Gymdeithas) gan HUGH EVANS A'I FRIBION, Swyddfa'r Brython.
1914.

NODIAD.

Dyfarnodd yr Athro Edward Anwyl, M.A., Aberystwyth, y wobr o ugain punt am y Traethawd goreu ar "Addysg Cymru yn y Canol Oesau," yng nghystadleuaeth Eisteddfod Genedlaethol 1911 (Caerfyrddin), i'r gwaith sydd yn dilyn.—[E. Vincent Evans].

CYNHWYSIAD.

RHAGARWEINIAD.

Yr ymadrodd Canol Oesau yn amhenodol. Rhoddir gwahanol ystyron iddo gan wahanol ysgrifenwyr. Yr hen olygiad am y Canol Oesau; y golygiad newydd. Wrth ysgrifennu hanes addysg Cymru yn y Canol Oesau mantais mewn cymeryd oes Siarlymaen fel ein pwynt cychwyn, a chymeriad Caercystenyn gan y Tyrciaid fel ein pwynt terfyn. Y Tuduriaid ac Addysg Cymru.

PENNOD I.

Trem ar hanes Addysg Cymru o'r Cyfnod Rhufeinig hyd ddyddiau Siarlymaen. Dylanwad y Rhufeiniaid ar wareiddiad y Cymry, neu ar y bobl ddaeth i gael eu hadnabod fel y Cymry ar derfyn y Cyfnod Rhufeinig. A sefydlwyd ysgolion gan y Rhufeiniaid ym Mhrydain? Dylanwad y Rhufeiniaid ddim yn ogymath nac yn ogymaint yng ngwahanol rannau y wlad hon. Gwahaniaeth mawr yn natur dylanwad y Rhufeiniaid ar dde a de-ddwyrain Prydain mewn cymhariaeth a'u dylanwad ar orllewin a gogledd y wlad,—yn y cyntaf gwelir graddau o ddylanwad dinesig Rhufain—*domi;* yn yr olaf ni cheir ond olion bywyd milwraidd Rhufain—*militiæ.* Y casgliad y rhaid dod iddo mewn perthynas i ystad addysg ym Mhrydain yn ystod y Cyfnod Rhufeinig. Cyfnewidiad pwysig ynglŷn âg addysg yng Ngorllewin Ewrob yn y chweched ganrif. Ysgolion dan nawdd yr Ymerodraeth yn rhoddi ffordd i ysgolion dan nawdd yr Eglwys. Ysgol Athen yn cael ei chau drwy orchymyn Justinian a Mynachdy Monte Cassino yn cael ei sefydlu. Mynachaeth ac Addysg. Gan brined y ffeithiau sicr er ffurfio syniad am yr hyn oedd ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn y dull cymharol yn fanteisiol. Yr Athro F. J. Haverfield yn ei bapur ddarllenwyd ganddo o flaen y *British Academy* wedi rhoddi engraifft ragorol o'r defnydd ellid wneud o'r dull cymharol mewn ymchwiliad o'r math yma. Yr Iwerddon gymerai y blaen ynglŷn âg addysg o fewn y cyfnod hwn. Camrau yn hanes addysg yr Iwerddon. Manylion am yr ysgolion. Tystiolaeth Bede. Hanes addysg yn Ysgotland o fewn yr un cyfnod. Dim cymaint o sylw wedi ei roddi i hwn ag i hanes addysg yn yr Iwerddon. Gwaith gwerthfawr gan yr Athro James MacKinnon. Yn gyffelyb y datblygodd hanes addysg yng Nghymru. Y mynachdai ac addysg. Bangor Iscoed, Llanelwy, Bangor yn Arfon, Llanilltud Fawr, Henllan ar Wy, Caergybi, Clynnog ac ereill. Awdurdodau: *Gildas, Bede,* y *Cynfeirdd.*

PENNOD II.

Llwybr arferol gwareiddiad o'r dwyrain i'r gorllewin. Hanes Addysg yn yr wythfed a'r nawfed ganrif yn ymddangos yn eithriad i'r rheol hon,—y llanw yn rhedeg o'r gorllewin i'r dwyrain. Cysylltiad neilltuol rhwng yr Iwerddon âg Addysg Gorllewin Ewrob o fewn y canrifoedd hyn. Yr Iwerddon, Caergaint, Jarrow, Caerefrog, llys Siarlymaen, dyna ogwydd y ffrwd. Alcuin yn ddolen gydiol rhwng Addysg yr Iwerddon a Gorllewin Ewrob. Manylion am Alcuin,—ei genedl, yr addysg dderbyn-

iodd, ei gysylltiad â Siarlymaen. Siarlymaen, ei awydd i wella addysg. Pwysigrwydd Siarlymaen yn hanes addysg. Ei Siarter Addysg. Ei gyfundrefn—ysgolion y llys, ysgolion y mynachdai, ysgolion yr Eglwysi Cadeiriol, ysgolion y pentrefi. A dorrwyd tir newydd gan Siarlymaen ynglŷn â'r ysgolion ? Dau gwestiwn yn codi—A geir egwyddor, anelwig ddefnydd, y brifysgol yn ei drefniad ? A oedd addysg yn ei gyfundrefn ef yn peidio bod mwyach dan nawdd eglwys ? Atebion amrywiol i'r cwestiynau hyn. Pwy gymerid i mewn i'w ysgolion ef ? Cysylltiad agos iawn rhwng y mynachdy a'r llys yn yr amseroedd hyn. Byr fu dylanwad ysgolion Siarlymaen. Addysg yng Nghymru. Ychydig iawn o ffeithiau sydd yn wybyddus am yr hen ysgolion. Nid oedd yr amseroedd yn fanteisiol i addysg flodeuo ynddynt, gan mor gynhyrfus oeddynt. Cymru yn gyfyng arni o'r ddeutu o fewn y cyfnod hwn ; ymosodid arni ar y naill law gan y Saeson, ac ar y llaw arall gan wyr Denmarc a Llychlyn—" y llu a wibient hyd y moroedd." Llosgwyd aml i le fu yn lloches i addysg, tystiolaeth yr *Annales Cambriæ* dan y flwyddyn 988. Eto amlwg yw y noddid addysg o fewn y cyfnod yng Nghymru. Asser o Ysgol Ty Ddewi yn cael ei wahodd yn athro i lys Alffred. Awdurdodau yr *Annales Cambriæ*, *Y Brutiau*, *Cyfreithiau Hywel*, *Y Cynfeirdd*, *Bywyd Alffred gan Asser*, *Y Bardd Teulu yn ei berthynas ag Addysg Cymru.*

PENNOD III.

Cyfnod newydd 1000–1282. Dylanwadau y flwyddyn 1000. Mynachaeth yn adnewyddu, celf yn blodeuo. Bywyd Cymru yn dyfod i gyffyrddiad â bywyd Ewrob. Dyfodiad y Normaniaid,—eu nodwedd, eu cenhadaeth. Y Croesgadau, eu dylanwad. Deffroad llenyddol yr Iwerddon. Sefydliad y Prifysgolion, a'r ysbryd beirniadaeth a rhyddymchwiliad ddaeth gyda hwynt. Y dylanwadau ddaeth gyda'r cynhyrfiadau hyn fu yn foddion i addysgu Cymru yn hytrach na'i hysgolion, er nad oedd yn hollol amddifaid o ysgolion. Mynachdai,—y Benedictiaid, y Cisterciaid. Ychydig iawn geir am addysg Cymru gan Gerallt Gymro, Gwallter Map, a Sieffre o Fynwy. Sylw Brewer, un o olygyddion gweithiau Gerallt Gymro. Y ffaith fod gennym y fath ysgrifenwyr a Gerallt Gymro, Gwallter Map, a Sieffre o Fynwy yn dweyd llawer am Addysg Cymru. Ni cheir dynion cyhyd eu hesgeiriau a'r rhai hyn heb fod nifer o rai peil ymlaen o'u cwmpas. Rhaid fod tipyn o gamp ar y lluaws i fagu tri mor eithriadol o ddisglair. Cymry eraill amlwg o fewn y cyfnod. Tystiolaeth y *Mabinogion* a'r *Llyfr Du.* Tystiolaeth y *Gogynfeirdd.* Y casgliad y rhaid dod iddo mewn perthynas i ystad addysg yng Nghymru rhwng dyfod y Normaniaid a chwymp Llywelyn.

PENNOD IV.

Cymru yn colli ei hannibyniaeth wleidyddol. Llawer wedi tybied y collai Cymru ei chwbl wrth golli ei hannibyniaeth mewn ystyr wleidyddol. Golwg gyfyng gymerai y rhai hyn ar feddwl Cymru Meddwl Cymru yn byw ymlaen ac yn gloewi. Ei chân yn cael ei pherffeithio yn Nafydd ab Gwilym yn y cyfnod ddilynodd bron yn uniongyrchol waith Cymru yn colli ei hannibyniaeth. Y Dadeni gychwynnodd yn yr Eidal yn cyrraedd Cymru. Hanes y Mudiad, yn yr Eidal, ym Mhrydain. Ysbryd newydd yn cynniwair drwy'r gwledydd. Ysbryd beirniadaeth a rhyddymchwiliad —gwrthdystiad yn erbyn syniadau cyfyng y myneich am fywyd. Y Brodyr Cardod. Mynachdai a sefydliadau mynachaidd. Awdurdodau —y *Croniclau*, *Peckham's Register*, yr *Elucidarium*, *Beirdd y bedwaredd ganrif ar ddeg.* Cyfeiriadau at ysgolion a sefydliadau addysg. Beth ellir gasglu am ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn ?

PENNOD V.

ADDYSG yng Nghymru o adeg gwrthryfel Owen Glyndwr hyd ddiwedd y cyfnod. Cynlluniau Owen Glyndwr gyda golwg ar Gymru. Edmygir Owen Glyndwr yn fynych fel rhyfelwr dewr, ac nid heb achos; ond un ochr i'w gymeriad oedd hon, yr oedd yn gymaint gwladweinydd ag oedd yn wr o ryfel. Ei gynllun gyda golwg ar Gymru. Ei nôd oedd cael Cymru yn rhydd, cael senedd o'i gwyr goreu, cael ei Heglwys dan ofal Archesgob yn Nhy Ddewi, a chael dwy Brifysgol, un yn Ne a'r llall yng Ngogledd Cymru. Tybir iddo feddwl am hyn mewn canlyniad i waith awdurdodau y Brifysgol yn Rhydychen yn gorfodi i nifer fawr o Gymry oedd yn y Brifysgol ymadael oherwydd eu gwaith yn cymeryd rhan yng ngwrthryfel Owen Glyndwr, a'u cydymdeimlad â'i gynlluniau. Ni chafodd Owen Glyndwr wneud fawr i sylweddoli ei gynllun, ond dangosodd y ffordd i ereill i'w ddilyn. Trosglwyddodd y syniad i'w genedl i'w weithio allan. Harri VII. a'r Brifysgol. Traddodiad heb fawr sail iddo. Rhyfel y Rhosynau. Ystad Addysg. *Y Chantry Schools.* Awdurdodau, *Beirdd y bymthegfed ganrif. Hanes Teulu Gwydir, Bywyd Rhys ab Thomas.*

PENNOD VI.

TREM ar hanes Addysg yng Nghymru o ddiwedd y Canol Oesau hyd y dyddiau hyn. *Ymdrechion yng nghyfeiriad cyfundrefn o addysg elfennol:*

1—Ysgolion cyfnod y Weriniaeth (1649—1660), Vavasor Powell.

2—Yr Ysgolion Elusenol (1671—1681). Thomas Gouge.

3—Ysgolion yr Ymddiriedolaeth Gymreig (1698—1736). Syr John Philipps.

4—Yr Ysgolion Cylchynol (1737—1777) Gruffydd Jones.

5—Yr Ysgolion Sul (1785—1814) Thomas Charles.

6—Ysgolion preifat dechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

7—Yr Ysgolion Brytanaidd. Syr Huw Owen.

8—Ysgolion y Gymdeithas Genedlaethol.

9—Ysgolion y Bwrdd.

Yr Ysgolion Canol.

Edward Richard, Ystrad Meurig,—seren fore y mudiad dros addysg ganolraddol.
Deddf Addysg Ganolraddol, 1889.

Y Colegau Prifysgol.

Aberystwyth, 1872.
Caerdydd, 1883.
Bangor, 1884.

Yr Ymdrech am Brifysgol.

Bu dyheu am dani heb fawr ymdrech. Bu dyheu am dani, yn cael ei ddilyn gan ymdrech deg, a methu. Bu dyheu, ac ymdrechu, a llwyddo.

Rhestr o'r Llyfrau yr ymgynghorwyd a hwynt, ac y cyfeirir atynt yn y Traethawd.

Annales Cambriæ, J. Williams (Rolls Series). London. 1860.
Abelard. Compayne. Heinemann, London. 1892.
Academy, The Proceedings of the British. London.
Alcuin. A. F. West. W. Heinemann, London, 1893.
Alcuin. C. J. B. Gaskoin. C. J. Clay, London, 1904.
Antiquary. London.
Ancient Lives of British Saints. Metcalfe.
Archæologia Cambrensis. London.
Asser's Life of King Alfred. W. H. Stephenson. Oxford, 1904.
A History of Classical Scholarship. J. E. Sandys. Cambridge Univ. Press, 1903.
British Saints, The Lives of the. Baring-Gould and Fisher. Cymmrodorion Society, London, 1908–1913.
Black Book of Carmarthen, The. J. G. Evans. Pwllheli, 1906.
Carta et Alia munimenta de Glamorgan pertinent. G. T. Clark. Dowlais, 1885–93.
Celtic Church of Wales, The. J. W. Willis Bund. D. Nutt, London, 1897.
Chivalry. Gautier. London, 1891.
Chronicle of Adam of Usk, The (Royal Soc. of Lit.). London, 1876.
Culture in Early Scotland. James Mackinnon. Williams and Norgate. London, 1892.
Councils and Ecclesiastical Documents. Haddan and Stubbs. Oxford, 1869,
Cyclopedia of Education. Editor, Paul Monroe. Macmillan, 1911 (Only one volume out, A—Chu).
Cymru. O. M. Edwards.
Cymmrodor, Y. London.
Dafydd ab Gwilym, Gweithiau. Cynddelw. Lerpwl, 1873.
Dark Ages, The. W. P. Ker. Blackwood, London, 1904.
Decline and Fall of the Roman Empire, The. Gibbon.
Diocese of St. Asaph, The. D. R. Thomas. James Parker, London, 1874.
De Nugis. Walter Map (Camden Soc). Thomas Wright. London, 1850.
De Quincey. Masson. A. and C. Black, Edinburgh, 1880.
Education, The History of. F. P. Graves. Macmillan & Co., New York, 1910.
Education, Text Book in the History of. Paul Monroe. Macmillan, 1908.
Empire and the Papacy, The. T. F. Tout. Rivingtons, London, 1903.
Europe in the Sixteenth Century. A. H. Johnson. Rivingtons, London, 1903.
Elucidarium, The. Rhys and Morris Jones. Oxford, 1894.
English Schools of the Reformation. A. F. Leach. Constable, London, 1896
English Grammar Schools to 1660. Foster Watson. Cambridge Univ. Press, 1908.
Gemau'r Gogynfeirdd. A. Hughes. Pwllheli, 1910.
Gogynfeirdd, Y. E. Anwyl. Dinbych, T. Gee, 1909.
Grey Friars in Oxford (Oxf. Hist. Soc. xx.). A. G. Little.
Giraldi Cambrensis Opera (*Roll Series*). J. S. Brewer. London, 1861—1891
Giraldus' Itinerary through Wales. W. Ll. Williams. Dent, London, 1908.
Gildas. Hugh Williams. Cymmrodorion Society, London, 1900.
Growth of the Manor, The. P. Vinogradoff. Sonnenschein, London, 1905.

Governance of London, The. Gomme. Fisher Unwin, London, 1907.
Geninen, Y. Caernarfon, 1897.
Historical Essays. Lightfoot.
History of Reformation. T. M. Lindsay. T. T. Clark. Edinburgh, 1906.
Historical Review. London.
Haddan's Remains. Forbes. James Parker, Oxford, 1876.
History of Ireland, A Literary. Douglas Hyde. T. Fisher Unwin, London, 1906.
Historia Ecclesiastica. Bede. Plummer, Oxford, 1896.
History of Wales, A. J. E. Lloyd. Longmans, London, 1911.
Historical Lectures. Creighton. Longmans, London, 1903.
Howel Swrdwal. J. C. Morrice. Bangor, 1908.
Illustrations of the History of Mediæval Thought. R. L. Poole. Williams and Norgate, London, 1884.
Ireland and the Celtic Church. G. T. Stokes. Hodder and Stoughton. London, 1892.
Iolo MSS. (Welsh MSS. Society). Llandovery, 1848.
Liber Landavensis. W. J. Rees. Llandovery, 1840.
Lectures, The Hibbert. Charles Beard. Williams and Norgate, London, 1883.
Life and Times of Griffith Jones of Llanddowror. David Jones. Jarvis and Foster, Bangor, 1902.
Middle Ages, The Close of the. Lodge. Rivingtons, London, 1904.
Meaning of History, The. Frederic Harrison. Macmillan, London, 1894.
Mediæval Literature, Essays on. W. P. Ker. Macmillan, London, 1905.
Mediæval Wales. A. G. Little. Fisher Unwin, London, 1902.
Medici, The. Oliphant and Smeaton. T. T. Clark, Edinburgh, 1901.
Notitia Monastica. Thomas Tanner, London, 1744.
Original Letters. Henry Ellis. London, 1846.
Prolegomena to the Study of Old Welsh Poetry (Trans. Cymmrodorion Society). E. Anwyl. London, 1903.
Peckham's Register (*Rolls Series*). London, 1882—1885.
Red Book of Hergest, The ; i. Mabinogion, ii. The Bruts. Rhys and Evans. Oxford, 1887—1890.
Rise and Early Constitution of Universities. S. S. Laurie. London, 1886.
Renaissance in Italy. J. A. Symonds.
Rymer's Foedera. London, 1704—35.
Social England. Dr. Traill. Cassell, London, 1894.
Schools of Charles the Great. J. B. Mullinger. Longman, Green & Co., London, 1877.
Transactions of the Cymmrodorion Society. London.
Universities of Europe in the Middle Ages. Hastings. Rashdall, Oxford, 1895.
University of Wales. Davies and Jones. J. E. Robinson, London, 1905.
Vitorino da Relfre and other Humanist Educators. W. H. Woodward. Cambridge Univ. Press, 1897.
Welsh Church, A History of the. Newell. Elliot Stock, London, 1895.
Wales and the Renaissance. W. Lewis Jones. Liverpool, Welsh Nat. Soc. Trans., 1894—5.
Wales. Sir Thomas Philipps.
Welsh People, The. Rhys and Jones. Fisher Unwin, London, 1900.
Worthies of Wales. Fuller.
Y Llenor. O. M. Edwards.
Zimmer's *Irish Element in Mediæval Culture.*

Addysg Cymru yn y Canol Oesau.

RHAGARWEINIAD.

GAN y gofynnir am hanes Addysg Cymru yn y Canol Oesau, rhaid ymholi am derfynau y cyfnod,—pa bryd y dechreu, a pha bryd y diwedda ? Rhoddir gwahanol atebion i'r cwestiynau hyn. Arferid edrych ar yr ymadrodd fel yn gosod allan y cyfnod ymestyn o'r adeg y daeth gwareiddiad yr hen fyd i derfyniad hyd ddechreuad gwareiddiad diweddar. Cymerai i mewn y cyfnod rhwng Romulus Augustulus a chymeriad Caercystenyn gan y Tyrciaid, neu rhwng Claudian ac Adfywiad Dysg. Dengys ysgrifenwyr diweddar, fodd bynnag, ogwydd i wneud dau raniad o'r cyfnod rhwng hen wareiddiad a gwareiddiad diweddar,—yr Oesau Tywyll a'r Canol Oesau. Yn ei lyfr ar Hanes Ysgoloriaeth Glasurol,[1] disgrifia Sandys y canrifoedd ymestyn o ddechreu y chweched hyd ddiwedd yr unfed ganrif ar ddeg fel yr Oesau Tywyll, a'r cyfnod rhwng y Groesgad gyntaf ac Adfywiad Dysg fel y Canol Oesau. Cyffelyb yw rhaniad W. P. Ker[2]; gwna ef y flwyddyn 1100 fel pwynt cychwyn a'r flwyddyn 1500 fel pwynt terfyn y Canol Oesau. Ond er uched awdurdod y gwyr hyn, gan mai hanes addysg ydyw y testyn, hwyrach y byddai mantais mewn gwahaniaethu oddiwrthynt a chymeryd yr wythfed ganrif—Oes Siarlymaen—fel y pwynt cychwyn. Efe oedd y llywodraethwr cyntaf yn Ewrob, os nad yn hanes y byd i amcanu sefydlu cyfundrefn o addysg elfennol ac uwchraddol rad.[3] Mae llawer o reswm dros gymeryd y flwyddyn 1453 fel y pwynt terfyn. Edrychir ar y flwyddyn hon fel y terfyn naturiol rhwng cyfnod y Canol Oesau a'r cyfnod diweddar. Yn ystod y flwyddyn hon cymerwyd Caercystenyn gan y Tyrciaid,—digwyddiad o'r pwysigrwydd mwyaf. Safai Caercystenyn rhwng y Dwyrain ac Ewrob ; hi oedd prif lwybr trafnidiaeth rhwng Ewrob a'r gwledydd dwyreiniol, a sefydlasid ganddi drefedigaethau a llaw-weithfeydd er hyrwyddo masnach ar lannau y Môr Du.[4] Buasai cymeryd Caercystenyn gan bobl heb ynddynt allu nac anturiaeth fasnachol bron yn andwyol i'r gwledydd o'r tu gorllewinol i'r ddinas. A dyma'r hyn gymerodd le pan feddiannwyd y ddinas gan y Twrc. Yn fuan ymledodd ei ddylanwad dros Fôr y Canoldir. Ni pherthynai i'r Tyrciaid dalent at fasnach, a chanlyniad naturiol eu dyfod i Gaercystenyn a'u gwaith yn ymsefydlu ar ororau Môr y Canoldir oedd cau i fyny lwybrau masnach rhwng Dwyrain a Gorllewin. Yr oedd yn rhaid

[1] *A History of Classical Scholarship*, J. E. Sandys. Vol. i. p. 483.

[2] *The Dark Ages*, pp. 1—3. W. P. Ker.

[3] *Alcuin*, p. 2. A. F. West.

[4] *History of the Reformation*, Vol. 1., p. 85. T. M. Lindsay.

i un o ddau beth gymeryd lle, os mynnai Ewrob ddal ei gafael yn y manteision fwynhai drwy ei masnach a'r Dwyrain. Yr oedd yn rhaid naill ai gyrru y Tyrciaid o Gaercystenyn ac o ororau Môr y Canoldir, neu ddarganfod llwybrau newydd i'r Dwyrain. Gwelwyd yn fuan nas gellid gwneud y blaenaf, rhaid ynte oedd gwneud yr olaf neu golli tir. O hyn, daeth ysbryd darganfod i Ewrob,—awydd i chwilio llwybrau y moroedd. A mawr fu ffrwyth y chwilio. Cymerwyd y blaen yn hyn gan Portugal, Spaen, yr Eidal, a Lloegr. Nis gellir dweyd fod Lloegr mor frwdfrydig a'r gwledydd ereill a enwyd. Derbyniad oeraidd ddigon gafodd y Cabotiaid yn Lloegr er pwysiced y newyddion ddygent am wledydd newydd eu darganfod. Dangosodd Vasco da Gama y ffordd heibio'r Penrhyn Gobaith Da a thrwy Gefnfor India i Calicut—lle yr ystorid marsiandïaeth yr India, marsiandïaeth ag yr oedd holl genhedloedd Ewrob yn dra awyddus i gyfranogi ohoni. Aeth Bartholomew Diaz ar hynt darganfod i Affrica; aeth eraill i'r Gogledd i gyfeiriad Iceland. A chyda'r un amcan—chwilio am lwybr masnach—rhwng Dwyrain a Gorllewin aeth Columbus yntau drwy ganol yr Atlantic a darganfyddodd y Bahamas a Chyfandir yr America. Ni foddlonwyd ar ddarganfod daear newydd, ond aed ymlaen i ddarganfod nefoedd newydd yn ogystal. Gwnaed hynny yn llwyddiannus drwy ymdrechion dynion fel Copernicus, Tycho Brahe, Kepler, a Galileo. Drwy'r darganfyddiadau hyn eangwyd yn fawr gylch bywyd dyn. Darganfyddwyd o fewn y cyfnod gyfandiroedd meddyliol yn ogystal a rhai materol. I gyfrif am hyn, rhaid myned yn ol eto i Gaercystenyn cyn y flwyddyn 1453. Cyn ei chymeryd gan y Tyrciaid yr oedd y ddinas yn gartref ysgolheigion; wedi eu dyfod hwy bu mawr newid, chwalwyd yr ysgolheigion drwy wledydd Ewrob a chymerasant gyda hwy swm dirfawr o lawysgrifau gynwysent brif weithiau llenyddiaeth Groeg a Rhufain. Ymsefydlasant fel athrawon mewn gwahanol rannau o wledydd Ewrob, a buont yn foddion i sefydlu llawer o ysgolion. Daeth yr hyn a adnabyddir fel "Adnewyddiad Dysg" drwy eu hymdrechion. Wrth ddarllen llenyddiaeth Groeg a Rhufain, sylweddolodd dynion fod bywyd yn llawer eangach nag y tybiasant hwy, a phenderfynasant ei fyw yn ei holl eangder, a gwrthryfelasant yn erbyn popeth dueddai i'w lyffetheirio. Derbynir yn lled gyffredinol hanner diweddaf y bymthegfed ganrif fel terfyn y Canol Oesau. Mewn ysgrifennydd diweddar,[1] gosodir y terfyn yn y flwyddyn 1494. A chyfetyb hyn yn lled agos i esgyniad y Tuduriaid i orsedd Lloegr. Yr oeddynt hwy o waed Cymreig, a sefydlwyd ganddynt nifer dda o ysgolion yng Nghymru. Yr oedd oes y Tuduriaid yn ddechreu cyfnod newydd yn hanes Addysg Cymru.

[1] *The Close of the Middle Ages* (1273—1494). R. Lodge.

PENNOD I.

O'R CYFNOD RHUFEINIG HYD OES SIARLYMAEN.

Er mai hanes addysg yng Nghymru yn y Canol Oesoedd yw'r maes neilltuol i ysgrifennu arno, nis gellir gwneud hyn yn effeithiol heb edrych yn ol. Tyfiant ydyw hanes addysg cenedl. Mae i addysg wreiddiau yn y gorffennol fel y gallo ddwyn ffrwyth yn y presennol a'r dyfodol.[1] Manteisiol gan hynny fyddai bwrw golwg ar hanes addysg yng Nghymru o'r cyfnod Rhufeinig hyd oes Siarlymaen. Myn rhai ysgrifenwyr fychanu dylanwad y Rhufeiniaid ar Brydain; gosodir allan y cyfnod Rhufeinig fel "mere interval of arrested growth, ... an irrelevant episode."[2] Mor eithafol yw y golygiad hwn ag y teimla un sydd wedi gwneud y cyfnod yn astudiaeth oes, fod yn rhaid iddo wrthdystio yn gryf yn erbyn y fath ddatganiad.[3] O'r ochr arall, rhaid peidio priodoli gormod o le i ddylanwad y Rhufeiniaid ar y wlad hon yn ystod y cyfnod Rhufeinig. Beth fu dylanwad y Rhufeiniaid ar addysg y wlad hon? A sefydlwyd ysgolion ganddynt ym Mhrydain? Cyn ceisio ateb y cwestiynau hyn, da fyddai cofio fod gwahaniaeth mawr yn natur a gradd dylanwad y Rhufeiniaid ar dde a de-ddwyrain Prydain mewn cymhariaeth a'u dylanwad ar orllewin a gogledd y wlad,—yn y cyntaf gwelir graddau o ddylanwad bywyd dinesig Rhufain—*domi*; ond yn yr olaf ni cheir ond olion bywyd milwraidd Rhufain—*militiæ*. Yr oedd gwahaniaeth mawr rhwng y parthau o Brydain osodir allan drwy y rhaniadau hyn. Arferai'r Rhufeiniaid sefydlu ysgolion ymerodrol yn y gwledydd orchfygid ganddynt.[4] A wnaed hyn ym Mhrydain? Ac yn neilltuol, a wnaed hyn yng ngorllewin a gogledd y wlad—y parthau milwraidd o'r wlad? Prin y gellir dweyd fod tystiolaethau digonol er cadarnhau y gosodiad hwn. Diau y dysgid Lladin a Groeg ym Mhrydain o fewn y cyfnod dan sylw. Sonia Plutarch am Roegwr,—cyfaill personol iddo ef—fu yn darlithio ym Mhrydain yn amser Agricola, er nad yw yn dilyn oddiwrth y gosodiad wna ei fod yn darlithio i Brydeiniaid. Mae'r manylion gyda golwg ar ysgolion ym Mhrydain yn y cyfnod Rhufeinig yn brin iawn, ac nis gellir

[1] "The history of culture revealed an evolution, each stage growing out of the one immediately preceding it; so it proceeded in almost a continuous chain."—Report of Lecture by Dr. Hartwell Jones, on "Educational Struggles of the Middle Ages."

[2] *Social England:* Introduction p. xxiii. Dr. Traill,

[3] *Historical Review:* Vol. ix. Haverfield.

[4] *Decline and Fall of the Roman Empire*, chap. xxiii., Gibbon; *Juvenal*, xv. 10; *Rise and Early Constitution of Universities*. p. 10. S. S. Laurie; *Transactions of the Society of Cymmrodorion* 1905-06, p. 91, Hartwell Jones.

dweyd, hyd yma, fod manylion ar gael o gwbl mewn perthynas i Gymru. Dywed Dr. Hartwell Jones[1] fod ysgol wedi ei sefydlu yng Nghaerlleon yn Sir Fynwy, ond amheua Mr. F. J. Haverfield a ellir derbyn y gosodiad hwn.[2] Cred ef fod y gosodiad yn seiliedig ar chwedlau o ddyddiad diweddarach na'r cyfnod Rhufeinig—chwedlau ag y buasai ef yn teimlo yn amharod iawn i adeiladu arnynt.

Nid drwy ysgolion yn unig, fodd bynnag, yr addysgir gwlad, yn enwedig mewn cyfnodau bore. Gwneir hyn yn fynych drwy ddwyn cenedl i gyffyrddiad â bywyd oddi allan, ac o dan ddylanwad gwareiddiad uwch na'r eiddo hi ei hunan. A dyna'r ffordd, ni gredwn, yn hytrach na thrwy ysgolion, y dylanwadodd Rhufain ar Brydain. Mewn cyfeiriadau materol bu dylanwad y Rhufeiniaid yn fawr ar Brydain,—drwy y ffyrdd a wnaethant, drwy y bywyd newydd roisant ym masnach y wlad, a thrwy ddwyn i mewn gyfundrefn well o amaethyddiaeth; ond ysgafn iawn fu eu dylanwad ar ddull yr hen drigolion o fyw a llywodraethu eu hachosion. Ar ol ymadawiad y Rhufeiniaid gwelir fod y Cymry yn cadw at y sefydliadau oedd yn nodweddiadol o'r llwythau Celtaidd; nid ymddengys i gwrs cyffredin eu bywyd gael newid fawr arno. Yr oedd anhawsderau lawer ar y ffordd i'r ddeubar bobl ymdoddi i'w gilydd, ac mae'r ffeithiau cliriaf yn erbyn credu iddynt wneud hyn.[3] Gosodir allan y Cymry yn cymeryd rhan flaenllaw yn erbyn yr Eingl a'r Saxoniaid yn y cyfnod ddilynodd ymadawiad y Rhufeiniaid o Brydáin; a phrawf yr ymosodiadau wnaed ganddynt ar arfordiroedd Ffrainc, a'u gwaith yn gorchfygu Llydaw, a rhannau helaeth o'r wlad ar hyd glannau yr afon Loire, nad oes sail i'r dybiaeth i'w bywyd cenedlaethol gael ei lyncu i fyny ym mywyd eu gorchfygwyr Rhufeinig. Rhaid addef fodd bynnag i ddylanwad y Rhufeiniaid fod yn llwyr iawn o fewn y trefi sefydlwyd ganddynt, ac yn y rhanbarthau gylchynent y trefi hyn. Nid oes brawf digonol i'r Rhufeiniaid sefydlu yr un ysgol ymerodrol yn y rhan o Brydain ddaeth i gael ei hadnabod yn ddiweddarach fel Cymru, ond diau y bu dyfodiad y Rhufeiniaid yn addysg i'r rhan hon fel rhannau ereill drwy ei dwyn i gysylltiad agosach â bywyd oddiallan, ac i gyffyrddiad â gwareiddiad uwch.

Yn gynnar yn y chweched ganrif cymerodd cyfnewidiad pwysig le ynglŷn âg addysg. Hyd yr adeg hon yr oedd yr ysgolion sefydlid dan nawdd yr ymerodraeth, o hyn ymlaen yr oeddynt o dan nawdd yr Eglwys. Cymer yr ysgolion Cristionogol, fel y gelwir hwy, le yr ysgolion ymerodrol. Gellir cyfeirio at ffaith esyd

[1] "Education was a department of government; schools were set up and professors endowed, just as soldiers were stationed and law courts opened in every considerable city of the East and the West. One was situated at Caerleon in Monmouthshire. Indeed, respectful mention is made by the Latin writers of the schools in Britain generally, and the popularity of the movement betokens the same aspiration after culture in the Celt at that day that distinguishes him at present, and has become a permanent Celtic attribute." *Transactions of the Society of Cymmrodorion*, 1905-06, p. 91 Hartwell Jones.

[2] "Caerleon during nearly all the Roman period was a *fortress*, and schools can hardly have existed there."—Haverfield.

[3] Cyfeirier at y tudalen lle ceir trafodaeth ar y *jus conubii* a'r *jus commerci* yn y Traethawd ar *Ddylanwad y Rhufeiniaid*.

allan yn darawiadol y cyfnewidiad hwn. Yn y flwyddyn 529, drwy orchymyn Justinian, cauwyd ysgol Athen yn y dwyrain, ac agorwyd Mynachdy Monte Cassino yn y gorllewin. Un cyfnod a aeth ymaith, a chyfnod arall a ddaeth, yn hanes addysg.[1] Bu i'r mynachdy le amlwg a phwysig iawn yn hanes datblygiad addysg.

Wrth ddatblygu yn raddol, cymerodd mynachaeth wahanol ffurfiau ; ar y cyntaf, ymddengys mai'r syniad llywodraethol oedd bywyd o neilltuedd ; ymffurfio yn gyfundeb er mwyn ymarfer y dyledswyddau o hunanymwadu, myfyrio, gweddio, yr oedd popeth ganddynt yn gyffredin, a phawb yn rhwym i roddi ufudd-dod i'r gwr osodwyd yn ben arnynt—yr abad. Yr oedd yr holl drefniadau wedi eu gwneud fel ag i fod yn gwrs o ddisgyblaeth er datblygu y bywyd crefyddol o fewn y mynachdy ei hun. Yn ddiweddarach, cymerodd mynachaeth olwg uwch ar ei chenhadaeth; tywynnodd y gwirionedd ar ei meddwl mai'r ffordd fwyaf effeithiol i wella ei hunan oedd drwy ymdrech i wella ereill. O gredu hyn, daeth y mynachdy yn ysgol.

Prin iawn ydyw y ffeithiau sicr er ein galluogi i ffurfio syniad am addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn. Ac oherwydd hyn, bydd peth mantais mewn mabwysiadu y dull cymharol wrth ymwneud â'r cwestiwn. Ceisio cael allan beth oedd ystad addysg o fewn y cyfnod ymysg y bobl agosaf i'r Cymry—pobl o'r un cyff, ac i raddau mawr o'r un dueddiadau—y Gwyddyl a thrigolion Scotland. Mae Mr. F. J. Haverfield yn ei bapur ddarllenwyd ganddo o flaen y *British Academy* ar *The Romanization of Britain*[2] wedi rhoddi engraifft ragorol i ni o'r defnyad ellir wneud o'r dull hwn mewn ymchwiliad o'r fath yma. Yr Iwerddon gymerai y blaen ynglŷn âg addysg yn y cyfnod hwn, nid yn unig ym Mhrydain ond yn Ewrob. Yn ei erthygl ragorol ar *The Scots on the Continent*[3] dengys A. W. Haddan fel y cymerai y Scots, gan arfer y gair yn gyfystyr â Gwyddyl, y blaen fel cenhadon yr Efengyl a chenhadon addysg. A chyffelyb yw tystiolaeth gwr arall llawn mor gymwys i ddatgan barn ar y fath gwestiwn.[4] Rhagorent yn arbennig yn eu gwybodaeth drwyadl o'r iaith Roeg. Y cwrs y cyfeiriwyd ato yw yr un gymerodd mynachaeth yn yr Iwerddon. Yn y bumed ganrif, ymdreuliodd Padrig yn y gwaith o bregethu i'r paganiaid a sefydlu eglwysi ; yn y chweched ganrif, bu Columba yr un mor ymdrechgar yn gosod i fyny sefydliadau mynachaidd ac yn cychwyn ysgolion. Erbyn canol y chweched ganrif yr oedd yr Iwerddon wedi ei llenwi âg ysgolion, mynachdai, colegau, a sefydliadau addysg.[5] Yn ysgolion yr Iwerddon yn y cyfnod hwn coleddid syniad uchel am werth addysg ; ceisid hi er ei mwyn ei

[1] *A History of Classical Scholarship*, Vol. i., p. 431, Sandys ; *The Rise and Constitution of Universities*, p. 22, Laurie ; *A History of Education*, p. 4, F. P. Graves.

[2] *Proceedings of the British Academy*, Vol. ii., pp. 1—8.

[3] *Remains*, pp. 258—294, A. W. Haddan.

[4] *Ueber die Bedeutung des irischen Elements für die mittelalterliche Cultur*, Zimmer, translated into English by J. L. Edmonds. *A History of Classical Scholarship*, Vol. i., pp. 438, 439. *Illustration of the History of Mediæval Thought*, p. 11, R. L. Poole.

[5] *A Literary History of Ireland*, Chap. xvi. pp. 192—214, Douglas Hyde.

hunan, ac nid fel moddion i gyrraedd rhywbeth arall,[1] a deuid i'r ysgolion o bellter mawr. Mae gennym dystiolaeth Bede[2] y deuai disgyblion o Loegr i dderbyn addysg dan athrawon Gwyddelig, y rhai roddent iddynt addysg, a llyfrau, a chynhaliaeth heb arian ac heb werth. A dywed Aldhelm mewn llythyr at gyfaill iddo o'r enw Aahfrid, fod y rhai a aent i'r Iwerddon i geisio addysg fel gwenyn mewn cwch, gan eu lluosoced.[3] Nid oes cymaint yn wybyddus am hanes addysg yn Scotland o fewn y cyfnod, ond mae'r maes wedi ei agor mewn llyfr gwerthfawr gan Mr. James Mackinnon.[4]

Yn gyffelyb y datblygodd addysg yng Nghymru o fewn yr un cyfnod : y mynachdai oedd yn cadw'r lamp i gynneu, cyn belled ag y cedwid hi i gynneu o gwbl. Cydnabyddid yn rhwydd fod ysgolion yr Iwerddon yn rhagori ar ysgolion Cymru yr adeg hon. Nid ystyrid addysg y seintiau Prydeinig yn gyflawn os na byddent wedi bod tan addysg yn ysgolion yr Iwerddon.[5] Y tebygrwydd ydyw y ceid nifer fawr o ysgolion mynachaidd yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn, ond ychydig iawn sydd yn wybyddus am danynt.[6] Nis gellir adeiladu llawer ar y chwedlau Cymreig am ysgolion Dyfrig, Illtud, ac eraill. Mae graddau o wir yn y chwedlau, ond y mae yn gymysgedig â llawer o ddychmygion. Yr oedd Bangor is y Coed, Llanilltud Fawr, Henllan ar Wy, Llanelwy, Bangor yn Arfon, Llancarfan a Mynyw, ymysg y rhai enwocaf o ysgolion Cymru. Hanes byr sydd i sefydliad mynachdy Bangor is y Coed. Cychwynwyd ef yn ystod y rhan olaf o'r chweched ganrif gan Dunawd Ffûr, mab Pabo Post Prydain, yr hwn hefyd oedd yr abad cyntaf, a dinistriwyd y sefydliad naill ai yn y flwyddyn 613 neu 616. Nid ymestyn ei hanes ond dros hanner can mlynedd ; ond gwnaeth waith mawr mewn byr amser. Efe a gymerai y blaen yn yr ymdrech rhwng Eglwys Rhufain a'r Eglwys Geltaidd. Yr oedd ysgol luosog ym Mangor is y Coed, yn ol tystiolaeth Bede ; mynychid hi gan ddwy fil a chant o ysgolheigion.[7] Tybia rhai i Pelagius, Ffinnian, Gildas, Nennius, a Chybi dderbyn rhan o'u haddysg[8] yn yr ysgol hon, ond ymwrthyd yr awdurdod uchaf ar hanes Bangor is y Coed â'r syniad hwn.[9] Yn ol tystiolaeth *Llyfr Llandaf*[10] yr oedd gan Ddyfrig ddwy fil o ysgolheigion o dan ei ofal

[1] *Ireland and the Celtic Church*, p. 229, G. T. Stokes.

[2] *Historica Ecclesiastica, Lib.* iii. xxvii., Bede. Plummer's Edition.

[3] *Baedae Opera Historica*, Tomus ii. p. 196. Plummer.

[4] *Culture in Early Scotland*, James MacKinnon.

[5] *Baedae Opera Historica*, Tomus ii. p. 196. Plummer. *Lives of the British Saints*, Vol. ii., pp. 17, 18, 202, etc. Baring-Gould and Fisher.

[6] *Prologomena to the Study of Old Welsh Poetry, Trans Cym Soc* (1903—1904), Anwyl.

[7] *Baedae Opera Historica*, Tomus i., p. 84. Plummer.

[8] *The Celtic Church of Wales*, p. 174. J. W. Willis Bund.

[9] "Neither Lupus, Germanus, nor Pelagius could ever have been connected with Bangor. Nor is there any evidence for connecting Gildas or Nennius with it. I doubt, moreover, whether St. Cybi was ever a member of this monastery . . . . It would not be safe specifically to name any saint as belonging to the monastery of Bangor is y Coed except Dunawd himself, and perhaps his son Deinioel."—*Y Cymmrodor*, Vol. x., p. 21. A. N. Palmer.

[10] *Liber Landavensis*, pp. 324, 325.

yn Henllan-ar-Wy. Gwneid gwaith cyffelyb yn Llanilltud Fawr a Llancarfan; edrychid ar yr ysgolion hyn fel y rhai ddeuai agosaf, o'r ysgolion Cymreig, at safon ysgolion yr Iwerddon. Mae seiliau i gredu i Gildas dderbyn ei addysg, neu o leiaf ran ohoni, yn Llanilltud Fawr, oblegid cyfeiria Alcuin ato fel "y mwyaf athrylithgar o ysgol Illtud Sant"; a disgrifir Illtud gan Gildas fel "dysgawdwr gwych bron yr oll o Brydain."[1] Tybir hefyd i Maelgwn Gwynedd dderbyn ei addysg yn Llanilltud Fawr. Dywedir hefyd y deuai nifer fawr o ysgolheigion yr Iwerddon i Lancarfan i dderbyn addysg gan Catwg Sant, ac fe awgryma hyn lawer am effeithiolrwydd ac enw da yr ysgol.[2] Gwnaeth Bangor yn Arfon a Llanelwy hwythau eu rhan er goleuo Cymru yn ystod y cyfnod. Dygid at Asaph i Lanelwy blant boneddigion a'r dosbarth canol i gael eu hyfforddi yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd.[3] Nid dydd ac nid nos oedd hi yn hanes addysg yng Nghymru o'r cyfnod Rhufeinig hyd ddyddiau Siarlymaen; yr oedd addysg y wlad fel llin yn mygu, ond heb lwyr ddiffodd.[4] Ymysg yr awdurdodau deifl rhyw gymaint, nid llawer, o oleuni ar ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn gellir nodi *Gildas*, *Bede*, a'r *Cynfeirdd*. Ni cheir llawer yn uniongyrchol ar y mater yn y Cynfeirdd, ond dywedir y gellir edrych ar y darnau barddonol briodolir i Taliessin ac eraill fel yn adlewyrchu yr efrydiau y rhoddid sylw iddynt ym Mynachdai y Canol Oesau.[5] Gwasanaethed a ganlyn fel ychydig engreifftiau: *Llyfr Taliessin*, xxx. ll. 49—60; viii. ll. 232 (kyn bum lleenawr); xxxviii. ll. 6—8.

[1] *Gildas, Cymmrodorion Transactions*, 1893–94. C. 36. Hugh Williams.

[2] *Alcuin*, p. 2. C. J. B. Gaskoin.

[3] *Ancient Lives of Scottish Saints*, Metcalfe, p. 232.

[4] "It was not a great epoch or an epoch of great men; though in touch with Ireland, the home at this time of a valuable culture of native growth, Wales was but feebly moved by this life across the sea and rather shared the backwardness of the rest of Britain and of Western Europe." *A History of Wales*, Vol. i., p. 220. J. E. Lloyd.

[5] *Prolegomena to the Study of Old Welsh Poetry, Trans. Cymmrodorion Society*, 1903—04, p. 62, Anwyl.

PENNOD II.

O OES SIARLYMAEN HYD DDECHREU YR UNFED GANRIF AR DDEG.

Arferir edrych ar wareiddiad fel yn symud o'r dwyrain i'r gorllewin; ond gwelir eithriad i'r rheol hon yn hanes addysg o fewn y cyfnod gymerir i mewn yn y bennod hon. Rhed y llanw o'r gorllewin i'r dwyrain. Derbynia gorllewin Ewrob ei goleuni o Brydain, ac yn neilltuol o'r Iwerddon. Gellir edrych ar Alcuin fel y ddolen gydiol rhwng yr Iwerddon a gorllewin Ewrob. Ganwyd Alcuin oddeutu y flwyddyn 735, yng Nghaerefrog, a derbyniodd ei addysg yn yr ysgol ynglŷn â'r Eglwys Gadeiriol sefydlwyd gan Egbert; yn ddiweddarach daeth yn athro yn yr ysgol y dygwyd ef i fyny ynddi, ac enillodd iddo ei hunan enw amlwg fel dysgawdwr. Tra ar neges yn Padua yn yr Eidal ar ran Caerefrog, daeth Alcuin i gyffyrddiad â Siarlymaen, a pherswadiwyd ef gan y brenin i ddyfod i'w lys ef yn Aachen i'w gynorthwyo i ddwyn oddiamgylch ddiwygiadau ynglŷn âg addysg. Ac ufuddhaodd yntau, a chymerodd nifer o'i ddisgyblion ffyddlonaf gydag ef. Yr oedd Siarlymaen yn llawn awydd am wybod, a chredai mewn addysg fel moddion sicr i gadarnhau ei frenhiniaeth, ac yn Alcuin cafodd wr cymwys i gario allan ei gynlluniau. Mae teyrnasiad Siarlymaen yn ddechreuad mewn ystyr bwysig yn hanes addysg. Iddo ef y perthyn yr anrhydedd o gychwyn addysgu cenhedloedd gogledd Ewrob, fel ag i'w paratoi i fod yn llywodraethwyr y byd fel y bu y Rhufeiniaid o'u blaen hwy.[1] Yr oedd addysg oedd yn lled flodeuog yn y bumed a'r chweched ganrif wedi dirywio yn fawr erbyn canol yr wythfed ganrif; yr oedd copïo llawysgrifau bron wedi mynd allan o arfer, ac yr oedd yr ysgolion mewn cysylltiad â'r mynachdai a'r eglwysi cadeiriol wedi eu hesgeuluso i raddau mawr. Ond taflodd Siarlymaen ei holl ddylanwad er gwella pethau. Yn y flwyddyn 787 cyhoeddodd yr hyn ellir ddisgrifio fel Siarter Addysg gyntaf y Canol Oesau. Mewn llythyr anfonodd y brenin at abad Fulda eglura yn llawn yr hyn barodd iddo gymeryd y cam hwn. Wele ei eiriau: "Mynych y derbyniasom lythyrau oddiwrth fyneich a'r syniadau ynddynt yn bob peth ellid ddymuno, ond y syniadau wedi eu gwisgo mewn arddull dlawd ac iaith garpiog . . . Nis gallent osod allan eu meddyliau yn glir ac i'r pwynt, am esgeuluso ohonynt astudio iaith. Ac oherwydd hyn, dechreuasom ofni rhag fod y myneich ymddengys fel wedi colli y gelfyddyd o ysgrifennu, wedi colli

[1] *Illustrations of the History of Mediæval Thought*, p. 15, R. L. Poole.

hefyd y gallu i ddeall yr ysgrythyrau; a gwyddom oll, er fod camgymeryd mewn geiriau yn beryglus, fod camgymeryd mewn deall yn beryclach fyth."

Yn ei gyfundrefn o addysg, gosododd Siarlymaen i fyny nifer o wahanol fathau o ysgolion. Ysgolion y plâs neu y llys; ysgolion mewn cysylltiad â'r mynachdai; ysgolion ynglŷn â'r eglwysi cadeiriol; ac ysgolion y pentrefi. Ymgyfyd dau gwestiwn ynglŷn â'r ysgolion hyn. A geir egwyddor, anelwig ddefnydd y brifysgol, yn yr ysgolion hyn? A oedd addysg yn ei gyfundrefn ef yn peidio bod mwyach o dan nawdd yr eglwys? Mae yr atebion roddir i'r cwestiynau hyn yn amrywiol iawn. Mae Stokes yn gryf o'r farn y ceir egwyddor y brifysgol yng nghyfundrefn Siarlymaen.[1] Ymwrthyd eraill â'r syniad hwn yn llwyr,[2] er y cydnabyddant i'r ysgolion hyn baratoi y ffordd i'r brifysgol, a'i gwneud yn bosibl ganrifoedd yn ddiweddarach. Mewn perthynas i'r ail gwestiwn,—A oedd addysg yn ei gyfundrefn yn peidio bod rhagllaw o dan nawdd yr eglwys? Nis gellir dweyd hyn am ysgolion y pentrefi, yr oedd y rhai hyn dan ofal offeiriad y plwyf. Y testynau mwyaf elfennol ddysgid ynddynt, ac at y rhai hyn ychwanegid Gweddi'r Arglwydd, y Credo, a'r Salmau. Dan nawdd yr eglwys, fel y gellid disgwyl oddiwrth eu henwau, yr oedd ysgolion y Mynachdy ac ysgolion yr eglwysi cadeiriol. Rhoddid addysg ychydig yn uwch yn y rhai hyn nag yn ysgolion y pentrefi. Yr abad oedd yn gyfrifol am ysgol y mynachdy, efe roddai gyfrif am dani, os byddai galw, i bennaeth ei urdd ac i Rufain.[3] Y *scholasticus*, gwr o apwyntiad esgob y dalaeth yr oedd yr ysgol ynddi, ofalai am yr ysgol ynglŷn â'r eglwys gadeiriol. Y rhan fwyaf nodweddiadol o gyfundrefn addysg Siarlymaen oedd ysgolion y plâs, neu y llys. Yr oedd yr addysg gyfrennid yn ysgolion y plâs o nodwedd uwch na'r hyn a geid yn yr ysgolion ereill; edrychid arnynt fel pwynt uchaf cyfundrefn addysg y cyfnod; a hyn yn ddiau barodd i rai feddwl y gwelent yn yr ysgolion hyn egwyddor y brifysgol ymddangosodd yn ddiweddarach. Tybir hefyd i'r brenin sefydlu yr ysgolion hyn yn arbennig ar gyfer gwyr lleyg, ac iddo roddi ar ddeall y byddai i'r rhai ragorent yn yr ysgolion hyn dderbyn swyddi pwysig yn y wladwriaeth, pa mor isel bynnag y gallai safle gymdeithasol yr ysgolheigion fod. Yr oedd rhagori yn ysgolion y llys yn ben y ffordd i safleoedd o bwys a chyfrifoldeb yn yr ymerodraeth.[4] Hanes a chymeriad neilltuol ysgolion y llys barodd i rai dybied ddarfod i Siarlymaen lwyddo i symud addysg odditan nawdd yr eglwys a'i gosod dan nawdd y wladwriaeth. Ond prin y gellir edrych ar y ffeithiau fel yn ddigon clir i gyfreithloni

[1] "The modern university system can be traced back to the school system of Charlemagne, but scarcely farther."—*Ireland and the Celtic Church*, p. 228. G. T. Stokes.

[2] "Eulogists of Alcuin have sought to do him the honour of adjudging him the true ancestor of the University of Paris and thereby of the Universities of modern Europe. The claim scarcely needs to be more than mentioned before it is refuted." *Alcuin*, p. 177. West.

[3] *Abbey Schools, Cyclopedia of Education*, Vol. i., pp. 2—4. A. F. Leach.

[4] *Rise and Early Constitution of Universities*, p. 43, S. S. Laurie. *The Schools of Charles the Great*, Chap. i. pp. 41—108, Mullinger.

y fath esboniad. Fe welid gogwydd yn y cyfeiriad yna, ond nid ychwaneg. Y myneich ac nid y llywodraeth ofalent am addysg y wlad. "Gelwir y cyfnod ymestyn o ddyddiau Siarlymaen hyd yr unfed ganrif ar ddeg yn oes Benedict. Gesyd y frawddeg allan yn fanwl safle y cyfnod ynglŷn âg addysg; dyma'r oes, a'r unig oes, y gellir dweyd fod addysg Ewrob yn gwbl yn nwylaw'r myneich."[1] Nis gellir edrych ar ysgolion y llys fel yn cael eu gosod i fyny yn gystadleuwyr â'r ysgolion dan nawdd yr eglwys, a llawer llai fel gwrthwynebwyr iddynt. Yr oedd cysylltiad agos a chyfeillgar rhwng y rhai gynrychiolent y llys a'r rhai gynrychiolent y mynachdai.[2] Yn ysgolion Siarlymaen yr oedd yr addysg yn rhad i'r rhai fwriadent fod yn fyneich neu yn offeiriaid, ond yn yr ysgolion lle cyfrennid addysg o nodwedd ychydig yn uwch disgwylid tâl bychan gan y lleygwyr a'u mynychent.[3] Byr, mewn cymhariaeth, fu dylanwad ysgolion Siarlymaen; ni chawsant chwarae teg i wneud eu gwaith oherwydd y cyfnodau cynhyrfus ddilynodd eu sefydliad. Ond ni ddiflanasant ar unwaith. Cariwyd ymlaen draddodiadau addysg Siarlymaen, Alcuin, Rabanus, a John Scotus Erigena, gan ddynion fel Servatus Lupus, Walafrid Strabo, Paschasius Ratpert, Werembert, Eric a Remy o Auxerre, Hucbald, ac Odo o Cluny. Methodd cynlluniau Siarlymaen mewn perthynas i addysg wneud argraff barhaol ar Ewrob oherwydd na chaed cyfnodau tawel i roddi prawf teg arnynt.

Prin iawn yw y defnyddiau er ffurfio syniad cywir am ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn; ond er prined y ffeithiau mae digon ohonynt ar gael er dangos mai mynd yn ol, ac nid ymlaen, a wnaeth addysg yng Nghymru rhwng yr wythfed a dechreu yr unfed ganrif ar ddeg. Ac nid anodd cyfrif am hyn; yr oedd y wlad mor gynhyrfus. Yr oedd yn gyfyng ar Gymru o'r ddeutu; ymosodid arni ar y naill law gan y Saeson, ac ar y llaw arall gan wyr Denmarc a Llychlyn—y llu du a wibient ar hyd y moroedd. Llosgid gan y rhai hyn y lleoedd fu yn noddfeydd addysg ac yn gartrefi diwylliad yn y wlad. Yn yr *Annales Cambriæ*, dan y flwyddyn 988, ceir y cofnod a ganlyn:—"Diffeithiodd y cenhedloedd (y Daniaid) Mynyw, Llanbadarn, Llan Illtud, Llan Carfan, a Llan Dydoch." Ceir cyfeiriad at yr un amgylchiad ym *Mrut y Tywysogion*.[4] O'r ychydig ffeithiau gwybyddus deifl oleuni ar ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn, gellir nodi y rhai a ganlyn: Un o ganlyniadau y deffroad addysg gynyrchwyd gan Siarlymaen oedd yr ymdrech wnaed gan Alffred i oleuo y rhan o Loegr oedd dan ei lywodraeth ef. Penderfynodd sefydlu ysgolion a chael yr athrawon goreu i ofalu am danynt. Ond nid hawdd oedd iddo gael y cyfryw athrawon, gan eu prined.

[1] *History of Education*, pp. 259—261; Monroe; *Universities of Europe in the Middle Ages*, Vol. i. p. 26, Rashdall.

[2] "The ruling families of the monasteries and the ruling families of the courts were most closely related, and it is difficult if not impossible to separate the ecclesiastical literary centres of early times from the secular." *Prolegomena to the study of Old Welsh Poetry, Trans. Cymmrodorion Society*, 1903-4, Anwyl.

[3] *A History of Education*, p. 31, F. P. Graves.

[4] *The Red Book of Hergest, The Bruts*, p. 275, ll. 15—17. Rhys and Evans.

Fel y bu raid i Siarlymaen fynd i Lombardi a Chaerefrog er cael gwyr cymwys i'w gynorthwyo i sylweddoli ei gynllun, bu raid i Alffred yntau fyned i'r Cyfandir am help. Dygwyd Grimbald o fynachdy St. Omer i fod yn abad Winchester, a John the Old Saxon o Corbie i gymeryd gofal y mynachdy newydd a'r ysgol oedd ynglŷn âg ef yn Athelney.[1] Cafwyd, fodd bynnag, un gwr cymwys i'r gwaith yn y wlad hon, Asser, perthynas i Nobis, esgob Ty Ddewi.[2] Ac mae gennym ei dystiolaeth ef ei hun iddo dderbyn ei addysg a chael ei ordeinio yn rhannau gorllewinol Cymru, gyda chyfeiriad yn hyn, yn ddiau, at fynachdy ac esgobaeth Ty Ddewi.[3] Awgryma y ffaith hon fod addysg yng Nghymru cyn uched, a dweyd y lleiaf, os nad yn uwch nag mewn unrhyw ran arall o Brydain. Rhaid fod rhyw gamp ar y lluaws, i fagu un eithriadol o dda. Ceir prawf pellach nad esgeulusid yn llwyr destynau ysgolheigaidd yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn, ac na chyfyngai y myneich eu sylw yn hollol i destynau ysgrythyrol. Ceir prawfion o hyn mewn llawysgrifau o'r beirdd Ofydd a Juvencus, ac o Martianus Capella. Ar ymyl y ddalen yn y Llawysgrifau hyn eglurir amryw o'r geiriau mewn Hen Gymraeg a berthyn i'r nawfed ganrif. Gwasanaethed a ganlyn fel ychydig engreifftiau: *leteinepp* (lledwyneb), *superficies; coiliou*, coel, *omen, coiliauc*, augur; *dedignatur augur pythius nuncupari, incarnotaul bricer, uitta crinalis;* glas, *yalina, nam uestis eius hyalina; guird, herbida, floridam discoloramque uestem herbida palla contexerat; nouodou*, lliosog o *neuod*, neuadd; *mellhionou, violets; ardomaul, docilis; ail*, ael, *brow; iurgchell, caprea, a young row; sich, arentis*, gair benthyciedig o'r Lladin *siccus: strotur, sella*, gair benthyciedig o'r Lladin *stratura; termin*, terfyn, *ora; fistl gablau, fistula bilatrix; dificiou, dispendia; anutonau, perjuria; gwerin, factio; such, vomis*, swch aradr; *calamennou, culmos*, diweddar, *calaf; colqinn, aristam*, diweddar colyn; *guithennsa, uenae*, diweddar gwythennau; *hencassau, monimenta; adstebill, ad limina, stebill* lluosog o'r Hen Gymraeg, *stabell*, diweddar ystafell; *tuorchennau, glebis; drus, claustrum*, diweddar drws; *anter metetic, semiputata; iar, ales; feciaul, fascia; diauc, segnem; a mein funiou, vittae tenues diaperthon, muneribus: buch, juvencae, budicaul, victo.*[4]

O'r ochr arall, ceir prawfion nad oedd ysgolheigdod y rhan ddiweddaf o'r cyfnod hwn ddim i'w gymharu âg ysgolheigdod y rhan gyntaf. Gwelir arwyddion dirywiad wrth astudio y cerfiadau Lladin a geir ar gerrig beddau. A cheir prawf pellach o'r un peth wrth gymharu arddull Lladin Gildas yn ei weithiau, ac arddull Lladin Nennius yn ei *Historia Brittonum* a'r eiddo Asser yn ei *De Rebus Gestis Ælfredi.*[5] Mae yr ymresymiad oddiwrth arddull, fodd bynnag, yn lled anymarferol oherwydd fod lleied o engreifftiau

[1] *A History of Education*, pp. 37, 38. F. P. Graves.

[2] *Asser's Life of King Alfred*, C. 79, l. 57. Stephenson.

[3] *Asser's Life of King Alfred*, C. 79, l. 16. Stephenson.

[4] *Arch. Cambrensis*, Vol. iv. 1873. pp. 1—20, Phil. Stokes. *Trans. Philosophic Society*, 1860—1861, pp. 204—249, and pp. 288—293.

[5] *A History of Wales*, Vol. i., p. 223. J. E. Lloyd.

ar gael o'r math o Ladin ysgrifennid gan Gymry o fewn y cyfnod hwn.[1] Dirywiodd celf gain hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Un o brif nodweddion celfyddyd Geltaidd ydyw y *spiral devices*, ei hoffter o bortreadu planhigion a ffurfiau anifeilaidd, a'r amddifadrwydd o ffurfiau dynol[2]; ond yn ofer yr edrychir am y *spiral devices* a'r prydferthwch ffurf a llun yn y gelfyddyd gain gynyrchwyd yng Nghymru o fewn y canrifoedd hyn. Yr awdurdodau deifl hynny o oleuni sydd gennym ar ystad addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod ydyw yr *Annales Cambriæ, Y Brutiau, Bywyd Alfred gan Asser, Y Cynfeirdd,* a *Chyfreithiau Hywel Dda.*

Teflir llawer o oleuni ar ystad cymdeithas yng Nghymru yn y ddegfed ganrif gan Gyfreithiau Hywel Dda. Gollyngant ni i mewn i gyfrinach y cyfnod, yn gyffelyb fel y gwna *Gweithiau Gerallt Gymro* a *Hanes Teulu Gwydir* i gyfnodau diweddarach. Anodd ydyw gwybod i sicrwydd beth oedd safle casglydd y Cyfreithiau hyn. Pa un ai brenin yr oll o Gymru, ai ynte brenin y Deheubarth,—yr oll o Dde Cymru ac eithrio Morgannwg? Drwy ei ymdrechion unodd Dyfed, Ceredigion, ac Ystrad Tywi dan un goron. Amlwg yw fod ganddo wahanol rannau o Gymru o dan ei lywodraeth; a hwyrach mai hyn a'i symbylodd i gasglu y cyfreithiau oedd mewn grym yn y gwahanol dywysogaethau lywodraethid ganddo. Dywedir iddo orchymyn chwech o gynrychiolwyr o bob cwmwd yng Nghymru i Dy Gwyn ar Daf i'r amcan o gael gwybod ganddynt beth oedd yr arferion cyfreithiol a ffynnent yn y gwahanol gymydau y deuent ohonynt. Ac wedi clywed yr hyn oedd ganddynt i'w ddweyd am arferion y gwahanol gymydau, gwnaeth un casgliad o gyfreithiau Cymru. Y mae y cyfreithiau yn hynod o werthfawr ar gyfrif y goleu daflant ar drefniadau cyfreithiol a gwleidyddol y Cymry, eu dull o fyw, a'u nodweddion cenedlaethol. Nid llawer o oleu geir ynddynt yn uniongyrchol ar ystad addysg Cymru; ond ceir llawer o oleuni yn anuniongyrchol. Ceir ynddynt ddarlun o drefniadau cenedl, ddengys yn amlwg fod y genedl honno wedi cyrraedd ystad uchel o wareiddiad. Rhennir hwy yn ddau ddosbarth,—Cyfreithiau y Llys, a Chyfreithiau y Wlad. Yng Nghyfreithiau Hywel Dda yr oedd i'r Bardd Teulu le amlwg. Safai yn wythfed ar restr swyddogion y llys. Yr oedd iddo amryw oruchwylion. Dathlai wroldeb ei noddwr mewn brwydr, ei haelioni mewn gwledd, a chanai farwnad iddo wedi ei farw. Gofalai am unrhyw ysgrifau pwysig berthynai iddo, ac am ei gart achau, a gweithredai, yn fynych, fel athro a chydymaith i'w blant. Wrth gyfrif am addysg Cymru yn y Canol Oesau, dylid rhoddi lle amlwg a phwysig iawn i'r Bardd Teulu. I ychwanegu at eu dylanwad ai y beirdd hyn o gwmpas y wlad, a chaent groeso yn y gwahanol deuluoedd yr aent iddynt. Ai y rhai enwocaf o'r beirdd i lysoedd y tywysogion a'r uchelwyr, ac âi "bôn y gler"

[1] *Asser's Life of King Alfred,* Introduction, p. xci. Stephenson.

[2] "The suggestion of returning spirals, the evident delight of the artist in plant and animal forms, and his neglect of the human figure,—all these are Celtic. *Proceedings of the British Academy,* Vol. ii. p. 16. Haverfield.

i dai y bobl gyffredin.[1] Gosodir allan gylch yr addysg gyfrennid yn ysgolion y Canol Oesau mewn dau air—*Trivium* a *Quadrivium*. Gosodai y *trivium* allan y cwrs ddilynid—*curriculum* yr ysgolion elfennol, a chynwysai Ramadeg, Rhetoreg, a Dialechdid neu Resymeg. Tra y gosodai y *Quadrivium* allan y cwrs ddilynid mewn ysgolion o nodwedd uwch, a chynwysai Gerddoriaeth, Rhifyddiaeth, Meintoniaeth, a Seryddiaeth.[2]

[1] *Early Social Life in Wales, Trans. Cymmrodorion Society*, 1898—99, p. 46. Sir John Rhys.

[2] *Universities of Europe in the Middle Ages*, Vol. i. p, 34, Rashdall; *Alcuin*, p. 23, West; *A History of Education*, p. 31, F. P. Graves.

PENNOD III.

O'R FLWYDDYN 1000 HYD Y FLWYDDYN 1282.

Nid drwy ysgolion yn unig yr addysgir gwlad. Mae hyn yn wir yn neilltuol am Gymru yn y cyfnod gymerir i mewn yn y bennod hon. Ychydig iawn o gyfeiriadau geir at ysgolion o fewn y cyfnod. Ond yr oedd Cymru yn fyw, ac effro, a diwylliedig drwy ei chyffyrddiad â'r byd oddiallan. Dygwyd Cymru i gyffyrddiad agos â bywyd Ewrob, a bu hyn yn foddion i adnewyddu ei bywyd. Bu amryw ddylanwadau yn foddion i ddwyn hyn oddiamgylch. Yn gyntaf oll, rhaid enwi dyfodiad y Normaniaid. Deallasant hwy Gymru yn well na'u rhagflaenoriaid y Saeson, a daethant yn edmygwyr mawr o'i llenyddiaeth, yn enwedig ei rhamant a'i chwedl. Agorasant drafnidiaeth meddwl a syniadau rhwng Cymru a'r Cyfandir. Dywedir am y Normaniaid nad oeddynt yn feddiannol ar feddyliau cynyrchiol, ond i wneud i fyny am hyn yr oeddynt yn gyflym i fenthyca syniadau oddiwrth y bobl y deuent i gyffyrddiad â hwy. Ymddengys y perthynai iddynt ddau allu arbennig, y derbyniadol a'r ffurfiadol; gwneid argraff neilltuol arnynt gan yr hyn a welent, cymerent ef i mewn yn gyflym, a rhoddent ffurf ac argraff eu meddwl eu hun arno. Cyfrif hyn am yr argraff ddofn wnaed arnynt gan ffurfiau neilltuol ar lenyddiaeth Cymru. Effeithiodd Rhyfeloedd y Groes yn gyffelyb; dygasant Gymru i gyffyrddiad agosach â'r byd oddiallan. Dygwyd y Dwyrain a'r Gorllewin yn nes at eu gilydd drwyddynt; agorwyd llwybrau newyddion i fasnach, a datblygwyd yr ysbryd alluoga wahanol genhedloedd i oddef eu gilydd mewn cariad.[1] Cymhara yr Esgob Lightfoot Ryfeloedd y Groes i wr ieuanc llawn brwdfrydedd yn mynd i deithio mewn gwledydd tramor cyn ymsefydlu mewn galwedigaeth ar ddechreu ei yrfa, a thrwy hynny yn helaethu ei brofiad, yn eangu ei wybodaeth, ac yn dyfnhau ei gydymdeimlad â chenhedloedd ereill. "Mewn ystyr aeth holl Ewrob ar daith a dychwelodd gyda phrofiad helaethach, gwybodaeth fwy trwyadl, a chyda syniadau newyddion, ac ynni adnewyddol er troi y syniadau yn ffeithiau."[2]

Gwnaeth y Prifysgolion hwythau oedd yn cael eu sefydlu yn ystod y cyfnod eu rhan er eangu bywyd. Ac ni bu Cymru yn ddieithr hollol i'r dylanwad hwn. Ynddynt hwy ceid hedyn y bywyd dilyffethair oedd i ddod; yr oedd eto yn wan ac eiddil ond

[1] *Historical Lectures*, p. 518. Creighton.

[2] *Historical Essays*, p. 104, Lightfoot. *The Meaning of History*, p. 150; Harrison.

yr oedd ynddo lawer o bosibilrwydd. Ceid hanfod gweriniaeth o fewn magwyrydd y Prifysgolion, megid ysbryd annibynnol o fewn eu muriau ; a dechreuwyd hiraethu am yr un peth y tu allan i furiau prifysgol, ac mewn amser daeth y dyhead yn ffaith.[1] Caniateid mwy o ryddid i feddwl, i aelodau y prifysgolion nag a roddid i unrhyw ddosbarth arall yr adeg hon, yr oeddynt yn rhyddach na'u cyfoedion oddiwrth lyffetheiriau awdurdod a thraddodiad. Rhoddwyd iddynt hwy ernes, rhyw flaenbrawf, o'r hyn ddaeth yn etifeddiaeth gyffredinol yn yr unfed ganrif ar bymtheg drwy y Diwygiad Protestanaidd.[2]

Daeth goleu pellach o'r Iwerddon i Gymru o fewn y cyfnod hwn ac effeithiodd i raddau ar ei bywyd, ac ar ei llenyddiaeth. Fel y gwelwyd yn barod,[3] cymerai yr Iwerddon y blaen ynglŷn â chwestiynau addysg yn y Canol Oesau. Yr oedd y wlad yn enwog am ei beirdd, ei llenorion, ei saint. Dygwyd Gruffydd ap Cynan i fyny yn yr Iwerddon ac yr oedd yn noddwr amlwg i lên a chân. Pan yn wr ieuanc gadawodd yr Iwerddon a daeth i Gymru gan hawlio gorsedd Gwynedd gan wŷr Lleyn, a phob yn ychydig wynebodd y Normaniaid, trodd hwy yn ol o Wynedd, ac aml dro torrodd trwy'r cestyll oeddynt wedi godi i gadw y rhannau o'r wlad enillwyd ganddvnt. Naturiol yw credu i Ruffydd ab Cynan ddwyn llawer o wŷr ei lys gydag ef, ac iddynt hwythau ddwyn gyda hwynt o angenrheidrwydd lawer o'r ysbryd gyniweiriai drwy fywyd a llenyddiaeth yr Iwerddon yr adeg hon, ac i'r ysbryd hwn yn ei dro ddweyd ar fywyd Cymru. Y dylanwadau ddaeth gyda'r symudiadau hyn fu yn bennaf yn foddion i addysgu Cymru o fewn y cyfnod, yn hytrach na'i hysgolion, er nad oedd yn hollol amddifaid o ysgolion. Daeth y Normaniaid a'u sefydliadau crefyddol gyda hwy, ac yr oedd ysgolion dan nawdd y mynachdai ymysg y rhai hyn. Crefydd Rhufain oedd crefydd y Normaniaid, a gwnaent eu goreu er ei hyrwyddo. Gosodwyd i fyny nifer o sefydliadau Benedict ar ororau Cymru i gychwyn, ac yn ddiweddarach aethant i Ddeheudir Cymru. Lle bynnag y ceid castell Normanaidd ceid crefydd-dy o dan ei gysgod. Dywedir mai tri anhebgor sefydliad Normanaidd oedd castell, mynachdy, ac eglwys.[4] Yn y ddegfed ganrif ymddangosodd urdd Clugny, a bu'n foddion i ddwyn bywyd newydd i eglwys Rhufain,—yr eglwys yr ystyrid hi erbyn hyn fel eglwys Gorllewin Ewrob. Yr adeg y cododd yr urdd hon yr oedd yr eglwys wedi dirywio yn fawr a theimlai llawer awydd am weled ei diwygio. Teimlid fod yr rhaid puro y ffynonellau—y mynachdai, ac nid gwaith hawdd oedd hyn. Yn ol cyfundrefn Benedict yr oedd pob mynachdy yn annibynnol a hunanlywodraethol, ac oherwydd hyn anodd oedd dyfeisio cynllun i fynd at yr oll a'u gwella. Yr anhawster yna roddodd fod i urdd Clugny ; yr oedd abad Clugny i'w ystyried yn ben pob mynachdy perthynol i'r urdd

[1] *The Empire and the Papacy*, p. 431 ; Tout.

[2] *Abelard*, p. 37 ; Compayne.

[3] Pennod i. td. 16.

[4] *The Celtic Church in Wales*, p. 477 ; J. W. Willis Bund.

yn Ewrob ; prioriaid o dano ef lywodraethent y mynachdy ; talent swm o arian yn flynyddol i'r prif abad ac i ddibenion cyffredin yr urdd. Yr oedd Abad Clugny yn fath o bab mynachaeth. Bu dylanwad yr urdd hon yn fawr ac yn dda. Cadw yr eglwys yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd oedd yr hyn yr amcanent ato. Ac er sicrhau hyn credent y dylai yr eglwys fod yn annibynnol ar y Wladwriaeth, ac y dylai orfodi ei hoffeiriaid i ymgadw rhag priodi.[1] Mewn amser aeth yr urdd yn fydol a chollodd ei dylanwad, a chodwyd un arall—urdd y Cisterciaid—i barhau y gwaith ddechreuwyd ganddi. Cafodd yr urdd hon ei bod oddeutu dechreu y ddeuddegfed ganrif. Cychwynwyd hi yn Citeaux rhwng Dijon a Châlons. Ymsefydlai y Cisterciaid mewn lleoedd unig, anghysbell. Gwahaniaethai yr urdd o ran cyfansoddiad oddiwrth urdd Clugny. Yr oedd pob mynachdy Cisterciaidd yn annibynnol a hunanlywodraethol ; ond yr oedd yr abadau yn rhwym i ddod ynghyd ar adegau neilltuol i fath o gymanfa gyffredinol,—a'r cymanfaoedd hyn oedd cyrff llywodraethol yr urdd. Sefydlwyd mynachdai ynglŷn â'r urddau hyn yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn. Yr oedd ynghylch pymtheg o fynachdai Benedict yng Nghymru, gan mwyaf yn Neheudir Cymru[2] ; a cheid crefydd-dai perthynol i'r Cisterciaid yn y lleoedd canlynol : Aberconwy, Basingwerc, Glyn y Groes, Ystrad Marchell, Cymmer, Ystrad Fflur, Cwm Hir, Whitland, Castell Nedd, Margam, Llantarnam, Tintern, Grace Dieu, Dore, Llanfaes a Phenmon. Gwnaeth yr hen fynachdai lawer ynglŷn âg addysg y wlad, a pharhawyd y gwaith gychwynwyd ganddynt hwy gan y sefydliadau Benedictaidd a Cisterciaidd. Ond yn anffodus nid oes odid ddim manylion am eu hymdrechion ynglŷn âg addysg ar gael. Yn y flwyddyn 1070 neu 1071 cyfeirir at ysgol yn Nhyddewi.[3] A disgwylid i offeiriaid y plwyf gadw ysgolion er addysgu plant, ac weithiau rai mewn oed o fewn eu plwyfi. Ac o dan y flwyddyn 1022 ym *Mrut y Tywysogion* ceir y cofnod dyddorol a ganlyn mewn perthynas i'r hyn a wneid mewn ffordd o addysgu yn yr eglwysi yn esgobaeth Llandaf.

"A.D. 1022 bu farw . . . . Bledri Esgob Teiliaw ysgolhaig pennaf gwlad Cymru, achaws hynny y gelwid ef Bledri Ddoeth, a chystal y carai wybodaeth fal y dodes ar yr offeiriaid gynnal addysg llyfrau llên bob un yn ei eglwys, mal y gwypai pawb a ddylynt parth Duw a dynion."[4]

Tri wyr enwog o **fewn** y cyfnod **hwn** cedd Gerallt Gymro, Gwallter Map, a Sieffre o Fynwy Yr oedd y tri yn Gymry o waed, er nad o "waed coch cyfa." Mae gennym dystiolaeth Gwallter Map ei hunan ar y pwnc. Geilw ei hun yn "un o wyr y Mers"[5]—

[1] *The Empire and the Papacy*, p. 99 ; T. F. Tout.

[2] *Mediæval Wales*, p. 105 ; A. G. Little. *A History of the Welsh Church*, c. x. ; Newell.

[3] *Councils and Ecclesiastical Documents*, vol. i., p. 297 ; Haddan and Stubbs.

[4] *Councils and Ecclesiastical Documents*, vol. i., pp. 288 289 ; Haddan and Stubbs. *Liber Landavensis*, p. 518, note.

[5] *De Nugis*, Dist. i., cap. 23.

a marcher of Wales, a chyfeiria at y Cymry fel ei "gydwladwyr."[1] Mae rhesymau cryfion dros gredu fod Sieffre o Fynwy yn Gymro, ac y medrai o leiaf beth Cymraeg; a myn traddodiad mai yng Nghymru y ganwyd ac y magwyd ef. Am Gerallt, mae'r ffeithiau yn ddiamheuol, yr oedd ef yn Gymro o du ei fam, ac yn Norman o du ei dad. Yr oedd y tri yn wyr dysgedig. Derbyniodd Gerallt ei addysg dan ofal ei ewythr David Fitzgerald, esgob Ty Ddewi, ym Mynachdy Petr, Gloucester, ac ym Mhrifysgol Paris. Profodd ei hun yn efrydydd rhagorol, os ydym i dderbyn ei dystiolaeth ef ei hun. Dywed y byddai yr athrawon ym Mharis, yn cyfeirio ato fel cynllun o efrydydd i eraill i'w ddilyn. Yr oedd Gwallter Map yntau yn efrydydd ym Mhrifysgol Paris rhwng y flwyddyn 1154 a 1160.[2] Nid oes fanylion ynghylch y lle, neu y lleoedd, y derbyniodd Sieffre ei addysg ynddynt. Awgrymir Priordy Mynwy fel y lle mwyaf tebyg.[3] Ysgrifennodd y tri lawer ar Gymru, ac ar gymeriad y trigolion. Cafwyd gan Sieffre *Historia Regum Britanniæ*—Hanes Brenhinoedd Prydain. Hanes ar ffurf rhamant. Deallodd Sieffre ei oes—oes rhamant. Dyna oedd yr hyn ddymunent, rhamant. A dyna gawsant gan Sieffre—rhamant ar ddelw hanes, rhamant ar ffurf yr hen Groniclau. Yn ei *De Nugis Curialium* dyry Map le amlwg i Gymry; ceir ganddo yn y gwaith benodau ar ddigwyddiadau gymerasant le ym mywyd Gruffydd ab Llywelyn, Helias yr Ancr Cymreig, Conan y marchog Cymreig, a Cheueslin lleidr o Ogledd Cymru. Mae ganddo ddisgrifiadau byw o'r Cymry, ac elfennir eu cymeriad cenedlaethol yn fanwl.[4] Mae gweithiau Gerallt yn fwy adnabyddus nag eiddo y ddau arall, a cheir ynddynt y disgrifiad llawnaf a mwyaf dyddorol sydd gennym o fywyd Cymru yn y Canol Oesau. Mae y *Descriptio Cambriæ* a'r *Itinerarium Cambriæ* yn ffynonellau pwysig i fyned iddynt am ddefnyddiau hanes y cyfnod yr oedd Gerallt yn byw ynddo. Yn y diweddaf ceir hanes taith gymerodd Gerallt drwy Gymru yng nghwmni Baldwin, archesgob Caergaint, er cynhyrfu'r wlad i ymuno â'r Drydedd Groesgad; cymerodd hyn le yn y flwyddyn 1188. Yn y blaenaf ceir disgrifiad manwl o fywyd a nodweddion cenedlaethol y Cymry yn yr oes yr oedd Gerallt yn byw ynddi. Ymddengys yn hollol onest yn ei elfeniad o'r cymeriad Cymreig. Dyry bob clod iddynt am y pethau da oedd yn y caricter, ac yn ddiofn a didderbynwyneb cyfeiria at fannau gwan y caricter. Ond yr hyn sydd yn rhyfedd ydyw nad oes gan yr un o'r tri ddim i'w ddweyd am addysg Cymru o fewn eu cyfnod. Pa fodd i gyfrif am hyn? Mae amryw ystyriaethau yn ymgynnyg i'r meddwl. Y tebygrwydd ydyw fod yr addysg a gyfrennid yng Nghymru yr adeg hon i raddau mawr yng ngofal y myneich. Ai tybed fod rhagfarn amlwg Gerallt yn erbyn y

[1] *De Nugis*, Dist. ii., cap. 20.

[2] *De Nugis*, v. 5, ii. 7.

[3] *Geoffrey of Monmouth, Trans. Cymmrodorion Society*, p. 58 (1898—99); W. Lewis Jones.

[4] *De Nugis*, Dist. ii., c. xx., c. xxvi.

myneich yn ei wneud yn ddall i'r hyn a wnaent er addysgu Cymru ? Yr oedd Gerallt yn gadael i'w deimlad lywodraethu ei farn pan yn sôn am y myneich. Ac mae nifer o ganeuon Lladin Gwallter Map wedi eu cyfansoddi i oganu yr offeiriaid, ac yn neilltuol y myneich. Ond nis gellir dweyd hyn am Sieffre, ac ymhellach, mae tystiolaeth ar gael iddo ef fod ei hunan yn y cymeriad o athro i nifer o ysgolheigion a phendefigion yn Llandaf.[1] Barna un o olygwyr *Gweithiau Gerallt* fod yr awdur yn ddistaw am addysg Cymru o fewn y cyfnod am nad oedd dim da i'w ddweyd am dani.[2] Mae geiriau y gwr hwn,—a ddyfynnir isod—yn rhai cryfion iawn. A ydynt yn wir ? Prin y gellir dweyd hynny ; mae ei osodiad yn rhy ysgubol. Buasai yn fwy cywir pe dywedasai na cheid ysgolheigdod uchel ond ymysg y rhai hynny dderbyniasent eu haddysg o'r tuallan i Gymru. Mae yn bosibl i genedl ballu mewn ysgolheigdod, yn yr ystyr gyfyngaf i'r gair, ac eto fod yn genedl ddiwylliedig. Fe gynyrchwyd llawer o ysgolheigdod manwl yn ystod y pum mlynedd ar hugain diweddaf yng Nghymru, ond nis gellir dweyd fod corff y bobl lawer yn fwy diwylliedig nag oeddynt ddeg ar hugain neu ddeugain mlynedd yn ol. Nid yw y bywyd ddisgrifir yn y *Mabinogion* ac ym Meirdd y Cyfnod yn cadarnhau tystiolaeth Brewer, yn hytrach profa'r gwrthwyneb.

Cymerodd y *Mabinogion* y ffurf lenyddol sydd arnynt yn y ddeuddegfed ganrif. Mae'r mater, fodd bynnag, a geir ynddynt lawer yn hŷn ; ant a ni yn ol i gyfnodau boreuaf llenyddiaeth Geltig, gwelir yn fynych fod eu gwreiddiau yn y cyfnod cynhanesiol. Nid mewn un dydd y cynyrchir llenyddiaeth o'r math geir yn y *Mabinogion*. Dygodd y rhai fu yn eu hadeiladu y meini o bell, defnyddiasant hwy heb wybod ond ychydig am y graig y naddwyd y meini ohoni. Casglasant hen draddodiadau eu cenedl, a dygasant eu dyfais a'u medr llenyddol i weithio arnynt. Detholasant, yn ol pob tebyg, y rhannau o'r chwedlau a'r traddodiadau ystyrient hwy yn fwyaf cyfaddas i'r amcan oedd ganddynt hwy wrth eu hysgrifennu. Ond er perthyn o'r chwedlau gynwysir yn y *Mabinogion* i gyfnodau mor foreu, y maent yn y ffurf y daethant i lawr i ni yn dwyn delw y cyfnod y cymerasant ffurf lenyddol ynddo. Ffeudaliaeth ydyw yr awyrgylch y try y chwedlau ynddi. Mae hyn yn wir hyd yn oed am y rhai hynaf ohonynt—*y pedair cainc*. Ceir ynddynt eiriau Normanaidd, cyfeiriadau at arferion a dull o fyw ac ymwisgo oedd yn nodweddiadol o'r Canol Oesau. Teflir ynddynt beth goleuni ar ystad addysg o fewn y cyfnod y mae a wnel y bennod hon âg ef. Mae'r *Mabinogion* yn debyg i'r hyn a elwir yn *composite photograph ;* yn y *composite photograph* gwelir rhyw awgrym o amryw wynebau, ond mae ynddo un wyneb sydd yn rhoi ei ddelw ar yr oll, ac yn eu taflu oll i'r

[1] *Y Geninen*, Mawrth 1897, td. 16. Anwyl.

[2] "In his panegyric upon Wales and its virtues, whilst enumerating all that could be urged in its praises, Giraldus is silent as to its schools or places of learning. A perilous silence ! Welsh patriotism had never yet risen to the height of a scholastic foundation. As a body the Welsh clergy were grossly and notoriously ignorant ; their Welsh flocks were without habits of industry."—*Giraldi Cambrensis Opera. Introduction*, vol. i., p. xlii ; J. S. Brewer.

cysgod. Felly yn y chwedlau hyn tynnir y llen oddiar amryw gyfnodau boreu yn hanes Cymru, ond ei bywyd yn ystod y ddeuddegfed a'r drydedd ganrif ar ddeg ddisgrifir yn bennaf ynddynt. Pa oleuni geir ynddynt ar ystad addysg Cymru o fewn y cyfnod? Llawer ymhob rhyw fodd; nid oes dim yn fwy nodweddiadol o gymdeithas mewn ystad iachus, na'r lle a roddir gan gymdeithas i wraig, a'r parch a delir iddi. Yn ol y rheol hon, nid isel na chyffredin oedd ystad cymdeithas yng Nghymru yng Nghyfnod y *Mabinogion*, oblegid yr oedd anrhydeddu y rhyw fenywaidd yn un o'r rhinweddau y rhoddid y pwys mwyaf arno. Rhoddid bri mawr hefyd ar ffyddlondeb i addewid a chywirdeb mewn cyfeillgarwch,—amled y ceir y frawddeg "kadw kywirdeb." A rhinweddau yw y rhai hyn nas gall yr un genedl fod yn fawr hebddynt. Oes ffeudaliaeth a marchogwriaeth ydyw yr oes ddarlunir yn y *Mabinogion;* ac yr oedd cwrs o addysg yr oedd yn rhaid myned drwyddo ynglŷn â marchogwriaeth.[1] Y llinellau amlycaf mewn marchogwriaeth oedd crefydd, anrhydedd, a mawrfrydigrwydd ymddygiad, yn neilltuol tuag at y rhyw fenywaidd, y gwan, a'r diamddiffyn. Yr oedd y marchog i fod yn deyrngarol i'w eglwys, i'r gwr y talai warogaeth iddo, ac i'w gariadferch. Ceir engraifft led deg o hyn yng ngeiriau ei fam wrth Peredur pan y penderfynodd y byddai yn farchog. "Dos ragot heb hi y lys arthur yn lle mae goreu y gwyr, a haelaf. a dewraf. lle y gwelych eglwys. Kan dy pader wrthi. O gwely vwyt a diawt or byt reit itt wrthaw. ac na bo owybot a dayoni y roddi itt. Kymer dy hun ef. Os clywy diaspat dos wrthi. a diaspat gwreic annat diaspat or byt. Os gwely tlws tec, kymer ef, a dyro y arall. ac o hynny clot a geffy."[2] Rhennid y cwrs yr ai gwr ieuanc drwyddo er bod yn farchog, yn dri chyfnod. Hyd nes y byddai y plentyn yn rhyw saith neu wyth oed gofelid am ei addysg gan ei fam gartref. Yn ystod y cyfnod hwn dysgid ef mewn materion crefyddol, dangosid y pwys iddo barchu yr hen ac ufuddhau i'w uwchafiaid, a gofalu am ei iechyd. Pan y byddai y cyfnod hwn drosodd, arferai uchelwyr o bob gradd anfon eu bechgyn i lys rhyw arglwydd neu wr eglwysig enwog i dderbyn addysg bellach mewn cwrteisrwydd a moesau a defion llys. Yn ystod y cyfnod hwn edrychid ar y bachgen fel macwy. Disgwylid iddo weini ar ei arglwydd a'i arglwyddes, a derbyniai gan y ddiweddaf gyfarwyddiadau mewn perthynas i ymddygiad anrhydeddus mewn carwriaeth, a chai fantais i ddod yn hylaw mewn ffristial a thawlfwrdd, a chwareuon eraill. Mewn rhai amgylchiadau cai gyfleustra i ddysgu darllen, ysgrifennu, canu telyn a chrwth, a chyfansoddi barddoniaeth. Pan yn bedair-ar-ddeg neu bymtheg oed, deuai'r macwy yn yswain neu gludydd arfau. Yn y cymeriad hwn disgwylid iddo weini yn bennaf ar yr arglwydd yr oedd yn ei wasanaeth. Yr oedd i gyweirio gwely ei arglwydd, gwylied ei wely yn ystod y nos, pan y byddai galw, gwisgo am dano, a myned gydag ef i'r twrneiment—i le yr ymwan. Iddo ef

[1] *Chivalry*, Chapters v.—xx.; Gautier. §

[2] *The Red Book of Hergest*, vol. i., p. 195, ll. 15—21; Rhys and Evans.

hefyd y perthynai gofalu am farch ei arglwydd. Pan na byddai ei feistr yn gofyn am ei wasanaeth cydchwaraeai wyddbwyll â'i arglwyddes, a byddai gydymaith iddi pan ai allan i gerdded, neu i hela anifeiliaid ac adar. Yn ei unfed-flwydd-ar-hugain deuai yr yswain yn farchog urddol. Rhoddid arbenigrwydd neilltuol ar yr urddiad. Yn y boreu torrid gwallt yr ymgeisydd am yr anrhydedd, rhoddid y cymun sanctaidd iddo gan yr offeiriad, a chymerai yntau lw "i amddiffyn yr eglwys, i ymosod ar y drygionus, i barchu'r offeiriaid, i amddiffyn gwragedd a'r tlodion, i gadw ei wlad mewn heddwch, ac i fod yn barod, os bydd gofyn, i golli y dyferyn olaf o'i waed er amddiffyn ei frodyr." Dyna yn ymarferol y ddisgyblaeth yr eid drwyddi er dod yn farchog. Gwahaniaethai ryw ychydig mewn manylion mewn gwahanol wledydd, ond dyna oedd y prif linellau. Yn y *Mabinogion* ceir prawfion fod y ffurfiau hyn ar addysg mewn grym yng Nghymru yn y Canol Oesau. Ceir awgrym o'r hyn fyddai arferol yn y cyfnod cyntaf yn yr hanes a geir am *Pererdur* pan yn blentyn yn cael ei ddwyn i fyny dan ofal ei fam. "Ny adawd neb yn y chedymdeithas namy gwragedd a meibion, a dynyon didraha. ny ellynt nac ny wedei udunt nac ymlad. na ryfelu, etc."[1] Ceir engraifft o'r hyn gymerai le yn yr ail gyfnod ym *Mabinogi Pwyll Pendefic Dyved.* "A hitheu wreic teirnon a gytsynnywys ar anuon ymab y pwyll. a thri pheth arglwyd heb hi a gaffwn ni ohynny. Diolwch ac alw issen o ellwng riannon or poen y mae yndaw. a diolwch gan pwyll am ueithryn y mab ae eturyt idaw. ar trydyd peth os gwr mwyn vyd y mab. mab maeth ynni vyd agoreu aallo vyth awna ynni."[2] Ceir yr ymadrodd "ar vaeth" yn fynych yn y *Mabinogion.* Ceir cyfeiriadau lawer hefyd at yr hyn yr ai gwyr ieuanc drwyddo yn y trydydd a'r pedwerydd cyfnod. "Gwir duw arhynny ti ae keffy yn llawen. Not a nottych. Diwyn vyg gwallt a uynnaf. Ti a geffy hynny. Kymryt crip eur o arthur, a gwelleu a doleu aryant idaw. achribaw y benn a oruc. a gouyn pwy oed aoruc arthur. mae vyg callon yntirioni wrthyt. mi a wn dy hanuot om gwaet."[3]

Mae seiliau dros gredu yr ai nifer dda o ieuenctid Cymru am addysg i Rydychen o fewn y cyfnod hwn. Nid oedd tlodi a diffyg moddion yn rhwystr anorfod i sicrhau hyn. Caniateid iddynt fyned o gwmpas i gardota er cael arian i gynnal eu hunain ac i dalu am eu haddysg tra yn y Brifysgol. Canent alarnadau mewn cynhebryngau, ac addawent weddio dros eu noddwyr pan ar y ddaear, ac wedi myned ohonynt i'r purdan. Ym *Mabinogi Manawyddan vab Llyr* sonir am "yscolheic yn dyfod o loygyr o ganu" ac yn cynnyg punt a dderbyniasai wrth gardota i Manawyddan am beidio crogi y llygoden. "Pan doy di yr yscolheic heb ef. Pan doaf arglwyd oloygyr o ganu . . . rac gwelet gwr kyfurd a thidi yny gweith hwnnw. punt a geueis i o gardotta mi

[1] *The Red Book of Hergest,* vol i., p. 193, ll. 13, etc,; Rhys and Evans.

[2] *The Red Book of Hergest,* vol i, p 22, ll. 26—30; p. 23, l. 1—3; Rhys and Evans.

[3] *The Red Book of Hergest,* vol. i., p. 106, ll. 1—4; Rhys and Evans.

ae rodaf itti a gellwng y pryf hwnnw ymeith."[1] Nid eglurir yn y *Mabinogion* pa fodd y daeth Cymru yn oleuedig o fewn y cyfnod hwn, ni roddir i ni y *process*, ond gwlad ddiwylliedig yw y wlad osodir allan yn y chwedlau hyn. Mae'r syniadau a geir ynddynt, fel rheol, yn syniadau moesol iach. Cymerer ychydig engreifftiau: "Dioer heb wy ny adwn ni drwc arnam ny hunein yr dyn yn y byt. A druein heb hitheu ny cheffwch un drwc yr dywedut y wirioned." Rhyw awgrym fod yn rhaid i'r da fyw a ffynnu, tra mae'r drwg yn dwyn yr hyn a'i dinistria oddimewn iddo ei hun. "Bid ben, bid bont"; A fynno awdurdod, bydded was. "Arec douyd ynt y gwragedd weithon"; Rhodd Duw yw gwragedd. "A vynno duw derffit"! Ewyllys Duw a wneler. "Mynet att y mackwy yr ystafell uchot y ymgynnic idaw. yn y wed y bo gantaw ef ae yn wreic ae yn orderch. llyna heb hi beth ny weda."

Cadarnheir tystiolaeth y *Mabinogion* mewn perthynas i ystad Cymru o fewn y cyfnod hwn gan amryw awgrymiadau geir yn *Llyfr Du Caerfyrddin.* Er y ceir yn y gwaith hwn lawer o ddarnau wedi dod i lawr o gyfnod boreuach na'r un gymerir i mewn yn y bennod hon, eto cymerodd y gwaith ei ffurf bresennol yn y ddeuddegfed ganrif, a gellir edrych arno fel yn adlewyrchu agweddau ar fywyd Cymru o fewn y ganrif hon a'r un a'i dilynodd. Dengys y *Llyfr Du* fel y *Mabinogion* y dysgid egwyddorion moesol cryfion ac iachus o fewn y cyfnod. Rhaid i'r da lwyddo, mae Duw y tu cefn i'r da. "Dyn dyval i ffawd, ni ervill gospawd."[2] Dysgir y genedl i ofni Duw, i barchu ei ddeddfau, i arwain bywyd glan a phur, i fod yn llawen a siriol, i gymodi a'u gilydd.

Gogonedawc arglwyd, hanpych gwell
Ath vendicco di eglwys a changell. 35.1

Affuynaw naut duw, diamehv y daun
ae donyauc wiffinnhev.

Kyvœthog Dduw douit. Apis lleuver lleuenit. 88.4

Nid ew y'm crevis dews diffleis,
yr gwneuthur amhuill, na thuill, na threis. 86.10.

Ym brin in tyno. in inysset. mor
impop fort itelher
rac crist guin nid oes inialet. 33.11.

Teyrn wron, tanc y romne heb imomet
Diwyccomne a digonhom o gamuet.
Kin mynedim guerid imiruet.
In tywill heb canvill im gorsset
Ym gueinvod im gosod im gorwet. 30.1.[3]

[1] *The Red Book of Hergest*, vol. i., p. 55, ll. 9, 10, 22, 23; Rhys and Evans.

[2] *The Black Book of Carmarthen*, td. 18, ll. 11; J. G. Evans.

[3] *The Black Book of Carmarthen*; J. G. Evans.

Tybir mai'r myneich oedd ynglŷn â Phriordy Caerfyrddin sydd yn gyfrifol am y ffurf bresennol ar y *Llyfr Du*, ac oherwydd hynny hwyrach fod y darlun a geir ynddo yn bortread rhy ffafriol o ystad cymdeithas yng Nghymru ; ystyriai y myneich eu hunain yn gyfrifol, i raddau mawr, am gyflwr crefyddol a chymdeithasol y wlad, a naturiol oedd iddynt ei osod allan mor oleu ag oedd modd ; o'r ochr arall yr oedd rhagfarn Gerallt Gymro a Gwallter Map yn erbyn y myneich yn peri iddynt dynnu darlun rhy dywyll o gyflwr crefyddol Cymru, er mwyn dwyn dianrhydedd ar ddosbarth nad oedd ynddynt gariad tuag ato, na chydymdeimlad âg ef.

Ceir peth cynorthwy yn ysgrifeniadau y Gogynfeirdd hwythau er ffurfio syniad am sefyllfa addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn. Ffurfia y Gogynfeirdd yr ail glwsdwr o feirdd yn hanes llenyddiaeth Gymreig. Y rhai amlycaf yn eu mysg oedd Meilir, Gwalchmai, Cynddelw Brydydd Mawr, Owen Cyfeiliog, Dafydd Benfras, a Gruffydd ab yr Ynad Coch. Dyma'r beirdd ddalient y maes o ddyddiau Gruffydd ab Cynan hyd farwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Beirdd y tywysogion oeddynt mewn modd neilltuol. "O ddechreu hanes Cymru hyd amser y Tuduriaid, y tywysogion Cymreig ydyw gwneuthurwyr hanes eu gwlad, a thestyn ei chân. Eu gorchestion hwy yn amser rhyfel a'u haelioni mewn heddwch ydyw testynau y beirdd i gyd. Oddigerth y tywysogion oedd yn feirdd eu hunain, nid oedd fardd nad oedd yn canu am ryw dywysog wrth ei swydd,—ei fawl wedi brwydr neu wledd, a'i farwnad pan fyddai marw."[1] Ym marwnadau y cyfnod ceir portreadau byw o'r prif gymeriadau a'r prif ddigwyddiadau. Mewn marwnad disgrifiodd Meilir fywyd a chymeriad Gruffydd ab Cynan. Gwnaeth ei fab Gwalchmai yr un peth a Madog ab Meredydd ac Owen Gwynedd ac ychwanegwyd at y darlun o'r diweddaf gan Daniel ab Llosgwrn Mew. Canodd nifer o feirdd glodydd Llywelyn Fawr mewn marwnadau, ac ystyriai Dafydd Benfras farwolaeth y tywysog hwn y fath anffawd fel ag i dybied fod Duw am unwaith wedi camgymeryd drwy adael i hyn ddigwydd.

Mae ysbryd y byd yn enbydrwydd
Cam y gorug Duw o debygrwydd.

Ac wedi cwympo o'u harweinydd tybiai y bardd mai gwell fyddai iddynt oll drengu na byw, a'u harweinydd, eu "rhwyf" wedi cwympo,

Am fyned fy rhwyf yn rhwym gweryd . . . .
Goreu oedd ynn ein marw i gyd
Gorofn y sy arnaf hyd nam gweryd dyn
Wedi Llywelyn llywiawdr gwyndyd.[2]

Ym marwnad Gruffydd ab yr Ynad Coch i Llywelyn ab Gruffydd, gosodir allan Natur fel mewn ing o ofid wrth ystyried y digwyddiad. Mae'r disgrifiad yn ddihafal.

[1] *Cymru*, cyf. i., td. 177 ; O. M. Edwards.
[2] *Y Gogynfeirdd*, tdd. 107, 108 ; Anwyl.

Poni welwch chwi hynt y gwynt a'r glaw ?
Poni welwch chwi'r deri yn ymdaraw ?
Poni welwch chwi'r mor yn merwinaw'r tir ?
Poni welwch chwi'r gwyr yn ymgyweiriaw ?
Poni welwch chwi'r haul yn hwyliaw'r awyr ?
Poni welwch chwi'r syr wedi syrthiaw ?
Poni chredwch chwi Dduw dyniadon ynfyd ?
Poni welwch chwi'r byd wedi bydiaw ? . . . .
Bychan lles oedd ym am fy nhwyllaw
Gadael pen arnaf heb pen arnaw.[1]

Nid dynion diddysg ac aniwylliedig allai ganu fel hyn. Lle bynnag y derbyniasant eu haddysg, yr oedd y peth ganddynt. Ac nid mewn rhyw un cyfeiriad yn unig y dangosent eu gallu. Gwelir oddiwrth y dyfyniadau uchod y medrent ganu galarnadau a byw ynddynt. Medrent yr un mor ddeheuig ddisgrifio rhyfel a gwledd, yr oedd ganddynt lygaid i weled anian ac i dreiddio yn ddwfn i'w chyfrinach, ac nid difedr hwy wrth ddisgrifio cwrs cariad ac amgylchiadau syml bywyd cyffredin. Cymerer ychydig o engreifftiau.

Gwylain yn gware ar wely lliant
Lleithrion eu pluawr plediau edrin . . . . .
Carafi eos fai forchun lud
A golygon hwyr hirwyn ei grud . . . .
Carafy yr ednan a'r lliarian llais,
Cathl fodawg coed, cadr ei ethais.[2]

Ar lladd, lladd llachar, ar bâr beri
Ar ffwyr, ffwyr ffyrfgawdd, ar fawdd foddi
A Menai heb drai o drallanw gwaedryar,
  A lliw gwyar gwŷr yn heli.[3]

Caraf y morfa ae mynytet
Ae chaer ger y choed ae chein diret
Ae dolyt ae dwuyr ae dyffrynnet
Ae gwylein gwynnyon ae gwymp wraget
Caraf y milwyr ae meirch hywet
Ae choed ae chedyrn ae chyuannet
Caraf y meusyt ae man veillyon arnaw
  Myn yd ganas fawr fyryf oruolet . . . . .
Caraf y morua y meiryonnyt
Men ym bu reich wenn yn obennyt.[4]

[1] *Y Gogynfeirdd*, tdd. 155, 156; Anwyl.

[2] *Y Gogynfeirdd*, tdd. 30, 31; Anwyl.

[3] *Gemau'r Gogynfeirdd*, td. 6; Arthur Hughes.

[4] *Y Gogynfeirdd*, tdd. 86; Anwyl.

Fy newis i rhiain firain feindeg,
Hirwen yn ei llen lliw ehôeg.
A'm dewis synnwyr synio ar wreigiaidd
Pan ddywed o fraidd weddaidd ofeg.

Dewis yw gennyf fi harddliw gwaneg
Y doeth i'th gyfoeth dy goeth Gymraeg.
Dewis gennyf fi di, beth yw gennyt ti fi ?
Beth a dewi di, deg ei gosteg ?[1]

"Bachgen a adwaenir oddiwrth y gwaith a wna." A chyda'r un priodoldeb gellid dweyd—Beirdd a adwaenir oddiwrth y gwaith a wnant. Amlwg yw fod prif feirdd y cyfnod hwn yn ddynion o gyraeddiadau uchel, ac o feddyliau gwrteithiedig, a gellir casglu am rai ohonynt eu bod yn ysgolheigion lled dda. Credir fod Cynddelw Brydydd Mawr yn ddyn o feddwl ysgolheigaidd, a dywed Dafydd y Coed yn un o'i ddarnau ei fod yn hyddysg mewn pedair iaith.

It yr addolaf, Ti Udd delwau,
Om pedeiriaith ddysg a'm paderau.[2]

Wedi bwrw golwg dros addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod rhwng dyfodiad y Normaniaid a chwymp Llywelyn yn y flwyddyn 1282, y casgliad y rhaid dod iddo yw mai isel oedd addysg ysgol yng Nghymru o fewn y blynyddoedd hyn. Ond gwneid i fyny am y diffyg hwn i raddau mawr o gyfeiriadau ereill. Dygwyd Cymru i gyffyrddiad agos â'r Iwerddon yn nechreu y cyfnod hwn a bu hyn yn symbyliad i'w bywyd ac i'w llenyddiaeth. Drwy y Normaniaid daeth i gyffyrddiad â bywyd Ewrob a chadwyd hi mewn cyfathrach â'r syniadau newyddion gynyrchwyd mewn canlyniad i sefydliad y Prifysgolion a'r ysbryd newydd anturiaethus y rhoddwyd bôd iddo ganddynt. Gwahaniaetha De Quincey rhwng llenyddiaeth gwybod a llenyddiaeth gallu. Dywed mai amcan y cyntaf ydyw addysgu, goleuo, ond mai amcan yr olaf ydyw symud.[3] Buddiol fuasai cael rhyw frawddegau cyffelyb i osod allan y gwahanol fathau o addysg y gall cenedl fanteisio arnynt—addysg llyfr, ac addysg cyffyrddiad â chenhedloedd goleuedig o'r tu allan; yr oedd y blaenaf yn brin o fewn y cyfnod hwn yng Nghymru ond nid yn absennol hollol. Gwnaeth yr urddau Mynachaidd eu rhan i oleuo Cymru yn yr ystyr hon o fewn y cyfnod. Dygasant gyda hwy lawysgrifau o weithiau y Tadau Eglwysig a'r clasuron Lladinaidd, buont yn symbyliad i gelf gain, a sefydlasant nifer o ysgolion. A manteisiodd nifer ar y ffurf hon ar addysg. Ceid ysgolheigion ymysg y Cymry. Dywedir am gyfieithiad Madog ab Selyf o Hanes Siarlymaen o'r Lladin i'r Gymraeg y dengys gydnabyddiaeth drwyadl iawn â'r iaith Ladin, ac y cymhara ei gyfieithiad yn ffafriol â'r cyfieithiadau wnaed

[1] *Gemau'r Gogynfeirdd*, td. 18; Arthur Hughes.

[2] *Y Gogynfeirdd*, td. 232; Anwyl.

[3] *De Quincey's Works*, vol. xi., p. 54; Masson.

oddeutu yr un amser gan ysgolheigion o wledydd ereill i rai o ieithoedd Ewrob. Ond nid addysg llyfr, nid addysg ysgol yn bennaf oleuodd Gymru o fewn y cyfnod, ond yr addysg ddaw o gyffyrddiad â chenhedloedd ereill. Ceid yng Nghymru o fewn y cyfnod, neu yn fwy cywir ceid Cymry dysgedig wedi derbyn eu haddysg y tu allan i Gymru yn ysgolheigion gwych a manwl, a therfynir y bennod hon gyda chyfeiriad at y rhai amlycaf ohonynt.

Yr oedd John Wallensis yn ei flodau oddeutu dechreu y drydedd ganrif ar ddeg. Yr oedd yn awdurdod uchel ar gyfraith eglwysig, bu yn athro ym Mhrifysgol Bologna, ac ysgrifennodd esboniadau geiriol—*glosses*—ar y *Compilatio Prima* a'r *Compilatio Secunda* rhwng y blynyddoedd 1212 a 1216. Fel yr awgryma ei enw yr oedd o darddiad Cymreig.

John Wallensis o urdd Ffrancis. Yr oedd hwn yn ei flodeu oddeutu diwedd y drydedd ganrif ar ddeg. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychen a Pharis. Yn ddiweddarach daeth yn athro ym Mharis. Ystyrid ef yn ddiwinydd da, ac ysgrifennodd yn helaeth. Nodir pymtheg o'i weithiau gan un o'i fywgraffwyr.[1] Gwnaeth enw iddo ei hun mewn oes ag yr oedd cewri fel Thomas Aquinas a Roger Bacon ar y ddaear. Anfonwyd ef gan yr Archesgob Peckham fel ei gennad at y Cymry oedd mewn gwrthryfel.[2] Apwyntiwyd ef gyda phedwar arall yn y flwyddyn 1283 i wneud ymchwiliad i olygiadau Peter John Olwi.[3] Enwogodd ei hun yn neilltuol yn ei ymdrech i ddwyn gwybodaeth i gyrraedd y bobl, ac i ddweyd ar eu bywyd a'u cymeriadau. Rhoddodd lawer o'i amser i baratoi rhai yn athrawon yn Lloegr a Chymru ynglŷn â'r sefydliadau Franciscaidd. Edrychir arno fel un o'r rhai roddodd gychwyn i'r ymdrech i ddwyn manteision prifysgol i gyrraedd y bobl gyffredin.[4]

Cymro enwog arall yn byw o fewn y cyfnod hwn oedd Thomas Wallensis. Yr oedd yn athraw mewn diwinyddiaeth ym Mharis yn y flwyddyn 1238. Bu hefyd am dymor yn ddarlithydd i Urdd y Ffrancisciaid yn Rhydychen.[5] Bu yn ganon Lincoln am dymor, ac yn y flwyddyn 1247, o gariad at ei wlad, cymerodd ei berswadio gan yr Esgob Grosseteste i dderbyn esgobaeth Ty Ddewi er tloted oedd hi.[6]

Mewn cysylltiad âg urdd y Dominiciaid ceid Cymro arall o'r enw Thomas Wallensis. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychen a Pharis, a chymerodd radd uchel mewn diwinyddiaeth. Dygwyd cyhuddiad o heresi yn ei erbyn, a charcharwyd ef am oddeutu blwyddyn a hanner; ond trwy ddylanwad Ffrainc rhyddhawyd ef. Ystyrid ef yn wr galluog, ac ysgrifennodd yn helaeth ar wahanol bynciau,

[1] *Grey Friars in Oxford* (*Oxford Historical Society*, xx.), pp. 144—51; A. G. Little.

[2] *Peckham's Register*, ii., 421—2.

[3] *Hist. Litt. de France*, t. xxv., p. 178.

[4] "Friar John of Wales was one of the chief inspirers of the 'University Extension' movement in the Middle Ages"—*Mediæval Wales*, p. 121; A. G. Little.

[5] *Mont. Franc.*, p. 38.

[6] *The Grey Friars in Oxford* (*Oxford Hist. Society*), p. 31; A. G. Little.

ymysg pethau ereill ceir traethawd helaeth ar y gelfyddyd o gyfansoddi pregethau—*the art of composing sermons*—wedi ei gyfeirio at esgob Palermo. Tybir fod y Friar John David yn frodor o Gaerdydd. Apwyntiwyd ef yn ddarlithydd i urdd y Ffrancisciaid yn Henffordd. Bu yn hynod lwyddiannus yn y gwaith hwn. Yn ddiweddarach daeth yn ben y dalaeth Ffrancisciaidd yn Lloegr. Gorffwys ei gorff ymysg adfeilion eglwys y Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd.[1]

At y rhai hyn gellir ychwanegu enwau Lawrence Brito,[2] yr un gwr yn ol pob tebyg a Laurentius Wallensis; Philippus Wallensis a John Went. Dywedir y ceir llawer o lawysgrifau y Cymry dysgedig hyn yn llyfrgelloedd y Cyfandir—yn neilltuol yn llyfrgelloedd yr Eidal.[3]

[1] *Mediæval Wales*, pp. 123, 124; A. G. Little.

[2] *The Grey Friars in Oxford* (*Oxford Historical Society*), p. 171; A. G. Little.

[3] "The works of these Wallenses are frequently found in Italy, for example among the books and manuscripts of the old monasteries of Santa Maria, Vallambrosa, and others which have now been transferred to the Libraries in Florence."—*Trans. Cymmrodorion Society*, p. 118 (1905—06); Hartwell Jones.

PENNOD IV.

O GWYMP LLEWELYN HYD WRTHRYFEL OWEN GLYNDWR.

PAN gollodd Cymru ei hannibyniaeth wleidyddol, meddyliodd llawer, hyd yn oed o'i charedigion, y darfyddai am dani—y peidia, a bod yn genedl. Ond golwg gyfyng gymerai y rhai hyn ar Gymru,—golwg rhy faterol ; ni roddent le dyladwy i feddwl Cymrul Mae hwn yn dal ymlaen ac yn gloywi wedi i annibyniaeth wleidyddo. y wlad fynd. Gwelir y meddwl yna ar ei brydferthaf yn y cyfnod ddilynodd yn uniongyrchol gwymp Llywelyn. Perffeithiwyd cân Cymru yn Nafydd ab Gwilym. Ni chollodd Cymru, fodd bynnag, ei hannibyniaeth yn yr un ystyr ag y collodd Poland ef. Llethwyd bywyd Poland, ac i raddau mawr cymerwyd ei henw oddiar restr cenhedloedd Ewrob. Nis gellir dweyd hyn am Gymru. Ni lethwyd ei bywyd drwy'r newid fu yn y drydedd ganrif ar ddeg. Nid oes fawr ystyr mewn darlunio Cymru fel "cenedl wedi ei hysigo," ac ymadroddion cyffelyb. Ar y cyfan ymddygodd Lloegr yn garedig tuag at Gymru. Bu gorthrwm arglwyddi'r goror yn fwy na gorthrwm y llywodraeth. Nis gellir dweyd i Loegr ffurfio cyfundrefn a'i nôd eithaf i lethu bywyd y Dywysogaeth, ac i roi pen ar ei harferion a'i nodweddion cenedlaethol. I lawer ni olygai y newid ddaeth dros Gymru yr adeg hon fwy na newid llywodraethwyr, a daethant yn fuan i ddygymod â hyn. Anfonent y ddogn oedd ddyledus oddiwrthynt—y ddogn arferent ei hanfon i lys y tywysogion Cymreig yn Aberffraw, anfonent hi rhagllaw i swyddfa y Trysorlys Seisnig yng Nghaernarfon, ac ni welent fawr wahaniaeth.

Y digwyddiad roddodd garictor i'r cyfnod hwn, a'r digwyddiad roddodd symbyliad mawr i addysg ydyw y Dadeni gymerodd le yn yr Eidal. Anodd ydyw cael gair esyd allan yr oll gynwysir yn y cynhyrfiad hwn. Mae'r hyn osodir allan drwyddo mor eang, mae iddo gynifer o wahanol ochrau fel na chaed gair eto esyd allan ei holl arweddion. Os rhaid cael un gair i'w ddisgrifio, credwn mai'r gair "Dadeni" fyddai oreu. Mae'n amhenodol, mae'n wir, ond cyfansodda hyn ei ragoriaeth.

Beth bynnag yr enw roddir arno gesyd allan gyfnod o ddeffro, o gynnydd, o fynd ymlaen mewn gwahanol gyfeiriadau. Gwelir ynddo yr hen bethau yn myned heibio, a phob peth yn cael ei wneud yn newydd,—dynoliaeth yn mynd rhagddi, yn dyheu am ryddid a thir uwch, y deall a'r ewyllys yn taflu ymaith y llyffetheiriau a'u daliasant gyhyd yn gaeth. Dechreuir chwilfriwio yr hen rwymau wnaeth Ewrob yn un am oesau, cilia yr hen fyd i'r cysgod, a gwelir gwawr dydd newydd.

Hyd yn agos i ddiwedd y drydedd ganrif ar ddeg nodweddid bywyd Ewrob i raddau mawr gan unffurfiaeth meddwl ac ymddygiad. Yr Eglwys a'r Ymerodraeth oedd y ddau allu mawr; a chredid y daliai y naill a'r llall eu hawdurdod drwy ddwyfol hawl. Aeth yn gweryl, fodd bynnag, cydrhyngddynt am oruchafiaeth; ffrwyth hyn oedd gwanhau ac amharu dylanwad y naill a'r llall. Tollwyd ar awdurdod y Babaeth, a dechreuodd yr Ymerodraeth hithau ymdorri'n wahanol dalaethau. Gwelwyd yn codi yn raddol y cenhedloedd oedd i chwareu pwysiced rhan yn hanes diweddar Ewrob. Cyn ymchwilio i achos y newid, da, hwyrach, fyddai ymholi beth oedd rhai o nodau gwahan y cyfnod flaenorai y Dadeni. Hyd yn hyn nis gellir dweyd fod y syniad diweddar am genedlaetholdeb wedi tywynnu ar feddwl neb. Yr oedd cenhedloedd diweddar fel y Ffrancod, y Saeson, a'r Yspaenwyr yn ymffurfio, ond ni ddaeth cyfnod eu hymwybodolrwydd cenedlaethol am beth amser wedi hyn. Ni chydnabyddid hawliau y person unigol, pa beth bynnag wneid erddo, gwneid ef er mwyn y cyfundeb—y corff o bobl y perthynai iddo. Yr oedd cyfle y person unigol ymysg y pethau oedd i ddod. Nodweddid y cyfnod gan lawer o anwybodaeth. Yr oedd y gorchwyl o addysgu bron yn gwbl yn llaw yr offeiriaid; a chaethed oeddynt hwythau wrth draddodiad fel mai cymharol fychan fu eu dylanwad yn y cyfeiriad hwn. Rhoddodd yr Eglwys ei hwyneb yn erbyn rhydd ymchwiliad a beirniadaeth. Rhan dynion fel Roger Bacon, Galileo a'u cyffelyb—gweledyddion y cyfnodau y cawsant eu hunain ynddynt—fu cael eu herlid gan awdurdodau yr Eglwys. Dyna ystad cymdeithas yn Ewrob ar ddechreu y cyfnod yr ymwneir âg ef yn y bennod hon. Anodd yw dweyd yn fanwl pryd y dechreuodd ac y diweddodd cyfnod y Dadeni.[1] Nid yw y terfynau yn glir. Mwy tebyg ydyw i awel gwanwyn, yr hon a ddaw yn ei hamser ei hun. Os rhaid sôn am dyddiadau ynglŷn âg ef rhaid iddynt fod yn amhenodol. Gellir edrych arno fel yn dechreu tua'r drydedd ganrif ar ddeg, yn cynhyddu yn ddirfawr yn y bedwaredd ganrif ar ddeg a'r bymthegfed ganrif, ac yn parhau mewn ffurf wahanol yn rhyfeloedd crefydd yr unfed ganrif ar bymtheg.[2] Symbylwyd y mudiad yn fawr gan y dyddordeb newydd ddechreuid deimlo mewn llenyddiaeth glasurol,—maes esgeuluswyd yn fawr yn y cyfnodau blaenorol. Penderfynwyd mynd yn ol at yr hen am ysbrydiaeth ac nid cyfyngu eu hunain yn ormodol fel y gwnaethant hyd yma i weithiau Jerome ac Awstin—dau nodweddiadol o'r cyfnodau flaenorai oes y Dadeni. Tybiai y blaenaf nas gallai un fod yn Gristion ac ar yr un pryd yn edmygydd o Cicero, tra nas gallai y diweddaf faddeu iddo ei hunan am yr amser gollodd yn darllen gweithiau Homer a Vergil. O astudio llenyddiaeth Rhufain, a Groeg wedi hynny, daeth syniad eangach am fywyd, gwelwyd mai anfantais oedd ei gyfyngu a'i gaethiwo i ryw rychau neilltuol, a theimlwyd mai eu dyledswydd oedd ei fyw yn ei holl arweddion. O gael golwg

[1] *The Renaissance in Italy*, vol. i., p. 3; J. A. Symonds. *Europe in the Sixteenth Century* p. 1; A. H. Johnson.

[2] *The Close of the Middle Ages*, p. 518; Lodge.

newydd ar fywyd cododd gwrthryfel yn erbyn llyffetheiriau eglwys a thraddodiad—yn wir yn erbyn pob peth ymddangosai fel yn cyfyngu bywyd. Cyn bo hir cynyrchodd y mudiad gysylltir â'r Dadeni, ymwybodolrwydd cenedlaethol. Dechreuodd dynion ymhyfrydu yn yr ardaloedd a'r gwledydd y trigent ynddynt nes peri i wladgarwch a chenedlaetholdeb feddu ystyr newydd. Daeth llenyddiaethau cenedlaethol ac eglwysi cenedlaethol i fri. Dadfeiliodd ffeudaliaeth—y gyfundrefn ddyrchafai ddosbarth; cydnabuwyd hawliau'r bobl, ac yn raddol daethant i feddu dylanwad politicaidd. Teimlid fod cyflawnder o fywyd o fewn eu cyrraedd, ac ymroddodd pawb i'w fwynhau. Daeth cariad at dlysni, chwaeth at y prydferth mewn dyn ac mewn natur. Cyn y newid ddaeth dros y gwledydd drwy'r Dadeni, yr oedd y tlws a'r prydferth yn bethau i ymgadw rhagddynt, wedi'r newid gellir dweyd mai dyma'r cri,—"pa bethau bynnag sydd hawddgar, pa bethau bynnag sydd ganmoladwy . . . . . meddyliwch am y pethau hyn."

Gellir edrych ar yr Eidal fel man cychwyn y Dadeni. Ac nid anodd cyfrif am hyn. Yr oedd ei safle ddaearyddol yn fanteisiol iddi mewn cyfnod ag yr oedd Môr y Canoldir yn ganolbwynt masnach y byd. Dygid swm dirfawr o gyfoeth bob blwyddyn i ddinasoedd yr Eidal—i Florence, Genoa, a Venice—rhoddai hyn iddynt syniad am eu pwysigrwydd, cynyrchai ynddynt ymdeimlad o'u gallu ac awydd am fwy o ryddid, a chynysgaeddai hwy â hamdden i ddiwyllio eu meddyliau. Yr Eidaliaid fu yn brif offerynau yn y Dadeni; hwy ddarganfyddasant gyntaf drysorau llenyddol yr hen fyd, a hwy ddangosasant y ffordd i ereill i'w defnyddio. Yr Eidal arweiniodd mewn llên a chelf. Hi roddodd Dante i'r byd —bardd mawr y Canol Oesau, ac un o feirdd mwyaf unrhyw oes. Gellir edrych ar Dante fel dolen gydiol rhwng dau gyfnod. Cloa yr hen a saif ar drothwy y newydd, fel yr awgryma blynyddoedd ei einioes—1265—1321. Symir i fyny ei ddylanwad mewn gair tra awgrymiadol—"blodeuodd y Canol Oesau, a Dante oedd y blodeuyn." Mae cysylltiad Giotto yntau â chyfnod y Dadeni yn gyffelyb i'r eiddo Dante.[1] Edrychwn ar Dante a Giotto fel cewri yr hen gyfnod, yn hytrach na rhagredegwyr cyfnod newydd. Cael dynolryw yn un genedl dyna oedd syniad mawr Dante, ond syniad cyfnod y Dadeni oedd rhoddi i bob cenedl ei lle,—"ei chenhadaeth oddifry er cwblhau ac er perffeithio dyn." Prif ragredegwyr y cyfnod newydd, ni gredwn, oedd Petrarch, Boccaccio, a Villani mewn llên, a Massuccio, Filippo Lippi, a Sandro Botticelli mewn celf. Bu dylanwad Petrarch a Boccaccio yn ddwfn iawn ar lenyddiaeth; aethant ill dau yn ol at hen drysorau llenyddiaeth, dysgasant eu rhagoriaethau, a chyflwynasant hwy mewn gwedd ac ysbryd newydd. Ac onid dyma un o nodau athrylith? Arfer y defnyddiau wrth law yn well na neb arall—gwneud yr hen yn newydd. Penderfynasant, i raddau mawr, ogwydd a chymeriad barddoniaeth Ewrob am ganrifoedd i ddod.[2]

[1] "Giotto is especially the Dante of Art"—*Close of the Middle Ages*, p. 527; Lodge.

[2] "Petrarch and Boccaccio determined the course of the principal streams of poetry in all the languages of Europe for more than two centuries after their time, and in some respects, even to the present day"—*Mediæval Literature*, p. 64; W. P. Ker.

Cafodd yr Eidal lywodraethwyr fu yn gefn i fudiad y Dadeni. Yr oedd hyn yn wir yn gyffredinol am deulu y Medici, ac yn neilltuol felly am Cosimo a Lorenzo. Ymdrechodd Cosimo yn llwyddiannus i wneud y mudiad nid yn un talaethol ond Ewropeaidd; ymdaflodd â'i holl egni i'r gorchwyl o'i feithrin.[1] Cynyrchodd frwdfrydedd yn ffafr dysg ac ymchwiliad, a gwnaeth Florence yn fan cyfarfod ysgolheigion o bob parth o Ewrob, ac o amryw rannau o Asia. Nôd Cosimo oedd gwneud Florence yn gartref y Deffro Newydd, a mynnai iddo ymledu oddiyno i ddinasoedd ereill yr Eidal ac yna i Ewrob yn gyffredinol. Rhagorodd Lorenzo hyd yn oed ar Cosimo fel noddwr llên. Efe oedd Maecenas ei gyfnod. Gwnaeth ei oreu i gael gan ei gyd-ddineswyr astudio Dante, Petrarch, a Boccaccio. Yr oedd ei gyfoeth at wasanaeth gwyr llên; cadwai lu ohonynt i gasglu ac ail-ysgrifennu llawysgrifau. Cefnogodd y mudiad hefyd drwy gychwyn yr *Academy of Florence*—sefydliad a'i amcan i feithrin iaith a llenyddiaeth Groeg, a rhoddodd bob help i osod i fyny argraffweisg yng ngwahanol rannau yr Eidal. Hyrwyddodd y mudiad ymhellach drwy sefydlu ysgolion mewn lleoedd na cheid hwy yn barod, drwy gefnogi astudiaeth neilltuol o wahanol bynciau,—credai yn y *specialist*, yr oedd o'r farn mai "gwell gwybod pob peth ynghylch un testyn, na gwybod ychydig ynghylch llawer o destynau." Cydolygai â Cosimo mai nid peth talaethol, ond Ewropeaidd oedd yr adfywiad deallol i fod. A gweithredodd yn ol ei gred, arferodd ei holl ddylanwad er dwyn ysgolheigion at eu gilydd, er lladd pob eiddigedd allasai fod cydrhyngddynt, ac er eu dwyn i gydymdrechu ymhlaid y mudiad y rhoddwyd iddynt weled ei gychwyn.

Ysgrifennais yn helaeth ar y Dadeni, gall ymddangos yn anghymesur, pan gofier mai addysg Cymru yn y Canol Oesoedd yw y testyn; ond fel y sylwyd mewn pennod flaenorol, addysgwyd Cymru nid yn unig, nac yn bennaf, drwy ysgolion, ond drwy iddi gael ei dwyn, o dro i dro, i gyffyrddiad â'r byd oddiallan, ac i gyfathrach â chenhedloedd mwy goleuedig na hi ei hunan. Ac mae hyn yn wir am Gymru yn y cyfnod y mae a wnelo y bennod hon âg ef. Daeth yr awel gwanwyn gynyrchwyd gan gynhyrfiad y Dadeni i Gymru, adfywiodd ei bywyd, chwythodd ar ei llenyddiaeth nes gwasgar ohoni ei pherarogledd. Cafwyd oes aur llenyddiaeth Cymru. A rhaid cysylltu hyn â'r adfywiad deallol gyniweiriai yr adeg hon drwy wledydd gorllewin Ewrob.[2] Addfed ffrwyth y Dadeni yng Nghymru oedd Dafydd ab Gwilym. Gellir edrych arno fel cynnyrch a chynrychiolydd y cyfnod. Cymer ei le gyda phendefigion llên,[3] yr oedd yn un o'r cewri oedd ar y ddaear yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg. Rhaid ei restru gyda chreawdwyr cyfnodau, ac mae iddo le anrhydeddus yn eu mysg. Yr oedd yn ddyn o gyrhaeddiadau anghyffredin, ac o ddiwylliad uchel ac eang. Meddai gydnabyddiaeth drwyadl â llenyddiaeth

[1] *The Medici*, p. 103; Oliphant and Smeaton.

[2] *Wales and the Renaissance*, p. 7; W. Lewis Jones. *A Welsh Poet of Chaucer's Age—Quarterly Review*, October, 1901; W. Lewis Jones.

[3] "He stands—nor is he unworthy to be their compeer—with Dante, and Petrarch and Chaucer, at the gateway of the new time."

gwledydd ereill. Mae'n debyg y medrai ddarllen Lladin, ac y meddai ryw gymaint o gydnabyddiaeth â'i llenyddiaeth. Prin, fodd bynnag, y gellid dweyd fod sel Borrow yn ol gwybodaeth, pan y gesyd allan fod Dafydd ab Gwilym yn cyfuno ynddo ei hunan bethau goreu Ofydd, Horace, Martial a Thyrtaeus ; ac ni ddengys Dr. William Owen Pughe fod ganddo y gynneddf alluoga un i " brofi y pethau a gwahaniaeth rhyngddynt " pan yn sôn am Dafydd ab Gwilym fel Ofydd Cymru. Darllennodd Ofydd, mae'n ddiau, a manteisiodd ar ei ddarllen. Nis gellir dweyd ychwaneg. Gallai y gwyddai Roeg, nid yw hyn yn sicr. Mae seiliau cryfion i gredu y meddai ryw gymaint o gydnabyddiaeth â llenyddiaeth yr Eidal, darllennodd Petrarch a Boccaccio. Tybia rhai iddo fenthyca ryw gymaint oddiarnynt.[1] Ond nid oes raid cymeryd hyn yn ganiatael er cyfrif am bob peth geir yn Nafydd ab Gwilym. Pwynt heb ei brofi yn ddigonol ydyw fod Dafydd ab Gwilym wedi benthyca yn uniongyrchol o unrhyw ffynonellau Ewropeaidd. Yr oedd nifer o syniadau yn gyffredin i'r cyfnod, yr oedd dulliau o feddwl ac o osod allan y meddwl hwnnw oedd yn nodweddiadol o'r oes, ac oherwydd hyn gall un ymddangos yn fynych fel yn benthyca, tra nad yw mewn gwirionedd ond myned i'r drysorfa gyffredin am ei syniadau, yr un modd ag y gwnaeth yr un y ca ef y gair o fod yn benthyca ohono. Yr oedd Dafydd ab Gwilym yn gynrychiolydd o'r llinellau amlycaf nodweddai gyfnod y Dadeni. Carai y bardd y prydferth mewn Natur ac mewn merch hyd afiaeth. Meddai ar allu neilltuol i ganfod y prydferth a'i ddarlunio drwy gyfrwng iaith, nes trosglwyddo y tegwch a welai ef ei hun i ereill, ac yr oedd hyn yn un o linellau amlycaf y cyfnod. Yr oedd y cyfnod hefyd, fel y gwelwyd, yn wrthdystiad yn erbyn y duedd i gyfyngu bywyd yn ormodol. Ac yn hyn yr oedd Dafydd ab Gwilym yn gynrychiolydd teg o'r mudiad roddodd fôd iddo. Ceir digon o brawfion o hyn yn ei gywyddau ymosod ar y myneich. Cymerer a ganlyn fel engraifft allan o lawer.

Nid ydyw Duw mor greulon
Ag y dywaid hen ddynion ;
Ond celwydd yr offeiriaid
Yn darllain hen grwyn defaid.
Ni chyll Duw enaid gwr mwyn
Er caru gwraig a morwyn
Tri pheth a gerir drwy'r byd
Gwraig, a hinon, ac iechyd ;
Merch fydd decaf blodeuyn
Yn y nef ond Duw ei hun . . . . .
O'r nef caed pob digrifwch
Ac o uffern bob tristwch . . . .
Wyneb llawen llawn ei yd
Wyneb trist drwg a ery . . . . .
Anaml a ŵyr gywydd per
A phawb a ŵyr ei bader.

[1] *Wales and the Renaissance*, p. 15 ; W. Lewis Jones.

Ac am hynny'r dwyfawl frawd,
Nid cerdd sydd fwyaf pechawd.[1]

Cynrychiolai Dafydd ab Gwilym ochr wan, beryglus, cyfnod y Dadeni yn ogystal a'r ochrau cryfion iachus berthynent iddo. Rhoddid pwys mawr yn yr Eidal ar ddatblygu'r cyneddfau deallol a chelfyddydol, ond esgeulusid rhagoriaethau moesol. Mewn gair, ysgarwyd llenyddiaeth a moesoldeb. Daeth llawer o drigolion Florence yn baganiaid o ran bywyd a phroffes ; edrychent ar Gristionogaeth gyda diystyrwch, er na wnaent unrhyw ymdrech i ymddatod oddiwrth ffurfiau allanol Pabyddiaeth. Gellir edrych ar Machiavelli fel corfforiad o'r ochr hon ym mywyd yr Eidal. Anwybyddai ef egwyddorion sylfaenol moesoldeb. Iddo ef llwyddiant oedd popeth, nid oedd o unrhyw wahaniaeth pa fodd y cyrhaeddir ef. Nid oedd gwahaniaeth hanfodol rhwng y drwg a'r da. Dengys hanes yr Eidal yng nghyfnod y Dadeni berygl bywyd o fwynhad, ac o ymroddi i bleserau llên a chelf, os na chymedrolir ef gan yr ysbryd crefyddol.[2] Ni bu'r Dadeni yn yr Eidal yn rhagredegydd diwygiad moesol, ac yn symbyliad i fywyd uwch a mwy pur. Dyry Charles Beard yn yr *Hibbert Lectures* ddau reswm am hyn. Gwel ef y rheswm cyntaf yng nghymeriad naturiol yr Eidalwr—cymeriad bas, arwynebol heb ei nodweddu âg argyhoeddiadau dyfnion, cymeriad nas gall deimlo yn angerddol y gwahaniaeth rhwng drwg a da. Cenfydd y darlithydd ei ail reswm ym mherthynas neilltuol yr Eidalwr a'r Babaeth.[3] Plentyn ei gyfnod oedd Dafydd ab Gwilym ; carai y prydferth, carai fyw yn naturiol, carai wlad ei enedigaeth, carai ddisgrifio ei golygfeydd. Ac ni bu neb allai ddisgrifio golygfa mewn geiriau mwy byw nag ef. Ond nis gellir casglu oddiwrth ei weithiau ei fod yn ddyn o ewyllys gref, o argyhoeddiadau dyfnion ; i'r gwrthwyneb, ymddengys fel pe bai yn wastad dan lywodraeth ei synwyrau corfforol, yn lle bod yn feistr arnynt. Yn y pethau hyn hefyd yr oedd yn blentyn ei gyfnod.

Yr ysbryd newydd ddeffrodd Orllewin Ewrob, yr ysbryd gorfforwyd yn Nafydd ab Gwilym a'i gydoeswyr yw yr elfen bwysicaf i'w dal mewn cof er cyfrif am y mesur o ddiwylliad nodweddai Gymru yn y cyfnod ymestyn o gwymp Llywelyn hyd doriad allan wrthryfel Owen Glyndwr.

Gwnaeth gwrthwynebwyr Dafydd ab Gwilym—y myneich—hefyd eu rhan er goleuo Cymru o fewn y cyfnod hwn fel mewn cyfnodau blaenorol. Un o ddigwyddiadau pwysicaf dechreu y cyfnod hwn oedd dyfodiad y Friars—y Brodyr cardod neu'r Brodyr Pregethu—i Gymru. Bu i'r urddau cardod ran bwysig i'w wneud yn yr adfywiad deallol. Hwy gorfforent y dyhead am fwy o ryddid. Yr oedd rhoddi pwys ar ryddid yn rhan amlwg o'u cenhadaeth hwy ; yr oedd eu hymddangosiad hwy fel plaid o fewn

[1] *Gweithiau Dafydd ab Gwilym*, td. 209 ; Cynddelw.

[2] "The history of the Renaissance stands as a warning that the aesthetic spirit is not necessarily religious or even moral"—*Europe in the Sixteenth Century*, p. 14 ; Johnson.

[3] *The Hibbert Lectures*, 1883, p. 41 ; Charles Beard.

yr eglwys ynddo ei hun yn ddatganiad o'r gwirionedd hwn. Gwnaethant waith mawr mewn ystyr ysbrydol, mwy o bosibl na neb arall yn y drydedd ganrif ar ddeg er cadw crefydd yn fyw ac yn bur ; ond nid dyna yr oll a wnaethant. Yn wleidyddol buont yn wyr canol,—yn offerynau i ddwyn hen ysbryd y bendefigaeth i ddygymod â'r ysbryd newydd ddechreuai ymddangos ymysg gwerin gwahanol genhedloedd. A yr Esgob Creighton cyn belled a dweyd mai syniadau yr urddau cardod roddodd fôd i ryfel y Barwniaid yn Lloegr.[1] Rhoddasant le amlyced yn eu dysgeidiaeth i ryddid personol, gwnaethant ddyfned argraff ar y rhai a'i gwrandawent, fel na orffwysasant nes gwneud ymdrech deg i fyned i mewn i'w hetifeddiaeth, a mawr fu ffrwyth eu hymdrech. Gwneid i fyny y Friars o bedwar dosbarth—y Brodyr Duon, y Dominiciaid ; y Brodyr Llwydion, y Ffrancisciaid ; y Brodyr Gwynion, y Carmeliaid ; a Brodyr Awstin. Nid oedd yr urddau cardod yng Nghymru yn lluosog, ac nis gellid disgwyl hynny, pan gofier yr hyn a ystyriai yr urddau fel eu cenhadaeth neilltuol. Gosodid i fyny sefydliad Benedictaidd, fel rheol, yng nghymydogaeth castell, ceid y Cisterciaid fynychaf yng nghanol y wlad, ond yn y trefi—ac yn y rhannau isaf ohonynt—y ceid y brodyrdy—"ffreudur"—y beirdd.[2] Ychydig o drefi oedd yng Nghymru, ac ychydig mewn cymhariaeth oedd nifer y Brodyr Pregethu. Ymsefydlodd y Brodyr Duon ym Mangor yn Arfon, Rhuddlan, Aberhonddu, Hwlffordd, a Chaerdydd ; y Brodyr Llwydion yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Llanfaes ; y Brodyr Gwynion yn Ninbych ; a Brodyr Awstin yng Nghasnewydd, Sir Fynwy.

Daeth y Brodyr Cardod i Fangor yn y flwyddyn 1277 ;[3] a bu Edward I. yn gefn iddynt ; ond tybir nad oedd ganddynt gartref o'u heiddo eu hunain hyd y flwyddyn 1300, pryd y rhoddwyd iddynt ddarn o dir gan Anian, Esgob Bangor. Dywedir mai "acer" o dir roddwyd iddynt, ond nid arferid y gair y pryd hynny yn yr ystyr gyfyng roddir iddo y dyddiau hyn, ond golygai swm amhenodol o dir, ac mae rhesymau dros gredu i Anian gyflwyno iddynt lawn pedair acer o dir, a defnyddio y gair yn ei ystyr ddiweddar. Un o amcanion y sefydliad mynachaidd ym Mangor oedd "cyfrannu addysg i'r ieuenctid."

Yr oedd gan y Brodyr Duon sefydliad lled bwysig yn Rhuddlan. Fe chwaraeodd Rhuddlan ran bwysig yn hanes Cymru yn wleidyddol ac eglwysig. Yn Rhuddlan, yn y flwyddyn 1284, y gwnaed Deddf Cymru. Yn y flwyddyn 1281 ysgrifennai Edward I. lythyr yn awgrymu gwneud Rhuddlan yn gartref esgobaeth y dalaeth yn hytrach na Llanelwy.[4] Amlwg yw fod Rhuddlan yn lle eglwysig o gryn bwys yn y drydedd ganrif ar ddeg, ac yn wir cyn hynny, oblegid ymwelodd yr Archesgob Baldwin a Gerallt Gymro â'r lle

[1] *Historical Lectures and Addresses*, p. 110 ; Creighton

[2] *Gweithiau Dafydd ab Gwilym*, xi. td. 14 ; Cynddelw.

[3] *Notitia Monastica*, p. 705 ; Tanner.

Councils and Ecclesiastical Documents, vol. i., pp. 529. 530 ; Haddan and Stubbs.

yn ystod eu taith, ac wedi gwasanaeth ac arddeliad arno, aethant[1] o Ruddlan i eglwys gadeiriol Llanelwy. Ymsefydlodd y Domiciniaid yma cyn y flwyddyn 1268, oblegid yn y flwyddyn honno gwnaed Prior y sefydliad, Anian ii. (de Schonan) y Brawd Du o'r Nannau fel y'i gelwid, yn esgob Llanelwy.[2] Daeth un arall o Brioriaid Rhuddlan i sylw rai blynyddoedd yn ddiweddarach. Yn y flwyddyn 1284, anfonodd yr Archesgob Peckham lythyr at Edward I. yn galw ei sylw at y ddifrod wnaed i feddiannau a sefydliadau eglwysig yng Nghymru gan filwyr Seisnig yn ystod y rhyfel oedd newydd derfynu, ac yn erfyn arno yn rasol unioni y cam hwn. Rhoddodd y brenin ystyriaeth i'r gwyn hon, a gorchmynodd i'r archesgob wneud ymchwiliad pellach i'r mater. Apwyntiodd yr archesgob ddirprwyaeth i wneud y gwaith hwn—aelodau y ddirprwyaeth oedd Prior Rhuddlan, Warden Llanfaes, a Ralph de Brocton. Ni bu'r ddirprwyaeth yn ofer. Rhoddwyd iawn sylweddol i ddeon a chlwysgor Llanelwy, i esgobaeth Bangor, i fynachdy Ystrad Fflur, ac i Frodyr Duon Rhuddlan.[3] Hanes cyffelyb sydd i'r sefydliadau mynachaidd ereill sefydlwyd gan y Brodyr Cardod yn Ne a Gogledd Cymru. Cyfeiriwyd yn barod at ymdrechion yr urddau hyn i oleuo a moesoli y wlad.[4] A chadarnheir yr hyn a ysgrifennwyd gan dystiolaeth yr Archesgob Peckham. Nid llawer sydd gan yr archesgob i'w ddweyd ar hanes addysg yng Nghymru, mae'r holl awdurdodau y gellid yn rhesymol ddisgwyl wrthynt yn siomedig yn hyn.[5] Ceir ychydig oleu gan Peckham yn ei adroddiad o'i ymweliad â phedair esgobaeth Cymru ar ystad addysg yn y wlad, gwna gyfeiriadau anrhydeddus at ymdrechion y Brodyr Cardod ; hwy yn ol tystiolaeth yr archesgob oedd y bobl gadwent y tân sanctaidd i gynneu yr adeg hon yng Nghymru, a mynnai iddynt wneud yn fawr ohonynt ar gyfrif eu gwaith.[6] O'r ochr arall, dywed bethau celyd iawn am yr offeiriaid, gesyd allan y Cymry fel "trop sauvages," ac awgryma y priodoldeb o anfon bechgyn Cymru i Loegr i'w haddysgu am fod yr offeiriaid yn hollol anghymwys i gyflawni hyn o beth, am eu bod lawn mor anwybodus a'r bobl gyffredin.[7] Mae'r awgrymiadau hyn geir yn ysgrifeniadau Peckham, er yn ychydig, yn dra gwerthfawr. Gellir tynnu y casgliadau canlynol yn deg oddiwrthynt : Fod addysg yn Lloegr yn llawer mwy effeithiol nag yng Nghymru. Mai rhan o waith yr offeiriaid oedd gweithredu fel athrawon i'r plant, a'u bod yn hollol esgeulus o'u dyledswydd yn y peth hwn. Y gwnai yr urddau cardod yn y rhannau yr oeddynt wedi ymsefydlu ynddynt ymdrech i gyflenwi diffyg yr offeiriaid.

[1] *Giraldus' Itinerary through Wales*, p. 129 ; W. Ll. Williams.

[2] *The Diocese of St. Asaph*, p. 221 ; D. R. Thomas.

[3] *Rymer's Foedera*, i., 2, 642, 648, 650.

[4] Pennod iii.

[5] "There are references to education in Wales in Giraldus Cambrensis and in Peckham's *Register*, but both of them lay stress on the absence of education" ; A. G. Little.

[6] *Councils and Ecclesiastical Documents*, vol. i., p. 566 ; Haddan and Stubbs.

[7] *Councils and Ecclesiastical Documents*, vol. i., pp. 570—74 ; Haddan and Stubbs.

Teflir ychydig o oleuni ar ystad Cymru o fewn y cyfnod hwn gan yr *Elucidarium* a darnau ereill yng Nghymraeg o *Lyvyr Agkyr Llandewivrevi* a gasglwyd yn y flwyddyn 1346. Mae'r gwaith hwn yn fath o grynhodeb o ddiwinyddiaeth Cymru yn y Canol Oesau pan yr oedd Eglwys Rhufain yn oruchaf ynddi. Dyry syniad i ni am yr addysg gyfrennid gan yr eglwys yng Nghymru yn y Canol Oesau. Ceir ynddo nifer o draethodau byrion ar faterion fel y rhai a ganlyn :—*Rinwedeu gwarandaw Offeren ; Pwyll y Pader o dull Hu Sant ; Credo Saint Athanasius ; Py delw y dyly Dyn credu y Duw ; Am gadw Dyw Sul ; Y Drindawt yn un Duw.* Dengys y gwaith hwn pa fodd yr edrychid ar wahanol ddosbarthiadau cymdeithas Gymreig gan eglwys Rhufain a'i chynrychiolwyr yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn. Am y beirdd dywed :— "A'u holl egni, gwasanaethant y diafol ; am danynt hwy y dywedir —'Duw nid adwaenant,' 'yr Arglwydd a'u gwatwar hwynt.' A waradwyddant, a waradwyddir." Nid oedd y porthmyn chwaith mewn ffafr gan eglwys Rhufain a'i chynrychiolwyr. "Pa obaith sydd am y porthmyn ? Nid oes ond ychydig. Pa obaith sydd am y beirdd ? Nid oes obaith o gwbl." Pan yn darllen ymosodiadau y beirdd ar yr offeiriaid a'r urddau mynachaidd da fyddai darllen y gwaith hwn er tymheru ein barn, ac er ein cadw rhag cymeryd golwg unochrog. Ymosodwr llym ar y myneich oedd Sion Cent. Tybir gan rai i Sion fod yn fynach ei hunan unwaith, ond iddo adael mynachaeth a dod yn Lolard tua diwedd ei oes. Mae miniogrwydd ei awen pan yn disgrifio yr urddau mynachaidd yn tueddu i gadarnhau y golygiad hwn. Dywed fod eu cariad at eiddo a meddiannau erbyn ei ddyddiau ef yn fwy na'u cariad at rinwedd a'u cyd-ddynion. Awgrymiadol iawn ydyw y disgrifiad "cryfion ddiffodyddion ffydd." Dyma ei ddarlun o fyneich ei ddyddiau ef :—

Y meneich aml eu mwnai,
Muriau teg mawr yw eu tai ;
Breisgion ynt ar eu brasgig
Breisgion difeinyddion dig.
A'r brodyr pregethwyr gynt
A oeddynt heb dda iddynt . . . . .
Y maent hwy hoewbwy hybeirch
Yn dri llu yn meddu meirch.
Cryfion ynt yn eu crefydd,
Cryfion diffodyddion ffydd.

Y casgliad y rhaid dod iddo mewn perthynas i addysg yng Nghymru o fewn y cyfnod hwn ydyw fod addysg ysgol yn isel iawn, fel y gwelwyd oddiwrth dystiolaeth Peckham. Ond nis gellir anwybyddu y ffaith mai dyma, ar yr un pryd, oes aur llenyddiaeth Cymru. Cyfranogodd y wlad yn helaeth o'r bywyd newydd nodweddai'r cyfnod. Daeth ei bywyd i gyffyrddiad agos â bywyd yr Eidal drwy y Dadeni, ac i gysylltiad â bywyd Lloegr drwy waith ei milwyr yn ymuno â milwyr Lloegr yn rhyfeloedd Edward III. yn erbyn y wlad honno, a bu hyn yn eangiad i'w bywyd ac yn foddion addysg iddi.

PENNOD V.

O ADEG GWRTHRYFEL OWEN GLYNDWR HYD DDIWEDD Y BYMTHEGFED GANRIF.

NODWEDDID y cyfnod hwn gan raddau o anniddigrwydd ac anesmwythder. Bodolai teimlad distaw ar y cyntaf, ond daeth yn hyglyw yn ddiweddarach nad oedd pethau fel y dylent fod mewn eglwys na gwladwriaeth. Y teimlad hwn wedi ymgorffori oedd Lolardiaeth, a chryfhawyd y teimlad gan ddysgeidiaeth Wycliffe a Gwrthryfel y Bobl Gyffredin yn y flwyddyn 1381. Yr oedd Lolardiaeth yn fath o feirniadaeth ar yr Eglwys a'r Wladwriaeth. Gosodir allan yr offeiriad drwg-fucheddol a'r llywodraethwr anghyfiawn fel wedi colli eu hawl i warogaeth y Cristion. Yr oedd amryw Gymry amlwg yn gefnogwyr aiddgar i Lolardiaeth, ymysg ereill gellir enwi Walter Brute,[1] a Thomos ab Ieuan y bardd a garcharwyd yng Nghastell Cynffig oherwydd ei gydymdeimlad â syniadau y Lolardiaid.

Yn ystod y cyfnod daeth y bobl gyffredin—gwerin y wlad—i fwy o sylw ; ac nid anodd cyfrif am hyn. Yn y bedwaredd ganrif ar ddeg gwellhaodd sefyllfa meibion llafur yn fawr ; bu'r Marw Du yn elfen amlwg er dwyn hyn oddiamgylch, gwnaeth lawer er gwella sefyllfa gymdeithasol meibion llafur. Cyrhaeddodd y pla ofnadwy hwn yr Eidal yn y flwyddyn 1348, ac mewn byr amser ymdaenodd dros wledydd Ewrob, gan ddwyn marwolaeth gydag ef y ffordd yr âi. Tybir i oddeutu hanner meibion llafur y wlad hon gael eu hysgubo ymaith ganddo. Aeth y gweithwyr yn brin, daeth mwy o alw am danynt, gwellhaodd eu sefyllfa, daethant yn fwy annibynnol. Daeth y caeth yn rhydd oddiwrth ei feistr, yr oedd yn rhydd i fyned i'r fan a fynnai. Ceisiodd y meistri orfodi meibion llafur i weithio ar yr un telerau a chyn y Marw Du. Gwrthryfelodd y werin yn eu herbyn, a gorfuasant ; daeth iddynt ymwared o ormes y cyfnod maenoraidd. Daeth meibion llafur yn destynau cân y beirdd o fewn y cyfnod hwn. Terir y cyweirnod hwn gan Langland yn Lloegr a chan Iolo Goch yng Nghymru. Yn syniad Iolo Goch y llafurwr fyddai yr unig un allai roddi i fyny ei gyfrif yn llawen ac nid yn drist yn nydd y farn ; byddai ef yn llefaru yn "ddiledlaes" —yn ddifyngus—yn nydd yr ymweliad mawr. Am y llafurwr dywed :—

Yn mhen mynydd (lle bydd barn
I gyd). Olifer gadarn ;
Teg a fydd chwedl ddiledlaes
Llafurwr tramwywr maes . . . .

[1] *Worthies of Wales*, p. 8 ; Fuller.

Hyd y maes cred a bedydd,
A phawb yn cynnal y ffydd,
Llaw Dduw cun—goreu ungwr—
Llaw Fair dros bob llafurwr.

Awgrymir yn y cywydd na fyddai bywyd yn werth ei fyw heb y llafurwr.

Nid addas mynnu dioddef,
Nid bywyd, nid byd, heb ef ; . . . .
Ni cheir eithr ond ei weithred,
Aberth Crist i borthi cred ;
Na bywyd,—pam ei beiwn ?
Pab nag ymherawdwr heb hwn.

Yr oedd anniddigrwydd mawr yng Nghymru yn nechreu y cyfnod hwn oherwydd gormes a thrais arglwyddi Seisnig. Un o'r rhai ddioddefodd fwyaf oddiwrth eu rhaib oedd Owen Glyndwr. Aeth y cleddyf i'w enaid ef ei hun, ac yn y modd hwn cymhwyswyd ef i fod yn arweinydd y gwrthryfel yn eu herbyn. Profodd ei hunan yn filwr dewr ac yn arweinydd doeth. Edmygir ef yn fynych fel rhyfelwr, ac nid heb achos ; ond un ochr i'w gymeriad oedd hon. Yr oedd yn gymaint o wladweinydd ag oedd yn wr o ryfel, fel y dengys ei gynllun—cynllun na sylweddolwyd, mae'n wir—gyda golwg ar Gymru. Nid diwerth *ideal* er methu ei sylweddoli dros dro. Mae a wnelo hwn lawer â phethau goreu y byd. Ei nôd ef oedd cael Cymru yn rhydd, cael senedd o'i gwyr goreu, cael ei Heglwys o dan ofal archesgob yn Nhy Ddewi, a chael dwy Brifysgol, un yn Ne a'r llall yng Ngogledd Cymru. Gesyd allan fanylion ei gynllun mewn llythyr ysgrifennwyd ganddo o Bennal, yn y flwyddyn 1406, i Charles brenin Ffrainc. Credir i'r drychfeddwl o ffurfio dwy brifysgol i Gymru ymgynnyg i feddwl Owen Glyndwr pan drowyd allan yr efrydwyr Cymreig o Rydychen oherwydd y rhan a gymerasant yn y gwrthryfel yr oedd ef yn arweinydd iddo. Dywedir fod nifer fawr o efrydwyr o Gymru yn Rhydychen y pryd hyn, a'u bod yn hoff o gweryla ac yn llawn o ysbryd ymladd ; os felly cawsant gyfle rhagorol i ddatblygu y ddawn a roddwyd iddynt.[1] Enwir Howel Gethin, Morus Stove, o Goleg Exeter, a Dafydd Lygaid Brith fel rhai ddaethant o Rydychen i gynorthwyo Owen Glyndwr.[2] Ni chafodd Owen Glyndwr wneud fawr i sylweddoli ei gynllun mewn perthynas i gael dwy brifysgol i Gymru. Trosglwyddodd y syniad i'w genedl i'w weithio allan. Dywedir, ond nid yw yr awdurdod yn un uchel iawn,[3] i Harri'r VII. gymeryd cam yng nghyfeiriad sylweddoli'r cynllun hwn. Haerir, ar sail yr hyn ddywedir gan Dafydd Nicolas, bardd teulu Aberpergwm, i Harri'r VII. roddi

[1] *Rolls of Parliament*, iii. 547. *Adam of Usk, Chronicon* (1377—1404).

[2] *Original Letters*, i., 8 ; Henry Ellis.

[3] Iolo Morgannwg.

siarter prifygsol i Lyn Nedd. Yn ffafr hyn cyfeirir at awdl Lewys Morgannwg, lle y dywed :—

Universiti Nedd, llyna fawr son—Lloegr
Llugorn Ffrainc a'r Werddon ;
Ysgol hygyrch ysgolheigion,
I bob syw fel pe bae Seion,
Ac organau i'w gwyr gwynion
A mawr foliant amrafaelion
Rhithmetic, music, grymusion—safant
Rhetric, sufl a chanon.

Ceir awgrym i'r un perwyl yng nghywydd Ioan Ddu'r Bilwg, a anfonwyd ganddo i Abad Glyn Nedd, i ddymuno cael benthyg y Greal ganddo. Sonia am yr Abad fel un yn meddu y saith wybodaeth—y *trivium* a'r *quadrivium*—yn ei fynwes.

Y gwr a'r llyfr geirwir llwyd
O Lyn Nedd a lunieiddiwyd.
Adrawdd mewn deuair neu dri
Gymmendod Magamwndi.
Saith gwybod da cydnodwn
Mae y saith ym mynwes hwnn.
Gramer a ffyrfder y ffydd,
Grym deugain Gramadegydd
Ym mewn art y mae yn wr.
Mewn suful mae'n wassafwr
Mewn solff mae'n berwi'n bur
Mewn miwsig mwy na mesur.[1]

Teg yw dweyd, fodd bynnag, nad oes sôn am y fath sefydliad yng Nghofnodion Mynachlog Glyn Nedd. Distaw hefyd yw Clark croniclydd manylaf Morgannwg, yn ei waith llafurfawr sydd yn ymwneud â phynciau o'r fath.[2] Gallasai fod ym mryd Harri'r VII. neu ei ewythr Jasper ab Owen Tudur, Arglwydd Morgannwg, roddi prifysgol i Gymru yng Nglyn Nedd, ond anodd iawn ydyw credu y buasai Harri'r VIII. yn coledd y fath syniad ; oblegid ymddengys mai ei bolisi ef ynglŷn â Chymru oedd ei huno â Lloegr,—difodi, hyd y gellid, bob gwahaniaeth rhyngddynt. Credai y Tuduriaid nad oedd yn bosibl gwneud y ddwy wlad yn un ond drwy unffurfiaeth iaith, crefydd, arferion, a chyfreithiau. Y cam cyntaf i ddwyn hyn oddiamgylch oedd pasio'r Ddeddf Uniad yn 1536. Os mai dyna bolisi Harri'r VIII. gyda golwg ar Gymru—difodi pob gwahaniaeth rhyngddi â Lloegr—y peth olaf fuasai yn ei wneud fuasai sefydlu prifysgol Gymreig, oblegid nôd prifysgol ddylai fod rhoddi pob help i'r genedl i ddatblygu ei bywyd yn ei ffordd ei hun ; mewn gair, cryfhau'r nodweddion a'i gwahaniaetha oddiwrth genhedloedd ereill.

[1] *Iolo MSS.* td., 327.

[2] *Carta et alia munimenta . . . . de Glamorgan pertinent ;* G. T. Clark.

Er uched nôd Owen Glyndwr mewn perthynas i addysg ei wlad, gwnaeth ei wrthryfel beth niwed i'r addysg honno. Fel y cyfeiriwyd droion, isel iawn oedd addysg yn y Canol Oesau yng Nghymru; ac i wneud i fyny i ryw raddau am y diffyg hwn, âi nifer fawr o Gymru i Rydychen am eu haddysg. Ond wedi y gwrthryfel, pasiwyd nifer o gyfreithiau gorthrymus gan y Lancastriaid roddodd derfyn ar hyn ac ar lawer o fanteision ereill fwynheid gan y Cymry. Nid oedd y cyfreithiau hyn, fodd bynnag, lawn cyn waethed ag yr ymddanghosent.[1] Nid bob amser y rhoddid hwy mewn gweithrediad. Y ddau wnaeth fwyaf yn erbyn y Cymry oedd Harri'r IV. a Harri'r VI. Dangosodd Harri'r V. ffordd fwy rhagorol o ymwneud â'r gwrthryfelwyr. Un o ganlyniadau gwrthryfel Owen Glyndwr oedd Rhyfeloedd y Rhosynau. Pan ymrannodd arglwyddi Lloegr yn ddwy blaid, ceid cynrychiolwyr y naill blaid a'r llall yng Nghymru. Yng ngororau a chanolbarth Cymru ceid teulu Mortimer—cefnogwyr y Rhosyn Coch. Yng ngorllewin Cymru o Benfro i Fôn ceid cefnogwyr y Rhosyn Gwyn. Am beth amser bu i deulu York fwy o ddilynwyr yng Nghymru na theulu Lancaster, ond achos y diweddaf a orfyddodd. Cynhyrfus iawn oedd y cyfnod hwn yng Nghymru, ac yn y fath gyfnod nis gellid disgwyl i addysg ffynnu a mynd rhagddi, ac nis gwnaeth. Oes o annhrefn ac aflywodraeth oedd y rhan ddiweddaf o'r cyfnod gymerir i mewn yn y bennod hon. Ceid heidiau yma ac acw o ladron yn byw ar ysbeilio, rhuthrent o'u llochesau gan gymeryd beth bynnag ddeuai yn eu ffordd. Mae gweithiau beirdd y cyfnod yn llawn o gyfeiriadau at y "gwylliaid." Cymerer ond un—Hywel Dafydd—fel cynrychiolydd o'r gweddill:

Pe bai colli pob *gwilliad*
Pa wyr a ludd cwympo'r wlad?

Ni bu'r mynydd-dy heb dan
A haid o *williaid* allan.

Ni chaiff *diriaid triniaid* trwch
Fan rhydd ar fin yr heddwch.

Efo'n gall er ofn *gwilliaid.*

I geisiaw *gwilliaid* a gwsg allan.

Ysgwieriaid *gwilliaid* gynt,
Asglodion ysgol ydynt.

Yr ysgolion mwyaf nodweddiadol o'r cyfnod hwn yn Lloegr oedd y *Chantry Schools.* Yr oedd y rhai hyn dan ofal offeiriaid.

[1] "It is quite clear that Parliament when it passed them (the Lancastrian Coercion Acts) was acting ultra vires, Wales being outside its sphere of influence, and it is more than probable that they suffered the usual fate of such measures. They bear witness to the panic of the English Parliament rather than to the hardships of the Welsh in the 15th Century."—*Y Cymmrodor*, 1902, p. 171; T. Stanley Roberts.

Gellir symio i fyny eu hanes mewn ychydig eiriau. Gadewir swm bychan o arian i offeiriad ar yr amod ei fod ef i weddio dros enaid ei gymwynaswr, ei deulu, a'i gyfeillion. Yn ddiweddarach yn hanes yr ysgolion hyn, cysylltid amod arall â'r arian adewid, disgwylid i'r offeiriaid ofalu am addysgu nifer o blant tlodion. Daeth yr ysgolion hyn yn lluosog iawn yn Lloegr o fewn y cyfnod hwn.[1] Yr oedd *chantries*, fel rheol, ynglŷn â'r rhan fwyaf o eglwysi y wlad.[2] Ond ychydig iawn oedd nifer y rhai hyn yng Nghymru. Yn ei lyfr ar *The English Schools of the Reformation*, dyry Mr. Leach restr o'r ysgolion hyn yn seiliedig ar y *Chantry Certificates* yn y *Record Office*.[3] Yn y rhestr, ni cheir ond ychydig iawn o gyfeiriadau at Gymru, Ty Ddewi (1363), Brecon (1283),[4] Croesoswallt (1406). Yr oedd ysgol Ramadegol yn Abergwili, a sonir am ysgol ddarllen ym Montgomeri.[5] Awgryma Mr. Leach i'r *Collegiate Churches* yng Nghymru wneud peth gwaith mewn ffordd o addysgu y wlad, ond amheuir cywirdeb y gosodiad hwn yn fawr gan un sydd wedi gwneud y *Collegiate Churches* yn faes neilltuol ei astudiaeth,—A. N. Palmer.[6]

Fel yn y cyfnodau blaenorol yn y Canol Oesau nis gallasai Cymru ymffrostio fawr yn nifer ei hysgolion, nac yn eu heffeithiolrwydd. Ond er pallu mewn ysgolion ni adawyd Cymru yn hollol dywyll, daeth iddi oleuni o gyfeiriadau ereill. Ceir prawf o hyn yn hanes Eisteddfod Caerfyrddin yn 1451 ac yn y cwestiynau drafodid ynddi. Ceid yn ystod y cyfnod nifer o ddynion dysgedig. Yr oedd Guttun Owain yn wr o gyraeddiadau uchel, fel hanesydd, achyddwr, a bardd. Gwŷr dysgedig oedd Llawdden a Hywel Swrdwal. Honnir i'r diweddaf ysgrifennu hanes Tywysogaeth Cymru yn Lladin.[7] Gellir dweyd yr un peth am Ieuan Swrdwal yntau. Derbyniodd ei addysg yn Rhydychen, a bu farw yno yn ddyn ieuanc. Credir ei fod yn athro yno, oblegid cyfeiria Hywel Dafydd ato yn ei farwnad iddo fel athro ac ysgolhaig. Wele rai llinellau o'r farwnad :—

Gair a'm hoeres, grym hiraeth,
Gloes drwy fy nwyglust yr aeth . . . . .
Marw Ieuan aeth fy mron i
Mor oer a thrum Eryri . . . .
Aeth y benceirddiaeth i'r coed,
Wedi'r athro ar drithroed . . . .
Diwreiddiwyd ymadroddion,
Y dwned aeth dan y don.

[1] *English Schools of the Reformation*, p. 70 ; A. F. Leach.

[2] *The English Grammar Schools to* 1660, p. 12 ; Foster Watson. *Chantry Schools*, *Cyclopædia of Education*, vol. i., pp. 567—569 ; A. F. Leach.

[3] *English Schools of the Reformation*, pp. 311—318 ; A. F. Leach.

[4] *Lord Brougham's Commission of Inquiry concerning Charities* (1818—37).

[5] *The English Grammar Schools to* 1660, p. 137. Foster Watson.

[6] "My impression is that the great collegiate churches of Wales did nothing, or next to nothing, for educational purposes, and were in no sense educational centres. From this general statement must be excepted the Cathedral Church of St. Asaph."

[7] *Gwaith Barddonol Howel Swrdwal a'i Fab Ieuan*, td. vii. ; J. C. Morrice.

Caewyd organ rhianedd,
Caewyd dirmygwyd tai'r medd,
Cog ym Mrycheiniog ni chan,
Na chyw mwyalch am Ieuan . . . . .
Dig wyf am dewi gofeg
Ein pen yn Rhydychen deg.

Mae'r awdurdodau er deall y cyfnod hwn yn brinion. Y rhai pwysicaf ydyw cofnodion y *Record Office*, y *Ministers' Accounts*, y *Land Revenue Records*, y *Chantry Certificates ;* Gweithiau Beirdd y bymthegfed ganrif, Rhys Goch Eryri, Dafydd ab Edmwnd, Sion Cent, ac yn neilltuol, i amcan yr hanesydd, Hywel Dafydd a Lewis Glyn Cothi. O'u defnyddio, gyda gofal, ceir peth help i ddeall y cyfnod yn *Hanes Teulu Gwydir*, ac ym *Mywyd Rhys ab Thomas* fel y'i ceir yn y *Cambrian Register.*

PENNOD VI.

TREM AR ADDYSG YNG NGHYMRU O DDIWEDD Y CANOL OESOEDD HYD Y DYDDIAU HYN.

YMDRECH i adeiladu ei chyfundrefn addysg ac i'w pherffeithio ydyw'r llinell amlycaf yn ystod yr hanner can mlynedd diweddaf yn hanes Cymru. Dyma'r nôd osododd o'i blaen, ac ymestynodd tuag ato nes ei gyrraedd. Deced oedd ei nôd a llwyred ei hymroddiad i'r amcan hwn fel y daeth yn wrthrych sylw ac edmygedd cenhedloedd ereill. Cyfeirir ati fel cynllun i'w ddilyn, a sonir am "ramant addysg Cymru." Yn y mater hwn cynhyrfwyd pob dosbarth, daeth gwlad gyfan i'r ymdrech; daeth ton o frwdfrydedd, yr oedd y bobl gyffredin yn llawn awydd am wybod, ac yn barod i wneud cryn aberth er sicrhau hyn. Tra yn ymfalchio, fodd bynnag, yn yr ymdrech hon am addysg uwch mewn blynyddoedd diweddar, rhaid cofio mai nid peth newydd yn hanes Cymru yw hyn, ond ffurf uchaf a pherffeithiaf datblygiad hir. Ychydig, fel y gwelwyd, o ysgolion sefydlwyd yng Nghymru hyd adeg y Tuduriaid. Ar eu dyfod hwy i orsedd Lloegr torrodd gwawr ar hanes addysg yng Nghymru. Gwnaed darpariadau ar gyfer bechgyn Cymru yng Ngholeg St. Ioan, Caergrawnt, yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, ac yn ysgol Westminster. Sefydlwyd ysgolion yn Abergafenni (1543), ysgol y Friars ym Mangor (1557), Rhuthyn (1595), Brecon (1531), Caerfyrddin (1576), Presteign (1565), Pontfaen, yn ystod teyrnasiad Elizabeth.

Ymdrechion yng nghyfeiriad cyfundrefn o addysg elfennol. Wrth astudio hanes addysg yng Nghymru yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg, dygir ni wyneb yn wyneb â dwy ffaith ymddengys yn anghyson a'u gilydd; ar y naill law, ac ystyried deneued y boblogaeth, ceir nifer dda o ysgolion; ar y llaw arall, gwelir fod gwerin Cymru yn hynod o ddiwybod, ac yr oedd sefyllfa grefyddol a moesol y wlad yn hynod o isel. Rhoddwyd i Gymru yn y cyfnod hwn nifer o gymwynaswyr yn Wroth, Erbury, Walter Caradoc, Vavasor Powell, Ficer Pritchard, a Morgan Llwyd o Wynedd. Yn ol y gwyr hyn, daeth Thomas Gouge ac ymroddodd i'r gwaith o oleuo gwerin Cymru, a derbyniodd lawer o gynorthwy gan Dr. Tillotson, ar y pryd Deon, wedi hynny Archesgob Caergaint, Dr. Stillingfleet, Dr. Patrick, Richard Baxter, ac ereill o gyffelyb feddwl ac ysbryd.[1]

[1] *Wales*, pp. 255—257; Sir Thomas Philipps.

Ffurfiwyd ganddynt gymdeithas er addysgu plant tlodion Cymru, ac er lledaenu llyfrau da yn eu mysg. Parhaodd Gouge yn y gwaith rhagorol hwn hyd ei farw yn y flwyddyn 1681: teithiai Gymru o ben bwy gilydd, treuliodd ac ymdreuliodd yn ei waith, a gadawodd ddwy ran o dair o'i eiddo i hyrwyddo y gwaith wedi ei fyned ef ymaith. Bu yn foddion i sefydlu un-ar-ddeg-a-deugain o ysgolion ym mhrif drefi Cymru, a mynychid hwy gan dros fil o blant.[1] Bu yn gymwynaswr i'w genedl yng nghyfnod ei hadfyd, a dylai ei goffadwriaeth fod yn glodfawr iawn yn ein mysg. Parchwn y dyn, nis gallwn lai, ond condemniwn ei gynllun. Ei drefn oedd addysgu y wlad drwy'r Saesneg, a methodd yn yr ymdrech er rhagored ei ysbryd, ac er uched ei amcanion. Parhawyd ei ymdrechion i raddau mawr gan y *Gymdeithas er Lledaenu Gwybodaeth Gristionogol.* Yn olynydd i Gouge yn y gwaith o oleuo Cymru, codwyd Syr John Philipps, o Gastell Picton. Disgynodd mantell a deuparth o ysbryd ei ragflaenorydd arno. Cynrychiola Syr John Philipps yr ymdrech wnaed o fewn yr Eglwys Sefydledig yn y blynyddoedd ragflaena y Diwygiad Methodistaidd. Rhwng y flwyddyn 1698 a 1736 sefydlwyd gan Syr John Philipps a'r rhai lafurient gydag ef, gant a saith ar hugain o ysgolion elusenol yng Nghymru. Wedi marw Syr John Philipps yr un wnaeth fwyaf dros addysg Cymru oedd Gruffydd Jones o Landdowror. Wrth fyned i mewn ac allan ymysg ei bobl gwelodd anwybodaeth y werin, a rhoddodd hyn iddo "fawr ofal calon." Wedi adnabod y drwg, dechreuodd feddwl am y ffordd i'w symud. Sefydlodd nifer fawr o ysgolion, a math o goleg athrawon yn Llanddowror i baratoi athrawon ar eu cyfer. Mae bron yn anhygoel gymaint wnaeth y gwr rhagorol hwn dros addysg Cymru. Mae ysgolion Gruffydd Jones yn dra phwysig o safle'r addysgydd. Gwelodd ef mai'r ffordd oreu i ddysgu Saesneg i'r Cymry oedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Credai yn gryf yn y Gymraeg fel offeryn i ddatblygu meddwl y genedl. "Os cymerwch yr iaith Gymraeg oddiar y werin bobl," meddai, "ni waeth i chwi gymeryd y Sacrament o Fedydd hefyd, oherwydd efe fyddai yr unig arwydd eu bod yn galw ei hunain yn Gristionogion." Carodd Gruffydd Jones Gymru yn ei fywyd, nid anghofiodd hi yn ei farwolaeth; gadawodd ei eiddo dros £7,000, er hyrwyddo y sefydliadau gychwynwyd ganddo. Y gwr barhaodd ac a berffeithiodd y gwaith gychwynwyd ganddo ef oedd Thomas Charles o'r Bala. Ymdaflodd i'r gwaith â'i holl egni. Ei brif anhawster oedd prinder athrawon, ond ni chymerodd ei ddigaloni gan hyn. Sefydlodd ysgol er paratoi athrawon, ac er sicrhau iddynt brofiad o'r gwaith oedd yn eu haros. Drwyddo ef cafodd Gymru Ysgol Sabbothol, a bu yn un o'r offerynau i'r byd gael Beibl. Yn ol yr ymdrechion hyn, daeth ysgolion preifat dechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr Ysgolion Brytanaidd a Chenedlaethol, ac yn ddiweddarach Ysgolion y Bwrdd. Dan arweiniad yr Esgob Thirlwall, sefydlwyd colegau i baratoi athrawon i ysgolion eglwysig yng Nghaerfyrddin a Chaernarfon, y cyntaf yn y flwyddyn 1846, a'r olaf dair blynedd yn ddi-

[1] *Life and Times of Griffith Jones of Llanddowror*, p. 76; D. Jones.

weddarach. Yn y flwyddyn 1856, mewn cydweithrediad â Chymdeithas yr Ysgolion Brytanaidd a Thramor, gwnaeth Syr Huw Owen, y Parch. John Phillips, ac ereill, ymdrech i gychwyn sefydliad cyffelyb yng Ngogledd Cymru. Yn y flwyddyn 1862, gwelwyd ffrwyth yr ymdrech hon yn y Coleg Athrawol sefydlwyd ym Mangor.

Yr Ysgolion Canol. Dywedwyd gyda llawer o briodoldeb mai Edward Richard o Ystrad Meurig oedd seren fore yr ymdrech am addysg ganolraddol yng Nghymru; y gwr, ac yntau yn athro, aeth yn ol i'r ysgol am ddwy flynedd er ymgymhwyso yn llwyrach i'w waith. Yn Ystrad Meurig ceir cynllun o'r ysgol ganol, ac o'r athrawon y rhaid i Gymru wrthynt. Gwnai Edward Richard ei waith yn drwyadl fel athro, a thrwy ganu ei fugeilgerddi cynyrchai awydd yn ei ddisgyblion i astudio hanes a llenyddiaeth eu gwlad eu hunain, ochr yn ochr â hanes a llenyddiaeth gwledydd ereill. Gwr oedd a'i nôd yn uchel, edrychai ymlaen at ddyfodol addysg ei wlad, a theimlai fod ganddo ef a'i gyffelyb rywbeth i'w wneud er penderfynu cymeriad y dyfodol. Dyry yn ei ewyllys syniad i ni am y nôd yr ymgyrhaeddai ato.

"At fy Nghymunweinyddion.—Fy ewyllys yw llesoli yr oes bresenol yn gystal a'r cenedlaethau dyfodol. Gadawn i gariad orthrechu ar hunanlesad. Gwerther fy meddiannau presenol yn y dull mwyaf manteisiol, a phriodoler yr arian i brynu llyfrau i'r llyfrgell. Rhoddwch fy nillad a'r bwydydd a fyddant yn y tŷ i'r *tlodion*. Gwneled hyn gyda phwyll.

"At fy olafiaid yn yr Ysgol. Nid yw yr ysgol i fod yn segurswydd; rhaid i chwi weini yn gyson, ac ennill eich bara drwy lafur a diwydrwydd. Hyn yw fy ewyllys; gobeithiaf y caiff ei hufuddhau. Gan hynny, cyflawnwch eich swydd yn ffyddlawn, gan wybod eich bod yn atebol am eich ymddygiad, nid yn unig i'r ymddiriedolwyr, ond hefyd i'r Hollalluog. Cadwer yr ysgol a'r llyfrgell mewn cyflwr da, a gwellhaer hwynt hyd eithaf eich gallu. —Edward Richard."[1]

Gafaelodd y wlad yn y cwestiwn o addysg ganolraddol o ddifrif. Taflodd yr Aelodau Seneddol Cymreig a charedigion addysg o bob plaid eu dylanwad o blaid mesur wnai i fyny yr hyn ystyrid yn ddiffyg yn ein cyfundrefn addysg. Gwir y gwahaniaethent oddiwrth eu gilydd mewn perthynas i fanylion y mesur, ond yr un oedd y nôd yr ymgyrhaeddent ato; ac yn y flwyddyn 1889 daeth barn i fuddugoliaeth. Pasiwyd Deddf Addysg Ganolraddol, ac yn ol ei hadrannau rhoddwyd gallu i'r Cynghorau Sir i godi dimai yn y bunt o dreth at addysg ganolraddol, i aildrefnu gwaddoliadau hen ysgolion, ac i godi ysgolion newydd pan fyddai galw am hynny. Yn ol y Ddeddf gofynnid i gyd-bwyllgorau y siroedd wneud "Bwrdd Canol" i arolygu ac arholi'r ysgolion, ac addawodd y Llywodraeth £500 yn flynyddol at y treuliau. Yn y flwyddyn 1896 dygwyd y cynllun er sefydlu'r "Bwrdd Canol" gerbron y Senedd a phasiwyd ef. Pan y bydd gwlad o ddifrif gwneir gwaith mawr mewn byr amser.

[1] *Gwaith Prydyddawl Edward Richard,* tdd. 5 6.

Y Colegau Cenedlaethol. Yn y flwyddyn 1880, anfonodd Arglwydd Spencer at Arglwydd Aberdar i'w hysbysu ei fod ef a'r Is-Iarll Emlyn, Prebendary Robinson, Mr. Henry Richard, Mr. (Syr) John Rhys a Mr. Lewis Williams wedi eu hapwyntio yn bwyllgor i edrych i mewn i ansawdd addysg uwchraddol yng Nghymru. Anodd peidio cymharu y personau wnaent i fyny'r Pwyllgor, ac aelodau Dirprwyaeth 1846. Gwneid i fyny Ddirprwyaeth 1846 o dri Sais na wyddent odid ddim am Gymru, yr oedd mwyafrif Pwyllgor 1880 yn Gymry, yr oeddynt oll yn ddynion a chan y wlad lwyr ymddiried ynddynt,—yn eu gallu, eu barn, eu tegwch, eu cymhwysder i wneud y gwaith ymddiriedwyd iddynt gan y Llywodraeth. Aethant at eu gwaith yn ddioedi, ac mewn ychydig llai na blwyddyn cyhoeddasant eu hadroddiad. Apwyntiwyd hwy yn Awst 25ain, 1880, gorffenasant eu gwaith ac arwyddasant eu Hadroddiad, Awst 18fed, 1881. Yn yr Adroddiad hwn ceir sylfeini addysg uwchraddol Cymru, a dangosir y ffordd i berffeithio ein Cyfundrefn Addysg. Yr oedd y Pwyllgor yn llwyr argyhoeddedig mai mantais ddirfawr i Gymru fyddai cael Colegau Prifysgol, cyffelyb i'r rhai sefydlwyd ychydig yn flaenorol yn rhai o drefi mawrion Lloegr, ac y byddent yn foddion uniongyrchol i hyrwyddo addysg uwchraddol yn y wlad, rhoddent bwys ar eu bod yn cael eu cyfaddasu i amgylchiadau y wlad, a bod lle amlwg yn cael ei roddi ynddynt i'r gwyddorau ac ieithoedd diweddar; eu bod yn anenwadol, ac yn agored i feibion a merched. Wrth sôn am Brifysgol, nid oedd eu llais mor glir, addefent fod anhawsderau ar y ffordd, ond yr oeddynt o'r farn y byddai i Brifysgol ddylanwadu yn dda ar addysg uwchraddol yng Nghymru. Awgryment eangu siarter Coleg Dewi Sant fel ag i gymeryd i mewn Goleg Prifysgol Cymru, ac unrhyw Goleg neu Golegau ereill fabwysiedir gan Fwrdd Llywodraethol;[1] cariwyd allan awgrymiadau y Pwyllgor mewn perthynas i'r Colegau Prifysgol mor ddiymdroi ag yr oedd modd. Yn 1883 cychwynwyd Coleg Prifysgol Deheudir Cymru yng Nghaerdydd, ac yn 1884 agorwyd Coleg Prifysgol Gogledd Cymru ym Mangor, a rhoddwyd £4,000 gan y Llywodraeth at y naill a'r llall, a chynygiwyd £2,500 yn y flwyddyn am bum mlynedd i Aberystwyth, ar yr amod fod awdurdodau y Coleg yn casglu £1,000 yn flynyddol i gyfarfod hyn. Ni fu y trefniad hwn mewn grym ond am un flwyddyn. Ni fynnai y wlad roddi i fyny y Coleg yn Aberystwyth; deallodd y Llywodraeth hyn, ac yn 1885 penderfynwyd rhoddi iddo £4,000 yn y flwyddyn, yr un modd ac i'r Colegau ereill.

Yr ymdrech am Brifysgol. Cyfeiriwyd yn barod at gynllun Owen Glyndwr mewn perthynas i'r ddwy Brifysgol i Gymru.[2] Ni chafodd ef ond trosglwyddo'r syniad; i ereill yr ymddiriedwyd y gwaith o'i gario allan. Er ymdrech y Tuduriaid i ddifodi pob gwahaniaeth rhwng Cymru a Lloegr, er ceisio nychu ohonynt y teimlad cenedlaethol, ni lwyddasant. Yn yr ail ganrif ar bymtheg,

[1] *Adroddiad y Pwyllgor*, i., tdd. l.—lxx. *The Welsh People*, tdd. 492—3. *Y Llenor*, t.d. 11, 12, Hyd. 1896. *University of Wales*, pp. 112—117; Davies and Jones.

[2] Pennod iv.

adgyfodwyd y cri am Brifysgol i Gymru. Rhoddwyd tafod i'r dymuniad hwn gan John Lewis o Glasgrug yng Ngheredigion, a Dr. John Ellis rheithor Dolgelley, a sylfaenydd yr Ysgol Ramadegol yn y dref honno. Awgrymwyd iddynt gan Richard Baxter y priodoldeb o godi y cwestiwn. Er cymaint yr aiddgarwch ddanghoswyd gan y gwyr da hyn, ni ddaeth y Brifysgol Gymreig yn yr ail ganrif ar bymtheg, ond dangosasant y ffordd oedd yn arwain iddi. Wrth lawenhau yn y Brifysgol gafwyd, nac anghofier ymdrechion John Lewis, Dr. Ellis, a Richard Baxter.

Nid dibwys y ddeunawfed ganrif yn hanes datblygiad addysg Cymru. Dydd y pethau bychain ydoedd. Dydd hau'r had dyfodd yn gnwd toreithiog yn y ganrif ddilynol. Gwelir yn y ganrif hon ddechreu'r cyffrawd er perffeithio ein hysgolion elfennol, ein hysgolion canol, a'n hysgolion uwchraddol. O ddiwygiad crefyddol y ddeunawfed ganrif y tarddodd y ffurf uchaf ar addysg elfennol Cymru. Yn ol y diwygiad daeth awydd am roi corff y bobl ar ben y ffordd i ddarllen y Beibl, ac i dderbyn addysg grefyddol. Crefydd yw sylfaen bywyd Cymru, a thrwy ddeffro ei chrefydd y crewyd awydd yn ei phobl am wybod. Ni sonir am Brifysgol, fel yn y ganrif a'i blaenorodd a'r un a'i dilynodd. Ond credwn y gwelent y nôd yn y pellder, ac y cyrchent tuag ato, yr oedd y sylwedd ganddynt. Teimlwyd awydd am addysg gymwys i weinidogion yr Efengyl, a chymerwyd camrau ymlaen er sicrhau hyn. Sefydlwyd ysgolion fel Ty Ddewi, Hwlffordd, Aberteifi, Llanbedr, a Chaerfyrddin i gyflenwi anghenion yr Eglwys Sefydledig. Ac ni bu'r Ymneilltuwyr hwythau yn fyr o wneud eu rhan, drwy Ysgolion Brynllywarch, Llwynllwyd, Castell Hywel, Neuadd-lwyd, Ffrwd-y-fal a'u tebyg. Yng Nghofiant Eliezer Williams, athro Ysgol Llanbedr, ceir syniad am yr hyn ddysgid yn yr ysgolion hyn. Ysgrifennwyd y cofiant gan ei fab. Dyma ddywed am ddull ei dad o gyfrannu addysg :—

"Ei gynllun oedd arwain ymgeiswyr am urddau, drwy gwrs o efrydiaeth yn yr awduron clasurol am y pum mlynedd cyntaf, a hefyd drwy gwrs o lenyddiaeth gyffredinol, ac yna addysgai hwynt mewn duwinyddiaeth . . . yr hyn roddai waith iddynt am y ddwy neu dair blynedd olaf y byddent o dan ei ofal. Yr oedd yn awyddus iawn am iddynt nid yn unig ysgrifennu eu meddwl yn rhwydd, ond hefyd roddi rhyw gyfran o'u hamser i areithyddiaeth, ac i berffeithio eu hunain mewn llefaru yn chwaethus ac effeithiol yn eu hiaith enedigol."

O'r ysgolion hyn yn ddiweddarach y tyfodd y Colegau enwadol, a bu iddynt ran bwysig mewn cadw o flaen meddwl y wlad werth addysg uwchraddol.[1] Mawr yw dyled Cymru i'r Colegau enwadol, ac i'r gwyr fu yn arweinwyr iddynt. Dwg hyn ni i gyfnod ymdrech y bedwaredd ganrif ar bymtheg am Brifysgol. Cychwynnodd yr ymdrech hon tua chanol y ganrif. Perthyn yr anrhydedd o gychwyn i nifer o glerigwyr gwladgarol yn Sir York. Arferai y dynion hyn gyfarfod ar Ddydd Gwyl Dewi i drafod cwestiynau Cymreig, ac i ystyried cynlluniau er hyrwyddo lles eu gwlad.

[1] *The Welsh People*, pp. 488—89; Rhys and Jones.

Yn y flwyddyn 1852 gwnaed datganiad ganddynt ar y cwestiwn o Brifysgol i Gymru, ac anfonasant ddeiseb i'r Senedd i ddiolch am yr hyn a wnaed i Goleg Llanbedr, ac i ddeisyf arnynt gymeryd y cwestiwn o Brifysgol i Gymru mewn llaw, a datganent na wnai dim llai na hynny y tro. Ar eu hol hwy cymerodd yr Eisteddfod a Chymdeithas y Cymmrodorion, dan arweiniad Mr. (Syr) Huw Owen, y mater mewn llaw. Gwnaed yr ymdrech olaf dan arweiniad Arglwydd Aberdar, a bu hon yn llwyddiannus. I gyrraedd y nôd hwn rhoddwyd i ni arweinwyr na chafodd gwlad erioed eu rhagorach,—dynion o argyhoeddiadau dyfnion, a'u cariad at les y cyhoedd yn ddiamheuol. Dyna'r math o ddynion oedd ar flaen y gâd ym mrwydr Addysg Cymru. Tua chanol y ganrif ddiweddaf yr oedd Addysg Cymru yn un o'r rhai pellaf yn ol ym Mhrydain Fawr, erbyn diwedd y ganrif yr oedd ei chyfundrefn y berffeithiaf o ran peirianwaith yn yr holl wlad. Nid yw'n berffaith, oblegid tyfu y mae. Mae anghenion newydd yn codi yn barhaus, a rhaid i gyfundrefn addysg unrhyw wlad, i fod yn effeithiol, ymgyfaddasu yn barhaus i'r amgylchiadau y ca ei hunan ynddynt.

"Ar y Mur."